On'd tirion ydyw 'r arfau?

O'th nawdd y daw y doniau hyn
I'm canlyn byth yn hylwydd;
A minnau a breswyliaf byth,
A'm nyth yn nhŷ yr Arglwydd.
(3.) E. P.

SALM 23. M. N. 11. Mallwyd.

Hyder ar ras Duw,

FY Mugail yw'r Arglwydd, ni bydd arnaf byth
Nac eisiau, na phrinder; caf lawnder di lyth,
Gwna ef i mi orwedd mewn gwelltog borfeydd;
Gerllaw dyfroedd tawel y'm tywys bob dydd.

Fe ddychwel fy enaid, fe'm harwain ar hyd
Hardd lwybrau cyfiawnder tra b'wyf yn y byd:
Er mwyn ei wir enw, Ior enwog, y gwna;
Can's mae fy Nuw yn ffyddlon yn dirion a da.

Dim niwed nid ofnwn, pe rhodiwn ar hyd
Glyn dwfn cysgod angau, ni laesai fy mryd;
Can's gyda mi 'r ydwyt a'th wialen a'th ffòn,
Y rhai a'm cysurant, a'm cadwant yn llon.

Daioni, trugaredd, dilynant fi 'n glau
Holl ddyddiau fy mywyd, gan hyfryd barhau:
Yn nhŷ y Jehofah preswyliaf fi byth,
Mewn hedd a chadernid, heb newid fy nyth.
J. H.

SALM 27. M. C. Bodwnog.

Hyder ffydd a dewislad y duwiol.

YR Arglwydd yw fy ngoleu' gyd,
A'm hiechyd; rhag pwy 'r ofnaf;
Yr Arglwydd yw nerth f' oes; am hyn,
Rhag pwy doi dychryn arnaf?

[Ni ddoi ofn ar fy nghalon gu,
Pe cyrchai llu i'm herbyn:
Pe codai câd yn y modd hwn,
Mi ni wanffyddiwn ronyn.]

Un arch a archais ar Dduw NAF,
A hyny a archaf etto:
Cael dyfod i dŷ 'r Arglwydd glân,
A bod a'm trigfan ynddo.

I gael ymweled â'i deml deg,
A hyfryd osteg ynddi,
Holl ddyddiau f' einioes: sef wyf gaeth
O fawr hiraeth am dani.

RHAN II. Sabbath.

Fel hyn mae 'nghalon o'm mewn i,
Yn holi ac yn ateb:
"Ceisiwch fy wyneb ar bob tro;"
"Fy Nuw, 'r wy'n ceisio d' wyneb."

Na chudd dy wyneb rhag dy was,
Fy mhorth a'm hurddas ydwyd,
Na âd, na wrthod fi, tra 'n fyw,
Tydi yw Duw fy iechyd.

Duw, dysg i mi dy ffordd yn rhwydd,
O herwydd fy ngelynion;
Ac arwain fi, o'th nawddol rad,
Yn wastad ar yr union.

[Disgwyl di wrth yr Arglwydd da,
Ac ymgysura ynddo;
Efe a nertha 'th galon di
Am hyny dysgwyl wrtho.] E. P.

SALM 31. M. C. Clynog.

Diolchgar ymddiried yn Nuw.

MI ymddiriedais ynot, Ner,
Fel na'm gw'radwydder bythoedd:
Duw, o'th gyfiawnder, gwared fi,
A chlyw fy nghri hyd nefoedd.

Gogwydd dy glust ataf ar frys,
O'th nefol lŷs i waered;
A bydd im' yn graig gadarn siwr,
Yn dŷ a thŵr i'm gwared.

Sef fy nghraig wyt, a'm castell cry',
Wyf finnau hyf o'th fawredd;
Er mwyn dy enw tywys fi,
Ac arwain i drugaredd.

A thyn fyfi o'r rhwyd i'r làn,
A roisan' er fy maglu;
Can's fy holl nerth sydd ynot ti;
Da galli fy ngwaredu.

RHAN. II. Ann's.

Dodaf fy yspryd yn dy law,
Ac âf gerllaw i orwedd;
Da y gwaredaist fi yn fyw,
O Arglwydd Dduw 'r gwirionedd.

Mi ymhyfrydaf ynot ti;
Canfuost fi mewn amser,
Ac adnabuost wrth fy rhaid,
Fy enaid mewn cyfyngder.

O mor fawr yw dy rad di drai
A roist i'r rhai a'th ofnant!
Cai o flaen meibion dynion glod,
Ac ynod ymddiriedant.

[Cymmerwch gysur yn Nuw Ion,
Ef a rydd galon ynoch;
Ac os gobeithiwch ynddo Ef,
Ei law yn gref bydd drosoch.]

E. P.

SALM 32. M. C. Rhydon.

Maddeuant pechod.

Y SAWL ey deilwng, gwyn ei fyd,
Drwy faddeu i gyd ei drosedd;
Ac y cysgodwyd ei holl fai,
Ei bechod, a'i anwiredd.

A'r dyn â gwynfyd Duw a'i llwydd,
Ni chyfri 'r Arglwydd iddo,
Mo'i gamweddau; yr hwn ni chaed
Dim twyll dichellfrad ynddo.

Rhyw loches gadarn wyt i mi,
Rhag ing y'm cedwi 'n ffyddlon;
Ac amgylchyni fi ar led
A cherdd ymwared gyson.

[Chwychwi gyfiawnion tirion, ewch,
A llawenhewch yn hylwydd:
Pob uniawn galon yn ddi lyth,
Clodfored byth yr Arglwydd.]
(4.) E. P.

SALM 34. M. C. Caergybi.

Diogelwch crediawyr.

DIOLCHAF fi, à chalon rwydd,
I'r Arglwydd bob amserau;
Ei foliant Ef, a'i wir fawrhad,
Sy'n wastad yn fy ngenau.

Y sawl a edrych arno ef,
A llewyrch nef eglurir;
Ni w'radwyddir o honynt neb,
A'u gwyneb ni chywilyddir.

[Wele, y truan a roes lef,
A Duw o'r nef yn gwrando,
A'i gwaredodd ef o'i holl ddrwg,
A'i waedd oedd amlwg iddo.

Angel ein Duw a dry yn gylch
O amgylch pawb a'i hofnant;
Ceidw ef hwynt, a llawer gwell
Na chastell yw eu gwarant.

O profweh, gwelwch, ddŵed yw
Yr Arglwydd byw i'r eiddo;
A gwyn ei fyd pob dyn a gred
Roi ei ymddiried ynddo.]

Hawdd iawn y clyw fy NAF o'r nef
Leferydd llef y cyffion:
Ei weddi gwrendy, ac mewn pryd,
Fe'i gweryd o'i drallodion.

Agos iawn yw ein Duw at gur
Y galon bur ddryllfiedig;
A da y ceidw ef bob pryd
Yr yspryd cystuddiedig.

(4.) E. P.

SALM 36. M. C. Llanbeblig.

Godidowgrwydd perffeithiau a rhagluniaeth Duw.

DY drugaredd, fy Arglwydd ION,
Sydd hyd eithafion nefoedd;
A'th wirionedd di sydd yn gwau
Hyd y cymylau dyfroedd.

Dy uniondeb fel mynydd mawr,
Dy farn fel llawr yr eigion,
Dy nerth byth felly a barha,
I gadw da a dynion.

O mor werthfawr fy Arglwydd Dduw,
I bawb yw dy drugaredd!
I blant dynion da iawn yw bod
Yn nghysgod dy adanedd.

[Cyflawn o frasder yw 'r tŷ tau,
Lle llenwir hwythau hefyd,
Lle y cant ddiod genyt, ION,
O flasus afon bywyd.

O estyn etto i barhau,
Dy drugareddau tirion;
Ni a'th adwaenom di, a'th ddawn
I'r rhai sydd uniawn galon.]

(5.) E. P.

SALM 42. M. C. Burford.

Hiraeth am gymdeithas â Duw.

YR unwedd ag y bref yr hydd,
Am yr afonydd dyfroedd,
Felly y mae fy hiraeth i,
Am danat ti, Duw 'r nefoedd.

Fy enaid i sychedig yw
Am fy Nuw byw a'i gariad:
Pa bryd y dof fi ger dy fron,
Fy Nuw a'm cyflon Ynad?

Trwm wyt, f' enaid, o'm mewn; paham
Y rhoi brudd làm ochenaid?
Dysgwyl wrth Dduw a doi ger bron
Ei wyneb tirion canaid.
(6.) E. P.

SALM 45. M. C. Castell y Paun.

Crist a'i ddyweddi.

CLYW hyn, O ferch, a hefyd gwel,
Ac â chlust isel gwrando:
Mae 'n rhaid it' ollwng pawb o'th wlad,
A thŷ dy dad yn ango'.

Yna bydd gan y Brenin wych
Gael edrych ar dy degwch:
Dy Arglwydd yw, gwna iddo foes,
I gael i'th oes hyfrydwch.

[Ond merch y Brenin glân o fewn,
Anrhydedd llawn sydd iddi;
A gwisg o aur a gemau glân
Oddi allan sydd am dani.

Mewn gwaith gwê-nodwydd y daw hon,
Yn wych ger bron ei Harglwydd:
Ac â'i gwyryfon gyda hi,
Daw atat ti yn ebrwydd.

Ac mewn llawenydd mawr a hedd,
Ac mewn gorfoledd dibrin,
Hwynt-hwy a ddeuant wrth eu gwŷs,
I gyd i lŷs y Brenin.]
(7.) E. P.

SALM 46. M. 113. Newcourt.

Hyder yr Eglwys yn nawdd Duw.

DUW yw fy nerth a'm noddfa lawn;
Mewn cyfyngderau creulawn iawn,
Pan alwom arno mae gerllaw:
Ped ai 'r mynyddoedd mwya' i'r môr,
Pe chwalai 'r ddaear fawr a'i stôr,
Nid ofna f' ênaid i ddim braw.

A phe doi 'r moroedd dros y byd,
Yn genllif garw coch i gyd,
Nes soddi 'r bryniau fel o'r blaen:
Mae afon bur i lawenhau,
A'i ffrydiau, ddinas Duw 'n ddi drai,
Preswylfa ei saint, ei babell lân.

A Duw sydd yno yn eu plith,
Ni ysgogir un o honynt byth:
Fe'u cymhorth hwy yn fore iawn:
Y bore byddo mwy na mwy
O bob gwasgfeuon arnynt hwy,
Cair gwel'd ei addewid Ef yn llawn.

[Terfysgodd cenedlaethau 'r byd,
A breniniaethau, 'n fawr eu llid,
Yn erbyn ei Eneiniog Ef:
Ing, cyfyng-gyngor, llewygfàu,
Ac arswyd ddaeth ar gedyrn rai,
Toddodd y ddaear gan ei lef.]

[Arglwydd y lluoedd sydd o'n plaid,
Duw Iago 'n gymhorth in' wrth raid,
Gobeithiwn ynddo byth am hyn:
Dewch, syllwch ar ei ryfedd waith,
Pa ddistryw wnaeth trwy 'r ddaear faith:
Diau bydd yn amddiffyn in'.]

SALM 46. M. C. Aber.

Duw yn blaid i'w bobl.

GOBAITH a nerth in' yw Duw hael,
Mae nerth i'w gael mewn cyfwng:
Daear, mynydd, aent hwy i'r môr,
Nid ofnaf f' angor deilwng.

Ped ymgymmysgai 'r tir a'r dwfr,
Nid ofnwn gynhwrf rhuad;
Ped ai 'r mynyddoedd i'r môr mawr,
A'r bryniau i lawr y gwastad.

Y mae yr Arglwydd gyda ni,
Ior anifeiri luoedd;
Y mae Duw Iago yn ein plaid,
Gŷr help wrth raid o'r nefoedd.

[Y wlad, O dowch i gyd yn rhwydd,
A gwaith yr Arglwydd gwelwch,
Y modd y gosododd ef ar
Y ddaear annyddanwch.

Gwna i ryfeloedd beidio 'n wâr
Hyd eitha 'r ddaear lychlyd;
Dryllia y bwa, tŷr y ffön,
Llysg y cerbydon hefyd.] E. P.

SALM 47. M. C. Llanbeblig.

Breiniaeth Crist.

CENWCH, a churwch ddwylaw 'nghyd,
Holl bobl y byd cyfannedd;
A llafar genwch i Dduw nef,
Gan leisio â llef gorfoledd.

Sef ofni 'r Duw uwch daear gron,
Ef sydd dros hon yn Frenin;
Dwg bobloedd danom, a phob gwaed,
A than ein traed fe'u disgyn.

O cenwch, cenwch glod ein Duw;
Ein brenin yw, O cenwch:
Duw dros y byd sy Frenin call,
Trwy ddëall ymhyfrydwch.

E. P.

SALM 48. M. C. Cemmaes.

Addurn a sicrwydd yr Eglwys.

MAWR ei enw 'n ninas ein Duw,
A hynod yw yr Arglwydd;
Ei drigfan ef yno y sydd,
Yn mynydd ei sancteiddrwydd.

Adwaenir Duw yn mhlasau hon
Yn gymhorth dïgon hynod:
Ac wele, nerth breninoedd byd
Dont yno i gyd-gyfarfod.

Sef hyn yn ninas ein Duw ni,
Sicrhâ Duw hi byth bythoedd:
Duw, dysgwyliasom am dy ras
I'th deml, ac addas ydoedd.

[Ewch, ewch oddi amgylch Sion sail,
A'i thyrau adail rhifwch;
Ei chadarn fur, a'i phlasau draw,
I'r oes a ddaw mynegwch.

Can's ein Duw ni byth yw 'r Duw hwn;
Hyd angau credwn ynddo:
A hyd angau hwnw a fydd
Yn dragywydd i'n t'wyso.] E. P.

SALM 49. M. C. Walsal.

Angau a'r adgyfodiad.

ANGAU yw terfyn pob dyn byw,
I hwn nid yw ond tamaid:
Myned sydd raid o'r tŷ i'r bedd,
Yn rhwym un wedd a'r defaid.

Gwelir mai 'r bedd yw llety 'r doeth,
Y ffol a'r annoeth unwedd:
Marw yw 'r naill, a marw yw 'r llall,
I arall gâd ei annedd.

Daw dydd i'r cyflawn, tranoeth teg,
Daw im' ychwaneg estyn;
Daw im' o'r bedd godiad i fyw,
Deheulaw Duw a'm derbyn.

 E. P.

SALM 51. M. B. Aylesbury.

Cyfaddefiadau ac erfyniadau yr edifeiriol.

TRUGAREDD dod i mi,
Duw o'th ddaioni tyner;
Ymaith tyn fy anwiredd mau,
O'th drugareddau lawer.

A golch fi yn llwyr ddwys
Oddiwrth fawr bwys fy meiau:
Fy Arglwydd gwna 'n bur lân fyfi,
Rhag brynti fy nghamweddau.

[Mewn pechod lluniwyd fi,
Ac mewn drygioni dygas:
Felly yr wyf o groth fy mam
Yn byw bob cam yn adgas.

Ag isop golch fi yn lân;
Ni byddaf aflan mwyach;
Byddaf fi o'm golchi fel hyn
Fel eira gwyn neu wynach.]

Par i mi weled hedd,
Gorfoledd, a llawenydd,
I adnewyddu f' esgyrn i,
A ddrylliaist di â cherydd.

[Gorfoledd dwg i mi
Drwy roddi im' dy iechyd;
A chynnal â'th ysprydol ddawn,
Fi, i fyw 'n uniawn hefyd.

Aberthau Duw i gyd
Yw yspryd pur drylliedig;
Ac ni ddiystyri, O Dduw Ion,
Y galon gystuddiedig.]

Bydd dda wrth Sion fryn
O Arglwydd hyn a fyni;
Ac wrth Gaersalem, dy dref tad,
A gwna adeilad arni.

SALM 57. M. C. Cynwil.

Duw yn unig noddfa mewn adfyd.

DY ras, dy nawdd, fy Nuw im' dod,
Sef ynod ymddiriedaf;
Nes myned heibio 'r aflwydd hyn,
Dan d' edyn ymgysgodaf.

Ymddiried f' enaid ar Dduw sydd,
Ar Dduw drwy ffydd y galwaf:
Ef a gyflawna 'i air yn iawn,
Sef cyflawn yw 'r Goruchaf.

[O'r nef yr enfyn geidwad im'
Rhag grym yr hwn a'm llyncai;
Enfyn fy Nuw ei nawdd, a'i hedd,
A'i lân wirionedd didrai.]

Ymddyrcha, Dduw, y nef uwchlaw,
Oddi yno daw d' arwyddion;
A bydded dy ogoniant ar
Y ddaear a'i thrigolion.

(10.) E. P.

SALM 61. M. C. Dinmeirchion.

Pfoi at Dduw am noddfa.

ERGLYW, O Dduw, fy llefain i,
Ac ar fy ngweddi gwrando:
Rhof lef o eitha 'r ddaear gron,
A'm ealon yn llesmeirio.

Dwg fi i dal-graig uwch na mi,
Ac iddi bydd i'm derbyn;
Can's craig o obaith, twr difost,
I'm fuost rhag y gelyn.

O fewn dy babell y bydd byth,
Fy nhrigfan ddilyth ddedwydd;
A'm holl ymddiried a fyn fod
Yn nghysgod dy adenydd.

Fel hyny y moliannaf fi
Dy enw di 'n dragywydd:
Ac felly peri i mi gwblhau
Fy addunedau beunydd.

(10.) E. P.

SALM 65. M. C. Weston Favel.

Diolch am fendithion tymhorol ac ysprydol.

I TI, O Dduw, y gweddai mawl,
Yn y sancteiddiawl Sion:
I ti y telir, trwy holl Gred,
Bob gwir adduned calon.

Pawb sydd yn pwyso atat ti,
A wrendy weddi dostur;
Ac atat ti y daw pob cnawd,
Er mwyn gollyngdawd llafur.

Dy etholedig dedwydd yw,
Caiff nes-nes fyw i'th babell:
Trig i'th gynteddau, ac i'th lys,
A'th sanctaidd weddus ganghell.

A holl breswylwyr eithaf byd,
Sy'n ofni gyd d' arwyddion:
I ti, gan fore, a chan hwyr,
Y canant laswyr ffyddlon.

[Dyfrhau y ddaear sech yr wyd,
Afon Duw llanwyd drosti:
Darperaist lif-ddwfr hyd ei llawr,
I'w thramawr gyfoethogi.

Coroni 'r ydwyt ti fel hyn
Y flwyddyn â'th ddaioni:
Yn y modd yma, Duw fy NER,
Dyferaist frasder arni.

Ef a ddyfera ffrwyth dy serch,
Ar bob rhyw lanerch ddyrys:
Pob mynydd sych, yn uchder gwlad,
O ffrwyth dy rad y dengys.

Trwy dy fendith, y gwastad dir
A guddir oll â defaid:
Crechwenant, canant bawb ynghyd,
A'r wlad ag yd ei llonaid.]

E. P.

SALM 66. M. C. Hwlffordd.

Moliannu Duw am ei weithredoedd.

YN Nuw ymlawenhewch i gyd,
Yr hollfyd, a dadgenwch
Ogoniant ei enw hyd y nef,
A'i foliant gref a draethwch.

O dowch, edrychwch, ofnus yw,
Gweithredoedd ein Duw cyfion:
Ofn ei weithredoedd a rydd ddysg
Yn mysg holl feibion dynion.

O bobloedd molwch Dduw ar gais,
A moeswch lais ei foliant:
Hwn sy'n dal bywyd yn y gwaed,
A ddeil ein traed na lithrant.

(11.) E. P.

SALM 68. M. C. Ann's.

Bendithio Duw am ei ddaioni i'w bobl.

BENDIGAID fyth fo 'r Arglwydd mau,
Am ddoniau ei ddaioni;
A'i iachawdwriaeth ini 'n llwyth,
O bêr-ffrwyth ei haelioni.

Efe 'i hun yw 'n Duw ni i gyd,
Sef Duw ein hiechyd helaeth:
Trwy 'r Arglwydd Dduw cawn yn ddi swrth,
Ddianc oddiwrth farwolaeth.

Dygaf fy mhobloedd (meddai ef)
Hyd adref fel o Basan;
A dygaf hwynt i'w hol ar g'oedd,
Fel o'r dyfnderoedd allan.

[Holl deyrnasoedd y ddaear lawr,
I Dduw mawr cenwch foliant:
Cenwch, cenwch, ei glod yn rhwydd,
Sef Arglwydd y gogoniant.]

Ofnadwy ydwyt ti a'th arch,
Teilwng o barch y bobloedd:
Duw Israel rydd in' nerth wrth raid,
Bendigaid yn oes oesoedd. E. P.

SALM 72. M. C. Myllin.

Teyrnas Crist y'mhlith y cenedloedd.

DUW, dod i'r Brenin farn o'r nef,
Dod i'w Fab ef gyfiawnder:
Yna y rhydd rhwng pobl iawn frawd,
Ac i'r dyn tlawd unionder.

Hedd a chyfiawnder, ar ol hyn,
Geir ym mhob bryn a mynydd:
Y gwan a'r llesg achub a wna,
Fe ddryllia y gorthrymydd.

I'w ddyddiau ef cerir yr iawn,
A'r cyfiawn a flodeua:
Ac aml fydd hedd ar ddaear gron,
Tra fo'r lloer hon yn para.

Can's y dyn rheidus, a'r gwr gwan,
Fe'i gweryd pan weddio;
Bydd i bob dyn yn nerthol dŵr,
A'r ni bo pleidiwr ganddo.

Os haul cylch wybren byth a dry,
Byth pery enw iddo:
Pawb a'i bendithiant ef yn wir,
Pawb a fendithir ynddo.

[Bendigaid fo yr Arglwydd Dduw,
Sef Duw yr Israel dirion;
Ef byth yn unig sy'n parhau
I wneuthur gwyrthiau mawrion.

Bendigaid fyddo 'i enw byth,
Gogonedd dilyth iddo;
A'i glod llanwer y ddaearen;
Amen, Amen, hyn fyddo.]

Gogoniant fyth a fo i'r Tad,
I'r Mab rhad, a'r Glân Ysbryd;
Fel y bu, y mae, ac y bydd,
Un Duw tragywydd hyfryd.

SALM 73. M. C. Sabbath.

Gobaith a rhan credinwyr.

PA'M? pwy, O Dduw, sy genyf fi,
Ond tydi yn y nefoedd?
Dim ni ddymunwn gyda thi,
Wrth weini daear leoedd.

Fy nghalon i, a'm nerth, a'm cnawd,
Y sydd mewn palldawd beunydd;
Ond tydi, Dduw, sydd ar fy rhan,
A'm tarian yn dragywydd.

Mi ddeuaf nes-nes at fy Nuw,
Fy ngobaith yw i'm calon,
Y traethaf fi ei nerth a'i wyrth,
O fewn dy byrth, merch Sion.

E. P.

SALM 76. M. C. Gelli.

Adferiad heddwch; neu Duw o blaid ei eglwys.

YN Judah ac Israël dir
Adwaenir ein Duw cyfion:
Ei babell ef yn Salem sydd,
A'i breswyl fydd yn Sion.

Bu 'r trawsion fel mynyddau gynt,
Mewn yspail helynt uchel:
Ond uwch a chryfach wyt na hwy,
Nid rhaid byth mwy mo'u gochel.

O'r nefoedd peraist glywed barn,
Duw cadarn wyt trwy 'r hollfyd:
Y ddaear ofnodd, a'i holl lu
Ro'ist i ostegu enyd.

Eich rhodd i'r Arglwydd Dduw a ddêwch,
A llawn gwblhêwch eich gobrwy:
Pawb sydd o amgylch Sion deg,
Rhowch anrheg i'r Ofnadwy.

Ef a ostyngodd uchel fryd,
Ac ysbryd gwyr rhyfelgar:
Fe a yr ofn yn nghanol hedd,
Ar holl freninedd daear.

E. P.

SALM 77. M. C. Henllan.

Tristwch a gobaith; neu ymdrech yn erbyn anobaith.

FY llais at Dduw, pan roddais lef,
Fy llais o'r nef fe'i clybu;
A'm llais gweddiais ar Dduw Neb,
Pan oedd blinder yn tarddu.

Y dydd y rhedai 'mriw, a'r nos
Ni pheidiai achos llafur:
Mewn blin gyfyngder gwn fy mod,
A'm hoes yn gwrthod cysur.

Yna y cofiwn Dduw a'i glod,
Pan syrthiai drallod enbyd;
Yna gweddiwn dros fy mai
Pan derfysgai fy ysbryd.

[Cofiwn fy ngherdd y nos fy hun,
Heb gael amrant-hûn, chwiliwn;
A chalon effro, genau mud,
A'm hysbryd ymddyddanwn.

"Ai 'n dragywydd y cilia 'r Ion?
"A fydd ef boddlon mwyach?
"A ddarfu byth ei nawdd a'i air,
"A gair ei addaw bellach?"

Marwolaeth im' yw 'r meddwl hwn,
A throis yn grwn i gofio
Ei fawr nerth gynt; cofio a wnaf
Waith y Goruchaf ętto.]

Dy waith, O Dduw, coffâf yn rhwydd,
A'th wyrthiau hylwydd cofiaf;
Am bob rhyfeddod a phob gwaith,
A myfyr maith y traethaf.

Dy lwybrau ynt mewn moroedd fyrdd,
A'th ffyrdd mewn dyfroedd mawrion;
Ni adwaenir fyth mo'th ol, fy Nuw,
Anfeidrol yw d' arwyddion.

E. P.

SALM 84. M. C. Bedford.

Hiraeth am dŷ Duw; neu hyfrydwch yr addoliad cyhoeddus.

DY babell di mor hyfryd yw,
O Arglwydd byw y lluoedd:
Mynych chwennychais weled hon,
Rhag nâor dra thirion ydoedd.

Mae f' enaid i, fy Ion, mewn blys
I'th gyssegr lŷs dueddu;
Fy nghalon i, a'm holl gnawd, yw
Yn Nuw byw 'n gorfoleddu.

[Gwyn ei fyd a drig yn dy dŷ,
Caiff dy foliannu ddigon;
Ac ynot ti sy'n cadarnhau,
A'th lwybrau yn eu calon.

Pe rhon a gorfod ar y rhai'n,
'R hyd glŷn wylofain dramwy;
Gosodant ffynnon iddyn' nhw',
A'r gwlaw a leinw fwyfwy.

Ant rhagddynt bawb, o nerth i nerth,
Nes cael yn brydferth ddyfod
I ymddangos i Dduw, ger ei fron,
Yn Sion ei breswylfod.]

Gwell yw na mil un dydd i'th dŷ;
Am hyny mwy dewisol
Im' fod ar riniog y drws tau,
Na phlasau yr annuwiol.

Sef haul a tharian yw Duw mâd,
A rydd râd a gogoniant:
Ni lestair ef ddaioni maith,
I'r rhai a berffaith rodiant.

O Arglwydd Dduw y lluoedd mawr,
Anfon i lawr dy gymmod:
Dedwydd yw 'r dyn a roddo 'i gred,
A'i holl ymddiried ynod.

E. P.

SALM 84. M. 148. *New* 148.

Hiraethu am dŷ Duw.

ARGLWYDD y bydoedd fry,
Mor deg a hawddgar yw
Trigfanau 'th gariad cu,
Daearol demlau 'm Duw:
Boed tynfa fy enaid tua 'th dŷ,
Fy Nuw, i wel'd dy wyneb cu.

Hoff gan aderyn tô
Gael yno i'w gywion le;
A'r wennol ar ei thro,
Hiraethu am ei thre:
Boed zel fy enaid i 'r un faint,
Am gael preswylio 'mhlith dy saint.

[Gwyn fyd y dynion fo'n
Gweddio yn y lle
Mae Duw yn gwrando 'i blant,
Yn wastad molant E';
A dedwydd ydynt hwy bryd hyn,
Sy'n hoffi 'r ffordd i Sion fryn.

O nerth i nerth â rhai'n
Trwy lŷn wylofain du,
Nes delont bawb ger bron
Eu Duw yn Sïon fry:
O! hyfryd fan, pan ddygo ef
Ei blant i gyd o'r byd i'r nef.]

Cael treulio sanctaidd ddydd
Lle byddo Duw a'i saint,
Llawenydd gwell a rydd
Na mil mewn bydol fraint:
Gwell yw cael cadw 'r drws o hyd,
Lle dêl fy Nuw, na phlasau 'r byd.

Dr. W.

SALM 85. M. C. Henllan.

Gweddi am berffeithio iachawdwriaeth.

DA wyt i'th dir, JEHOFAH NER,
Dychwelaist gaethder Iago:
Maddeuaist drawsedd dy bobl di,
Mae 'u camwedd wedi 'i guddio.

Tynaist dy lid oddi wrthym ni,
Troi'st dy ddigllonì awchlym;
O Dduw ein nerth, tro ninnau 'n well,
A'th lid bid bell oddi wrthym.

Ai byth y digi wrthym ni?
A sòri di hyd ddiwedd?
A saif dy lid o oes i oes?
Duw, gwrandaw, moes drugaredd.

I'r rhai a ofnant Arglwydd nef,
Mae 'i iechyd ef yn agos:
Felly y caiff gogoniant hir
O fewn ein tir ni aros.

E. P.

SALM 89. M. C. Bangor.

Gwirionedd Duw.

MYFYRIAF gerdd, byth i barhau,
O drugareddau 'r Arglwydd;
A'i wirionedd i'm genau fydd,
Hyd dragywydd, yn ebrwydd.

Trwy gynnulleidfa ei saint ef,
Duw 'r nef y sydd ofnadwy;
A thrwy 'r holl fyd o'n hamgylch ni,
Ei ofni sydd ddyladwy.

Pwy sydd debyg i ti, Dduw byw,
O Arglwydd Dduw y lluoedd,
Yn gadarn IOR, a'th wir i'th gylch,
O amgylch yr holl nefoedd?

I'th fraich mae grym, mae nerth i'th law,
A'th gref ddeheulaw codi;
Nawdd a barn yw dy orsedd bur,
A nawdd a gwir a geri.

E. P.

SALM 90. M. C. Walsal.

Dyn yn fregol, a Duw yn dragywyddol.

DUW, buost in' yn Arglwydd da,
Ac yn breswylfa i drigo:
O bryd i bryd felly yr aeth
Pob rhyw genedlaeth heibio.

Er cyn rhoi sail un mynydd mawr,
Cyn llunio llawr cwmpas-fyd;
Duw o dragwyddol wyt cyn neb,
Hyd dragwyddoldeb hefyd.

I'r bedd dinystriol y troi ddyn,
Ond yna ti sy'n noddfa:
Dywedi, cyn ein myn'd i'r llwch,
Dychwelwch, feibion Adda.

Nid yw dyn ond fel hûn, neu ail
I addail, neu lifeiriant;
Neu megys glâs lysieuyn gwàn,
Mor fuan y newidiant.

Yr hwn y boreu gwyrdd-las fydd,
A gwawr o newydd arno;
Ond pan y torer ef brydnawn,
Yn fuan iawn mae 'n gwywo.

Dysg felly in' rifo 'n dyddiau gwael,
I'n calon gael doethineb:
Duw, pa hyd? tyr'd, a dod yn hawdd
I'th weision nawdd ac nad eb.

E. P.

SALM 91. M. N. 8. New Jerusalem.

Gofal Duw am ei bobl.

ADRIGO y'nghymdeithas y Tad,
Ei aden yn gaead a'i cudd;
Caiff weled, trwy 'r aberth a'i ras,
Ddirgelwch ei deyrnas bob dydd:

Dywedaf—Fy noddfa yw 'm Neb,
A'm tyner Waredwr yw 'r Ion;
Ac ynddo gobeithiaf heb baid,
Am dano fy enaid a sôn.

Angylion y nefoedd yn un,
A warchod oddeutu dy fyrdd;
Gorchymyn ef ofal i'th gylch,
Ehedant o'th amgylch di 'n fyrdd:
Hwy 'th ddygant yn dyner a doeth,
A'u dwylaw ysbrydol ynghyd,
Rhag llithro na tharaw dy droed,
Mor hynod eu gofal i gyd.

Nid ofni rhag dychryn y nos,
A'r saeth ni ddaw 'n agos liw dydd;
I'th gadw di ymlaen ac yn ol,
Ei allu anfeidrol a fydd:
Rhag haint a dinystrydd, dy Neb
A'i aden fydd dyner i'th doi;
A'i enw, dy gysgod a'th graig,
A'th noddfa ddiogel i foi.

O herwydd it' wneuthur yr Ion,
Yr Arglwydd Goruchaf yn nyth,
Yn gysgod a noddfa ddi gryn,
Yn breswyl ddiogel am byth:
Y llew a'i genawon, os rhaid,
A'r aspiaid a sethri 'r un awr,
Cai 'r ddraig a'i chadernid 'r un dydd,
A'i gallu aflonydd i lawr.

Ac arnaf y geilw mewn ing,
Gwrandawaf, gwaredaf ynghyd;
A chyd âg ef byddaf yn blaid
Digonol i'w enaid o hyd:
Gogoniant, anrhydedd, hir oes,
Fydd iddo, ac einioes o hedd;
Trwy ras iachawdwriaeth di dranc,
Y diane o feddiant y bedd.

R. J.

SALM 92. M. H. Mare Street.

Salm ar y dydd Sabbath.

GWAITH hyfryd iawn a melus yw
Moliannu d' enw di, O Dduw;
Sôn am dy gariad foreu glâs,
A'r nos am wirioneddau 'th ras.

Melys yw dydd y Sabbath llon,
Na flined gofal byd mo'm bron:
O! na bai 'nghalon i mewn hwyl,
Fel telyn Dafydd ar yr ŵyl.

Yn Nuw fy nghalon lawenha;
Bendithio 'i air a'i waith a wna:
Mor hardd yw gwaith dy ras, O Dduw!
A'th gyngor, pa mor ddyfned yw.

[Ond mi gaf ogoneddus ran,
Pan buro gras fy enaid gwan:
Mae gwir lawenydd uwch y nen,
Fel olew pur i loni 'm pen.

Caf wel'd a chlywed yno ynghyd
Oll a ddymunais yn y byd:
A'm henaid a gaiff felys waith,
Yn y tragwyddol fywyd maith.]
(15.) Dr. W.

SALM 92. M. C. Sabbath.

Cynnydd credinwyr mewn gras.

MOLIANNU 'r Arglwydd, da iawn yw,
A chyfarch Duw yn benaf;
A chanu i dy enw fawl,
A'th ganmawl y Goruchaf.

Y rhai a blanwyd yn nhŷ Duw
Yn goedwydd byw y tyfant;
Ac yn nghynteddoedd ein Duw ni,
Y rhei'ny a flodeuant.

A dwyn eu ffrwyth a wnant o faint,
Yn amser henaint etto:
Tirfion, iraidd, a phorfadwy,
A fyddant hwy yn hilio.

E. P.

SALM 95. M. C. Caergybi.

Ar ddechreu addoliad.

O DOWCH, a chanwn i'r Arglwydd,
Efe yw llwydd ein bywyd;
Ac ymlawenhawn yn ei nerth,
Ef yw eiu prydferth iechyd.

O down yn unfryd ger ei fron,
A chalon bur ddiolchgar;
Brysiwn at Dduw dan lawenhau,
A chanwn salmau 'n llafar.

O herwydd Arglwydd nef a llawr
Y sy Dduw mawr yn ddiau;
Tywysog mawr yw ef mewn trîn,
A Brenin yr holl dduwiau.

(16.) E. P.

SALM 96. M. C. Llanberis.

Annogaeth i foli Duw.

O CENWCH glod i'r Arglwydd mâd,
A moeswch ganiad newydd;
Yr holl ddaear dadgenwch fawl
Yr Arglwydd nefawl beunydd.

Cenwch chwi glod yr Arglwydd nef,
A'i enw ef bendigwch;
A'i iachawdwriaeth ef, trwy ffydd,
O ddydd i ddydd cyhoeddwch.

Can's mawr ydyw gogoniant nef,
Ac o'i flaen Ef mae harddwch;
Yn ei gyssegr ef y mae nerth,
A phrydferth yw 'r hyfrydwch.

(16.) E. P.

SALM 98. M. C. Mynydd Carmel.

Mawl am yr efengyl.

CENWCH i'r Arglwydd newydd gân,
Ei waith fu lân ryfeddod;
Ei law ddëau a'i fraich a wnaeth
In' iachawdwriaeth barod.

Yr Arglwydd, hysbys in' y gwnaeth
Ei iachawdwriaeth gyhoedd;
A'i gyfiawnder ef yn dra hawdd
Dadguddiawdd i'r cenedloedd.

(16.) E. P.

SALM 100. M. H. Savoy.

Mawl i'r Creawdwr.

I'R Arglwydd cenwch lafar glod,
A gwnewch ufudd-dod llawen fryd;
Dowch o flaen Duw â pheraidd dôn,
Trigolion y ddaear i gyd.

Gwybyddwch mai 'r Arglwydd sy Dduw,
A'n gwnaeth ni'n fyw fel hyn i fod;
Nid ni'n hunain; ei bobl ŷm ni,
A defaid rhi' ei borfa a'i nod.

O ewch i'w byrth â diolch brau,
Yn ei gynteddau molwch ef;
Bendithiwch enw Duw hynod,
Rhowch iddo glod drwy lafar lef.

Can's da yw'r Arglwydd, Awdur hedd,
Da ei drugaredd a dilyth;
A'i wirionedd i ni a roes,
O oes i oes a bery byth.
(17.) E. P.

SALM 102. M. C. Pwllheli.

Gweddi riddfanus, a gobaith cysurus Sion.

O CLYW fy ngweddi, Arglwydd nef,
A doed fy llef hyd atat;
Na chudd d' wyneb mewn ing tra f'wyf,
Clyw, clyw pan alwyf arnat.

Fy nyddiau troisant at y rhod,
Ac fel y cysgod eiliant;
Minnau a wywais, achos hyn,
Fel y glaswelltyn methiant.

Ond tydi, Dduw, fy Arglwydd da,
A barhai yn dragwyddol:
O oes i oes, dy enw a aeth
Mewn coffadwriaeth grasol.

[O cyfod bellach, trugarha,
O Dduw bydd dda wrth Sion;
Mae 'n amser wrthi drugarhau,
Fel dyma 'r nodau 'n union.

Can's hoff iawn gan dy weision di
Ei meini a'i magwyrau;
Maent yn testurio wrth ei llwch,
Ei thristwch a'i thrallodau.]

[Pan adeilader Sion wych,
A hon yn ddrych i'r gwledydd;
Pan welir gwaith yr Arglwydd nef,
Y molir E 'n dragywydd.

Hyn fydd pan gasglo pawb ynghyd,
Yn unfryd i'w foliannu;
A'r holl deyrnasoedd ddod y'ngwydd
Yr Arglwydd i'w wasanaethu.]

E. P.

SALM 103. M. C. Sabbath.

Mawl am fendithion tymhorol ac ysbrydol.

FY enaid, mawl Sanct Duw, yr Ion,
A chwbl o'm heigion ynof;
Fy enaid, na'd fawl f' Arglwydd nef,
Na'i ddoniau ef yn anghof.

Yr hwn sy'n maddeu dy holl ddrwg,
Yr hwn a'th ddwg o'th lesgedd;
Yr hwn a weryd d' oes yn llon,
Drwy goron o'i drugaredd.

Cyhyd ag yw 'r ffurfafen fawr
Oddiar y llawr o uchder;
Cymmaint i'r rhai a'i hofnant ef,
Fydd nawdd Duw nef bob amser.

Os pell yw 'r dwyrain oleu hin,
Oddiwrth orllewin fachlud;
Cyn belled ein holl bechod llym,
Oddi wrthym ef a'i symud.

A graslawn drugaredd a fydd
Yn lân dragywydd feddiant;
O oes i oes, heb dranc, heb drai,
Gan Dduw i'r rhai a'i hofnant.

E. P.

SALM 106. M. C. Moliant.

Moli Duw am ei drugaredd, a deisyfu ei ras.

MOLWCH yr Arglwydd, can's da yw,
Moliennwch Dduw y Llywydd;
Oblegid ei drugaredd fry
A bery yn dragywydd.

Yr Arglwydd, pwy all draethu ei nerth,
A'i holl dirion-ferth foliant?
A wnel gyfiawnder, gwyn eu byd,
Ei farn i gyd a gadwant.

O Arglwydd, cofia fi dy was,
Yn ol dy ras i'r eiddod;
Ymwel â mi, i'm cystudd caeth,
A'th iachawdwriaeth barod.

E. P.

SALM 107. M. C. Sabbath.

Taith Israel trwy yr anialwch i Ganaan.

MOLWCH yr Arglwydd, can's da yw,
Moliennwch Dduw ein Llywydd;
Oblegid ei drugaredd fry
A bery yn dragywydd.

Y gwaredigion canent fawl
I Dduw gerdd nodawl gysson;
Y sawl achubwyd, caned hyn,
O law y gelyn creulon.

Trwy yr anialwch, ŵyr-draws hynt,
Y buasent gynt yn crwydro
Allan o'r ffordd, heb dref na llàn,
Lle caent hwy fàn i drigo.

Trwy newyn, syched, bu 'r daith hon,
A'u calon ar lewygu;
Ar Dduw y galwent y pryd hyn,
Pan oeddyn' y'mron trengu.

Yna eu gwared hwynt a wnaeth,
O'u holl orthrymgaeth foddion;
Hyd yr iawn ffordd fe'u dwg mewn hedd
I dref gyfannedd dirion.

Addefant hwythau ger ei fron,
  Ei fwynion drugareddau;
Ac er plant dynion fel y gwnaeth
  Yn helaeth ryfeddodau.

Aberthant hefyd aberth mawl,
  I'w ogoneddawl Fawredd;
A mynegant ei waith a'i wyrth,
  Yn ei byrth mewn gorfoledd.

RHAN II.—SALM I FORWYR.

Gwarediaeth o ystormydd a llong ddrylliad.

Y RHAI a ânt mewn llongau i'r dòn,
  A'u taith uwch mawrion ddyfroedd:
A welant ryfeddodau'r ION
  A hyn mewn eigion moroedd.

A'i air cyffro dymhestloedd gwynt,
  Y rhai a godynt dònau
Hyd awyr fry, hyd eigion llawr,
  Ac ofn bob awr rhag angau.

Gan ysgwyd a phendroi fel hyn,
  Dull meddwyn, synai arnynt;
Ar Dduw mewn ing y rhoisant lef,
  Daeth ef à chymhorth iddynt.

Gwnaeth E'r ystorm yn dawel deg,
  A'r tònau 'n osteg gwastad;
Yn llawen ddystaw doent i'r làn,
  I'r màn y bai 'n dymuniad.

Cyffesent hwythau ger ei fron,
  Ei fwynion drugareddau;
Ac i blant dynion fel y gwnaeth
  Yn helaeth ryfeddodau.

Holl gynnulleidfa ei bobl ef,
  Clod Duw hyd nef dyrchafant;
Holl eisteddfeydd penaethiaid hon,
  Yn llawen a'i moliannant.

E. P.

SALM 111. M. C. Cemmaes.

Doethineb Duw yn ei weithredoedd a'i gyfammod.

CLODFORAF fi fy Arglwydd Ion,
O wyllys calon hollol;
Mewn cynnulleidfa ger eu bron,
Mewn tyrfa gyfion rasol.

Yr Arglwydd a wnaeth ei goffâu,
Am ryfeddodau nerthol;
Can's Arglwydd noddfawr yw i ni,
Llawn o dosturi grasol.

Ef i bob rhai a'i hofnant ef
Rydd gyfran gref at fywyd;
Ac yn dragywydd y mŷn fod,
Côf o'i gyfammod hefyd.

Mynegodd ef i'w bobl i gyd
Gadernid ei weithredoedd;
A rhoddi iddynt hwy a wnaeth
Tifeddiaeth y cenedloedd.

[Barn a gwirionedd ydyw gwaith
Ei sanctaidd berffaith ddwylaw;
A'i orchymynion ffyddlawn iawn,
A da y gwnawn eu gwrandaw.

Y rhai sy gwedi eu sicrhau
Dros byth yn ddeddfau cyfiawn:
Gwedi eu gwneuthur oll mewn hedd,
A thrwy wirionedd uniawn.

Anfonodd gymhorth i'w bobl ef,
Cyfammod gref safadwy;
Archodd hyn; boed i'w enw fawl,
Sancteiddiawl ac ofnadwy.

Dechreuad pob doethineb ddofn
I bawb yw ofn yr Arglwydd;
Da yw dëall y sawl a'i gwnai,
A'i ofn a sai 'n dragywydd.]

E. P.

SALM 112. M. C. Llanandrews.

Dedwyddwch y duwiol.

DEDWYDDOL yw, mewn buchedd dda,
Y sawl a ofna 'r Arglwydd;
A'i orchymynion anwyl ynt,
Bydd iddo 'n helynt hylwydd.

Yr uniawn, yn y tywyll cau,
Caiff fodd i oleu weled;
Ystyriol a thosturiol iawn,
A chyflawn fydd ei weithred.

Ni ysgogir byth y cyflawn; gwna
Ei goffa yn dragywydd;
A chalon ddisigl, ddwys, ddi ofn,
A sail ddofn yn yr Arglwydd. E. P.

SALM 113. M. 113. Newcourt, Old 113.

Mawl i Dduw am ei fawrhydi a'i diriondeb.

CHWI weision Duw molwch yr Ion,
Molwch ei enw â llafar dôn;
Bendigaid fyddo 'i enw ef:
O godiad haul hyd fachlud dydd,
Mawr enw 'r Ion moliannus fydd,
Yn y byd hwn ac yn y nef.

Derchafodd Duw uwch yr holl fyd,
A'i foliant aeth uwch nef i gyd,
Pwy sydd gyffelyb i'n Duw ni?
Yr hwn a breswyl yn y nef,
I'r ddaear hon darostwng ef,
Gwel ef ein cam, clyw ef ein cri.

Yr hwn sy'n codi 'r tlawd o'r llwch,
A'r rheidus o'i orthrymder trwch,
I'w gosod uwch penaethiaid byd:
I'r anmhlantadwy mae 'n rhoi plant,
Hil têg, a thylwyth, a llwyddiant;
Am hyn molienwch Dduw i gyd.
(18.) E. P.

SALM 114. M. 113. Llangoedmor.

Gwaredigaeth Israel o'r Aipht.

PAN ddaeth Isrāel o'r Aipht faith,
Tŷ Iago oddiwrth estron iaith,
Judah oedd ei sancteiddrwydd ef,
Israel oedd benaethiaeth Ior;
Gwelodd hyn, a chiliodd y môr,
A throes i'w hol Iorddonen gref.

Neidient fel hyrdd fynyddoedd draw,
A'r bryniau megys ŵyn gan fraw;
Cawsant wastadedd megys dôl:
Pa'm ciliaist, fôr, er maint dy dòn?
Tithau, Iorddonen lathraidd lon,
Paham y troist dy ffrydiau yn ol?

Fynyddoedd byd, paham y ffoech
Fel hyrddod? a pha'm nad arhoech?
A chwithau fryniau fel ŵyn mân?
Am mai rhaid ofni Duw fel hyn,
Yr hwn sy'n troi y graig yn llyn,
Ac yn rhoi dwfr o'r gareg dân.

E. P.

SALM 115. M. 50. Mottram.

Annogaeth i hyderu yn Nuw.

I'N henwau gwael, O Dduw, ni pherthyn clod;
I'th enw mawr dy hun gogonedd dod;
Dy nerth, dy nawdd, dy wir, a'th iawnder maith,
A bair dy foli mewn anfarwol iaith:
Goleua 'r byd o'r nef, dy drigfan wiw,
Na chaed ynfydion ddweyd, 'Pa le mae'ch Duw?'

O Israel dod ymddiried yn dy Dduw,
Dy gadarn borth a'th amddiffynfa yw:
Canfydda 'th gur, a'th drallodedig wedd,
Dy riddfan clyw, adfera iti hedd:
Cysuron fyrdd sy'n ei wasanaeth Ef;
Dy gymhorth hael yw Duw, a'th darian gref.

Dr. W.

SALM 117. M. C. Suffolk.

Moli Duw am ei drugaredd a'i wirionedd.

O CENWCH fawl i'r Arglwydd nef,
Moliennwch ef, genedloedd;
Molwch ei enw ef trwy 'r byd,
Chwithau i gyd y bobloedd.

Am ei fod ini yn dda iawn,
Yr Arglwydd llawn trugaredd:
A'i air ef sydd yn parhau byth,
Sef ei ddilyth wirionedd.
(19.) E. P.

SALM 119. M. C. Irish.

Ymhyfrydu yn nghyfraith Duw

PA fodd, O Dduw, y ceidw llanc,
Sydd ieuanc, ei holl lwybrau?
Wrth ymgadw yn ol dy air,
Pob llwybr a gair yn oleu.

Bydded fy nghalon yn berffaith
Yn dy lân gyfraith, Arglwydd:
Fel nas gorchuddier yn y byd,
Fy wynebpryd â gwaradwydd.

Gan ddisgwyl am dy iechyd di,
Mae f' enaid i mewn diffyg:
Yn gwylied beunydd wrth dy air,
O Arglwydd, cair fi 'n ddiddig.

[Mor gu, O Arglwydd, genyf fi,
Dy ddeddf di a'th gyfammod!
Ac ar y rhai'n, o ddydd i ddydd,
Y bydd fy holl fyfyrdod.

Cymmerais yn 'difeddiaeth lân,
Byth weithian dy orch'mynion;
O herwydd mai hwynt-hwy y sydd,
Lawenydd mawr i'm calon.

Gostyngais i fy nghalon bur
I wneuthur, drwy orfoledd,
Dy ddeddfau di tra fwy'n y byd,
A hyny hyd y diwedd.]
(19.) E. P.

SALM 121. M. C. Sabbath.

Diogelwch yn amddiffyn Duw ddydd a nos.

DYSGWYLIAF o'r mynyddoedd draw,
Lle daw im' help wyllysgar:
Yr Arglwydd rydd im' gymhorth gref,
Hwn a wnaeth nef a daear.

Dy droed i lithro ef nis gâd,
A'th Geidwad fydd heb huno:
Wele, Ceidwad Israel lân,
Heb hûn na hepian arno.

Ar dy law ddëau mae dy Dduw,
Yr Arglwydd yw dy Geidwad;
Dy lygru ni chaiff haul y dydd,
A'r nos nid rhydd i'r lleuad.

Yr Ion a'th geidw rhag pob drwg,
A rhag pob cilwg anfad:
Cai fyn'd a dyfod byth yn rhwydd,
Yr Arglwydd yw dy Geidwad.
(20.) E. P.

SALM 122. M. C. Hafren.

Undeb yr eglwys; neu myned i addoli.

I DY 'r Arglwydd, pan dd'wedent, 'Awn,'
Im' llawen iawn oedd gwrando;
Sai 'n traed o fewn Caersalem byrth,
Yr un ni syrth oddi yno.

Caersalem lân, ein dinas ni,
Ei sail sydd ynddi ei hunan;
A'i phobl sydd ynddi yn gytûn,
A Duw ei hun a'i drigfan.

O fewn dy gaerau heddwch boed,
I'th lysoedd doed yr hawddfyd;
Er mwyn fy mrodyr mae'r arch hon,
A'm cymmydogion hefyd.

Ac er mwyn tŷ 'r Arglwydd ein Duw,
Hwn ynot yw 'n rhagorol:
O achos hyn yr archaf fi
I ti ddaioni rhadol.
(21.) E. P.

SALM 130. M. C. Burford.

Dysgwyl wrth orsedd gras.

O'R dyfnder gelwais arnat, Ion,
O Arglwydd tirion, gostwng
Dy glust, ystyria y llais mau,
Clyw fy ngweddiau teilwng.

Duw, pwy a saif yn d' wyneb di,
Os creffi ar anwiredd?
Ond, fel y'th ofner di yn iawn,
Yr wyt yn llawn trugaredd.

[Dysgwyliais, f' Arglwydd, wrth fy rhaid:
Dysgwyliodd f' enaid wrtho;
Rhois fy holl obaith yn ei air;
F' enaid a gair yn effro.

Ac am yr Arglwydd gwylio bydd
Mwy na gwyliedydd difri,'
A edrych blygain bob pen awr,
A welo'r wawr yn codi.

Un wedd dysgwylied Israel
Yn ddirgel am yr Arglwydd;
Can's mae nawdd gyd â'r Arglwydd nef,
Mae ynddo ef rywiogrwydd.]

Ei drugareddau ânt ar led,
Fe rydd ymwared ini;
Fe wared Israel; fel hyn
Fe'i tyn o'i holl ddrygioni.

H. P.

SALM 133. M. C. Llangefni.

Cariad brawdol.

WELE, fod brodyr yn byw 'nghyd,
Mor dda, mor hyfryd, ydoedd!
Tebyg i olew o fawr werth,
Mor brydferth ar y gwisgoedd.

Fel pe disgynai draw o'r nen,
Hyd farf a phen offeiriad;
Sef barf Aaron, a'i wisg i gyd,
Yn hyfryd ei arogliad.

Fel pe disgynai gwlith Hermon
  Yn dô dros Sïon fynydd;
Lle rhwymodd Duw fywyd, a gwlith
  Ei fendith yn dragywydd.

E. P.

SALM 134. M. C. Rochford.

Duwioldeb beunyddiol.

WELE, holl weision Arglwydd nef,
  Bendithiwch ef, lle 'r ydych
Yn sefyll yn nhŷ Duw y nos,
  A'i gyntedd diddos trefnwych.

Dyrchefwch chwi eich dwylaw glân,
  Yn ei gyssegr-lân annedd;
A bendithiwch, â chalon rwydd,
  Yr Arglwydd yn gyfannedd.

Yr Arglwydd, â'i ddeheulaw gref,
  Hwn a wnaeth nef a daear,
A roddo ei fendith, a'i ras,
  I Sïon, ddinas hawddgar.

E. P.

SALM 135. M. C. Llangynog.

Mawrhydi Duw yn Sion.

O MOLWCH enw 'r Arglwydd nef;
  Ei weision ef moliennwch:
Y rhai a saif i'w dŷ a'i byrth,
  I'n Duw a'i fawrwyrth cenwch.

Molwch yr Arglwydd can's da yw;
  Clod i'r Ior byw a berthyn:
Cenwch ei glod tros yr holl fyd,
  A hyfryd yw y testyn.

Can's mawr yw'r Arglwydd yn ei lŷs,
  Mi wn yn hyspys hyny;
Ym mhell uwchlaw 'r holl dduwiau mân,
  Mae 'r Arglwydd glân â'i allu.

Can's ar ei bobl y rhydd ei farn,
  Yr Arglwydd cadarn cyfion;
Ac yn ei holl lywodraeth bur,
  Bydd dostur wrth ei weision.

E. P.

SALM 136. M. 148. Burnham.

Rhyfeddodau crëedigaeth ac iachawdwriaeth.

BOED clod i'r uchel Dduw,
Ior nef a daear lâs:
Brenin breninoedd yw,
Rhyfedded pawb ei ras.
Trugaredd Duw a bery byth,
A'i air dilyth safadwy yw.

Mor rymus yw ei law!
Pa wyrthiau mawr wnaeth ef!
Gwnaeth dir a moroedd maith,
A llunio wnaeth y nef:
Trugaredd Duw a bery byth,
A'i air dilyth safadwy yw.

[Fe'n canfu 'n myn'd ar goll,
Dan bechod oll i gyd;
O'i ras tosturio wnaeth
Wrth gyflwr caeth y byd:
Trugaredd Duw a bery byth,
A'i air dilyth safadwy yw.

Anfonai ei Fab ei hun,
I'n gwared ni o'n gwae;
Rhag Satan, angau blin,
A phechod, achub mae:
Trugaredd Duw a bery byth,
A'i air dilyth safadwy yw.]

Diolchwn ninnau 'n awr,
I Frenin mawr y nef;
A chaned daear faith
Ei waith a'i foliant ef:
Trugaredd Duw a bery byth,
A'i air dilyth safadwy yw.

SALM 139. M. C. Ann's.

Hollbresennoldeb a hollwybodaeth Duw.

ARGLWYDD manwl y chwiliaist fi,
Da ym hadwaeni hefyd;
Eisteddiad, codiad, gwyddost hyn,
A'm meddwl cyn ei dd'wedyd.

Yr wyt ynghylch fy lloches i,
A'm ffyrdd sydd iti'n hyspys;
Nid oes air nas gwyddost ei fod
Ar flaen fy nhafod ofnus.

Nid dim tywyllach nos i ti
Nag yw goleuni haf-ddydd;
Y ddau i ti maent yr un ddull,
Y tywyll a'r goleu-ddydd.

[Da gwyddost y dirgelwch mau;
F' arenau a feddiennaist:
Yn nghroth fy mam pan oeddwn i,
Yno tydi a'm cuddiaist.

Can's rhyfedd iawn y gwnaethpwyd fi,
A'th waith di sy ryfeddod;
A'm henaid a wyr hyny yn dda,
A hon a wna it' fawrglod.

Dy lygaid gwelsant fy nhrefn wael,
Cyn imi gael perffeith-lun;
'Roedd pobpeth yn dy lyfr yn llawn,
Cyn bod yn iawn un gronyn.

Mor anwyl dy feddyliau im'!
Mor fawr yw sym y rhei'ny!
Wrth fwrw, amlach, gwn eu bod,
Na'r tywod o rifedi.]

Duw prawf fy meddwl yn fy mòl,
'Oes ffordd annuwiol gèni;
Gwel fi, a thywys, dwg fi'n ol;
Dod ffordd dragwyddol imi.

E. P.

SALM 141. M. C. Clynog.

Psalm hwyrol.

O BRYSIA, Arglwydd, clyw fy llais,
O brysur gelwais arnat;
O'r man lle bwyf gwrandaw fy llef,
A doed i'r nef hyd atat.

Fy ngweddi ger dy fron a ddaw,
Gan godi dwylaw 'n uchel,
Yn arogldarth ac aberth hwyr,
Fel uniawn ddiwyr lyfel.

O Arglwydd gosod rhag gair ffraeth,
Gadwraeth ar fy ngenau;
Rhag im' gam dd'wedyd gosod ddôr
Ar gyfor fy ngwefusau.

Mae 'ngolwg a'm holl obaith i,
Duw, arnat ti dy hunan:
O bydd di 'n unig yn fy mhlaid,
Na fwrw f' enaid allan.

E. P.

SALM 145. M. C. Hafren.

Mawredd a daioni Duw.

MI a'th fawrygaf di fy Nuw,
Can's tydi yw fy Llywydd:
Bendithio d'enw byth a wnaf,
Mi a'i molaf yn dragywydd.

Cenedl wrth genedl a ro'nt fawl
I'th ogoneddawl wyrthiau;
Gan daenu'th nerth ar hyd y byd,
A d'wedyd dy gynneddfau.

Am dy ogonedd mawr, fy NAF,
Mynegaf a'th gadernid;
Sôn am dy bethau ofnadwy,
Gwnant hwy a minnau hefyd.

Llwyr goffadwriaeth honot ti,
A'th fawr ddaioni draethant;
Ac o'th gyflawnder, fy Nuw ION,
A llafar dôn y canant.

Sef graslawn yw ein Harglwydd ni,
Ac o dosturi rhyfedd:
Hwyr ac annyben yw i ddig,
Llawn-frydig i drugaredd.

E. P.

RHAN II. M. C. Llanbeblig.

Rhagddarbodaeth Duw.

Da yw yr Arglwydd i bob dyn,
A'i nodded sy'n dyciannol;
Ac ar ei holl weithredoedd ef
Daw nawdd o'r nef yn rasol.

Dy holl weithredoedd di a'th lwydd,
O Arglwydd a'th glodforant;
Dy wyrth pan welo dy saint di,
Y rhei'ny a'th fendithiant.

Gan sôn am drugaredd a gras
Dy deyrnas a'i chadernid;
Fel dyna 'r gerdd sydd yn parhau
Yn eu geneuau hyfryd.

Breniniaeth yw'th freniniaeth fry
A bery yn wastadol;
A dy lywodraeth wir ddilŷs
A erys yn dragwyddol.

[Wele, mae llygaid yr holl fyd
Yn disgwyl wrthyd, Arglwydd;
Tithau a'u porthi hwynt i gyd,
Bawb yn ei bryd, yn ebrwydd.

A phan agorech di dy law,
O honi daw diwall-faeth;
Yn ol ewyllys da fy Nuw
Caiff pobpeth byw eu lluniaeth.

Fy enaid traethed fendith rwydd,
A mawl yr Arglwydd nefol;
A phob cnawd rhoed i'w enw, y Sant,
Ogoniant yn dragwyddol.]

E. P.

SALM 146. M. C. Ann's.

Mawl i Dduw am ei ddaioni a'i ras.

FY enaid mola 'r Arglwydd nef;
Mi a'i molaf ef i'm bywyd:
Dangosaf glod i'm Harglwydd Dduw,
Tra gallaf fyw neu symud.

Hwn Dduw a wnaeth nef, daear, môr,
A'r holl ystôr sydd ynddynt;
Hwn a saif yn ei wir ei hun,
Pryd na bo un o honynt.

[Yr hwn i'r gwael a rydd farn dda,
A bara i'r newynllyd?
Fe ollwng Duw y rheidus gwàr,
O'i garchar ac o'i gaeth-fyd.

Yr Arglwydd egyr lygaid dall,
Ef a dŷr wall gwael-ddynion;
Ymg'leddu 'r gwan mae 'n Harglwydd ni,
A hoffi y rhai cyfion.]

Yr Arglwydd yn teyrnasu a fydd,
Dy Dduw tragywydd Sïon;
O oes i oes pery dy lwydd,
Molwch yr Arglwydd tirion. E. P.

SALM 147. M. C. Bodwnog.

Mawr ofal Duw dros ei eglwys.

MOLWCH yr Arglwydd; can's da yw
Canu i Dduw yn llafar;
O herwydd hyfryd yw ei glod,
A da yw bod yn ddiolchgar.

Caersalem, dinas gyflawn fydd;
Yr Arglwydd sydd i'w darpar;
Gan gasglu Israel ynghyd,
A fu trwy 'r byd ar wasgar.

[Yr unig Arglwydd sy'n iachau
Yn rhydd o friwiau 'r galon;
Yr Arglwydd rhwym eu briwiau 'n iawn,
Y rhai dolur-lawn cleifion.

Mawr yw ein Harglwydd ni o nerth,
A phrydferth o rasoldeb;
Ac mae 'n bell iawn uwch ben pob rhif,
Sôn am ei brif ddoethineb.]

O Gaersalem, gyflawn o lwydd,
Molianna 'r Arglwydd eiddod;
O Sion sanctaidd, dod, un wedd,
I'th Dduw glodforedd barod.
(22.) E. P.

SALM 148. M. 148. Swithin's.

Mawl i Dduw gan yr holl Grëedigaeth.

Y GREEDIGAETH gref,
Pob anian a phob byw;
Yn uchelderau 'r nef,
Yr holl angelion gwiw;
Haul, lloer, a sêr, goleuni llon,
Molwch yr Arglwydd ger ei fron.

Molianned nef y nef,
A'r wybren sy'n rhoi maeth,
Ei enw sanctaidd ef;
A'i air, o ddim, fe'u gwnaeth;
Eu cynnal mae, o oes i oes,
A chadw maent y ddeddf a roes.

[Y ddaear o bob parth,
Yr holl ddyfnderau maith,
Tân, cenllysg, eira, tarth,
Gwynt cryf, yn gwneyd ei waith;
Mynyddoedd, bryniau, ffrwyth-goed byw,
Y cedrwydd uchel, molent Dduw.

Bwystfilod, fach a mawr,
Holl anifeiliaid byd,
Ymlusgiaid mân y llawr,
A'r adar hardd i gyd;
Breninoedd, pobl, a barnwyr byd,
Molent yr Arglwydd yn un fryd.

Gwyr ieuainc, hardd eu gwedd,
A'r holl wyryfon glân,
Hen bobl ym min y bedd,
Plant bach yn llon eu càn;
Clodforent enw 'r Arglwydd Dduw;
Ef o bob mawredd teilwng yw.]

Ei unig enw Ef
Yn dderchafadwy sydd;
Uwch daear, uwch y nef,
Hyd byrth ei fawredd fydd:
Efe yw nerth a mawl ei saint,
Pobl agos ato, mawr eu braint.

O.

SALM 149. M. C. Cemmaes.

Y saint yn gorfoleddu yn Nuw.

CENWCH i'r Arglwydd, ac iawn fydd,
Ryw ganiad newydd ryfedd!
A chlywer yn nghyn'lleidfa 'r saint
Ei fawr fraint a'i orfoledd.

Boed Israel lawen a ffraeth
Yn Nuw, a'i gwnaeth yn ddibrin;
A byddant hyfryd, blant Sïon,
Yn Nuw, eu tirion Frenin.

Dyma 'r glân ardderchogrwydd fydd
I'w saint y sydd yn credu;
Clodforwch oll yr Arglwydd nef,
O molwch ef am hyny.
(23.)

GOGONIANT.

Gogoniant fyth a fo i'r Tad,
I'r Mab rhad, a'r Glân Ysbryd;
Fel y bu, y mae, ac y bydd,
Un Duw tragywydd hyfryd.

E. P.

SALM 150. M. N. 7, 6, 7. Dartford. Amsterdam.

Annogaeth i foli Duw.

MOLWCH Dduw, sy Frenin fry,
A'i lysoedd ar y llawr:
Molwch Dduw y cariad cu,
Gan ei gyhoeddi 'n fawr:
Am ei holl weithredoedd mâd,
A'i gadernid, molwch ef;
Am ei ddoniau rhyfedd rhad,
Molianned dae'r a nef.

O! canmolwch dros y byd,
EMMANUEL a'i ddawn;
A chyhoeddwch ef o hyd
Yn Dduw y lluoedd llawn:
Molwch ef à thannau pèr,
A nefolaidd gelfydd gân;
Gwnawn beroriaeth i Dduw NER,
Peroriaeth calon lân.

Cenwch—" Ynddo yr ŷm yn byw,
Yn symud, ac yn bod;"
Brenin a Gwaredwr yw,
Rhowch iddo barch a chlod;
Boed ei enw yn sanctaidd byth,
Ar y ddaear, yn y nef;
Moler Iesu tra bo chwyth,
Molianned pobpeth Ef.

(24.) IAGO.

GOGONIANT. M. H.

Gogoniant, moliant, parch, a bri,
I'r Un a Thri tragwyddol fyth;
Y TAD, y MAB, a'r YSBRYD GLAN,
Fel gynt, tra bo na chân na chwyth.

E. P.

ANTHEMAU.

1. ANNOGAETH I BOB PERCHEN ANADL I FOLI DUW.

Salm 148, &c.

MOLWCH yr Arglwydd, &c. Molwch, molwch Ef;
Breninoedd, tywysogion, a holl farnwyr y byd;
Molwch yr Arglwydd, &c. Molwch, molwch ef;
Gwyr ieuainc a gwyryfon hefyd, henafgwyr a llanciau.
Pob perchen anadl, cyd-genwch: Bendithiwch, mawrygwch,
Canmolwch, clodforwch yr Arglwydd, canys da yw,
Da yw canu i'n Duw ni, da, da yw;
Ac yn dragywydd y mae ei drugaredd Ef.
Molwch yr Arglwydd, &c. Molwch, molwch Ef.

II. CAN ISRAEL AR EU HADFERIAD.

Esa. 12.

YNA y dywedi yn y dydd hwnw,
Molafdi, molafdi, O Arglwydd:
Er iti sòri wrthyf, dychwelir dy lid, dychwelir dy lid,
A thi a'm cysuri.
Wele, Duw yw fy iachawdwriaeth;
Gobeithiaf, ac nid ofnaf;
Canys yr Arglwydd Dduw yw fy nerth a'm cân;
Efe hefyd yw fy iachawdwriaeth.
Am hyny mewn llawenydd y tynwch ddwfr
O ffynnonau iachawdwriaeth.
A chwi a ddywedwch yn y dydd hwnw,
Molwch, &c, &c, yr Arglwydd;
Gelwch, gelwch ar ei enw,
Hysbyswch ei weithredoedd Ef ym mhlith y bobloedd;
Cofiwch, mai &c. derchafedig yw ei enw Ef,
Cenwch i'r Arglwydd, cenwch;
Canys godidogrwydd a wnaeth Efe;
Hysbys yw, &c. hyn yn yr holl dir, &c.
Bloeddia, preswylferch Sion, Bloeddia;
Canys mawr yw Sanct Israel o'th fewn di, &c. &c,
Cenwch i'r Arglwydd, cenwch:
Iddo Ef, &c. &c. y byddo gogoniant,
Yn oes oesoedd: Amen, &c. &c.

III. CYNHEBRWNG.

Salm 39.

ARGLWYDD, pâr i mi wybod fy niwedd,
A pheth yw mesur fy nyddiau:
Fel y gwypwyf o ba oedran y byddaf fi.
Wele, gwnaethost fy nyddiau fel dyrnfedd;
A'm heinioes, &c. &c. sy megys diddim yn dy olwg di;
Diau, mai cwbl wagedd yw pob dyn, &c. yw pob dyn,
Pan fo ar y goreu.
Ac yn awr, beth a ddisgwyliaf, &c. &c. O Arglwydd?
Fy ngobaith sydd ynot ti, &c.
Fy ngobaith sydd, &c. &c. ynot ti.

IV. CLADDEDIGAETH.

Job 14, &c.

DYN a aned o wraig sy fyr o ddyddiau,
A llawn o helbul.
Fel blodeuyn y daw allan, ac efe a gilia fel cysgod,
Ac ni saif.
Canys y mae gobaith o bren, er ei dori, y blagura efe;
Ond gwr, &c. a fydd marw, ac a dorir ymaith;
A dyn a drenga, a pha le mae? pa le mae? &c. &c.
Fel y derfydd y cwmwl, ac yr â ymaith;
Felly'r hwn sydd yn disgyn i'r bedd, ni ddaw i fynu mwyach;
Ni ddychwel mwy i'w dŷ; a'i le nid edwyn ef mwy.
Canys yn awr, yn y llwch, &c. &c. y gorweddaf.

V. ADGYFODIAD Y CYFIAWNION.

Job 19. 26, &c.

ER i bryfed ddyfetha 'r corph hwn,
Etto caf weled Duw yn fy nghnawd:
Canys myfi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw,
Yr hwn a gyfnewidia ein corph gwael ni.
Efe a henir yn gorph anianol,
Mewn gwendid, mewn anmharch,
Ac a gyfodir yn gorph ysprydol, mewn nerth, &c.
Mewn gogoniant, &c.
Canys myfi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw,
Yr hwn a gyfnewidia ein corph gwael ni,
Fel y gwneler ef yr un ffurf â'i gorph gogoneddus Ef.
Yna y bydd yr ymadrodd a ysgrifenwyd,
Angau a lyncwyd mewn buddugoliaeth.
I Dduw y byddo 'r diolch, diolch i Dduw,
Yr hwn sydd yn rhoddi i ni fuddugoliaeth
Trwy ein Hargiwydd Iesu Grist.
Haleluiah, &c. &c. &c. Amen.

J. E.

HYMNAU.

HYMN I. M. C. 8. 7. Llanandrews.

Yr Ysbryd Glân a'i ddoniau.

TYR'D Ysbryd Glàn, i'n c'lonau ni,
A dod d'oleuni nefol;
Tydi wyt Ysbryd Crist dy ddawn
Sy fawr iawn a rhagorol.

Llawenydd, bywyd, cariad pur,
Ydynt dy eglur ddoniau;
Dod eli i'n llygaid, fel i'th saint,
Ac enaint i'n gwynebau.

Gwasgara di 'n gelynion trwch,
A heddwch dyro ini:
Os T'wysog ini fydd Duw NER,
Pob peth fydd er daioni.

Dysg i'n adnabod, y Duw Dad,
Y gwir Fab rhad a Thithau,
Yn Un trag'wyddol Dduw i fod,
Yr hynod Dri Phersonau.

Fel y molianner y'mhob oes,
Y Duw a roes drugaredd,
Y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glàn;—
Da datgan ei anrhydedd.

(25.) E. P.

HYMN 2. M. C. Brynyffynnon.

Yr Ysbryd Glân a'i ddoniau.

TYR'D Ysbryd Glân, tragwyddol Dduw,
Yr unrhyw â'r Tad nefol;
Yr unrhyw hefyd â'r Mab rhad,
Duw cariad tangnefeddol.

Llewyrcha i'n c'lonau ni à'th ras,
Fel byddo gâs in' bechu;
Ac ini, mewn sancteiddrwydd rhydd,
Bob dydd dy wasanaethu.

Tydi addawaist ddysgu, Ion,
Dy weision i lefaru;
Fel y'mhob man y caffo 'n rhwydd,
Yr Arglwydd ei foliannu.

[O Ysbryd Glân i'n c'lonau ni,
Y gwir oleuni danfon;
A hefyd zel, tra f'om ni byw,
I garu Duw yn ffyddlon.

Dod fesur mawr o'th ras yn rhwydd,
O Arglwydd Dduw goruchaf;
Dyddanwch i ni felly bydd,
Yn y brawd-ddydd diweddaf.]
(26.) E. P.

HYMN 3. M. C. Llanfihangel.

Cynnydd mewn gras. Hos. 14. 6, 7.

Y RHAI o dan dy gysgod, Ion,
Yn gyson a arosant,
Dan lewyrchiadau d' wyneb pryd,
Y rhai 'n fel ŷd adfywiant.

Blodeuant, tyfant tu a'r nèn,
Fel y winwydden ffrwythlon;
A bydd eu harogl wrth eu trin,
Mor bêr a gwin Lebanon.

Lledant eu gwraidd mewn daear fras,
Wrth afon gras y bywyd;
Eu ceinciau gerdd, eu tegwch fydd,
Fel olewydd yn hyfryd.
(32.) W. E.

HYMN 4. M. C. Suffolk.

Ffyddlondeb Duw.

CLODFORED pawb yr Arglwydd Dduw,
Doed dynolryw i'w ganmol;
Ei hedd fel afon fawr ddi drai,
Gaiff ddyfrhau ei bobl.

Ei air a'i ammod cadw wna,
Byth y parhâ 'i ffyddlondeb;
Nes dwyn ei braidd, o'u poen a'u pla,
I hyfryd dragwyddoldeb.

[Ni newid ddim, er gweled bai
O fewn ei rai anwyla';
Byth cofia waed Tywysog nen,
A'i boen ar ben Calfaria.]

Pan ballo ffafor pawb a'u hedd,
Duw, o'i drugaredd odiaeth,
Yn Dad, yn Frawd, yn Ffrynd, a fydd,
Ar gyfyng ddydd marwolaeth.
(27.) W. W.

HYMN 5. M. C. Crowle. Windsor.

Cyfaddefiad a deisyfiad yr edifeiriol.

NA thro dy wyneb, Arglwydd glân,
Oddiwrth un truan agwedd,
Y sydd o flaen dy borth yn awr,
Mewn cystudd mawr yn gorwedd.

Na alw mo'nof ger dy fron,
I roddi union gyfrif;
Yr wy'n cydnabod, fy Nuw hael,
Y bywyd gwael oedd genyf.

[Felly y deuaf at dy borth,
I ddisgwyl cymhorth ddigon;
Sef dy drugaredd i lanhau
Fy holl weliau budron.]

Trugaredd, f' Arglwydd, heb ddim mwy,
Yw'r cwbl yr wy'n ei geisio;
Trugaredd yw fy newis lwydd,
Trugaredd, f' Arglwydd, dyro.
(26.) E. P.

HYMN 6. M. C. Llanddwywe.

Dydd y Farn.

MAE dydd y farn yn dod ar frys,
Boed hyn yn hysbys ini;
Pan orfydd i bawb roi ar g'oedd,
O'u holl weithredoedd gyfri'.

Bydd yno bawb yn sobr iawn,
Yn derbyn cyflawn ddedfryd;
Tlawd a chyfoethog wrth y fainc,
Bydd hen ac ieuainc hefyd.
(31.)

HYMN 7. M. C. Capel Cynon.

Ar achlysur Cynhebrwng neu Wylnos.

MYFI yw'r adgyfodiad mawr,
Myfi yw Gwawr y bywyd;
Caiff pawb a'm cred, medd f'Arglwydd Dduw,
Er trengu fyw mewn eilfyd.

A'r sawl sy'n byw mewn ufudd gred
I mi caiff drwydded nefol,
Nad allo angau, brenin braw,
Ddrwg iddaw yn dragwyddol.

Yn wir, yn wir, medd GWIR ei hun,
Pob cyfryw ddyn sy'n gwrando
Fy ngair gan gredu 'r Tad a'm rhoes,
Mae didranc einioes ganddo.

Yr hwn sy'n ffyddlawn ufuddhau,
Trwy ffydd, i'm geiriau hyfryd,
Ni ddaw i farn, ond trwodd f'aeth,
O angau caeth i fywyd.

Na fyddwn anobeithiol drist,
Am neb yn Nghrist a hunant,
Medd Paul; o'r corph maent gyd âg Ef,
Yn nghartref y gogoniant.

Os credwn, fel na ddyg ond hûn,
Yspryd ein dyn at seintiau;
Mewn enyd bach cawn ninnau hûn,
A'n dwg i'r un trigfanau. E. P

HYMN 8. M. C. Llanberis.

Myfyrdod ar ddedwyddwch y nefoedd.

O FUGAIL Israel dwg fi 'mlaen
I'r dawel lân orphwysfa;
I'th nefol lŷs, o'm poen a'm pla,
I ganu Aleluia.

I Sion wych, paradwys wiw,
Lle mae fy Nuw'n cartrefu;
Gael rhoddi 'mhwys, a chuddio 'mhen,
Yn mynwes wen yr Iesu.

Myfyrio fod fath hyfryd le
O fewn i'r nef yn barod,
Sy'n gwneud i'm henaid cu bob cam
Hiraethu am ymddattod.

Ffarwel gaethiwed yno mwy,
Chaiff angau'n hwy deyrnasu;
I dragwyddoldeb câf, mewn hwyl,
Iawn gadw gwyl i'r Iesu.

Ymborthi gâf mewn gwlad uwch ben,
Ar ffrwythau pren y bywyd;
Ac yfed byth heb boen na chur,
O afon bur a hyfryd. W. W.

HYMN 9. M. C. Myllin.

Dedwyddwch y nefoedd. 2 Cor. 4. 17.

OS yw 'ngofidiau yn y byd
I bara hyd y diwedd;
O fewn y nef fe ddarfydd hyn,
Troir tristwch yn orfoledd.

Po fwyaf gawn o wrês y dydd,
Mwy yno fydd ein moliant;
Cawn yn lle cystudd byr a'n crwys,
Dragwyddol bwys gogoniant.

Pryd hyn pereiddia Duw o'r bron
Holl chwerwon ddyfroedd Mara;
Pryd hyn y try pob chwerw nant
Yn win i blant Jehofah.

 W. W.

HYMN 10. M. C. Ann's.

Gweddi am gynnaliaeth: nes dyfod i happusrwydd.

DUW, cadw fy enaid bach o hyd,
Uwchlaw y byd a'i ddrygau,
Gan lwyr ddibrisio ei boen a'i wae,
Ei drallod a'i gystuddiau.

Fel na bwy'n gwrandaw ar ei dwrf,
Ei gynhwrf a'i ruadau;
Gan deithio 'r llwybr cul bob cam,
A meddwl am fy nghartre';

Heb gyfeilliorni ar un llaw,
Nes myn'd tu draw 'r Iorddonen,
At seintiau flinodd ar y byd,
Sy'n awr i gyd yn llawen,

Yn gorphwys yn y Ganaan bur,
Preswylfa 'r gwir dduwiolion;
Tir yr addewid hyfryd draw,
Gwlad lle nas daw gelynion.

Gorphwysfa dawel, deg, ddi 'stŵr,
Sydd yno i'r gwr lluddedig;
Afonydd gloywon, pur, di drai,
I ddiodi 'r rhai sychedig. W. W.

HYMN 11. M. C. Llandyfrydog.

Parhâd y saint.

GWYN fyd y rhai dileaist eu bai,
Eu pechod, a'u hanwiredd:
Gan roi iddynt nerth er cnawd a byd,
I bara hyd y diwedd.

Y rhai sy'n cadw 'th hedd o hyd,
Er gwaetha 'r byd a'i ddrygau,
Gan wylio beunydd yn ddi goll
Ar gadw 'th holl gyfreithiau.

Pa ddrwg wna 'r gelyn i'r rhai hyn,
Sy'n rhodio yn dy ddeddfau?
Cyfeillach dawel bur a'u Duw,
Gânt ym mhob rhyw gyflyrau.

 W. W.

HYMN 17. M. C. Cemmaes.

Bedydd.

RHOIST in' dy ordinhadau Ior,
Yn wystlon trysor nefol;
Rho ini, o'th gyfammod hedd,
Fwynhau eu sylwedd grasol.

Mae bedydd dwfr yn dyst i ni,
Aeth i drueni halog,
Fod Tri yn Un, Jehofah glân,
Yn golchi'r aflan euog.

Os aeth Tri Pherson dwyfol pur,
I olchi anmhur ddynion,
Ceir gwel'd myrddiynau gwedi'r gwaith,
Yn gànaid berffaith wynion. T. J.

HYMN 18. M. C. Glyndyfrdwy.

O flaen pregeth.

WEL, dyro etto gymhorth rhwydd,
O Arglwydd yr Arglwyddi;
Lle yr amlhäodd pechod câs,
Gwna di â'th ras ragori.

Dy fraich fo mewn gweithrediad hael,
I gaffael buddugoliaeth;
Dy air yn gryf i weini hedd,
O rinwedd iachawdwriaeth.

Perffeithia, Ior, dy nerth, sy fawr,
Yn wyneb dirfawr wendid;
Rho i'r newynog, tlawd, a chaeth,
Ysbrydol faeth a rhyddid. T. J.

HYMN 19. M. C. Bettws.

Arglwyddiaeth Duw ar y byd. Salm 24. 1.

YR Arglwydd biau 'r ddaear lawr,
A'i llawnder mawr sydd eiddo;
Yr Arglwydd biau yr holl fyd,
A'r bobl i gyd sydd ynddo. E. P.

HYMN 20. M. C. 8, 6. Ludlow.

Ymdrech y Cristion, a'i fuddugoliaeth.

'RWY'n morio tua chartre'm Ner,
Rhwng tônau maith 'r wy'n byw,
Yn ddyn heb neges tan y sêr,
Ond 'mofyn am ei Dduw.

Mae'r gwyntoedd yn fy nghuro 'n ol,
A mi nid wyf ond gwan;
O cymmer Iesu fi yn dy gôl,
Yn fuan dwg fi i'r làn.

N'ad fi ar aswy nac ar dde,
I redeg o dy flaen;
Ond dilyn llwybrau Brenin Ne',
Trwy ganol dwfr a thân.

[O gwna i fy nghalon redeg trwy
Oll atat ti dy hun;
Na bo difyrwch genyf mwy
Mewn daear, da, na dyn.

A phan bo'n curo f' enaid gwan
Elynion rif y sêr,
Derchafa'm hyspryd llesg i'r làn,
I fynwes bur fy Ner.

Na byddo gwrth'nebiadau 'r byd,
Na chroesau o un rhyw,
I'm hoeri, nac i sugno 'mryd
Un dim oddiwrth fy Nuw.]

[Boed dyoddefiadau pur y groes,
Fel olew i'm hiachau;
Griddfanau dyfnion angau loes,
I'm rhoddi i lawenhau.

Marwolaeth fy Ngwaredwr mawr
Yn fywyd pur i mi;
Fel gallwyf roddi oll i lawr
Yn gôf am Galfari.]

(35.) W. W.

HYMN 21, M. C. George's.

Ymaerthu yn yr Arglwydd.

YN nyfnder profedigaeth ddu,
Fy Nuw dos o fy mlaen;
Ond imi gael bod gyda thi,
Nid ofnaf ddwfr na thân.

At wedd dy wyneb nid yw ddim,
Drysorau maith y llawr;
Mae gair o'th enau'n llawer mwy
Ei rym nag uffern fawr.

Dy allu yw fy nerth a 'ngrym,
Yn d'allu byddaf byw;
Wyf wan, wyf lesg, nid allaf ddim
Un fynyd heb fy Nuw.

(35.) W. W.

HYMN 22. M. C. Devizes.

Rhagoroldeb Crist.

MI dafla 'maich i lawr i gyd,
Trwy rinwedd dwyfol loes;
Enogrwydd fel mynyddau 'r byd
Dry 'n ganu wrth dy groes.

Os edrych wnaf i'r dwyrain draw,
Os edryeh wnaf i'r de,
Y'mhlith a fu neu ynte ddaw,
'Does debyg iddo 'fe.

Fe rodd ei ddwylaw pur ar led,
Fe wisgodd goron ddrain,
Er mwyn i'r brwnt gael bod yn wyn,
Fel hyfryd lïan main.

[Esgyn a wnaeth i entrych ne'
I eiriol dros y gwàn;
Fy enaid innau a dyn efe
I'w fynwes yn y man.

Ac yna câf fod gyd âg Ef,
Pan êl y byd ar dân,
Ac edrych yn ei hyfryd wedd,
Gan harddach nag o'r blaen.]

(48.) W. W.

HYMN 23. M. C. Auburn.

Hyder i fyned at orsedd gras.

MAE pyrth y nef o led y pen,
Mi welaf fôr o waed,
Y gallaf fi ffieiddiaf ddyn,
Yn hollol gael iachâd.

Mae 'r orsedd fawr yn awr yn rhydd,
Gwrandewir llais y gwan;
Wel, cyfod bellach f' enaid prudd,
Anadla tu a'r làn.

O anfon eirchion aml rif,
I mewn i byrth y nef;
Gwrandewir pob amddifad gri,
Yn uniawn ganddo Ef.

Myfi anturiaf 'nawr y'mlaen,
Heb alwad îs y ne',
Ond bod perffeithrwydd mawr y groes,
Yn ateb yn fy lle.

(48.) W. W.

HYMN 24. M. C. Brook Street.

Anchwiliadwy olud Crist.

TI Iesu, ydwyt oll dy hun
Fy meddiant ar y llawr;
A thi dy hunan fydd fy oll
I dragwyddoldeb mawr.

O Ffynon trugareddau maith!
Di derfyn yw dy ras,
I roi trysorau pena 'r nef
I'r tlotaf un i maes.

Fy nghysur unig tan bob gwae,
Dy fod ti imi 'n Dduw:
Ac yn dy gysgod mi âf trwy
Gystuddiau o bob rhyw.

Anghyfnewidiol gair y nef,
Ond cyfnewidiol fi;
Am hyn mi safaf doed a ddêl,
Mae'r afael sicraf fry.

(35.) W. W.

HYMN 25. M. C. Carrs Lane.

Golud gras.

Y MAE trysorau dwyfol ras
Yn llawer uwch eu rhyw,
Na dim o'r nefoedd faith i'r byd,
Erioed a greodd Duw.

Tra caffwyf yfed ar fy nhaith
O'r ffynnon loyw glir,
Nid ofnaf ronyn, er eu grym,
O ddrygau 'r anial dir.

A mi ymffrostia 'n nerth y nef,
Yn nerth y nef ei hun;
Fe bwysa haeddiant dwyfol pûr,
Fwy na phechodau dyn.

Anfeidrol ddwyfol gariad rhad,
Yn unig yw fy ngrym;
Ac nid oes arall fyth a'm dal
I deithio i'r bywyd ddim.
(36.) W. W.

HYMN 26. M. C. George's.

Cyrchu at y nôd.

FE'M siomwyd gan bleserau 'r llawr,
Fe 'm twyllwyd gan bob un;
Ffowch bob eilunod, rhois ffarwel
I ddaear ac i ddyn.

Ni throf fy wyneb byth yn ol
I 'mofyn pleser gau;
Ond mi a gerddaf tu a'r wlad
Sy a'i phleser i barhau.

Mae holl deganau 'r ddaear hon,
Fu gynt yn fawr eu grym,
Yn ngŵydd fy Iesu yn gwywo i gyd,
Ac yn diflanu 'n ddim.

Y mae aroglau pur ei ras
Megys aroglau 'r nef;
Ac nid oes gymhar is yr haul
Yn unlle iddo Ef.
(45.) W. W.

HYMN 27. M. C. Staughton.

Ymnerthu yn yr Arglwydd.

FY enaid, gorfoledda mwy,
Dy Briod yw dy Dduw;
Mae gair o'i enau 'n llawer mwy
Na phechod o un rhyw.

Tan bob cystuddiau fwy na mwy,
Rhuadau cnawd a byd,
Mae digon nerth mewn marwol glwy,
I'w maeddu oll ynghyd.

Ni cheisiaf mwy ond Duw yn Dad,
Yn erbyn pob rhyw wae;
Na dim ond grym ei gariad rhad,
Yn sylfaen i barhau.

(38.) W. W.

HYMN 28. M. C. George's.

Hyder yn ffyddlondeb Duw.

DOED uffern, angau, a holl rym
Fy mhechod yn gyttun;
Cryfach a thrymach lawer yw
Ffyddlondeb Duw ei hun.

Ac yn eu gwyneb gwaeddi wnâf,
"Yr Arglwydd yw fy rhan;"
Ac yn ei glwyfau mi ga 'r dydd,
Yn hollol yn y man.

Mi rof fy angor yma i lawr,
Mewn moroedd dyfnion maith;
Nes im' gael tirio oll i'r lân,
I'r wlad o fel a llaeth

[A ellir maeddu dwyfol rym?
A ddiffydd dwyfol dân?
Na wna; fe arwain cariad pur
O'r dywell Aipht fi 'mlaen.

Pan aller briwo nerth fy Nuw,
Tòri ffyddlondeb nen,
Dyna yr unig bryd yr â
Tymhestlog tros fy mhen.] W. W.

HYMN 29. M. C. Baalsephon.

Hiraeth am ryddhâd.

TY'RD, Arglwydd, a'th addewid rad,
Pur eiriau 'r nef i ben;
Dyddiau fy rhyddid roed dan sêl,
Yn nirgel lyfr y nen.

Mae dyddiau griddfan imi 'n hîr,
Caethiwed Babel fawr;
O na chawn deimlo 'r Jubil fwyn
Yn agor dorau 'r wawr.

Tybygwn pe bai 'nhraed yn rhydd
O'r blin gaethiwed hyn,
Na wnawn ond canu tra fawn byw
Am ras Calfaria fryn.

(47.) W. W.

HYMN 30. M. C. Cambridge New.

Neb ond Crist.

YN awr fe ffodd cymylau'r nos,
Fe dòrodd boreu wawr:
Ac y mae dysgwyl wèdi dwyn
Ffyddlondeb nef i lawr.

Fel ffŷ tywyllwch dudew ffwrdd,
O flaen goleuni'r dydd;
Felly fy ofnau hwythau ffodd,
A minnau wnaed yn rhydd.

Pe rhoddid im' fynyddau 'r byd,
A'r rhai'n yn arian pur,
Mi a'u gwrthodwn hwynt yn lân,
Am ddwyfol heddwch gwir.

[Mi rof ffarwel i bob ryw chwant,
Pob pleser is y nen;
Yr wy'n cymmeryd Iesu o'm bodd
Yn Briod ac yn Ben.

Ni welaf wrthddrych mewn un man,
O'r ddaear faith i'r ne',
A dâl ei garu tra fwyf byw
Yn unig ond Efe.] W. W.

HYMN 31. M. C. Llanrwst.

Gwaeledd y creadur, a thegwch Crist.

PAN fyddo f' Arglwydd imi 'n rhoi
Ond golwg arno ei hun,
Mae oll a welir dan yr haul
Yn ddiddym wrth ei glûn.

Mae arddercheogrwydd, rhwysg, a grym,
Y ddaear fawr i gyd,
Wrth deimlo 'r gronyn lleia' o'i hedd,
Oll yn diflanu 'nghyd.

A gwellt yw 'r bobl oll o'r bron,
A gwywo mae eu dawn;
Ac nid oes tegwch a barhâ
Ond yn fy Iesu 'n llawn.

Mi rof f' ymddiried ynddo Ef,
Mae 'n noddfa gref i'r gwan;
Ac er y curo sy arna' i lawr,
Fe ddeil fy mhen i'r làn. W. W.

HYMN 32. M. C. Devizes.

Cariad Duw.

TYDI, fy Arglwydd, yw fy rhan,
A doed y drygau ddêl;
Ac er bygythion uffern fawr,
Dy gariad sy dan sêl.

Oddi wrthyt rhêd, fel afon faith,
Fy nghysur yn ddi drai;
O hwyr i foreu fyth yn gylch,
Dy gariad sy'n parhau.

[Uwch pob rhyw gariad fs y nef
Yw cariad pur fy Nuw;
Anfeidrol foroedd dyfnion maith,
Heb fesur arno yw.

Dechreuodd draw cyn creu y byd,
Fe bery byth ym mlaen,
Heb un cyfnewid, a heb drai,
Pan elo'r byd yn dân.]

O deuwch, gwelwch, chwiliwch ef,
Anfeidrol gariad mawr,
Ag sydd yn maddeu miloedd myrdd
O feiau yn yr awr.

Yn para yn ffyddlon fyth heb drai,
P'odd bynag y try 'r byd;
A phe cymysgai 'r tir a'r môr,
Yr un yw'm Duw o hyd.

W. W.

HYMN 33. M. C. Bath Chapel.

Crist yn unig Noddfa yn angau.

PAN ddelo angau yn ei rwysg,
I dori fy oll i lawr,
Fy unig noddfa werthfawr fydd
Yn fy Ngwaredwr mawr.

Pan ddarfo enwau oll o'r bron,
A chyfaill, mam, a thad,
Yr enw hyfryd unig fydd
Yr iachawdwriaeth rad.

Fe saif cyfammod pur y nef,
Yn gadarn yn ei rym,
Pan fo pob cysur îs y nef
Gwedi diflanu 'n ddim.

Y cyfan gwedi rhoi ffarwel,
A welwyd îs y rhod;
Yna fy Iesu fydd y Brawd
Anwylaf gaed erioed.

O gàd im' mewn tangnefedd pur,
Roi f' anadl ola' i maes,
Ac mewn gorfoledd hwylio dros
Y cefnfôr garw glas.

A myn'd dan ganu tua'r wlad
A drefnwyd i mi fyw;
A gwedi gadaw 'mhell o'm hol
Gystuddiau o bob rhyw.

W. W.

HYMN 34. M. C. Devizes.

Neb ond Crist.

NI feddaf ar y ddaear lawn,
Ni feddaf yn y ne',
Neb ag a bery yn anwyl im'
Yn unig ond Efe.

Mae ynddo ei hunan drysor mwy
Nag fedd yr India lawn;
Fe brynodd imi fwy na'r byd,
Ar groesbren un prydnawn.

Fe brynodd imi euraidd wisg,
Trwy ddyoddef marwol glwy';
Ei angau Ef a guddia 'm gwarth
I dragwyddoldeb mwy.

O na allwn rodio er ei glod,
Ac iddo bellach fyw,
A phob anadliad fyn'd i maes,
I ganmawl gras fy Nuw.

(37.) W. W.

HYMN 35. M. C. Lattakoo.

Cyflawnder Crist.

FFOED negeseuon gwag y dydd,
Trafferthion o bob rhyw;
Ac na pharhaed o tan y nef,
Ond cariad pur fy Nuw.

Meddianned Ef â'i ddwyfol ras,
Fy holl serchiadau'n un;
Na chaed o fewn fy ysbryd fod
Neb ond fy Iesu ei hun.

Iesu sy'n fwy na'r nef ei hun,
Yn fwy na'r ddaear lâs;
Ac Iesu yn unig fydd fy oll,
Fyth, fyth, o hyn i maes.

Cyflawnder nerth, cyflawnder gras,
Cyflawnder nef y nef,
Uwch deall seraphim a saint,
Sy'n trigo ynddo Ef.

W. W.

HYMN 36. M. C. Christ Church.

Cariad at Grist.

'RWY 'n edrych dros y bryniau pell
Am danat, Iesu mawr;
O tyr'd, f' anwylyd, mae 'n hwyrhau,
A'm haul bron myn'd i lawr.

[Trodd fy nghariadau oll i gyd
'Nawr yn anffyddlawn im';
Ond yr wyf fi yn hyfryd glaf
O gariad mwy ei rym.]

O gwna fi 'n ffyddlawn tra f'wyf byw,
A'm golwg at dy glod;
Ac na fo pleser fyn'd â mryd
A welwyd is y rhod.

Tyn fy serchiadau 'n gryno iawn
Oddiwrth wrthddrychau gau,
At yr un Gwrthddrych ag sy fyth
Yn ffyddlawn yn barhau.

(40.) W. W.

HYMN 37. M. C. Warwick.

Cystuddiau yn llesol.

O ANGHREDINIAETH mawr ei rym,
Ti roddaist imi glwy'!
Ond yn dy wyneb credu wnaf
Fod doniau 'r nef yn fwy.

Fe'm golchir yn fy nghystudd trwm,
Fe'm purir yn y tân;
Ac mi ddof allan, pan ddel dydd,
Gwedi fy nghànu 'n lân.

Anffyddlawn imi trodd y byd,
Anffyddlawn ddynolryw;
Ond mi sy'n rhedeg trwyddynt oll
I fynwes bur fy Nuw.

A rhwng ei ddwyfron gwnaf fy nyth,
Oddi yno 'drycha'i maes;
Ac y rhof feiddiad i bob peth
A welodd daear lâs.

(37.) W. W.

HYMN 38. M. C. Cyprus.

Anfeidrol haeddiant Crist.

NIS gall angelion pur y nef,
A'u doniau aml hwy,
Fyth osod allan haeddiant llawn
Anfeidrol ddwyfol glwy'.

Dyoddefodd angau, dygn boen,
A gofir tra fo nef;
Fy nerth, fy nghyfoeth, a fy mraint,
A'm noddfa lawn yw Ef.

Na foed fy mywyd bellach mwy
Yn eiddo i mi fy hun;
Ond treulio fy mynydiau i gyd
Yn glod i'm Harglwydd cun.

[A gad im' brofi 'th nefol hedd
'Ym mhob anadliad pur;
Ac felly myn'd o'r byd i'r bedd
Mewn hûn nefolaidd wir.

Pe cawn bob mynyd dy fwynhau,—
Mwynhad o'th gariad bair
I mi foddloni gadaw 'r byd
Yn uniawn wrth dy air.]
(43.) W. W.

HYMN 39. M. C. Ludlow.

Cwyno o herwydd ofnau.

MAE ofnau yn finteioedd llawn,
Rai creulawn iawn eu rhyw,
Yn taeru yn fy wyneb gwan
Na feddaf ran yn Nuw.

A minnau yn llyfrhau yn lân,
Heb wybod ffordd i droi;
Nac ysbryd genyf' fyn'd y'mlaen,
Nac ysbryd genyf' ffoi,

Chwilio, a manwl chwilio 'r wyf,
Ar aswy ac ar dde;
Ac etto methu symud cam
I fynu tu a'r ne'.

O edrych arnaf, Arglwydd mawr,
Mae bellach yn brydnawn;
O llanw yr euog, tlawd, sy heb ddim,
A'th nefol ddwyfol ddawn.

Rho brawf o'r gwin wasgwyd i maes,
O'r bêr winwydden fry,
Fel gallwyf fythol lawenhau
Yn dy ogoniant di.

W. W.

HYMN 40. M. C. Lydia.

Hawddgarwch Crist.

IESU, difyrwch f' enaid drud
Yw edrych ar dy wedd;
Ac mae llyth'renau d' enw pur
Yn fywyd ac yn hedd.

A than dy aden dawel bur
Wyf yn dymuno byw;
Heb ymbleseru fyth mewn dim
Ond cariad at fy Nuw.

O cau fy llygaid rhag im' wel'd
Pleserau gwag y byd,
Ac imi ŵyro byth oddi ar
Dy lwybrau gwerthfawr drud.

'Does genyf ond dy allu mawr
I'm nerthu fyn'd y'mlaen;
Dy iachawdwriaeth yw fy ngrym,
Fy nghoncwest a fy nghân.

[Melusach nag yw'r diliau mêl
Yw mynyd o'th fwynhau;
Ac nid oes genyf bleser sydd,
Ond hyny yn parhau.

A phan y syrthio sêr y nen
Fel ffigys ir i'r llawr,
Bydd fy nyddanwch heb ddim tro
Oll yn fy Arglwydd mawr.]

W. W.

HYMN 41. M. C. Salford.

Gweddi am arweiniad yr Ysbryd Glân.

PERERIN wyf mewn anial dir,
Yn crwydro yma a thraw;
Ac yn rhyw ddisgwyl bob yr awr
Fod tŷ fy Nhad gerllaw.

[Tyr'd Ysbryd sanctaidd ledia 'r ffordd,
Bydd imi 'n niwl a thân;
Ni cherdda' i 'n gywir hanner cam
Oni byddi di o fy mlaen.

Ni wyraf weithiau ar y dde,
Ac ar yr aswy law;
Am hyny arwain gam a cham
Fi i'r baradwys draw.]

Mae hiraeth arnaf am y wlad,
Lle mae torfeydd di ri'
Yn canu 'r anthem i barhau
Am angau Calfari.
(41.) W. W.

HYMN 42. M. C. Eiriolaeth.

Llywodraeth Crist.

'DA'I 'mofyn haeddiant fyth na nerth,
Na ffafor neb na'u hedd,
Ond hwnw 'n unig gwyd fy llwch
Yn fyw i'r làn o'r bedd.

Mae 'n eistedd ar ddeheulaw 'r Tad,
Ar orsedd fawr y nef;
Ac y mae 'r cyfan sy mewn bod
Tan ei awdurdod Ef.

Fe gryn y ddae'r, ac uffern fawr,
Wrth amnaid T'wysog nen;
O! fath ogoniant hwnw fu
Yn dyoddef ar y pren.

[O Iesu, cymmer fi i gyd,
Fel mynech, gad i'm fod;
Ond im' gael treulio bob yr awr
Yn hollol i dy glod.

Os ar y llawr, neu ar y làn,
Y byddaf ddydd na nos,
Rho imi orphwys yna tan
Ddyferion gwaed y groes.]
(41.) W. W.

HYMN 43. M. C. George's.

"Y Seren foreu eglur." Dat. 22. 16.

SEREN fy ngobaith nac ymgûdd,
Goleuni f' enaid cu;
Y lle nad wyt pob dychryn sydd,
Gwaeth na'r nos Aiphtaidd ddu.

Er bod aml seren ddisglaer wych,
Yn goleu 'r entrych mawr,
Nid oes im' gysur yn fy nych,
Nes cwyd dy nefol wawr.

Ond gogoneddus gelli di
Oleuo 'n tywyll fyd;
A'r nef, fel haul, llewyrcha hi,
Ti yw eu goleu i gyd. O.

HYMN 44. M. C. Cambridge New.

Ar ddydd diolchgarwch.

TAD pob trugaredd, Arglwydd byw,
Yw nawdd trueiniaid gwael:
Pa beth yw dyn i ti, O Dduw,
Pan gofit ef mor hael?

[Er bygwth barn am feiau 'n gwlad,
Ti roist ymwared clau;
O bydded yr ymweliad rhad
Yn arbed i'n gwellhau.]

Mae 'th drugareddau yn ddi ball
Yn llanw 'r ddaear faith;
Nid oes na dyn na dawn a all
Eu dweud na'u rhifo chwaith.

Yr hwn sy'n gwrandaw gweddi dyn
Annheilwng is y nef,
Yr hwn sy'n para byth yr un,
Clodforwch, molwch Ef. O.

HYMN 45. M. C. Smyrna.

Hawddgarwch Crist, &c. Can. 2. 1—5.

F' ANWYLYD sydd fel lili hardd,
Hyfryda' erioed ei liw;
Rhagori mae ar flodau 'r byd,
Y blodau pena' eu rhyw.

Y'mysg gwyryfon Sion fry,
Fel lili y'mysg y drain;
Efe yw 'r Gwrthddrych goreu ei wedd,
A chariad pur y rhai'n.

Ac megys pren afalau pêr,
Y'nghanol prenau 'r coed;
Felly f' Anwylyd yntau y'mhlith
Y meibion sy'n cael clod.

Eisteddais tan ei gysgod Ef,
A'i ffrwyth oedd felys iawn;
Ac yma treuliwn ddyddiau f' oes,
Fyth, fyth, yn ddedwydd iawn.

[Darfydded sôn am bleser mwy,
Yn agos ac y'mhell,
Fel gallwyf yfed dyfroedd pur
O ffynnon lawer gwell.

Darfydded dydd, darfydded nos,
Fel mynyd bach o'r awr,
Tra b'wyf yn caru, a rhoi 'mhwys,
Ar fynwes f' Arglwydd mawr.]

(38.) W. W.

HYMN 46. M. C. Lydia.

Adfywiad ar grefydd. Can. 2. 11, 12.

AETH heibio 'r gauaf chwerw du,
Ystormydd oer a'r gwlaw;
Ac fe nesäodd hyfryd haul
Cyflawnder pur gerllaw.

Fe wnaeth ei babell yn ein plith,
A'i bresennoldeb sy
Yn troi pob cystudd chwerw loes,
Yn hyfryd hedd i ni.

Fe welwyd blodau ar y ddae'r,
Grasusau pur y nef,
Oll yn arogli'n beraidd iawn
Oddiwrth ei wisgoedd Ef.

[O hyfryd dawel nefol hin,
Mi glywa'r adar mân
Yn awr yn pyngcio'n felys iawn,
Y waredigol gân.

Mae turtur yr efengyl fwyn
Yn galw bro a bryn;
Doed torf aneirif tu a'r wlad
Gyd â'r awelon hyn.

Mae'r Haul yn ddysglaer yn y nef,
Cyflawnder dwyfol Ddyn;
Ac y mae'n tywynu'n hyfryd iawn
Ar bob dryllìedig un.]
(39) W. W.

HYMN 47. M. C. Mount Pleasant.

Undeb y gwaredigion.

MAE brodyr imi aeth ym mlaen,
Yn holliach a chyttun,
Deng mil o filoedd yw eu cân,
Er hyn nid yw ond un.

Mae pawb o'r brodyr yno 'n un,
Heb neb yn tynu 'n groes,
Yn moli'r Duwdod yn y Dyn,
A chofio angau loes.

Ni theimlir yno unrhyw boen,
Na chwyno gan un clwy';
Ond pawb mewn hwyl yn moli'r Oen,
I dragwyddoldeb mwy.

Daw 'r holl dduwiolion yno ynghyd,
O'r gogledd, de, heb ri',
A'u holl gadwynau 'n chwilfriw mân,
A'u cân am Galfari.
(33) G.

HYMN 48. M. C. Missionary.

Llwyddiant yr efengyl.

LLEWYRCHED pur oleuni 'r nef
Dros wyneb daear faith;
Ac aed efengyl gadarn gref
Hyd at bob llwyth ac iaith.

Doed dëau, gogledd, dwyrain faith,
Gorllewin o un fryd,
I edrych ar brydferthwch gwaith
Iachawdwr mawr y byd.
(49) G.

HYMN 49. M. C. Arabia.

Cyflawnder Crist.

IESU yw 'Mrawd a 'Mhriod pur,
Ac iddo rhois fy nghred;
Neb ond ei hunan ddwg fy maich,
Ei hunan dâl fy n'led.

Fe wrendy 'nghri pan elwy'n wan,
Ei gariad sydd yn fawr;
A byth nis gad yn hir fi gael
Fy nghuro ar y llawr.

[Ni fethodd gweddi daer erioed
A chyrhaedd hyd y nef;
Ac mewn cyfyngder f' enaid, rhed
Yn union ato Ef.

Ac nid oes gyfaill mewn un man
Cyffelyb iddo 'n bod,
Pe baem yn chwilio daear faith,
A holl derfynau 'r rhod.

Y'mhob rhyw ddoniau mae yn fawr,
Anfeidrol yw ei rym;
Ac nid oes pwysau ar ei ras,
Na'i haeddiant dwyfol ddim.]

Mae ei ffyddlondeb fel y môr,
Heb fesur a heb drai;
A'i drugareddau hyfryd sy'n
Dragywydd yn parhau. W. W.

HYMN 50. M. C. Epsom.

Cyd-glodforedd y gwaredigion.

CYD-GANWN âg angelion glân
O flaen yr orsedd mwy;
Tafodau fyrdd sy'n seinio cân,
Ond un eu testun hwy.

Teilwng yw'r Oen byth, medd y rhai'n,
O'r clod, y pareh, a'r bri;
Teilwng yw'r Oen, atebwn sain,
A'i waed fe'n prynodd ni.

Iesu sydd deilwng byth i gael
Urddas, a nerth, a chlod;
Bendithion fyrdd i'n Hargiwydd hael,
Byth, byth, a fyddo 'n bod.

Cyd-ganed nef a daear lawr,
Glodforedd pêr di boen,
I'r hwn sydd ar yr orsedd fawr,
A mawl di lyth i'r Oen. . J.

HYMN 51. M. C. Knaresborough.

Ffynnon i bechod ac aflendid.

MI welaf ffynnon lawn o waed,
O waed Immanuel mawr;
Lle gall troseddwyr mwyaf gaed
Gael bywyd ynddi 'n awr.

Bu dda i'r lleidr ar y groes
Ei chaffael yn ei ddydd:
Maddeuwyd holl bechodau'i oes,
A'i enaid aeth yn rhydd.

Mae llais y nef yn galw'n glir
Drueiniaid fawr a mân,
I ddyfod iddi heddyw'n wir
I'w golchi oll yn lân.

Yr wyf yn dyfod, O fy Nuw,
I 'mofyn am y gwaed:
O golch yn lân y dua'i liw
Sy'n disgwyl wrth dy draed.

HYMN 52. M. C. Church Street.

Crist yw pen yr eglwys.

PAN sycho'r moroedd dyfnion maith,
Pan syrthio sêr y nen,
Yr hwn fu farw, ac sydd fyw,
Ar Sion fydd yn Ben.

Ei enw bery tra bo haul,
Yn glodfawr byth y bydd;
Ac ni bydd diwedd ar ei glod
I dragwyddoldeb ddydd.

Bendithion rif y tywod mân,
A gwlith y ddaear lawr,
Y'nghadw i'r ffyddloniaid sydd
Byth yn eu Harglwydd mawr.

Aed enwau'r byd i gyd yn ddim,
Derchafer Brenin nef;
Mae pob cyflawnder gras a nerth
Yn trigo ynddo Ef. M. R.

HYMN 53. M. C. Montgomery.

Y Cyfaill goreu.

PAN fo gwrthddrychau'r byd yn ffoi,
Ac yn diflannu'n ddim,
Mae genyf gyfaill anwyl hoff,
A bery'n ffyddlawn im'.

Ac er i mi ei adael Ef,
Parhau wnai Ef yr un;
Rhyfeddol ei ffyddlondeb pur
I mi, annheilwng ddyn.

Gwrandawodd gri pechadur gwael,
Ddarfu ddistrywio'i hun!
Mi ymddiriedaf beliach mwy
Yn Iesu'r ffyddlawn un.

Tragwyddol glod i'r anwyl Oen
A laddwyd ar y pren;
Efe sy deilwng o bob clod,
Boed arnaf byth yn ben. M. R.

HYMN 54. M. C. Newbury.

Griddfanau yr edifeiriol.

DYMA bechadur truan gwan
Yn griddfan tan ei boen,
Yn methu dod i'r ffynnon rad,
Sancteiddiaf waed yr Oen.

Duw, dere'n glau, mae'n gyflawn bryd,
Mae bellach yn hwyrhau,
A grym fy mhla sydd wedi'm rhoi
I hollol lwfrhau.

O maddeu 'mai, a chliria'n llwyr,
F' euogrwydd oll i gyd;
Ac na'd im' flino d'Ysbryd mwy
Tra byddwyf yn y byd.
(46) W. W.

HYMN 55. M. C. Israel.

Am gariad Duw.

RHYFEDDOL fawredd cariad Duw
Yn Nghrist tu ag at y byd;
Rhyfeddol oedd, rhyfeddol yw,
Rhyfeddol fydd o hyd.

Pan oeddym ni yn weiniaid wael,
Dan bechod cas i gyd:
Tros yr annuwiol llawn o fai,
Bu farw Crist mewn pryd.

Y pelledigion dyg yn nes,
Rhyddhaodd y rhai caeth;
Sicrhau i feirwon Eden hen
Dragwyddol fywyd wnaeth.

O caned holl angelion nef,
A chaned yr holl saint,
A doed y pechaduriaid mawr
I ganu am y fraint.

Rhy fychain doniau peraidd llon,
Nef fry a daear lawr;
Rhy fyrion oesoedd byth ol fyd,
I draethu gras mor fawr. O.

HYMN 56. M. C. Staughton.

Dyoddefaint Crist.

GOGONIANT fyth i'r Iesu gwiw,
Dyoddefodd ing a phoen;
Tragwyddol fywyd ini ddaeth
Trwy werthfawr waed yr Oen.

Daeth ddwfr a gwaed o'i ystlys bur,
Pan drengodd ar y groes;
Maddeuant llawn a llwyr lanhad,
Trwy rinwedd marwol loes.

Wrth gofio am ei gariad drud,
Yr ŷm yn canu 'n awr;
Ond cawn foliannu 'n ganmil gwell
'N ol dianc uwch y llawr.

HYMN 57. M. C. Devizes.

Rhagluniaeth.

DIRGELION anchwiliadwy oll
Yw dyfnion ffyrdd ein Duw,
Cyflawna 'n ei ragluniaeth ddoeth
Ei holl ewyllys wiw.

Gredadyn gwan, nac ofna mwy,
Mae du gymmylau 'r nen
Yn llawn bendithion—gwlawio wnant
Yn raslawn ar dy ben.

Na farna Dduw wrth reswm ffol,
Gobeithia am ei hedd;
Ni phery ei lid ond ennyd fach,
Cai etto wel'd ei wedd.

Datguddir ei fwriadau gwiw,
Yn raddol nes yn llawn;
Er bod i'r blagur chwerw flas,
Y ffrwyth fydd melys iawn.

Ni ddirnad anghrediniaeth ddall
Waith llywydd mawr y byd;
Eglura Duw y cwbl ei hun,
Pan ddelo 'r dedwydd bryd.

HYMN 58. M. C. Shields.

Gweddi am gymhorth.

O DYRED Ysbryd sanctaidd pur,
Nertha 'mlinedig draed,
A rho i mi olwg oleu glir,
Ar hyfryd dir fy ngwlad.

Gad imi adaw 'r anial maith,
Gwlad galar a gwlad gwae;
A myned rhagof tu a'r tir
Sy a'i bleser yn parhau.

Wyf fel y gwyliwr ar y mur,
Yn dysgwyl bob yr awr,
Am wel'd yn gwawrio Jubil fwyn,
Fy muddugoliaeth fawr.

Pleserau daear gwedi ffoi,
Pob chwantau i gyd yn un;
Heb un difyrwch îs y rhod,
Ond Iesu mawr ei hun.

(36) W. W.

HYMN 59. M. C. Thyatira.

Digonedd yr iachawdwriaeth.

MAE 'm golwg acw tu a'r wlad,
Lle mae fy heddwch llawn;
Yr wyf am deimlo 'i gwleddoedd pur
O fore hyd brydnawn.

'Does dim difyrwch yma i'w gael
A leinw 'm henaid cu;
Ond mi ymborthaf ar y wledd
Sy gan angelion fry.

'Ddiffygiaf ddim, er cy'd fy nhaith,
Tra paro gras y nef;
Ac er mor lleied yw fy ngrym,
Mae digon ynddo Ef.

Mae 'r iachawdwriaeth fel y môr
Yn chwyddo byth i'r lân;
Mae ynddi ddigon, digon byth,
I'r truan ac i'r gwan.

(42) W. W.

HYMN 60. M. C. Zion Church.

Afon gras; cyflawnder yr iachawdwriaeth.

AWN, bechaduriaid, at y dwfr
A darddodd ar y bryn;
Ac ni gawn yfed fyth, heb drai,
O'r ffrydiau gloyw hyn.

Mae yma drugareddau rhad
I'r tlawd a'r llariaidd rai,
A rhyw fendithion maith yn 'stôr
Sy fythol yn parhau.

'Does yma eisieu fyth yn bod,
Trysorau gras yn llawn;
Er maint yr yfed a'r glanhau
O fore hyd brydnawn.

[Nis blinwn ganu tra f'om byw,
Am 'r oruchafiaeth hyn
Weithiodd ein Harglwydd un prydnawn,
Ar ben Calfaria fryn.

Fe welir myrdd, pen gronyn bach,
O'r dwyrain ac o'r de,
Yn cyd-adseinio'n hyfryd am
Ei ryfedd gariad E.]

(43) W. W.

HYMN 61. M. C. Piety.

Nerth wrth raid.

GOLEUNI ac anfeidrol rym
Yw hyfryd eiriau 'r nen;
Pob sill erioed a dd'wedodd Ef
Sy sicr o ddod i ben.

Fe barodd imi dori 'r fraich,
A thynu 'r llygad de;
Minnau gaf allu mewn iawn bryd
I wneud a barodd E.

'Rwy'n penderfynu myn'd yn gloff
I mewn i deyrnas nef,
Yn well na chadw melys chwant,
A cholli ei gwmni Ef.

Mi ymddiriedaf yn ei air,
Er cymmaint yw fy mai:
Fe benderfynwyd dydd ac awr
Im' gael fy llwyr ryddhau.

Mi orfeleddaf draw o bell,
Wrth feddwl am y dydd,
Pan ddel addewid fawr ei grym,
A'm henaid gwan yn rhydd. W. W.

HYMN 62. M. C. Miles Lane.

Emyn y Coroniad.

CLODFORWCH enw Mab Duw Ion,
Angelion gwynion gwawr;
O deuwch, a choronwch Ef
Yn Llywydd nef a llawr.

Seraphiaid nef, pob un â'i dant,
Dan ganu moliant mawr,
O deuwch, a choronwch Ef
Yn Llywydd nef a llawr.

Ei chwerwaf angau, byth na bo
I'w saint anghofio 'r awr;
O deuwch, a choronwch Ef
Yn Llywydd nef a llawr.

Pob llwyth ac iaith, hil Adda i gyd,
Trwy 'r holl gwmpas-fyd mawr;
O deuwch, a chyhoeddwch Ef
Yn Llywydd nef a llawr. Iago.

HYMN 63. M. C. Cyprus.

Iachawdwriaeth.

MAE 'r Iachawdwriaeth rad mor fawr,
Mae 'n achub, mae 'n glanhau,
Troseddwyr duaf daear lawr;
Gwnawn ynddi lawenhau.

Cael derbyn o'i chyflawnder cun,
A wna y trist yn llon;
Gogoniant Duw, dedwyddwch dyn,
Sydd yn gytun yn hon. J. H.

HYMN 64. M. C. Christ's Church.

Ymbil am gysuron.

O IESU, gobaith yr holl fyd,
Gobaith yr Indiaid draw;
Cyflawna addewid fawr dy ras,
I'r truan maes o law.

Ti wyddost, Arglwydd, beth yw trai
O eisieu dyfroedd pur;
A bod yr anial maith yn gras
Heb gael cysuron gwir.

Mae temtasiynau 'r ddraig yn gryf,
A minnau 'n wyf ond gwan;
Nid oes ond dwyfol nerth y nef
A'm deil i byth i'r lan.

Mae llid o'r dwyrain ac o'r de,
Am gael fy mhen i lawr;
Tragwyddol gariad ydyw ef
A'm dwg i'r lan ryw awr.

Un radd o haeddiant addfwyn Oen,
Sy fwy na'm beiau o'r bron;
Ac yn ei rinwedd llawenhâf,
Tan groesau 'r ddaear hon.

W. W.

HYMN 65. M. C. Gabriel New.

Ymroddiad.

O DEFFRO 'n fore, f' enaid gwan,
Ar doriad cynta 'r dydd,
A llwyr gyssegra ddyddiau d' oes
I'r gwrthddrych goreu sydd.

Caf yfed yma gariad pur,
Na phrofodd cnawd mo'i ryw;
Ac ymddifyru uwch y byd
Ar bur bleserau Duw.

Mi flinais yfed dyfroedd sur,
Teganau daear lawr;
Ni fyddaf hapus, ond wrth flas
Pleserau 'r nefoedd fawr.

Uweh cyrhaedd pob serchiadau gwael,
Yw 'r cariad pur ei flas,
Ag sydd yn llifo 'n loyw ffrwd
O iachawdwriaeth gras.

Yma dymunwn dreulio 'm hoes,
O fore hyd brydnawn,
Lle cawn i wylo cariad pur,
Yn ddagrau melys iawn. W. W.

HYMN 66. M. C. Mount Tabor.

Grym duwioldeb.

PLANT ydym etto dan ein hoed,
Yn dysgwyl am y 'stâd;
Mae 'r etifeddiaeth ini 'n dod
Wrth Destament ein Tad.

N'ad fi foddloni ar ryw rith
O grefydd heb ei grym;
Ond gwir adnabod Iesu Grist,
Yn fywyd anwyl im'.
(33.) G.

HYMN 67. M. C. Mount Pleasant.

Y cyfammod hedd.

MAE addewidion, melys wledd,
Yn gyflawn ac yn rhad,
Yn y cyfammod pur o hedd,
Tragwyddol ei barhad.

'Rwyf finnau yn dymuno dod
I'r wledd ddanteithiol fras;
Ac felly mi gâf seinio clod
Am ryfedd rym ei ras.

O rhwyma fi wrth byst dy byrth,
I aros tra f'wyf byw,
I edrych ar dy wedd a'th wyrth,
A'th foli di, fy Nuw.

Tydi fo'm cymhorth parod iawn,
I'm cynnal ar fy nhaith;
A thi dy hun fo'm trysor llawn
I dragwyddoldeb maith. T. J.

HYMN 68. M. C. Oldham.

Tangnefedd Duw.

FE flinodd f' enaid bach yn nghri
A dwndwr oer y byd;
Ond mae difyrwch lawer mwy,
Gaiff hollol lanw 'mryd.

Nid yw trysorau 'r India bell,
A chyfoeth maith Peru,
Ond rhyw ddi sylwedd sorod gwael
I'w pwyso â fy Nuw.

Mae yn ei heddwch bethau mwy
Nag fedd y byd yn un;
A phrawf o'i gariad ydyw 'r fraint
Oruchaf gafodd dyn.

[Fy nymuniadau maith eu rhif,
Pe cawn hwy oll yn un,
Ydyw meddiannu ei nefol hedd,
Anfeidrol ddwyfol rin.

Mi ymddigrifwn yn ei ras,
Mewn cystudd ac mewn gwae,
A byddwn lawen, doed a ddel,
Mewn sylwedd sy'n parhau.]

W. W.

HYMN 69. M. C. Piety.

Ymroddiad y duwiol.

MI âf ym mlaen yn nerth y nef,
Tu a'r baradwysaidd dir;
Ac ni orphwysaf nes cael gwel'd
Fy etifeddiaeth bur.

Mae llais i'm galw maes o'r byd
A'i bleser o bob rhyw:
Gwrandawaf finnau 'r hyfryd swn—
Llais fy Anwylyd yw.

[Ni wela' ar aswy nac ar dde,
'Mhlith holl wrthddrychau 'r byd,
Ddim dàl ymddiried yn ei nerth,
Na rhoddi arno 'mryd,]

Iesu yw tegwch mawr.y byd,
A thegwch pena 'r nef;
Ac y mae 'r cwbl sydd o werth
Yn trigo ynddo Ef.

A boed fy mhleser yma byth,
O tan ei aden wiw;
Na foed difyrwch genyf mwy
Mewn dim ond yn fy Nuw.
(44.) W. W.

HYMN 70. M. C. Melody.

Creadigaeth, Rhagluniaeth, a Holl-bresennoldeb Duw.

YR Hollalluog, uchel Dduw,
Wnaeth y mynyddoedd draw;
Fe daenai 'r nefoedd, rhyfedd yw!
Ffurfafen wnaeth à'i law.

Dy ryfeddodau, Arglwydd mawr,
I'w gwel'd y'mhob-man sy,
Wrth edrych ar y ddaear lawr,
Ac ar y nefoedd fry.

['Does frigyn, na blodeuyn chwaith,
Nad yw'n egluro 'th glod;
Wrth drefniad d' orsedd, rhyfedd waith!
Mae 'r gwynt a'r gwlaw yn bod.

Mae 'r creaduriaid aml eu rhi',
Yn ddeiliaid d' ofal gwiw;
A pha le bynag 'r elom ni,
Mae presennoldeb Duw.]

Mae'n llenwi 'r nefoedd fawr a'r byd,
Llon'd uffern hefyd yw;
Ac ynddo èf yr ŷm i gyd
Yn symud ac yn byw.

Anadlu yn ei awyr ef,
A symud ar ei dir,
Byw ar rad roddion Brenin nef,
Yr ydym oll yn wir.
(46.) J. H.

HYMN 71. M. C. Ashley.

Gorseddfaingc y gras.

ER maint fy llygredd o bob rhyw,
Er cymmaint yw eu rhif,
Ac er fy nwydau cyndyn chwith,
Sy'n para fyth yn gryf.

Af at yr orsedd fel yr wŷf,
Anfeidrol orsedd gras,
Dadguddiaf yno 'nghlwyfau maith,
A'm holl archollion cas.

Mi welaf lu anfeidrol wyn,
Yn aml fel y sêr,
A fu fel finnau oll yn frwnt,
Yn bur yn nghwmni 'm Ner.

Wel, minnau 'r eiddil gwana 'i lun,
Heb ddim ond ffiaidd friw,
Anturiaf at drysorau 'r nef,
Cyflawnder pur fy Nuw.

Afon loyw redodd allan,
O dan drothwy 'r nef ei hunan,
I olchi 'r euog, i olchi 'r aflan;
Haleluiah, Haleluiah,
Dwfr heb ddarfod, dwfr heb drai.

W. W.

HYMN 72. M. C. Ashley.

Etifeddiaeth y credadyn.

Y CWBL a feddaf oll yn un,
O entrych nef i lawr,
A roed i gadw i gyd dan sêl,
Yn haeddiant Iesu mawr.

Mae yma ffynnon'sy'n glanhau
Budreddi brwnt yn lân,
A hyfryd olchi 'r ffiaidd cas,
Yn loyw fel y gwlan.

'Does unrhyw gyflwr is y nef,
A glywyd am dano sôn,
Y pwysa 'i anwireddau fwy
Na gwerthfawr waed yr Oen.

Maddeuant sy yma, perffaith lawn,
I'r cystuddiedig rai;
Mae 'r haeddiant fry yn clirio 'n lân
Bob rhyw aneirif fai.

Dowch, ac yfwch o'r bendithion,
Sydd yn llifo fel yr afon,
O Galfaria maes yn gyson;
Maith gyflawnder, maith gyflawnder,
Heb na therfyn byth na thrai.

W. W.

HYMN 73. M. C. Ashley.

Gwahoddiad i foli yr Arglwydd Iesu.

O DOWCH genedloedd, dowch yn un,
Trwy rwystrau maith eu rhi';
A gwir ryfeddwch, tra f'och byw,
Ddyoddefaint Calfari.

Fe dalodd yr anfeidrol swm
Fel Meichiau yn ein lle;
Ac felly fe gymmododd holl
Briodoliaethau 'r ne'.

Mae cofio heddyw am ei waed,
O flaen yr orsedd fry,
Yn creu heddwch dwyfol pur,
I'r holl grediniol ri'.

Fe ddwg ei saint i'r euraidd fan
Y dringodd iddo 'i hun;
A hwy gant weled dwyfol wedd
A wisgodd natur dyn.

Clod diderfyn fo i'r Brenin,
Ddaeth o Jesse, hardd Flaguryn,
Alpha, Omega, *dwyfol wreiddyn,*
Ffynnon bywyd, Ffynnon bywyd,
I rai'n teithio 'n ngwres y dydd.

W. W.

HYMN 74. M. C. Ashley.

Cariad Crist.

WEL, dyma gyfoeth gwerthfawr llawn,
Uwch holl drysorau 'r llawr,
Wedi ei roi gadw oll ynghyd,
Yn haeddiant Iesu mawr.

Ei gariad lifodd ar y bryn,
Fel moroedd mawr di drai;
Ac fe bwrcasodd yno hedd
Tragwyddol i barhau.

Ei gariad bery pan fo 'r byd,
A'r haulwen fawr yn ddim;
Ac nid oes gariad yn y byd
Gyffelyb idd ei rym.

Pan syrthio 'r sêr fel ffigys ir,
Fe bery gras fy Nuw,
A'i faith ffyddlondeb tra fo nef,
Anghyfnewidiol yw.

Boed tragwyddol barch a moliant,
Byth i Frenin y gogoniant:
Ar ei 'fengyl wen bo llwyddiant,
I ddwyn heddwch, i ddwyn heddwch,
I derfynau eitha'r byd.

W. W.

HYMN 75. M. C. Ashley.

Ymgnawdoliad Crist.

Y'MHLITH holl ryfeddodau 'r nef,
Hwn yw y mwyaf un—
Gwel'd yr anfeidrol ddwyfol Fod
Yn gwisgo natur dyn.

Ni chaiff fod eisieu fyth na thrai,
Tra seren yn y nef,
Ar neb o'r rhai a ront eu pwys
Ar ei gyfiawnder Ef.

Doed y trueiniaid yma ynghyd
Yn lluoedd heb ddim rhi':
Cânt eu diwallu oll yn llawn
O ras y nefoedd fry.

Fe ylch ein beiau ffwrdd â'i waed,
Fe 'n càna oll yn wyn;
Fe'n dwg o'r anial maith i maes,
I ganu ar Sion fryn.

Mae ynddo drysor fel y cefnfor,
Byth ni cheiniaf ddim yn rhagor;
Hedd a bywyd yw ei ffufor;
Nefoedd berffaith, nefoedd berffaith,
Yw mwynhau ei ddwyfol hedd.
(51.) W. W.

HYMN 76. M. C. Ashley.

Llwyddiant yr efengyl.

FY Iesu, Brenin nef a dae'r,
Ei hun yn unig yw,
Trwy bwrcas llawn ei werthfawr waed,
Iachawdwr dynolryw.

Mae clywed newydd am ei waed
Yn llifo ar Galfari,
Yn un o'r pethau mwya'u braint
A fedd ein daear ni.

Fe ddaw 'r blynyddau pur i ben,
Pan t'wyno efengyl gras,
Fel haul ddysgleirwen yn y nen
O gylch y ddaear lâs.

Ac mi ddysgwyliaf hyfryd wawr,
Boreuddydd Jubili,
Pan ddelo holl dylwythau 'r byd
I deithio i Galfari.

Aed ei air i blith y werin,
Sy'n y dwyrain a'r gorllewin,
Fel bo'i enw mawr heb derfyn;
Canu iddo, canu iddo,
Haleluiah gylch y byd.
(52)

HYMN 77. M. C. D. Great Milton, Worship.

Llwyddiant yr efengyl.

AED sŵn Efengyl bur ar led,
Trwy barthau 'r byd o'r bron,
Boed llwyddiant trwy deyrnasoedd Cred,
Lle mae pregethiad hon;
Fel delo miloedd etto i maes
O'r tywyllwch cas i fyw,
Trwy 'r India draw, ac Asia fras,
I ganmawl gras ein Duw.

[Aed sain yr udgorn arian mawr
Y'mlaen trwy 'r anial dir;
A doed y werin gyd à'r wawr
I 'mofyn am y gwir;
Helaetha 'th babell 'r ochr hyn,
Estyn gortynau i maes;
O oes i oes, tra pare 'r byd,
Bydd canmawl golud gras.]

Aed mawl a gweddi 'r saint i'r lan,
Fel pêr aberthau byw;
A boed serchiadau Sion wan
Ar dân yn moli Duw:
Mewn gemwaith aur bydd hon cyn hir,
Heb dristwch, cur, na phoen,
Yn canu am goncwest mawr a gaed
Trwy werthfawr waed yr Oen.

(53.)

HYMN 78. M. C. D. Tŷ Gwyn, Prospect.

Gogoneddiad yr eglwys.

FE welir Sion fel y wawr,
Er saled yw ei gwedd,
Yn dod i'r lan o'r cystudd mawr,
'Nol agor pyrth y bedd;
Heb glaf na chlwyfus yn eu plith,
Yn ddysglaer fel yr haul,
Yn y cyflawnder dwyfol byth,
A wnaed gan Adda 'r ail.

(54.)

HYMN 79. M. B. Shirland.

Ymbil am faddeuant.

O GWRANDAW weddi 'r tlawd.
Ffyddlonaf frawd a gaed
I'r rhai cystuddiol clwyfus gwan
Sy'n 'mofyn am iachad.

Ti wyddost am fy mhla,
Fy ngofid a fy mhwn,
Ac nid oes ond d' anfeidrol rym
All symud ddim o hwn.

Ond boed maddeuant rhad,
Trwy werthfawr waed yr Oen,
Yn destyn moliant y'mhob man,
I mi sy dan fy mhoen.

Yr anthem faith ei hŷd
Fo i gyd am Galfari,
A'r iachawdwriaeth fawr ei dawn,
Ddaeth un prydnawn i ni.

(57.) W. W.

HYMN 80. M. B. Falcon Street.

Crist a'i gyflawnder.

DY glwyfau yw fy rhan,
Fy nhirion Iesu da;
Y rhai'n yw nerth fy enaid gwan,
Y rhai'n a'm llwyr iachâ.

Er saled yw fy nrych,
Er tloted wyf yn awr,
Fy llenwi gâf â llawnder Duw,
A'm gweled fel y wawr.

Mi brofais Dduw yn dda,
Fy nhirion rasiawn Dad,
Yn maddeu im' fy meiau mawr,
Yn rhwydd o'i gariad rhad.

Fe'm sèliodd i mewn hedd,
Rhyfeddol yw ei ras!
Fe'm bwydodd i â manna pur,
Mewn gwledd o hyfryd flas.

W. W

HYMN 81. M. B. Cranbrook.

Angau Crist a'i effeithiau.

AI am fy meiau i
Dyoddefodd Iesu mawr,
Pan ddaeth yn ngrym ei gariad Ef
O entrych nef i lawr?

Cyflawnai 'r gyfraith bur,
Cyflawnder gafodd iawn;
A'r dyled mawr, er cymmaint oedd,
A dalodd Ef yn llawn.

Dyoddefodd angau loes,
Yn ufudd ar y bryn;
A'i waed a ylch yr Ethiop du,
Yn lân fel eira gwyn.

Bu 'n angau i'n hangau ni,
Wrth farw ar y pren;
A thrwy ei waed y dygir llu,
Trwy angau, i'r nefoedd wen.

[Pan grymodd Iesu ei ben,
Wrth farw yn ein lle,
Agorodd ffordd, pan rwygai 'r llen,
I bur drigfanau 'r ne'.

Gorchfygodd uffern ddu,
Gwnaeth ben y sarph yn friw;
O'r carchar caeth y dygir llu,
Trwy ras, i deulu Duw.]

(55.) J. E.

HYMN 82. M. B. Egypt, Isaiah.

Gweddi am ymwared a glanhâd.

TI, Iesu, Frenin nef,
F' Anwylyd, a fy Nuw;
Yn eithaf pell o dŷ fy Nhad,
Mewn anial wlad 'rwy 'n byw.

Mewn ofnau 'r wyf a bràw,
Bob llaw gelynion sydd;
O anwyl Iesu, saf o'm rhan,
A thyn y gwan yn rhydd.

Mae rhinwedd yn dy waed,
I faddeu beiau mwy
Nag y gall angel fyth na dyn
Rifo mo honynt hwy.

[Mae ffynnon ar y bryn
A ylch yn wŷn a glân
Bechodau o ryw ffieiddia enioed,
Rifedi 'r tywod mân.

'Does diwedd fyth na thrai
Ar gariad angau loes;
Uwch pris o'r gwerthfawrocaf gaed
Yw haeddiant gwaed y groes.

Fe gàna 'r Negro du,
Fe gàna 'r Indiad draw;
Fe faddeu i'r aflan oes y sy
Fe faddeu i'r oes a ddaw.]

(56.) W. W.

HYMN 83. M. B. Sharon.

Gwaed Crist yn glanhau oddiwrth bob pechod.

MAE'r iachawdwriaeth rad,
Yn ddigon i bob rhai;
Agorwyd ffynnon er glanhad
Pob pechod câs a bai.

Daw tyrfa rif y gwlith
Yn iach trwy rîn y gwaed;
Pwy ŵyr na byddaf yn eu plith,
Yn lân o'm pen i'm traed?

Er lleted yw fy mhla,
Er dyfned yw fy mriw,
Y balm o Gilead a'm hiachâ—
Mae Crist yn Feddyg gwiw.

Dan bwys euogrwydd du,
Edrychaf tu a'r groes,
Lle llifodd gwaed fy Mhriod cu;
Anfeidrol lawn a roes.

(56.) P. J.

HYMN 84. M. B. Whitby.

Myned tua Chanaan nefol.

WEL, deuwch tu a'r wlad,
Y ffordd a gaed yn rhydd;
Ar ol rhyw noswaith dywell gaeth,
'Nawr gwawrio wnaeth y dydd.

Y manna pur ar g'oedd,
Dyferion nefoedd fry,
Sydd yn dyhidlo, foreu a nawn,
Yn beraidd iawn i ni.

Y diliau hyfryd hyn
Gawn brofi yn y man;
Afonydd gloyw felys win,
O nefol rin i'n rhan.
(55.) W. W.

HYMN 85. M. B. Leominster.

Crist yn rhagori ar y cysgodau.

NIS gallai gwaed yr holl
Aberthau i gyd o'r bron,
Roi heddwch i'r gydwybod ddu,
Na golchi brynti hon.

Ond Crist y nefol Oen,
A ddyg bechodau 'r byd;
Ei aberth Ef, a'i waed, sy fwy
Na phwysau 'r rhai'n i gyd.

Af ato fel yr wyf
I 'mofyn am iachâd;
A'm holl bechodau addef wnaf
Yn isel wrth ei draed.

Mae gobaith f' enaid gwan,
Fy hyder a fy ffydd,
Yn gwir ymorphwys ar ei waed
Am lwyr lanhad ryw ddydd.

Gwnaeth Iesu gymmod llawn,
Dyoddefodd angau loes;
Y clod di drai, y mawl di lyth,
Fo byth am waed y groes. D. T.

HYMN 86. M. B. D. Lonsdale.

Adfywiad ar grefydd. Can. 2. 10, 11. 12.

FFARWEL bleserau 'r byd,
A'i freulyd fri a'i fraw;
Ni hedwn mwy fel adar mân,
I'n trigfan treiglwn draw:
Cawn yno hyfryd hedd,
A rhyfedd roddion rhad;
O dowch, O dowch, ni awn yn hy',
Tu a'r wledd sy'n nhŷ ein Tad.

Henffych gyfeillion da,
Fe ddarfu 'r gaua i gyd;
Yn awr mai llais y durtur lon,
Lân, dirion, yn y byd;
Fe ddaeth yr hyfryd hâf,
Yn beraidd brâf i'n bro—
Gogoniant fo i'r Iesu byw,
Fe'n carodd Duw ni, do.

Daeth bore 'r adar mân,
Ar dân i foli Duw;
Yn awr mae'r haul a'r hyfryd hin,
Ar rai o'r werin wiw;
Fe ddaeth y Jubili,
On'd brâf yw 'n bri a'n braint?
Cawn fyned adref, ar fyr dro,
I seinio gyd â'r saint.

Ein brodyr sydd o'r bron,
Yn morio i Sion wiw;
Mewn hyfryd hwyl yn myn'd tu a'r wlad,
Lle mae ein Tad yn byw;
Cawn dirio oll i'r lân,
I'r hafan hyfryd fry,
I blith y rhai sy'n gwaeddi 'n rhad,
Am gariad Iesu cu.

W. W.

HYMN 87. M. B. D. Vermont.

Pererindod y Cristion.

FY ngweddi, dos i'r nef,
Yn uniawn at fy Nuw,
A dywed wrtho ef yn daer,—
"Attolwg, Arglwydd, clyw,
Cyflawna 'th 'ddewid wych,
I'm dwyn i'r nefoedd wen;
Yn Salem fry par'to fy lle,
Mewn llys o fewn i'r llen."

Bererin llesg a llaith,
Dechreuais daith oedd bell,
Trwy lu o elynion mawr eu brad,
Gan geisio gwlad sydd well;
Am ffoi mae f' enaid tlawd
At f' anwyl Frawd a'm Pen;
Yn Salem fry par'to fy lle,
Mewn llys o fewn i'r llen.

'R wy'n gwel'd yr oriau 'n hir
I fod o dir fy ngwlad;
Bryd deuaf at fy mrodyr fry,
Sy'n canu yn nhŷ fy Nhad,
Gael gorphen ar fy nhaith,
A'm siwrnai faith is nen?
Yn Salem fry par'to fy lle,
Mewn llys o fewn i'r llen.
(60.) W. W.

HYMN 88. M. C. Vermont.

Gwaed Crist yn puro y gydwybod.

MI gana' am waed yr Oen,
Er maint fy mhoen a 'mhla;
Ni cheisia'n wyneb calon ddu
Ond Iesu 'r Meddyg da;
Fy mlino g'es gan hon,
A'i throion chwerwon chwith,
Ond dyma 'm sail i am lanhad,
Y cariad bery byth. G.

HYMN 89. M. B. D. Olney, Vermont.

Ymorphwysiad ar ffyddlondeb Duw.

'RWY 'n ofni 'm nerth yn ddim,
Pan âf i rym y dòn,
Mae terfysg yma cyn ei ddod,
A syndod tan fy mron;
Mae ofnau o bob rhyw,
Oll fel y diluw 'nghyd,
Yn bygwth i fy nhòri i lawr,
Pan ddel eu hawr ryw bryd.

A minnau sydd am ffoi,
Neu ynte droi yn ol,
Yn methu credu y saif i'r làn
Un truan gwan a ffol;
Ac etto 'r wyf o hyd
Am symud peth ymlaen,
Nid fi yw'r cyntaf, eiddil ŵr,
Orchfygodd ddwfr a thân.

'Rwyf yn terfynu 'nghred,
'N ol pwyso oll ynghyd,
Mai cyfnewidiol ydyw dyn,
Ond Duw sy'r un o hyd;
Ar ei ffyddlondeb Ef,
Sy'n noddfa gref i'r gwan,
Mi gredaf do'i 'mhen gronyn bach,
O'r tònau 'n iach i'r làn.

[Cyflawnder marwol glwyf,
A haeddiant dwyfol loes,
Y pris, y gwerth, a'r aberth drud,
A dalwyd ar y groes,
A gliria 'meiau 'n llwyr,
A'm gylch yn hyfryd làn,
Ac nid oes arall tan y nef
A'm nertha i fyn'd ymlaen.]

(59.) W. W.

HYMN 90. M. B. D. Tröas.

Hydera yn Nuw yn wyneb ofnau.

FY enaid, dos ymlaen,
'Dyw 'r bryniau sydd gerllaw
Un gronyn uwch, un gronyn mwy,
Na hwy a gwrddaist draw;
Dy anghrediniaeth caeth,
A'th ofnau maith eu rhi',
Sy'n peri it' feddwl rhwystrau ddaw
Yn fwy na rhwystrau fu.

'R un nerth sydd yn fy Nuw,
Yr un yw geiriau 'r nef;
'R un gras a'r un ffyddlondeb sy'n
Cartrefu ynddo Ef:
Fy ngwendid o bob math,
A'm llygredigaeth cry',
'Ddiffoddant, er eu natur gas,
Hyd fyth mor gras sy fry.

Mi welaf fyrdd tan sel
Fu 'n ofni fel fy hun,
'N awr gwedi dringo 'r creigydd serth
I gyd, trwy nerth yr Un;
Yn canu yr ochr draw,
Heb arnynt fraw na phoen,
Ganiadau hyfryd Calfari,
Dyoddefaint addfwyn Oen.

['Does modd im' fyn'd ymlaen,
Heibio pob gelyn llym,
Oni fyddi di yn niwl a thân,
Yn gledd a tharian im';
A rhwygo 'r môr yn ddau,
Palmantu 'r tywod mân,
Ac yna ei gauad ar fy ol,
I rwystro Pharaoh 'mlaen.

Diangaf ar yr Aipht,
Fel yma wrth dy glun,
A mi ro'r clod, a mi ro'r mawl,
Yn gyfan it' dy hun;
Ynghyd â'r dyrfa faith
O'r dyfroedd ddaeth i'r làn,
Cawn seinio anthem bur o hyd
Yn hyfryd yn y man.]

W. W.

HYMN 91. M. B. D. Boreuol Feddyliau.

Golwg ar ben y daith.

I'R Iesu boed y clod,
Tra byddo bod na byd,
Efe oedd cyn y dylif mawr,
Efe sy'n awr o hyd
Yn Gyfaill ac yn Dduw
I bob rhyw lwyth ac iaith;
Efe a'n harwain uwch y nen,
Yn gryno i ben ein taith.

[Pryd hyny daw yn rhydd
Y rhei'ny sydd yn gaeth;
Fe gaiff rhai oedd ar drengu 'mron
Ryw dirion dyner faeth:
Agorwyd ar brydnawn
Ryw ffynnon lawn o hedd,
Ar Galfari, i ddiodi 'r sawl
Sy ganddynt hawl i'r wledd.]

O fore llawn o hedd,
Bydd hon yn wledd o fri,
Pan y cyhoeddir Jubil lawn,
Yn hyfryd lawn i ni;
A'r udgyrn arian glàs
Yn rhoddi mâes y sain,
Fod iachawdwriaeth gyflawn, gun,
I'r gwaelaf un o'r rhai'n.

W. W.

HYMN 92. M. B. D. Worcester.

Genedigaeth Crist.

BLANT ffyddlon Sion dewch,
A llawenhewch i gyd;
Ymlaen à chwi, fel milwyr da,
Yn llon er gwaetha 'r llid;
O hyfryd ddedwydd awr!
Messiah mawr a gaed;
Henffych i'r dydd a'r bore daeth
Yr iachawdwriaeth rad.

Er ini golli 'r hedd,
Yn mharadwysedd wiw,
A bod yn fyr o gadw 'r fraint,
Myn'd tan ddigofaint Duw:
Ni gawsom Had y Wraig
Yn gadarn Graig i'n traed:
Henffych i'r dydd a'r bore daeth
Yr iachawdwriaeth rad.

Addewid gafwyd, do,
'N ol ini syrthio 'mhell;
Arfaethol ras, hawl ini a roed,
Gaed ar gyfammod gwell;
Mae 'r sylfaen yn ddigryn,
Ni chollir un o'r hâd:
Henffych i'r dydd a'r bore daeth
Yr iachawdwriaeth rad.

[Er gwaethaf Satan sydd
Yn temtio ddydd a nos,
Mae genym hawl i'r trysor da
Sy'n para o oes i oes:
Ffordd newydd gafwyd, do,
I deithio at y Tad;
Henffych i'r dydd a'r bore daeth
Yr iachawdwriaeth rad.

Drachefn llawenhewch,
Chwi etholedig ryw,
Mae'r oruchafiaeth gwedi dod
Trwy Grist, ein Priod gwiw:
Er cyfeilliorni 'n hir,
Cawn ddod i dir ein gwlad;
Henffych i'r dydd a'r bore daeth
Yr iachawdwriaeth rad.

Wel, dyma 'r newydd da
A lawenycha 'r trist,
Mae 'r ddraig a Satan er ein mwyn,
Mewn cadwyn gan ein Crist;
Pan 'sigodd Ef ei siol,
Ennillodd nefol wlad:
Henffych i'r dydd a'r bore daeth
Yr iachawdwriaeth rad.]

(61.) W. W.

HYMN 93. M. B. D. Tröas.

Bendithion yr Efengyl.

AR grindir diffaith crâs,
Disgynodd gras ein Duw,
Yn loyw ffrwd afonydd daeth,
Mewn anial gwaetha 'i ryw;
Maddeuant rhyfedd rhad,
I'r gwaethaf gaed îs nen,
Yr hwn a gredo yn yr Iawn
Fu un prydnawn ar bren.

Deued breninoedd byd
Yn unfryd ato Ef,
A rhoddent eu coronau lawr
O flaen ei orsedd gref:
Ei enw led-led sydd,
Ei glod Ef fydd uwch law
Y cwbl ag sydd yma i gyd,
Ac yn y byd a ddaw.

W. W.

HYMN 94. M. H. Bath Aricula.

Priodoliaethau Duw.

CLODFORWCH Frenin nefoedd fry,
Fe'n Arglwydd yr Arglwyddi sy;
Creawdwr bywyd pawb a'u bod,
Ef sydd, Ef fydd, Ef oedd erioed.

[Creawdwr y ffurfafen fawr,
Sy'n hongian uwch y ddaear lawr,
Yr haul, y lloer, y sêr, y sy
Yn gwibio 'n entrych nefoedd fry.

Gwnaeth trwy ei air y ddaear gron,
'Nghyd â'r môr mawr sy'n rhuo ei dôn,
Dyffrynoedd a mynyddoedd maith,
Plant Adda o bob llwyth ac iaith.]

Fe sy'n berchennog ar ystor
Mewn awyr, daear, dwfr, a môr;
Holl greaduriaid màn â'u hfl,
Sy'n eiddo Ef ar fryniau fil.

[Dal sylw craff mae ar bob un,
Gan chwilio dyfnder calon dyn;
'Does bod, trwy 'r greadigaeth fawr,
Nas gŵyr ei feddwl ef bob awr.]

Myn barch, ac idd ei enw glod,
Oddiwrth bob gweithred sydd yn bod;
Dwg ei ogoniant mawr i ben,
O uffern, ac o'r nefoedd wen.

Mae moroedd a mynyddoedd maith,
Yn seinio maes mewn eglur iaith,
A'r holl greaduriaid o bob rhyw,
Yn dyweyd mai *rhyfedd iawn yw Duw.*

W. W.

HYMN 95. M. H. Admiration.

Rhyfeddu gras Duw.

RHYFEDDU 'r wyf, O Arglwydd cun,
I ti fy ngalw erioed yn un,
I maes o'r dorf annuwiol sy
Yn lliwio 'r ffordd i uffern ddu.

Hyd yma dygaist fi yn rhodd,
Nis gwn paham, nis gwn pa fodd;
Ni fedrai neb ond ti yn wir,
Fy arwain trwy 'r fath anial dir.

Wel, etto helpa f' enaid gwan,
Nes dod o'r moroedd oll i'r làn,
A chael fy nhraed ar sanctaidd dir,
O fewn i gaerau 'r ddinas bur.

Yn fynych, fynych, Iesu cu,
Dadguddia 'th fod yn eiddo i mi;
Mewn 'stormydd mawr yn wastad gâd
Im' ddysgu llefain Abba Dad.

W. W.

HYMN 96. M. H. Oswestry.

Yn erbyn rhagofalon.

O ARGLWYDD dywed im' pa lun
Y gallaf gario 'meichiau f' hun?
Mawrion ynt hwy, ond mi sydd wan,
Pa fodd y coda'i 'r lleia' i'r làn?

D' ysgwyddau di ddeil feichiau mawr,
Arnynt mae 'n hongian nef a llawr;
Am hyn fy holl ofidiau i
Gânt bwyso 'n gyfan arnat ti.

Mae 'r holl greadigaeth yn dy law,
Ti sy'n ei threfnu yma a thraw:
Yn dodi maes d' anfeidrol glod
Mae pob rhyw drefn ag sydd yn bod.

O nertha f' enaid, gwan ei ffydd,
'Roi ofal arnat ti bob dydd,
Heb flino 'nghylch amseroedd draw,
Y rhai o bossib' byth ni ddaw.

Fy ysbryd, paid a chrwydro 'n hwy
Oddiwrth yr hwn a'th gâr yn fwy
Na'r holl wrthddrychau gwael i gyd,
Sy am lanw 'meddwl yn y byd.

W. W.

HYMN 97. M. H. Bampton.

Hiraeth am burdeb.

GWEDDIO 'r wyf, och'neidio 'n brudd,
Rhyfela 'n deg am gael y dydd;
Lleng sydd o fewn, llu sydd o faes,
Rhyw fyddin gref am faeddu 'm gras.

Pa bryd câf deimlo cariad rhad,
I'm henaid gwan, a rhin y gwaed,
I'm gwneyd yn gryf yn erbyn grym,
Ac eithaf llid gelynion llym.

Bryd câf ddinystrio 'r delwau 'n llawn,
Sy am lechu dana 'n ddirgel iawn;
Llabyddio Agag yn ddi barch,
A Dagon gwympo o flaen yr arch.

Rho win ac olew yn fy mriw,
Gwisg fi yn deg â delw Duw;
Par'to fi i fyn'd i blith y llu
Sy'n ddysglaer yn y nefoedd fry.
(63.) W. W.

HYMN 98. M H. Luton.

Ymbiliad am fendithion grasol Duw.

PERERIN wyf mewn anial dir,
Sychedig am gysuron gwir;
Yn crwydro f'amser, a llesgâu,
O hiraeth pur am dy fwynhau.

Haul y Cyfiawnder dysglaer cu,
Tywyna trwy bob cwmwl du;
O tan dy esgyll dwyfol mae
Y balm o Gilead sy'n iachau.

Mae gras yn rhyw anfeidrol 'stôr,
A doniau ynot fel y môr!
O gâd i'r truenusaf ddyn
Gael profi gronyn bach o'u rhîn.

Ae os bydd iti faddeu 'mai,
Ac o'm harchollion fy iachâu,
Dy glod, dy ras, a'th enw gwiw,
Aiff fod fy mhleser tra f'wyf byw. W. W.

HYMN 99. M. H. New Sabbath.

Càn y pererinion.

PA beth all mwyach ddwyn ein bryd,
Na'n denu i aros yn y byd?
Ein hiraeth ni, a'n syched yw,
Cael myn'd i'r làn at deulu Duw.

Ymdrechu wnawn trwy nerth ein Duw,
Nes cael y wisg a'r goron wiw;
O law 'n gelynion fyn'd yn rhydd,
A chael yr uchel gamp a'r dydd.

Rhedwn ar frys, mawr ydyw 'r fraint,
Y nef yw diwedd gyrfa 'r saint;
Er maint yw'r llid, par'toed ein lle,
Yn mynwes NAF o fewn i'r ne'. W. W.

HYMN 100. M. H. Peru.

Hanes daioni Duw i'r credadyn.

BENDIGAID fyth fo enw Duw,
Hwn wnaeth fy enaid marw 'n fyw,
Ac a'm cyfododd fel o'r bedd,
I gael mwynhau ei ras a'i hedd.

Pan o'wn yn gorwedd yn fy ngwaed,
Edrychodd Duw o'r nef yn rhad;
A d'wedodd, "Yn dy waed, bydd fyw;"
Rhof iddo glod, fy nyled yw.

Pan oedd euogrwydd heb ddim hedd,
Ym mron fy ngwasgu 'n ìs na'r bedd,
A'm holl bechodau 'n codi'n llu,
Dadguddiodd Duw ei Fab i mi.

Pan o'wn yn nyffryn Achor brudd,
Mewn 'storom fawr heb oleu'r dydd,
Na dim cysuron o un man,
Ces brofi'n rhodd fod Duw o'm rhan.

Pan oedd gelynion fwy na rhif,
Yn curo arnaf fel y llif,
A minnau i'w holl saethau 'n nod,
Cynnaliodd Duw fi er ei glod. W. W.

HYMN 101. M. H. Portugal.

Erfyniadau enaid credinioi.

O EN Duw, tragwyddol Fab y Tad,
Hwn ddoeist o'r nef i golli'th waed,
Dros bechaduriaid gwael eu rhyw,
Oedd gwedi myn'd tan felldith Duw.

Cymmwyaiad llawn o'th waed, trwy ffydd,
A wna fy enaid llesg yn rhydd;
A golwg ar dy glwyfau trist,
A ladd fy mhechod, anwyl Grist.

Mewn rhyfel blin wyf nos a dydd,
A'm henaid swrth mewn dalfa sydd,
Dan law 'ngelynion lawer pryd,
Heb ganfod help o du'n y byd.

O anwyl Iesu, brysia, bydd
Yn awr fel iwrch, neu lwdn hydd;
O tyr'd ar frys, a chluda lawr
Fy holl elynion, fâch a mawr. W. W.

HYMN 102. M. H. Angel's Hymn.

Dymuniad y saint.

PE cawn adenydd boreu wawr,
Ehedeg wnawn dros foroedd mawr,
Nes dod i olwg Sion wiw,
Lle mae fy Mhrlod mawr yn byw.

Pe cawn ond teimlo 'r awel gref
Aeth âg Elias gynt i'r nef,
Gadawn yn ol fy ngwisg o gnawd,
Ac Eliseus fy anwyl frawd.

Y nos pe cawn y golofn dân,
A niwl y dydd i'm dwyn ym mlaen,
O'r anial mawr mi ddown i maes,
Nes glanio trwy 'r Iorddonen làs.

Yn Peniel'r wyt, fy enaid, clyw,
Ymdrecha 'n deg âg angel Duw;
Pwy wyr nas câf cyn codi'r wawr,
Wir etifeddu'r fendith fawr. W. W.

HYMN 103. M. H. Bramcoate.

Tegwch Crist. Can. 5. 10, 16.

FY Mugail gwych, fy Iesu gwiw,
Hoff yw dy lais, hardd yw dy liw;
Rhagori 'r wyt, f' Anwylyd cu,
Ar ddengmil o'r angelion fry.

Ië, gwyn a gwridog, hawddgar oll,
Cyfaill i'r rhai fu gynt ar goll;
O melys odiaeth yw dy ffn,
A'th gusan fel llysieuog wîn.

Pan fyddwy 'n teimlo fod dy waed
Yn maddeu meiau mawr yn rhad,
Fy nghalon fach ennyna 'n wir,
Yn ddysglaer fflam o gariad pur.

O Arglwydd, hyfryd yw dy hedd,
Melys ddanteithion sy'n dy wledd;
Un angel fry erioed ni cha's
Un prawf o waredigol ras.
(63.) W. W.

HYMN 104. M. H. Coombs's.

Gorfoledd y saint ddydd y farn.

SAINT, gorfoleddant yn gytun,
Pan welant arwydd Mab y Dyn,
Fel bore wawr o'r dwyrain draw
Sy'n dangos fod yr haul gerllaw.

Dysgleirdeb hardd ei wyneb pryd
Lewyrcha ar y saint i gyd;
Dysgleiriant fel yr haul bob un,
Yn gymhwys megys Ef ei hun.

Ni wela etifeddion hedd
Ddim llid na digter yn ei wedd:
Esgynant oll yn lluoedd llon,
I wledda 'n siriol ger ei fron.

Pa bryd y gwelai 'r ddedwydd awr,
Boreuddydd tragwyddoldeb mawr,
I ddihuno a chodi o'r bedd yn fyw,
A'm llawn ddigoni à delw Duw.
(67.) W. W.

HYMN 105. M. H. Savoy,

Gwagedd y byd, a ffyddlondeb Crist.

BETH dâl im' roi fy serch a 'mryd,
Ar ddim a welais yn y byd?
Da, daear, dyn, pa gysur yw
Y dydd y dêl digofaint Duw.

Pan fyddwy'n wyneb angau du,
Heb gael ond cefn pob cyfaill cu;
Pryd hyn pwy helpa f' enaid gwan,
I ddringo o'r anial fyd i'r làn.

O'r dywyll wlad pan fyddwy 'n myn'd,
Fy Iesu bydd fy ffyddlawn ffrynd;
Pa frawd, pa chwaer, pa gyfaill gwell,
A'm hebrwng i'r ardaloedd pell?

(70.) W. W.

HYMN 106. M. H. Rippon's.

Cwymp Eden.

Y GRAS, yr hedd, a'r purdeb oll,
Roed im' yn Eden aeth ar goll;
Ni welaf bellder, tra f'wyf byw,
Fy hen 'madawiad gynt â Duw.

Creaduriaid màn nid aent mor bell,
Eu braint cadwasant lawer gwell,
Heb ballu rhoi i'w Harglwydd glod,
O ddechreu 'r byd, heb bechu erioed.

Rhyfeddu 'r wyf, rhyfeddaf byth,
Na buaswn mewn uffernol nyth;
Rhyfeddaf fwy os f' enaid ddaw
Trwy 'r d'rysni mewn i'r nefoedd draw.

[Rhyfeddu wnaf im' ddyfod byth,
Trwy demtasiynau rif y gwlith;
A gweled myrdd mewn pydew du,
Gynt dybiais fod yn well na mi.

Rhyfeddaf arfaeth gref ddi gryn,
Tragwyddol gynghor TAD yn UN,
A'm cadwodd ar y llwybr cul,
Ynghanol gwrthgiliadau ûl.]

W. W.

HYMN 107. M. H. Peru.

Cariad at Grist.

NID oes un gwrthddrych yn y byd,
Yn deilwng o fy serch a 'mryd
Mae tynfa f' enaid eanaid cu
At drysor tragwyddoldeb fry.

Pe cawn y byd i gyd yn grwn,
A byw flynyddau fil yn hwn,
Ni fyddai hwn ond gofid blin,
Heb gaffael ffafor Duw ei hun.

[Fy Iesu garaf bellach mwy,
Dyoddefodd trosof farwol glwy';
Fy Mhriod hynod yw o hyd,
A'm Cyfaill goreu yn y byd.

Pan syrthio 'r sêr fel ffigys îr,
Pan ferwo 'r môr, pan losgo 'r tir,
Pan droer yr haul a'r lloer yn ddu,
Pryd hyn mi gara 'Mhrynwr cu.

Doed fel y dêl, mi a'i cara o hyd,
Dan bob rhyw drallod yn y byd,
Yn nydd y farn, yn angau chwith,
Mi a'i caraf yn y nefoedd byth.]

(65.) W. W.

HYMN 108. M. H. Rochford.

Cyflawniad yr addewidion.

DAW amser braf, can's gwawrio bron
Mae hâfddydd yr efengyl lon;
I'r 'nysoedd pell daw trysor drud,
A'i swn â i eithafoedd byd.

Gwybodaeth Iesu fydd yn 'stôr,
Fel dyfroedd mawr yn llanw 'r môr;
Daw de a gogledd at yr Ion.
Moll bwrcas gwaed yr addfwyn Oen.

Llama fel hydd dros fryniau pell,
Cyflawna 'r addewidion gwell;
O galw d' etholedig had,
I brofi rhagorfreintiau 'th waed.

(75.) W. W.

HYMN 109. M. H. Portugal.

Ymnerthu yn yr Arglwydd.

MI âf ym mlaen, er pelled yw,
I'r wlad 'r wyf am fyn'd iddi fyw;
O'r diwedd tiria, f' enaid gwan,
O ddyfnder moroedd mawr i'r làn.

Er imi, do, wrthgilio 'n sâl,
A cholli heddwch gwedi ei gael,
O Dduw, iachâ fi, car fi 'n rhad,
A chàna 'm henaid yn dy waed.

Can mil o weithiau, gwyn fy myd,
Pe cawn orchfygu 'meiau gyd,
A bod yn bur, o fewn o faes,
A darfod sôn am bechod câs.

(69.) W. W.

HYMN 110. M. H. Portugal.

Cyfeillion ymadawedig.

O ARGLWYDD, dena 'm serch a'm bryd,
Ar y gwrthddrychau sy uwch y byd;
Trysorau hyfryd can-mil gwell,
Cuddiedig draw ar frynìau pell.

Draw mae ein Iesu mawr a'n Duw,
A brodyr fyrddiwn ini 'n byw;
Oes, mae yno rai 'n clodfori o hyd,
Fu 'n teithio gyda ni 'n y byd.

Dringasant hwy i ben eu taith,
Gorphen'sant ar eu llafur waith;
O gwynfyd a f'ai yno byth,
Yn moli 'n beraidd yn eu plith.

[Wel, cyn bo hir ni ddown ynghyd,
O eithaf pedwar cwr y byd;
O'r gogledd, de, a'r dwyrain bell,
I gael mwynhau cymdeithas well.

Yno y darfydd poen a gwae,
A holl gystuddiau 'r duwiol rai;
Caiff yr holl etholedig ryw
Wyneb yn wyneb weled Duw.]

(82.) W. W.

HYMN 111. M. H. Luton.

Gweddi am fendithion y cyfammod gras.

PECHADUR wyf, da gwyr fy Naw,
Llawn o archollion o bob rhyw,
Yn byw mewn eisieu o waed y groes,
Bob mynyd awr o'r dydd a'r nos.

Yn nghanol cyfyngderau caeth,
A myrddiwn o ofidiau maith,
Gad imi roddi pwys fy mhen
I orphwys ar dy fynwes wen.

O cofia fi ger bron y Tad,
Gan eiriol yno werth dy waed;
O dadleu 'n awr yn nghanol ne',
I tf roi 'th fywyd yn fy lle.

[Gad imi dreulio 'm dyddiau gyd
I edrych ar dy wynebpryd;
Difyru f' oes o awr i awr,
I garu fy Eiriolwr mawr.

O cofia fi pan f'wy'n y bedd,
A chasgla 'm llwch i'r làn mewn hedd;
O arddel fi 'n y farn a ddaw,
A gosod fi ar dy ddeau law.]

(64.) W. W.

HYMN 112. M. H. New Haven.

Addewidion gwell.

NA fydded ardal cyn bo hir,
O'r dwyrain i'r gorllewin dir,
Na byddo 'r iachawdwriaeth ddrud
Yn llanw cyrau 'r rhai'n i gyd.

O doed i ben hapusaf ddydd,
Darfydded sôn am bethau sydd,
Na'r byd, na'i rwysg, na'i wae, na'i boen,
Ond canu byth am waed yr Oen.

Dowch, addewidion, dowch yn awr,
Dyhidlwch eich trysorau lawr;
Myrddiynau ar fyrddiynau sydd
Yn dysgwyl am eich bore ddydd.

(76.) W. W.

HYMN 113. M. H. Admiration.

Neb ond Crist yn deilwng ei ddyrchafu.

UN llais, un sŵn, un enw pur,
O'r deau fo i'r gogledd dir,
O fôr i fôr, o gylch y byd,
Sef enw Iesu mawr o hyd.

O deued dydd yr India i ben,
I wel'd yr hwn fu ar y pren;
A ninnau 'n un, yn un â hwy,
Yn canu am ei farwol glwy'.

Amen, amen, boed môr a thir
Mewn perffaith hedd, mewn cariad gwir,
Heb ganddynt bleser o un rhyw,
Ond caru 'n Iesu mawr a'n Duw.

(76.) W. W.

HYMN 114. M. H. Magdalene.

Hiraeth am bapusrwydd y nefoedd.

OND ofer ceisio gwynfyd llawn,
Can's gwynfyd perffaith byth nis cawn,
Nes cyrhaedd at ein Prynwr pur,
A sengi ar y sanctaidd dir.

'Does dim o gylch yr awyr fry,
Neu ynte oddeutu 'r ddaear ddu;
Dim, f' enaid, dim a lona ddyn,
Neu dâl ei garu ond Duw ei hun.

Ond teimlo 'i hedd a'i fywiol ras,
Yw 'r nefoedd sy ar y ddaear làs;
A'm nefoedd fyth yn nef y nef,
Fydd edrych ar ei wyneb Ef.

[Pa'm saif fy oriau draw mor bell,
Cy'd, O fy Nuw, o'm dinas well?
Hollted yr wybr fry uwch ben,
I nodi 'm ffordd i'r nefoedd wen.

Fy Nuw, tòr y llinynau hyn,
A'm cadwant wrth y clai mor dŷn;
Rhyw angel cryf cymmered fi.
I'm harwain tua'r nefoedd fry.]

(66.) W. W.

HYMN 115. M. H. Bampton.

Gweddi am faddeu yr holl anwiredd.

NID yw fy nyddiau yn y byd
Ond megys dyrnfedd gron i gyd;
A darfod maent, nis gwn pa lun,
Wrth bechu yn erbyn Duw ei hun.

Rwy'n profi meiau, fawr a mân,
Nawr am fy nigaloni 'n lân;
Eu rhif, eu nerth, ynghyd â'u lliw,
A wnaeth fy enaid bach yn friw.

Maddeuaist ganwaith, maddeu hyn,
O Arglwydd càna fi etto'n wyn;
Cyflawna 'th waith ar f' enaid gwan,
Nes dod o'r anial maith i'r làn.

Gwn mai rhinweddol yw dy waed,
I ddadleu 'm hawl o flaen y Tad,
Rhwyddhau fy ffordd at orsedd gras,
A maddeu'n llwyr fy meiau cas.

(71.) W. W.

HYMN 116. M. H. Hamilton.

Gweddi am gynnorthwyon grasol Duw.

O ARGLWYDD, gwna fi'n golofn gre',
Ac yn dy deml dod imi le,
I lynu wrthyt ti yn làn,
Y 'mhob rhyw drallod, fawr a mân.

Dal fi fy Nuw, dal fi i'r làn,
'N enwedig dal fi lle 'r wy'n wan:
Dal fi yn gryf, nes myn'd i maes
O'r byd sy'n llawn o bechod cas.

Dysg fi, fy Nuw, dysg fi pa fodd
I ddweud a gwneuthur wrth dy fodd;
Dysg fi ryfela à'r ddraig heb goll,
Ac i orchfygu 'mhechod oll.

Tra caffwyf rodio 'r ddaear hon,
Rho 'th hedd fel afon dan fy mron;
Ac yn y diwedd moes dy law
I'm dwyn i mewn i'r nefoedd draw.

(67.) W. W.

HYMN 117. M. H. Savoy.

I gymmanfa o Weinidogion neu Athrawon.

'RYM yn dy erfyn, Arglwydd mawr,
Disgyn o entrych nef i lawr,
Hyd ysgol faith JEHOFAH 'n Ddyn,
'Roi bendith Jacob i bob un.

[Fel ŵyn yn wirion gwna ni gyd,
Ym mhlith y bleiddiaid sy'n y byd;
Ac fel y seirph yn gyfrwys gall,
I wel'd a dadrys rhwydau 'r fall.

Gad ini ddod i'r mynydd fry,
I'r cwmwl goleu atat ti,
Fel y dysgleirio 'n gwyneb pryd,
Nes sŷnu Israel oll i gyd.]

Gwna ni fel halen, trwy dy ras,
Yn ŵyn, yn beraidd iawn ei flas;
Yn foddion yn dy law o hyd
I dynu 'r adflas sy ar y byd.

Pâr fod d' ogoniant pur dilyth
Yn nôd a diben ini byth;
Dy fywyd hardd, a'th eiriau gwir,
Yn wastad ini 'n rheol bur.

[Doed gogledd, de, a dwyrain bell,
I glywed y newyddion gwell;
Aed sŵn d' efengyl, Iesu, maes
Yn gylch oddeutu 'r ddaear lâs.

O dod i ben, hwnw yw 'r dydd,
Nid goleu ac nid tywyll fydd;
Nid dydd, nid nos, (a Duw a'i gŵyr)
Pan dardd goleuni yn yr hwyr.]

(72.) W. W.

HYMN 118. M. H. Babilon Streams.

Gwaed yr Oen.

O ARGLWYDD, cofia 'th angau drud,
A'th boenau mawrion yn y byd;
A dadleu rhai'n àg uchel lef,
Tros f' enaid tlawd yn nghanol nef.

O cofia 'th wae, a'th waed, a'th gur,
Ac ôl yr hoelion llymion dur!
Dy chwys i'r llawr yn ddafnau gwaed,
A'th glwyfau mawr o'th ben i'th draed!

'R wy'n ceisio ymdreiglo at dy waed,
Gan gwympo 'n llaw trugaredd rad;
'Does gweithred dda o'r eiddof fi,
All roi im' hawl i'r nefoedd fry.
(65.) W. W.

HYMN 119. M. H. Newport.

Newyddion da:

NEWYDDION brâf a ddaeth i'n bro,
Hwy haeddent gael eu dwyn ar go';
Bod Iesu wedi cael y dydd,
Caiff carcharorion fyn'd yn rhydd.

Mae Iesu Grist o'n hochr ni,
Fe gollodd ef ei waed yn lli';
Trwy rinwedd hwn fe'n dwg yn iach
I'r ochr draw 'mhen gronyn bach.

Wel, f' enaid, weithian, cod dy ben,
Mae'r ffordd yn rhydd i'r nefoedd wen;
Ein holl elynion sydd yn awr
Mewn cadwyn gan y Brenin mawr.
(68.) W. W.

HYMN 120. M. H. Peru.

Crist yn bob peth. Col. 3. 11.

'RWY 'n dewis Iesu a'i farwol glwy'
Yn Frawd a Phriod imi mwy;
Ef yn arweinydd, Ef yn Ben,
I'm dwyn o'r byd i'r nefoedd wen.

Wel dyma un, O d'wedwch p'le
Y gwelir arall fel Efe,
A bery 'n ffyddlawn imi o hyd,
Ym mhob rhyw drallod yn y byd.

Pwy wrendy riddfan f' enaid gwan?
Pwy'm cwyd o'm holl ofidiau i'r làn?
Pwy ddwg fy maich fel Brenin ne'?
Pwy gydymdeimla fel Efe?
(71.) W. W.

HYMN 121. M. H. All Saints.

Gweddi am gymdeithas Crist.

RHO imi wel'd mai ti yw 'm hedd,
A llwyr ddifyru ar dy wedd,
A chym'ryd d' eiriau gwerthfawr drud
Yn unig bleser yn y byd.

Pan welych di fi'n crymu 'mhen,
At ryw wrthddrychau îs y nen,
O dangos im' na thâl yr un
I'w garu byth ond ti dy hun.

O cwyd fi o'r pydewau i'r làn,
A gwna fi 'n gadarn pan f'wy 'n wàn;
A dangos i'r annuwiol ryw
Na feddaf gyfaill ond fy Nuw.
(70.) W. W.

HYMN 122. M. H. Rippons.

Y Cristion yn teimlo ei lesgedd.

CREAWDWR doeth y ddaear fawr,
Ffurfafen làs, a'r nefoedd fawr,
Edrych o rhwng y sêr i'r byd
Yr wyt ar feibion Adda i gyd.

A gweli finnau 'mhlith y llu
Sy'n tynu tu a'r nefoedd fry,
Am deithio y'mlaen i'r nefol fyd,
Y llesgaf yn eu plith i gyd.

Y gwanaf wyf, y rheitia' ei ddwyn,
O'r defaid gwirion ac o'r ŵyn;
A diau yw y byddai 'n ol,
Oni chwyd y bugail fi 'n ei gol.

[Nis gallaf gerdded cam ym mlaen
Trwy 'm nerth fy hun, mi 'gwada 'n làn;
'Nghyflawnder a fy rheswm ffol
Sy 'n hytrach yn fy nghadw 'n ol.

Ffaelu fel hyn yr wyf yn awr,
Fy arfau fy hun mi 'rhof i lawr;
Mi geisiais wneyd i'm hunan lês,
Ganwaith, ac etto ronyn nes.]

'Does enw foddia f' enaid trist
Ond enw hyfryd Iesu Grist!
Wel dyma 'r gwir, ni feddai 'r un
Rhyw ddinas noddfa ond ti dy hun. W. W.

HYMN 123. M. H. Wells.

Ymnerthu yn yr Arglwydd.

GELYNION sydd, o fesur mawr,
Yn curo f' enaid bach i lawr;
Rhaid imi gael dy nefol ras
Cyn gallwyf hollol gario 'r maes.

Cref yw dy fraich, mawr yw dy rym,
Nid oes a saif i'w herbyn ddim;
Gair o dy enau di dy hun
Ladd fy ngelynion bob yr un.

Rho imi lechu 'n dawel glyd,
Tu hwnt i swn fy meiau i gyd,
Uwch twrf a themtasiynau 'r llawr,
Tan gysgod dy gyfiawnder mawr. W. W.

HYMN 124. M. H. Babilon Streams.

Hiraeth am fwynhad o Dduw.

O ARGLWYDD gad im' dy fwynhau,
Ac onidè 'r wy'n llwfrhau;
Pa le cair imi tan y ne'
Un math o gysur yn dy le.

Rhy drwm yw 'm hofnau i gyd o'r bron,
Rhy drwm yw 'r cystudd tan fy mron;
Ni wna fy ofnau ond parhau,
Nes cael dy wyneb i'w fwynhau.

Pe cawn gysuron o bob rhyw
O fewn dy holl grëedigaeth wiw;
Os cuddio wnai dy wyneb cu,
Mae 'n uffern eilwaith arnaf fi.

Fel dysgwyl y gwyliedydd prudd,
O awr i awr am oleu 'r dydd;
Felly 'r wyf finnau, o bryd i bryd,
Yn dysgwyl am dy wyneb pryd. W. W.

HYMN 125. M. H. Horsley.

Caru Duw.

'RWYF yn dy garu, anwyl Dduw,
Yn well na phleser o bob rhyw;
'Rwyf yn dy garu, dyna i gyd
Fy holl ddyddanwch yn y byd.

Nis gallaf ddim mynegi p'odd
Yr wyt yn ddigon wrth fy modd;
Dadguddir y dirgelwch pur
Yn hollol yn y nefol dir.

Pan ddysgwyf nabod iaith y wlad,
A phur ganiadau tŷ fy Nhad,
Dechreuaf gân am farwol glwy'
Na chlywir diwedd arni mwy.

Can's mae dy harddwch, Iesu mawr,
Yn fwy na harddwch nef a llawr;
A harddach, harddach, fyth o hyd,
Yw hyfryd wedd dy wyneb pryd.

Ym mhen rhyw oesoedd rif y gwlith,
E wêl dy saint di 'n harddach fyth;
A blas o newydd iddynt hwy
Fydd canu am dy farwol glwy'.

W. W.

HYMN 126. M. H. Tawelwch.

Gwaredigaeth yn nesau.

O'R diwedd fe iachaed fy nghlwy',
Na lwfrhaed credadyn mwy;
Ei air a saif, ei 'ddewid wen,
Er oedi 'n hir, a ddaw i ben.

Dyma gyfarfod hyfryd iawn,
Myfi yn llwm a'r Iesu 'n llawn;
Myfi yn dlawd heb feddu dim,
Ac yntau 'n rhoddi pob peth im'.

Y bywyd wyf yn awr yn fyw,
Sy'n meddu hapusrwydd o bob rhyw;
Hapusrwydd yw, O! d'wedwch pwy
A wela ddiwedd arno mwy.

W. W.

HYMN 127. M. H. New Sabbath.

Rhagoroldeb cariad Crist.

WRTH droi fy ngolwg yma i lawr,
I gŷrau 'r grëedigaeth fawr,
Gwrthddrych ni wêl fy enaid gwan,
Ond Iesu i bwyso arno 'n rhan.

Dewisais Ef, ac Ef o hyd
Ddewisaf mwy tra yn y byd;
Câu gwynfyd ddaeth i'm henaid tlawd,
Cael Brenin nefoedd imi 'n Frawd.

O! pa'm yr wyt, fy enaid clyw,
Am grwydro 'mhell oddiwrth fy Nuw?
Ni ches fath bleser tan y nef
A gefais yn ei gariad Ef.

Melys fel manna 'r nefoedd fry,
Yw hyfryd hedd f' Anwylyd cu;
Mwynhad o'i gariad Ef a'i ras,
Na'r diliau mêl sydd well ei flas.
(69.) W. W.

HYMN 128. M. H. Derby.

Mynegi rhinweddau Crist.

OIESU mawr, y Meddyg gwell,
Gobaith yr holl ynysoedd pell!
Dysg fi i seinio maes dy glod,
Mai digyfnewid wyt erioed.

Hoelia fy meddwl, ddydd a nos,
Crwydredig, wrth dy nefol groes;
A phlâna 'm hysbryd yn y tir
Sy'n llifo o lawenydd pur.

Ti fuost farw (rhyfedd yw!)
Er mwyn d' elynion i gael byw;
Derbyn i'th gôl, a rho ryddhad,
I'r sawl a brynaist â dy waed.

Fe gaiff dy enw anwyl glod,
Pan ddarffo i'r nef a'r ddaear fod,
Am achub un mor wael ei lun,
Na all'sai ei achub ond dy hun.
(75.) W. W.

HYMN 129. M. H. Heber.

Dyoddefaint Crist.

WRTH edrych, Iesu, ar dy groes,
A meddwl dyfnder d' angau loes,
Pryd hyn 'r wyf yn dibrisio 'r byd,
A'r holl ogoniant sy ynddo i gyd.

N'ad fi ymddiried tra f'wyf byw,
Ond yn dy angau di, fy Nuw;
Dy boenau a dy farwol glwy',
Gaiff fod yn ymffrost imi mwy.

Myfi aberthaf i dy glod,
Bob eilun sydd o dan y rhod;
Ac wrth fyfyrio ar dy waed
Fe gwymp pob delw dan fy nhraed.

Pa'm cara'i 'r byd a'i dda yn hwy?
Ond dyma Wrthddrych llawer mwy,
A dâl ei garu tra bo chwyth,
A thragwyddoldeb wedi'n byth.
(77.) W. W.

HYMN 130. M. H. Islington.

Dedwyddwch y nef.

Y'MHELL uwch sŵn daearol fyd,
Mae fy nhrysorau oll i gyd;
Y wlad lle mae, y wlad lle mae,
Rhyw fôr didrai o berffaith hedd.

Wel, dacw 'r man, tra paro chwyth,
Sychedaf am fod ynddo byth;
Fe dry fy ngwae, fe dry fy ngwae,
Yn llawenhau yn nhŷ fy Nhad.

Ffarwel i oll feddyliaf fod
Yn hyfryd yma is y rhod;
Nid da nid dyn, nid da nid dyn,
Ond Iesu ei hun sy fwy na'r nef.

Yn awr ar aden ysgafn ffydd
Edrychaf ar drysorau fydd;
Mae llawer mwy, mae llawer mwy,
Mewn marwol glwy' nag fedd y byd.
(23.) W. W.

HYMN 131. M. H. Teml. Sïon.

Mwynhau Duw yw dedwyddwch dyn.

TYDI, fy Nuw, tydi i gyd,
Yw 'r cwbl feddaf yn y byd;
Yr wyt yn well, yr wyt yn well,
Na'r India bell a'i pherlau drud.

O fewn i'r anial dyrys maith,
Yn dysgwyl hyfryd ben fy nhaith;
'Rwy'n gwel'd yn wir, 'rwy'n gwel'd yn wir,
Yr oriau 'n hir heb dy fwynhau.

Yn nyfnder pob rhyw drallod mae
Un radd o'th wedd yn llawenhau;
Dyddanwch sy, dyddanwch sy,
Yn dy wyneb cu, sy fwy na'r byd.

Y fynyd leiaf fach o'r awr,
I garu fy Eiriolwr mawr,
Fydd gwell ryw ddydd, fydd gwell ryw ddydd,
Na'r cwbl y sydd o dan yr haul.

(74.) W. W.

HYMN 132. M. H. Duke Street.

Craig yr oesoedd.

RHYW ŵr—rhyfeddol ŵr yw Ef,
Sydd imi 'n llocheś gadarn gref;
Fel uchel graig fy nghysgod fydd,
Rhag marwol wres y poethlyd ddydd.

Yr hynod Graig, ein Iesu cu,
Sy'n llawer uwch na'r nefoedd fry;
O dano Ef y llechai'n glyd,
Y'mhob rhyw 'stormydd yn y byd.

Taraw'd y Graig—mae ffrydiau hon
Yn oeri 'r llosgfa dan fy mron;
Taraw'd y Graig—a'i dyfroedd pur
Yw 'm cysur yn yr anial dir.

Yn holltau 'r Graig fy nhrigfa fydd,
Trwy ryfedd faith dragwyddol ddydd;
Câf yma hyfryd wedd fy Nuw,
Dysgleiriad ei berffeithiau gwiw.

(77.) D. C.

HYMN 133. M. H. Rhiw Bethel.

Y gwahaniaeth rhwng daear a nef.

FY phiol yma sydd yn llawn
O ddyfroedd Mara chwerwon iawn;
Ond gofid, yn y nefol dir
A lyngcir gan lawenydd pur.

'D yw cariad yma 'n uchaf man
Ond megys rhyw ddymuniad gwan;
Ond y wreichionen leiaf sy
Yn wenfflam yn y nefoedd fry.

Fy ffydd sy'n ffaelu gwel'd yn glir,
Ond yno try yn olwg bur;
Fy ngobaith am y nefol wlad
A lyngcir yno mewn mwynhad.

W. W.

HYMN 134. M. H. Bampton.

Haeddiant Crist.

'DOES arnaf eisiau yn y byd,
Ond golwg ar dy haeddiant drud,
A chael rhyw brawf o'th nefol rin,
I 'madaw 'n lân â mi fy hun.

Er bod dy haeddiant gwerthfawr drud
Yn fwy na'r nef, yn fwy na'r byd,
Yn rhyw anfeidrol berffaith iawn,
'R wy'n methu gorphwys arno 'n llawn.

O flaen y drugareddfa fawr,
Yn trengu wrth dy draed i lawr,
Gwêl y pechadur duaf gaed,
Yn llefain am rinweddau 'th waed.

W. W.

HYMN 135. M. H. Dinbych.

Ar ddechreu addoliad.

BYWYD y meirw, tyr'd i'n plith,
A thrwy dy Ysbryd arnom chwyth;
Anadla 'n rymus ar y glyn,
Fel byddo byw yr egyrn hyn.

J. H.

HYMN 136. M. H. Hyfrydwch y Sant.

Deisyfiad y credadyn.

MAE rhyw ddirgelwch llawer mwy,
Oes, Iesu, yn dy farwol glwy',
Nag y gall sant, tra ynddo chwyth,
Na seraph pur ei ddeall byth.

Ni cheisiaf loches ond dy glwy',
Tan dònau mawrion fwy na mwy;
Mae 'th waed, yn nyfnder culni a gwae,
Yn abl fy rhoi i lawenhau.

Cyflawna 'th air, doed imi a ddêl,
Dy eiriau sydd i gyd tan sêl;
Ni raid ond gair, a dyna i gyd,
I godi 'm henaid i o'r byd. W. W.

HYMN 137. M. H. Truro.

Yr Ysgrythyr Lân.

Y'MHOB rhyw drallod blin y b'wyf,
Ehedeg at fy Nuw yr wyf;
Dim gobaith mewn un lle nis cair,
Ond yn ei 'sgrifenedig air.

Hwn yw y gair, o gariad mawr,
O'r nef anfonwyd ini lawr;
JEHOFAH ddengys yma i maes
Beth all ei hollalluog ras.

[Yn llyfr gras fy nefol Dad
'Rwy'n cael i'm blinder esmwythad;
Gwel'd 'rwy 'mhob dalen ynddo 'mron
Wyneb a llais fy Mhrynwr llon.

Hwn yw dadguddiad Duw ei hun,
Uwch rheswm dall, a synwyr dyn;
F' arweinydd i'r wlad nefol fry,
Trwy 'r byd, y glyn wylofus du.]

O boed i'th air, alluog Dduw,
Gyfeirio 'nhraed tra fyddwyf byw,
Rhag troi o'r brif-ffordd ddedwydd fwyn,
Ar dy ddeheulaw sydd i'm dwyn.
Dr. W.

HYMN 138. M. H. Burlington.

Y ffordd newydd a bywiol.

FFORDD newydd wnaed gan Iesu Grist,
I basio heibio uffern drist,
Wedi ei phalmantu ganddo Ef,
O ganol byd i ganol nef.

Agorodd Ef yn lled y pen,
Holl auraidd byrth y nefoedd wen,
'Roi rhyddid i'w gariadau Ef
I mewn i holl drigfanau 'r nef.

(68.) W. W.

HYMN 139. M. H. Horsley.

Gogoniant Crist yn y nefoedd.

TYR'D, nefol g'lomen oddi fry,
A chod ni ar d' adenydd cu;
Esgyn a dwg ni fynu 'n grwn,
Uwchlaw holl bethau 'r bywyd hwn.

Tu hwnt i'r wybren isaf hon,
Lle try tragwyddol oesau llon,
Y mae pleserau pur di lyth,
A ffrwythau i wledda 'r enaid byth.

O am gael golwg hoff o'r wlad,
A gorsedd ein tragwyddol Dad,
Lle 'r eiste'n Prynwr mawr ei fri,
Mewn corph cyffelyb i'n cyrph ni.

[Y saint o'i gylch addoli maen',
A holl lu 'r nef yn plygu o'i flaen;
Duw sy'n llewyrchu maes trwy 'r dyn
Ei bur ogoniant ar bob un.

O! 'r mawr ddigrifwch yno a gair,
Pan ganant eu telynau aur;
Ac eistedd ar bob nefol fryn,
A dadgan gwaith eu Duw cyn hyn.

Pa bryd daw 'r dydd, fy anwyl Dduw,
Câf finnau esgyn yno i fyw,
Sefyll a phlygu yn eu plith,
'wel'd, moli, a charu, f' Arglwydd byth.

(73.) Dr. W.

HYMN 140. M. H. Mark's.

Cymdeithas â Christ a'i bobl. CAN. 1. 7.

TYDI, hwn mae fy enaid drud
Yn hoffi uwchlaw holl bethau 'r byd;
Mynega im' fy Mugail mwyn,
Pa le 'r wyt yn bugeilio 'th ŵyn.

Pa le mae 'r graig pan fyddo gwres,
Sy 'n cadw 'r defaid rhag y tês?
Ynghyd â'th braidd mae f' enaid prudd
Yn chwennych gorphwys ganol dydd.

Paham fy Arglwydd, y câf fi
Droi heibio oddiwrth dy ddeadell di?
'Dyw f' enaid bach yn chwennych bod
Yn eiddo neb ond Crist a'i nod.

Dilynaf fi ol troed y praidd,
I 'mofyn am dy bêr borfeydd;
Gwledd wych i'm henaid yno câf,
O bob danteithion breision braf.

Dy anwyl gnawd sydd fwyd yn wir,
A'th werthfawr waed yn ddiod bur;
A rhai'n y porthir f' enaid byw,
Nes myned adref at fy Nuw. Dr. W.

HYMN 141. M. H. Peru.

Rhosyn Saron. CAN. 2. 1.

IESU yw Rhosyn Saron mwyn,
A'r Lili mae 'r dyffrynau 'n ddwyn,
A Phren y Bywyd heb ei ail,
Ag iachawdwriaeth yn ei ddail.

Fel lili 'n tyfu y'mhlith y drain,
Neu bren afalau 'mhlith y rhai'n;
'R un wedd 'r wy'n gwel'd fy Mhrynwr drud,
'Mhlith miloedd o gariadau 'r byd.

Tan gysgod hwn i eistedd dê's,
I 'mgadw rhag y poethni a'r gwres;
A'i ffrwyth oedd felys iawn ei flas,
Ac ymborth llon i'm henaid llaes. Dr. W.

HYMN 142. M. H. Mark's.

Cyflawnhad trwy ffydd, nid trwy weithredoedd.

OFER yw gobaith pob rhyw ddyn,
A bwyso ar ei waith ei hun;
Wrth natur, calon pawb sy ddrwg,
Ffrwyth pur na gweithred dda ni ddwg.

Yr Iuddew ac y Cenedl ddyn
Orfyddant dewi yn gyttun;
Hiliogaeth Adda oll bob rhyw,
Yn euog safant ger bron Duw.

Yn ofer ymgais dynol ryw
Eu cyflawnhau wrth gyfraith Duw;
Dynoethi a chollfarnu o hyd,
Yw 'r hyn a all y ddeddf i gyd.

Iesu, dy ras mor werthfawr yw,
Pan gredom yn dy enw gwiw;
Derbyn cyflawnder mae ein ffydd,
Sy 'n cyflawnhau 'r pechadur prudd. Dr. W.

HYMN 143. M. A. Peru.

Cyfammod Abraham. Gen. 17. 7. Rhuf. 15. 8. Marc 10. 14.

ADDEWID helaeth iawn a rhad,
A roed i Abraham a'i had;
"I ti a'th had y byddaf Dduw,
" Diwalla 'ch rheidiau o bob rhyw."

Ei addewidion mwynion mwy
O oes i oes y parant hwy;
Crist, Angel y Cyfammod sy
Yn selio 'r fendith etto i ni.

Mae Iesu 'n cadarnhau y ffydd
A roed i'n tadau yn eu dydd;
Plant bach i'w gôl a gymmer Ef,
Fe'u geilw 'n etifeddion nef.

Mor ffyddlawn ydyw ffyrdd ein Duw,
A'i gariad 'r un yn para yw;
Can's o addewid fawr ei ras
Ni thynodd enwau 'r plant i maes. Dr. W.

HYMN 144. M. H. Savoy.

Iachawdwriaeth.

YR iachawdwriaeth fawr yn Nghrist,
Sŵn melys hyfryd yw i'm clust;
Balm cryf i'm clwyfau o bob rhyw,
A chordial i'm rhag ofnau yw.

Mewn bedd o bechod gorwedd bu
Ein henaid wrth ddrwg uffern ddu;
Ond codi 'r ŷm trwy ras ein Duw,
I weled nefol ddydd a byw.

Aed sŵn yr iachawdwriaeth fawr
O amgylch ogylch daear lawr;
A boed i'r nef a'i lluoedd llon,
Gyfodi eu llef i seinio hon. Dr. W.

HYMN 145. M. H. Savoy.

Edifeirwch un pechadur yn peri llawenydd yn y nef. Luc 15. 7, 10.

PWY draetha 'r fath lawenydd sy
Trwy holl gynteddau 'r nefoedd fry;
Pan ddel afradlawn tua thref,
Pan aner un etifedd nef?

Boddloni 'n llawen mae y Tad,
Wrth weled ffrwyth ei gariad rhad:
Edrycha 'r Mab yn llon i lawr,
Ar bwrcas ei ddioddefaint mawr.

A hoffi gwel'd mae Ysbryd Duw
Yr enaid marw wnaeth E'n fyw;
A seintiau ac angelion glân,
Am gynnydd teyrnas Duw a gân.
(79.) Dr. W.

HYMN 146. M. H. Antigua.

Prynedigaeth dyn y rhyfeddod mwyaf.

O HOLL weithredoedd nef yn un,
Y benaf oll oedd prynu dyn;
Rhyfeddod mwyaf o bob oes,
Gwel'd Iesu 'n marw ar y groes.
W. W.

HYMN 147. M. H. Antigua.

Calfaria ar gyfer Sinai.

MAE 'r gair yn bur, a'r ddeddf yn lân,
A Duw ei hun yn ysol dân;
A ninnau 'n euog ger ei fron,
Heb nodded ar y ddaear hon.

Ond yn y tywydd garw hyn,
Mae golwg ar Galfaria fryn,
A'r aberth fu yno un prydnawn,
Yn dwyn tawelwch hyfryd iawn.

Mae yn y gwaed rinweddau gwiw,
I olchi 'm henaid du ei liw;
A phrawf o rîn maddeuol ras,
A gliria 'm holl euogrwydd cas.

Pan gaf fy ngwneud yn berffaith lân,
Perffaith pryd hyny fydd fy nghân;
Caf roddi 'r goron byth ar ben
Yr hwn a'm prynodd ar y pren. IAGO.

HYMN 148. M. H. New Sabbath.

Edrych ar Iesu.

NID yw hyfrydwch cnawd a byd
Ond pethau gweigion oll i gyd;
Wrth chwilio gair yr Arglwydd cawn
Hyfrydwch gwell o lawer iawn.

Mae rhyfeddodau rîf y dail
Yn mherson hynod Adda 'r ail;
Difyrwch penaf nef y nef
Yw edrych ar ei degwch Ef.

Y mae yn angau Iesu Grist
Ryddhad i'r enaid euog trist;
Mae ei gyflawnder perffaith Ef
Y wisg enwocaf yn y nef.

Na foed i ddim mo ddwyn ein bryd
Oddiwrth Iachawdwr mawr y byd;
Ein neges benaf dan y nef
Fo 'mofyn am ei nabod Ef. J. H.

HYMN 149. M. H. D. Dresden, Luther's.

Myfyrio am rinweddau gwaed y groes.

O TYR'D i ben ddedwyddaf ddydd,
A gàd i'm hysbryd fyn'd yn rhydd:
Rho brawf, rho brawf, ar frys i mi,
O ddwyfol haeddiant Calfari;
Fel gallwyf rodio 'n ddinacâd,
Dan awel hyfryd rhîn dy waed,
A threulio f' amser, ddydd a nos,
Mewn myfyr am dy angau loes.

Ac na bo gras o fewn y nef,
Na chaffwyf ran o hono ef:
A gwnâ na byddo genyf flas,
Ond ar dy gariad a dy ras:
Fy unig gysur yn y byd
Fo edrych ar dy wyneb pryd;
A'm hamser elo heibio 'n llawn
Wrth ganu am dy ddwyfol ddawn.
(84.) W. W.

HYMN 150. M. H. D. Berlin.

Tynu ymaith y pechod.

FY enaid hed tua'r nef o hyd,
Ac aed dy galon yno i gyd;
A doed cystuddiau mewn yn lli',
Minnau a gwynaf wrthyt ti:
'Does unrhyw ofid, unrhyw boen,
Na wasgodd ar yr addfwyn Oen;
Ac yn ei ofid Ef a'i gri,
Mae holl esmwythder f' enaid i.

Mi wn mai 'meiau duon iawn,
Yw'r achos o'm cystuddiau 'n llawn;
Symud fy mai, fe gwymp y ffon
O'th sanctaidd law y fynyd hon:
'D oes yn dy galon ond llesâd,
Maddeuant, hedd, a gwir iachâd;
Cymmer dy ffordd, can's credu 'r wyf
Mai dyna 'r modd iachâir fy nghlwyf.
(85.) W. W.

HYMN 151. M. 112. Claybury.

Cwyno dan guddiadau wyneb Duw.

CLAF wyf a llesg, bron llwfrhau,
Dy absennoldeb sy fawr iawn;
Dy fod di cyhyd yn pellau,
Sy'n gwneud im' riddfan fore a nawn:
Rho wel'd dy wedd, fy Ior, ar frys,
Neu cymmer fi i dy nefol lŷs.

Gwedi it' ddioddef marwol glwy',
A alli attal nefol ras?
A chuddio 'th gariad fwy na mwy
Rhag llifo 'n afon loyw lâs;
Rho wel'd dy wedd, fy Ior, ar frys,
Neu cymmer fi i dy nefol lŷs.

A fyddi mwy yn ddyeithr im'?
A all cariad dwyfol pur di drai,
Fy ngadael i elynion llym,
Neu ynte newid neu lesgâu?
Rho wel'd dy wedd, fy Ior, ar frys,
Neu cymmer fi i dy nefol lŷs.

W. W.

HYMN 152. M. 113. Newcourt.

Cariad Crist.

RHYW ddyfais o anfeidrol faint,
Oedd cariad Iesu at ei saint,
Agorodd ffordd i ganol nef;
Cariad heb gymhar iddo 'r un,
A noflodd yn ei waed ei hun,
Trwy angau oedd ei gariad ef.

Boed oesoedd meithion fwy na mwy,
Heb rif, heb ddarfod arnynt hwy,
I ganu am ei ddirfawr boen:
Na thawed tafod o un rhyw,
Na dim o dan y nef sy'n byw,
Ond son am goncwest addfwyn Oen.

 W.W

HYMN 153. M. 113. Newcourt.

Tangnefedd a maddeuant trwy waed y groes.

GWNAED concwest ar Galfaria fryn,
Am dano canodd myrdd cyn hyn,
Fe faeddwyd uffern faith i gyd,
Fe brynwyd gwael golledig ddyn,
Fe wnaed y ddwy-blaid ddig yn un,
A gwaed Iachawdwr mawr y byd.

Wel, dyma 'r Cyfaill goreu gaed,
Mae'n ganmil gwell na mam na thad;
Y'mhob caledi ffyddlawn yw;
Mae 'n medru maddeu a chuddio bai,
Ac o'i wir fodd yn trugarhau,
Wrth bechaduriaid gwael eu rhyw.

(90.) M. R.

HYMN 154. M. 113. Jackson's.

Rhosyn Saron.

NI welodd llygad dyn erioed,
Ni chlywodd clust o dan y rhod,
Am neb cyffelyb iddo Ef:
O Rosyn Saron, hardd ei liw!
Pwy ddod i maes rinweddau 'm Duw?
Efe yw bywyd nef y nef.

Mae yn ei glwyfau drysor drud,
I faddeu beiau pena'r byd,
O flaen yr orsedd buraf sydd:
Ni all euogrwydd yno ddim,
Fe gyll holl ddeddfau Sinai 'u grym,
Maddeuant perffaith garia 'r dydd.

Mi garaf fy Anwylyd mwy,
Dyoddefodd drosof farwol glwy';
Agorodd ffynnon loyw fyw,
I olchi hen archollion wnaed
Gan bechod câs, o'm pen i'm traed;
Y dyfroedd dardd dan groes fy Nuw.

(88.) W. W.

HYMN 155. M. 113. Jude's.

Cariad Crist.

NIS gall angelion nef y nef,
Fynegi maint ei gariad Ef;
Mae angau 'r groes yn drech na'u dawn;
Bydd canu uwch am Galfari,
Nag glywodd yr angelion fry,
Pan ddelo Salem bur yn llawn.

Y penaf drysor heddyw yw,
O fewn y nefoedd, gwaed fy Nuw,
Holl sylwedd y caniadau i gyd;
A dyma'r gwaed a roddodd iawn
I ddwyfol ddigder, perffaith lawn,
Fy hedd a'm cysur yn y byd.

Am iddo farw ar y bryn,
Ca's f' enaid bach ei brynu 'n llyn,
A'i dynu o'i gadwynau 'n rhydd:
Wel, bellach tan ei haeddiant Ef,
Fel cysgod cedrwydden gref,
Gorphwysaf mwy yn ngwres y dydd.
(86.) W. W.

HYMN 156. M. 113. Jenning's.

Cynnaliaeth y Cristion ar ei daith.

MI deithiais ran o'r anial maith,
'D wy'n deall pellder pen fy nhaith;
Mewn gwledydd sychion dwfr nid oedd;
Ond dysgwyl 'r wyf yn ddyfal iawn,
O'r nefoedd ddwfr a sypiau grawn,
Wna 'm henaid egwan wrth ei fodd.

O'r graig y mae 'n dylifo maes,
Yn afon ddysglaer loyw lâs,
Sef Craig yr oesoedd gadarn yw;
A dyna 'r man y gwnaf fy lle,
Tan gysgod tawel furiau 'r Ne',
Lle caf ddyddanwch tra f'wyf byw.
(88.) W. W.

HYMN 157. M. 113. Nannerch.

Dysgwyl am ryddhad.

MAE dydd at ddydd yn dod i ben,
A'm taith drafferthus is y nen,
Fe ddirwyn amser at y nod;
Ac yna 'mhechod a gaiff friw,
A dyna 'r pryd gorchfyga 'm Duw
Bob rhyw ffieidd-dra fu ynwy' 'rioed.

Wel, dyred ddedwydd hyfryd ddydd,
Rho fy nghadwynau tyn yn rhydd,
Gad imi brofi 'r hyfryd wledd:
Lladd anghrediniaeth, sydd yn awr,
Yn curo f' enaid bach i lawr,
Ac ymaith tyn holl ofnau 'r bedd.

W. W.

HYMN 158. M. 113. Martin's Lane.

Duw a digon.

'DOES bleser dâl o dan y ne',
Nac un dyddanwch, geidw le
Cymdeithas fy Iachawdwr cun:
'D oes eisieu dim lle bo fy Nuw,
Gwagder, na thlodi o un rhyw,
Mae 'n llanw 'r nefoedd fawr ei hun.

Y sawl a'th gaffo gwyn fyd hwy,
Nis gallant fyth ddymuno mwy,
Ti lenwi eu heisieu oll yn llon;
Mae môr a thir, a da a dyn,
Oll yn dy heddwch di dy hun,
A mwy nag fedd y ddaear hon.

Angenus wyf, bechadur gwàn,
Am hyn 'rwy'n tynu tua'r làn,
Yn gweled digon gan fy Nuw;
Trysorau, pe cawn eu mwynhau,
A laddai 'ngofid, laddai 'ngwae,
Ac a'm gwnai 'n llawen tra f'wyf byw.

(87.) W. W.

HYMN 159. M. 122. Dalston.

Bendithion iachawdwriaeth.

O IACHAWDWRIAETH fawr!
A lifodd ini lawr,
Yn ffrydiau pur grisialaidd byw;
Maddeuant ini gaed,
A heddwch, yn y gwaed,
O gariad rhad ein Tad a'n Duw.

'Does unrhyw drysor drud,
Fel Ef o fewn y byd,
Mae 'n gwneud fy ysbryd llesg yn llon;
Mwy 'n llawen byddaf byw,
Yn noddfa bur fy Nuw,
Dan holl gystuddiau 'r ddaear hon.

Mi dreuliaf oriau f' oes,
Yn dawel dan y groes,
Dim ond cael edrych ar dy wedd:
Perffeithrwydd pleser yw
Y wledd o gariad Duw,
Fy holl ddyddanwch a fy hedd.

(90.) G.

HYMN 160. M. 122. John's.

Dychweliad y gaethglud.

PLANT caethion Babilon,
Dont adre o dòn i dòn,
Cânt wledda 'n llon, mae 'r dydd gerllaw,
Yn ngŵydd eu Harglwydd da,
O sŵn y byd a'i bla;
O ddedwydd hâf! pa bryd y daw?

Dysgwyliwn ronyn bach,
Cawn ddod yn gwbl iach;
Caniadau yna fydd heb ri':
A'u sylwedd fydd y gwaed
A ddyry in' iachâd,
A'r goncwest gaed ar Galfari.

(91.) G.

HYMN 161. M. 148. Ketley.

Genedigaeth Crist.

DAETH Llywydd nef a llawr
I wisgo dynol gnawd,
Wel, henffych, Arglwydd mawr,
A henffych dirion Frawd;
Henffych i'n Duw a'n Ceidwad hael,
A welwyd yn y preseb gwael.

Mewn cnawd, i'n tynu 'n rhydd,
Daeth y tragwyddol Air;
Wel, henffych fyth i'r dydd
Y ganwyd Ef o Fair!
O'i ras fe ddaeth o uchder ne',
I brofi 'r lladdfa yn ein lle.

I groth y wyryf wan,
I garchar, ac i'r bedd,
Y daeth Ef ar ein rhan,
I haeddu gras a hedd:
Mewn ing a loes ar Galfari,
Agoryd wnaeth y nef i ni.

[Pa dafod, neu pa ddawn,
A fedd angelaidd lu,
A ddywed byth yn llawn
Am ras ein Ceidwad cu?
Ei waed fe rodd, o'i gariad gwiw,
I gànu 'r lleiddiaid dua 'n lliw.

Mae cariad yn ei wedd
At wael golledig fyd;
Cyflawnder llym a hedd
Yn ymgusanu 'nghyd;
Trugaredd a gwirionedd pur
Yn ymddysgleirio yn ei gur.]

(92.) T.

HYMN 162. M. 148. Darwell's.

Hiraeth am sancteiddrwydd.

NI thrig awelon nef
Mewn dyfnder pydew câs;
Ni thrig cysuron hedd
Mewn ysbryd heb dy ras:
Pur yw dy swydd, pur fydd dy le,
Fy Nuw, o fewn i'r ddae'r a'r ne'.

O Arglwydd tyr'd i lawr,
Gwna drigfan it' dy hun,
Teml sancteiddiol fawr
O galon aflan dyn;
A thrig yn hon fel Sion gynt,
Er pob rhyw gryf ystormus wynt.

[Mae 'r corph o aflan wedd,
Mae 'r cnawd yn ffiaidd iawn,
Ar frys rhaid iddo fedd,
Idd ei sancteiddio 'n llawn;
Fe ddaw i'r làn ar foreu wawr,
Yn gymhwys fel ei Arglwydd mawr.]

Tra byddwyf yn y byd,
Rho 'm golwg ar y wlad,
Yr etifeddiaeth fry,
Pleserau tŷ fy Nhad,
A'r gwleddoedd maith sydd yn parhau,
Lle nad oes gofid, poen, na gwae.

W. W.

HYMN 163. M. 148. Walworth New.

Hyderu am fuddugoliaeth.

MAE 'r Brenin yn y blaen,
'R ym ninnau oll yn hy':
Ni saif na dwfr na thân
O flaen fath arfog lu;
Ni awn, ni awn, dan ganu i'r làn,
Cawn fuddugoliaeth yn y man.

Ni welir un yn lleog
Yn myddin Brenin nef,
Can's derbyn maent o hyd
O'i nerthoedd hyfryd Ef:
Ni gawn, ni gawn y melys wîn,
Melys o ryw, sancteiddiol rîn.

Fe ddarfu ofn du,
Euogrwydd câs a braw,
Pan welsom aberth fu
Ar ben Calfaria draw:
Fe dalwyd iawn ar bren mor ddrud,
Oedd fwy na holl ffieidd-dra 'r byd.
(96.) W. W.

HYMN 164. M. 148. Ketley.

Golwg ffydd.

MAE lluoedd maith ym mlaen,
'Nawr o'u carcharau 'n rhydd,
A gorfoleddu maen'
Oll wedi cario 'r dydd;
I'r làn, i'r làn diangasant hwy,
Yn ôl eu traed y sangwn mwy.

Gadàwn y byd ar ol,
Y byd y cawsom wae,
Y byd y sydd bob dydd,
Yn ceisio 'n llwfrhau:
Ni a welwn wlad rhwng sêr y nef,
Sy fil o weithiau 'n well nag ef.

A fawdd 'tifeddion gras
Yn nyfnder môr i lawr,
Unwaith a ddaeth i maes
O'r dwfn gystudd mawr?
Na wnant, na wnant, ni a ddown i'r làn,
I dir y bywyd yn y man.
(96.) W. W.

HYMN 165. M. 148. Bethesda.

Effeithiolrwydd y Prynedigaeth.

WEL, ymgysura 'nawr,
Fy enaid eiddil gwan,
Sy'n cyhwrdd bob yr awr,
A rhwystrau ym mhob man;
Mae Duw o'm tu, caf cyn bo hir,
Weled fy meiau 'n colli tir.

Ni chollwyd gwaed y groes
Erioed am ddim i'r llawr;
'Ddyoddefwyd angau loes
Heb ryw ddibenion mawr;
A dyna oedd ei amcan Ef,
Ein dwyn o'r byd i deyrnas nef.

Na'd imi garu mwy
Y pechod drwg ei ryw,
Y pechod roddodd glwy'
I 'Mhrynwr, O fy Nuw!
Na'd imi garu dim ond ti,
O'r byd i eithaf nefoedd fry.
(97.) W. W.

HYMN 166. M. 148. Eagle Street.

Rhinweddau y gwaed.

WEL, bellach tyr'd ym mlaen,
Nac ofna, f' enaid mwy;
Llai grym sy'n uffern dân
Na dwyfol farwol glwy';
Mae 'r gwaed, mae 'r gwaed a gollodd Ef,
Yn ucha' ei bris o fewn y nef.

Mae 'r orsedd wen yn rhydd,
Aeth Magdalen ym mlaen;
Manasseh hefyd sydd
Yn seinio 'r nefol gân;
Hyfrydaf dôn, swn peraidd yw
Am ddwyfol nefol waed fy Nuw.

Dystêwch, elynion mwy,
Rhowch le tua phen fy nhaith;
Chwi roisoch imi glwy'
Disymwth lawer gwaith!
Ym mlaen, ym mlaen, mae 'm trysor drud,
Tu hwnt i derfyn eitha 'r byd.
(98.) W. W.

HYMN 167. M. 148. Swithins.

Ymorphwys ar addewid Duw.

MAE'm siwrnai yn y blaen,
'Does diwedd ar fy nhaith,
Nes glanio mewn yn lân
I dragwyddoldeb maith;
Yr ochr draw fy nghartref yw,
O fewn y wlad lle mae fy Nuw.

Ar ei addewid Ef,
Sy fwy na geiriau dyn,
Er holl gymylau 'r nef,
Gorphwysaf fi fy hun;
Fe'm deil i'r làn, a doed a ddêl,
A ddaeth o'i enau sydd dan sêl.

Mi bwysaf ar ei air,
A deued oll yn groes,
Fy noddfa unig yw
Tan eithaf tywyll nos;
Fe wawria 'r dydd, pob tro îs nen,
Ddaw âg addewid nef i ben.

Ar fyr mi fyddaf iach,
Ni chaf fi glywed mwy
Lais y gorthrymwyr cas,
Eu gwawd a'u dirmyg hwy;
'D oes sŵn na chri o fewn y wlad,
Lle mae fy Mhriod a fy Nhad.
W. W.

HYMN 168. M. 148. Resurrection.

Mwynhad o Dduw.

FY enaid, at dy Dduw,
Fel gwrthddrych mawr o'th gred,
Trwy gystudd o bob rhyw,
A phob temtasiwn, rhed;
Caf ganddo Ef gysuron gwir,
Fwy nag ar foroedd nag ar dir.

O na allwn roddi 'mhwys,
Ar dy ardderchog law,
A gado i gystudd ddod
Oddi yma ac oddi draw,
A byw dan nawdd y dwyfol waed,
Yn ngolwg hyfryd dŷ fy Nhad.

Mi fyddaf lawen iawn,
A 'ngofid tan fy nhraed,
O fore hyd brydnawn,
Tan aden gwir fwynhad;
'D oes arall ddim, is sêr y nef,
A ddaw â'm henaid tua thref.
(94.) W. W.

HYMN 169. M. 148. Majesty.

Gobaith y duwiol.

MI welaf gwmwl du
Yn awr y'mron a ffoi:
A gwynt y gogledd sy
Ychydig bach yn troi;
'Nol tymhestl fawr daw yn y man
Ryw hyfryd hîn ar f' enaid gwan.

Ni phery ddim yn hir
Y ddu dymhestlog nos;
Ni threfnwyd oesoedd maith
I neb i gario 'r groes;
Mae 'r hyfryd wawr sy'n codi draw
Yn dweud fod boreu bràf gerllaw.
(91.) W. W.

HYMN 170. M. 148. Carmarthen New.

Gobeithio yn erbyn gobaith.

PA'M 'r ofna f' enaid gwan,
Wrth wel'd aneirif lu,
Yn ceisio ammeu 'm rhan,
A'm hawl yn Iesu cu?
Gwn mai dilyth wirionedd yw
Fod cariad Duw yn parhau byth.

A all y Bugail mawr
Anghofio ei anwyl ŵyn,
Pan ddaeth o'r nef i lawr,
I farw er ein mwyn?
Gwn mai dilyth wirionedd yw
Fod cariad Duw yn parhau byth.

Os gâd fy anwyl Dad
Im' farw ar fy nhaith,
Beth ddaw o'r arfaeth rad
Yn nhragwyddoldeb maith?
Gwn mai dilyth wirionedd yw
Fod cariad Duw yn parhau byth.

A ddiffydd cariad rhad!
Ai ofer geiriau Duw?
A gollir rhinwedd gwaed
Ac angau Iesu gwiw?
Gwn mai dilyth wirionedd yw
Fod cariad Duw yn parhau byth.

Er Satan, byd, a chnawd,
A'm holl elynion cas,
Fe ddygir f' enaid tlawd
O'i holl gadwynau i maes:
Gwn mai dilyth wirionedd yw
Fod cariad Duw yn parhau byth.

W. W.

HYMN 171. M. 148. Portsmouth New.

Golwg ar wlad yr addewid.

AHEIBIO 'r dywell nos,
Fe ffŷ cymylau 'r nen;
Fe ddaw 'r addewid wir
A'i geiriau pur i ben;
Ceir gwel'd, ceir gwel'd yr hyfryd dir,
Ar fyr o dro yn oleu glir.

Fe gân 'tifeddion gras,
Yn beraidd maes o law,
Wrth weled boddi 'r Aipht,
A hwythau 'r ochr draw;
Fy enaid hed i ben y bryn,
I wel'd y concwest rhyfedd hyn.

Mae 'r ffordd yn awr yn rhydd,
Agorwyd hi o bob tu,
O ddyfnder ðaear las,
I uchder nefoedd fry;
O dring, O dring, fy enaid mwy,
Mae nerth i'w gael mewn marwol glwy'.

W. W.

HYMN 172. M. 148. Grove.

Braint y credinwyr.

FY Iesu yw fy Nuw,
Fy noddfa gadarn gref,
Ni fedd fy enaid gwan,
Ddim arall tan y nef;
Mae Ef ei hun â'i angau drud,
Yn fwy na'r nef, yn fwy na'r byd.

O ffynnon fawr ei rhîn,
O ddwyfol win a llaeth,
Sydd yn ei haeddiant Ef,
'D oes yn y nef ei bath!
Dowch bawb ynghyd, gwelwch y fraint
A gadd y lleiaf un o'r saint.

Anfeidrol wyt, fy Nuw,
Anfeidrol yw dy ras;
A dyma 'r man y mae 'm
Dedwyddwch pena' i maes;
Anghyfnewidiol ydyw Ef,
Am hyn fe'm dwg i deyrnas nef.
(95.) W. W.

HYMN 173. M. 148. Lenox.

Teilwng yw yr Oen.

ONEFOL addfwyn Oen,
Sy'n llawer gwell na'r byd,
A lluoedd maith y nef
Yn rhedeg arno 'u bryd;
Mae 'th ddawn, a'th ras, a'th gariad drud,
Yn llanw 'r nef, yn llanw 'r byd.

Noddfa pechadur trist,
Tan bob drylliedig friw,
A phwys euogrwydd llym,
Yn unig yw fy Nuw;
'D oes enw i'w gael o tan y nef
Yn unig ond ei enw Ef.

Ymgrymed pawb i lawr
I enw 'r addfwyn Oen;
Yr enw mwyaf mawr
Erioed a glywyd sôn:
Y clod, y mawl, y parch, a'r bri,
Fo byth i enw 'n Harglwydd ni.
(93.) W. W.

HYMN 174. M. 148. Burnham.

Buddugoliaeth yr efengyl.

MAE 'r faner fawr ym mlaen,
Efengyl Nef yw hon;
Mae uffern lawn o dân,
Yn crynu ger ei bron;
Hi gwymp, hi gwymp, er maint ei grym,
O flaen fy Iesu 'd yw hi ddim.

Caned a welodd wawr
Yn codi o'r tywyllweh du?
Caned a brofodd fias
Grawnsypiau 'r Ganaan fry:
Ni ddown, ni ddown, i Sion fryn,
Er maint yr anial leoedd hyn.

O ffynnon fawr o hedd!
O anchwiliadwy fôr!
Sy'n cynnwys ynddo ei hun
Ryw annherfynol 'stôr;
Ti biau 'r clod, wel cymmer ef,
Trwy 'r ddaear, uffern fawr, a'r nef.
(94.) W. W.

HYMN 175. M. 148. Walworth New.

Tegwch a chynnydd yr eglwys. CAN. 6. 10, 13.

PWY ydyw hon yn wir,
A welir fel y wawr?
Fel lleuad, teg yw hi,
Mae iddi enw mawr;
Pur fel yr haul, ei bath ni bu,
Ofnadwy fel banerog lu.

Rhyfeddu mawr a fydd
Am gynnydd eglwys Crist;
Ceir gweled yn y man,
Yr isel, wan, a thrist,
Mewn tegwch, purdeb, a bri mawr,
Yn llenwi gwyneb daear lawr.

Ar fyr y daw yn nes
I fynwes Crist yn wir:
Bydd gryfach yn ei gras,
Perthynas fydd yn glir:
Iuddewon a Chenedloedd fydd
Yn unol dyrfa hardd ryw ddydd.

J. H.

HYMN 176. M. 148. Amherst.

Diogelweh y credinwyr.

GWYN fyd y rhei'ny sy
A'u henwau fry 'n y nef,
Yn 'sgrifenedig ar
Ei fraich a'i ddwyfron Ef,
Mae Crist yn eiriol gyd â'r Tad,
Yn dadleu trostynt werth ei waed.

Ni chollir un o'r rhai'n
Mewn dyrys anial maith;
Hwy ddont yn iach i'r làn
Er garwed ydyw 'r daith:
Mae nef a daear yn gyttun,
Yn chwareu o blaid y plant bob un.

Trwy ddyffryn angau du
Cânt ddod i dŷ eu Tad,
I'r maith ogoniant fry,
Ddarparwyd yno 'n rhad;
Mae'r dydd yn dyfod maes o law,
I'w dwyn i'w disglaer drigfan draw.

HYMN 177. M. 148. Portsmouth New.

Llwyddiant yr efengyl.

I'R gogledd, dwyrain, de,
Ac i'r gorllewin faith,
Yr elo ei enw E
Yn glodfawr gan bob iaith;
Am gwyfau 'r Oen, a'i gariad rhad,
Boed melys ganmawl ym mhob gwlad.

Aed grym efengyl Crist
Yn nerthol trwy bob gwlad;
Sain hyfryd gan bob clust
Fo 'r iachawdwriaeth rad:
O cyfod Haul Cyfiawnder mawr,
Dysgleiria 'n lân tros ddaear lawr.

HYMN 178. M. 148. Southbury.

Mawl i'r Messiah.

O CANED lluoedd llawr,
A llon angelion nef,
I enw 'n Harglwydd mawr,
A gorfoleddus lef:
I'w enw ef y gweddai bod
Mawl, ac addoliad, parch, a chlod.

Ymrwymodd ar ein rhan,
Yn nhragwyddoldeb pell;
Cymmerodd blaid y gwan
Yn y cyfammod gwell;
Aeth yn ein lle, a than ein baich,
A'i gadarn Hollalluog fraich.

Fe ddaeth o uchder nef
I isaf barthau 'r byd;
A'i ddiben grasol Ef
Oedd prynu 'r caeth mewn pryd:
Emmanuel ddaeth ini 'n Frawd,
Duw gyda ni ac yn ein cnawd.

Gwaredu ei holl saint
Rhag eu pechodau mae,
Euogrwydd trwm, a haint
Eu pla, a bythol wae:
Teilwng yw'r Oen o bob mawrhad,
Mae 'n awdwr iachawdwriaeth rad.

Sail gobaith f' enaid gwan
Fo byth ar Iesu Grist,
Ei fywyd perffaith, glàn,
A'i angau poenus trist;
Caf ynddo Ef dangnefedd Duw;
Byth er ei glod dymunwn fyw.

HYMN 179. M. 148. Bethesda.

Galwad yr efengyl.

DEWCH, hen ac ieuainc, dewch,
At Iesu, mae'n llawn bryd;
Rhyfedd amynedd Duw
Ddysgwyliodd wrthym cy'd!
Aeth yn brydnawn—mae yn hwyrhau—
Ond drws trugaredd sydd heb gau.

Dewch, hen wrthgilwyr trist,
At Iesu Grist yn ol;
Mae'i freichiau'n awr ar led,
Fe'ch derbyn yn ei gôl:
Mae Duw yn rhoddi etto'n hael,
Drugaredd i droseddwyr gwael! M. R.

HYMN 180. M. 148. Grove.

Jubili.

UDGENWCH weision Duw,
Yr udgorn arian mawr,
A chlywed dynolryw
Tros barthau daear lawr;
Blwyddyn y Jubili a ddaeth,
A rhyddid gwiw i'r rhai oedd gaeth.

Trowch bechaduriaid trist,
Wrth lais efengyl fwyn,
O'ch cyflwr caeth at Grist,
Fe wrendy Ef eich cwyn;
Blwyddyn y Jubili a ddaeth,
A rhyddid gwiw i'r rhai oedd gaeth.

Dadseinied gras ein Duw
I bell derfynau'r byd,
A doed ei deyrnas wiw
Tros gyrau hwn i gyd:
Blwyddyn y Jubili a ddaeth,
A rhyddid gwiw i'r rhai oedd gaeth.

HYMN 181. M. N. 2. 8. Trawsfynydd.

Dedwyddwch y nefol drigfanau.

MAE, mae,
Yr amser hyfryd yn nesàu,
Pan gaffo f' enaid ei ryddhau,
O'm tŷ o glai, fyn'd tua 'm gwlad:
Nid yma mae 'ngorphwysfa i;
Mae hono fry yn nhŷ fy Nhad.

Bob dydd,
Fy nhabernacl brau o bridd
O'i sylfaen yn adfeilio sydd;
Nid ydyw amser hwn ym mhell:
O f' enaid, cofia hyn bob càm,
A meddwl am adeilad gwell.

[Fry, fry,
Uwch awyr lâs a'i dysglaer lu,
Mae holl hyfrydwch f' enaid cu,
'Does dim daioni yma i'w gael;
'R wyf wedi gwel'd a phrofi 'r byd,
'Does ynddo i gyd ond gwagedd gwael.]

Parhau
Mae cariad Duw i'w anwyl rai,
Hwy gant yn wastad ei fwynhau,
Heb achwyn trai, yr ochr draw:
O na bawn gyd âg ef yn byw!
Fy Mhriod yw—pa bryd y daw?

[Daw, daw,
Fy anwyl Iesu maes o law,
I'm cyrchu drwodd i'r wlad draw,
I'r bywyd dystaw pur di boen:
Caf ganu 'n llawen, gyd â'r llu,
Gân Moses fry, a chân yr Oen.]

HYMN 182. 2. 8. Trawsfynydd.

Rhyfeddodau y groes.

O PWY
All ehwilio dyfais ddwyfol glwy',
Sydd anchwiliadwy hollol trwy
Bob rhan o honi oll i gyd?
Dyfnderau mawr ei gariad Ef
Dadseinia 'r nef pan ddarfo 'r byd.

'Does dim,
O tan y nefoedd fawr o rym,
A'm deil i'r làn tan gystudd llym,
Ond cariad pur fy Arglwydd cu:
A hwn a'm nertha i fyn'd y'mlaen
Trwy ddwfr a thân i'r nefoedd fry.
(101.) W. W.

HYMN 183. 2. 8. Cymdeithas.

Gwerthfawrogrwydd gwaed y groes.

NID oes,
Ni fu, ni ddaw, mewn unrhyw oes,
O gymmaint gwerth a gwaed y groes,
Y ddwyfol loes ga'dd brenin nef:
O gariad mawr! diderfyn 'stôr,
Sy fel y môr fyth ynddo Ef.

O pwy
Ymguddiodd yn dy ddwyfol glwy',
Ac yna fethodd dòri trwy
Gystuddiau mwy na gwellt y maes?
Mae 'r fuddugoliaeth fawr yn do'd
Hyd yma erioed trwy rym dy ras.

Nid oes
A ddeil fy yspryd dan bob croes,
Ond dwyfol, nefol, fàrwol loes;
Estyniad f' oes i'w ei fwynhau;
'Does gysur arall mewn un man,
Ef yw fy rhan byth i barhau.
(101.) W. W.

HYMN 184. 2. 8. Cymdeithas.

Llwyddiant yr efengyl.

EI glod
Sydd heb un terfyn iddo 'n bod;
O aed ym mlaen fwy nag erioed,
O gwmpas rhod y ddaear fawr,
Nes elo sŵn efengyl bur
I dòri 'n glir fyrddiynau i lawr.

Mae, mae
Rhyw hiraeth ynof yn parhau,
Am wel'd yr amser hyny 'n glau,
Y pryd y mae fy Arglwydd mâd
I dderbyn ei ogoniant mawr,
Gan nef a llawr am roddi ei waed.

Yn awr,
Addfwynaf Iesu tyr'd i lawr,
Helaetha dy freniniaeth fawr;
Doed dedwydd awr, iachusol ddydd,
I'r carcharorion fyn'd trwy ras,
O'r pydew câs, heb ddwfr, yn rhydd.
(102.) W. W.

HYMN 185. 2. 8. Caerludd.

Llwyddiant yr efengyl.

AED, aed,
Y newydd am y dwyfol waed,
Nes golchi myrdd o'r duaf gaed,
O'u pen i'w traed yn hardd a gwyn,
Fel byddo nef a daear lâs,
Yn dadgan gras Calfaria fryn.

Mawr, mawr,
Yw grym llewyrchiad nefol wawr,
Try 'r nos yn ddydd ar blant y llawr;
Mae 'r goleu 'n awr yn nerthol wir,
Ond rhagddo â hyd hanner dydd,
Pur oleu fydd mewn nefol dir.

T. J.

HYMN 186. 2. 8. Efyrnwy.

Canmawl cariad Crist.

CLOD, clod,
I'r Oen a laddwyd cyn fy mod,
Y parch, a'r mawl i'w enw boed,
Am iddo erioed o'i gariad rhad,
Roi serch ar wael syrthiedig ddyn:
Mawr iawn yw rhin ei werthfawr waed!
(103) G.

HYMN 187. 2. 8. Dorcas.

Gweddi am gymmwysiad o waed y groes.

O TYN,
Y gorchudd yn y mynydd hyn;
Llewyrched Haul Cyflawnder gwyn,
O ben y bryn bu'r addfwyn Oen
Yn dyoddef dan yr hoelion dur,
O gariad pur i mi mewn poen.

Pa le
Y gwnaf fy noddfa dan y nef,
Ond yn ei glwyfau anwyl Ef?
Y bicell gref aeth dan ei fron,
Agorodd ffynnon i'm glanhau;
'Rwy 'n llawenhau fod lle yn hon.

Oes, oes,
Mae rhîn a grym yn ngwaed y groes,
I lwyr lanhau holl feiau f' oes:
Ei ddwyfol loes, a'i ddyfal lef,
Mewn gweddi drosof at y Tad
Yw fy rhyddhad, a'm hawl i'r nef.

Golch fi
Oddiwrth fy meiau aml eu rhi'
Yn afon waedlyd Calfari,
Sydd heddyw 'n llif o haeddiant llawn,
Dim trai ni welir arni mwy,
Hi bery 'n hwy na bore a nawn.

HYMN 188. 2. 8. Trawsfynydd.

Llawenydd diddarfod.

FE gân
Y gwaredigion, fâwr a mân,
Dragwyddol glod i'w Prïod glân,
Pan ddelo 'r tân i losgi 'r tir;
Cânt godi eu penau a llawenhau,
Eu poenus wae à heibio 'n wir.

Daeth trwy
Ein Iesu glân a'i farwol glwy'
Fendithion fyrdd, daw etto fwy;
Mae ynddo faith ddiderfyn 'stor;
Ni gawsom rai defnynau i lawr,
Beth am yr awr cawn fyn'd i'r môr.

(104) G.

HYMN 189. 2. 8. Caerludd.

Rhinweddau gras Crist.

GRAS, gras,
Yn gefnllif grymus daeth i maes,
Grisialaidd afon loyw làs,
Rhinweddol flas i'r euog rai;
Lle i bechaduriaid yma gaed,
I'w cànu 'n rhad oddiwrth bob bai.

I'r làn,
Os bydd in' ddod o'r anial fan,
Bydd hyfryd seinio yn y man,
Pawb yn ei ran yn moli 'r Oen,
Mewn melys anthem, newydd iaith,
Ar ben y daith heb friw na phoen.

Gwych sain,
Fydd etto am y goron ddrain,
Yr hoelion llym, a'r bicell fain;
Wrth gofio rhai 'n caiff uffern glwy',
Cadwynau tynion ddaw yn rhydd,
Fe gaed y dydd, Hosanna mwy.

J. R.

HYMN 190. 2. 8. Caerludd.

Canmawl gras Crist.

BYDD, bydd
Rhyw ganu peraidd iawn ryw ddydd,
Pan ddelo 'r caethion oll yn rhydd;
Fe droir eu ffydd yn olwg fry;
Cydunant fyth heb dewi a sôn,
I foli 'r Oen fu ar Galfari.

Ond gwledd
Sydd etto 'n bod tu draw i'r bedd,
Dros fyth i'w chael i'r gwael eu gwedd,
Lle bydd caniadau maith di ri'
I bara beunydd yn ddiboen,
Gan foli 'r Oen fu ar Galfari.

Rhad ras
Yw 'r newydd gân bereiddia 'i blas
Fu erioed ar wyneb daear lâs,
Hi ddeil ei blas pan losgo 'r byd,
A berwi o'r môr a'i dònau 'n dân,
Y nefol gân fydd gras i gyd.

(103) G.

HYMN 191. 2. 8. Efyrnwy.

Cymdeithas y saint.

BRAINT, braint
Yw cael cymdeithas gyd â'r saint,
Na welodd neb erioed ei maint;
Ni ddaw un haint fyth iddynt hwy;
Y mae 'r gymdeithas yma 'n gref,
Ond yn y nef hi fydd yn fwy.

Gwledd, gwledd,
O fywyd a thragwyddol hedd,
Sydd yn y byd tu draw i'r bedd;
Ond hardd fydd gwedd y dyrfa i gyd,
Sy'n byw ar haeddiant gwaed yr Oen,
O sŵn y boen sydd yn y byd.

(105.) G

HYMN 192. M. N. 5. 6. Hereford.

Cyflawnder Crist.

TRWY'r byd y bo sôn
Am bwrcas ei boen,
A chaned pob teulu mai teilwng yw'r Oen.

Rhyfeddod y byd
Yw angau mor ddrud,
A gwreiddyn caniadau'r ffyddloniaid i gyd.

Mi wela'n ei glwy'
Gyflawnder sy fwy
Na meithder y moroedd, er lleted ynt hwy.

Af bellach yn hy'
Tua'r Ganaan sy fry,
Mi wela'r addewid yn gadarn o'm tu.
(106.) G.

HYMN 193. 5. 6. Llanrhystyd.

Ffydd.

FY enaid i sydd,
Yn awr, nos a dydd,
Am ganmawl fy Iesu a'm rhoddodd yn rhydd.

Ffarwel fo i'r byd
A'i bleser i gyd,
Ar drysor y nefoedd fe redodd fy mryd.

Fe'm cododd i'r làn
Pan oeddwn yn wan,
Amlygodd f' Anwylyd fy rhyddid a'm rhan.

Fe roes i mi faeth
O win ac o laeth,
O'r pydew fe'm cododd, yn gadarn fe'm gwnaeth.

'R wy'n gweled bob dydd
Mai gwerthfawr yw ffydd,
Pan elwy 'borth angau fy angor a fydd.

Mwy gwerthfawr im' yw
Na chyfoeth Peru,
'or ddiogel i'm cynnal ddydd dial ein Duw.
(105.) W. W.

HYMN 194. M. N. 5. 6. D. Bourton. New Zion. Cysur.

Rhinweddau iachawdwriaeth.

Y CYSUR i gyd,
Sy'n llanw fy mryd,
Fod genyf drysorau uwch gwybod y byd;
Ac er bod hwy 'nghudd,
Nas gwel hwy ond ffydd,
Cair eglur ddadguddiad o honynt ryw ddydd.

Fy Iesu mwy fydd
Fy Noddfa bob dydd,
O ddyfnder pydewau fe'm rhoddodd yn rhydd:
Ni feddaf iachâd,
Un dim ond ei waed,
Fy heddwch a'm haeddiant, fy nerth a'm parhad.

[Rhyw afon a gaed,
O ddwfr ac o waed,
O'r orsedd ddysgleir-deg mae'n rhedeg yn rhad,
I wella fy mriw,
Fy meiau o bob rhyw,
A chànu fy enaid er dued ei liw.

Beed yma fy nyth,
A'm bywyd i byth,
Y'nghlwyfau 'r Oen tyner, a'i lawnder dilyth;
Ac yma câf fyw,
Er croesau bob rhyw,
A'm henaid yn llawen dan aden fy Nuw.]

Af bellach ym mlaen,
Trwy ddwfr a thrwy dàn;
Er cymmaint fy nyled, fe'i talwyd yn llân:
Moliannu mwy fydd
Fy mhleser bob dydd;
'N ol agor y carchar pwy all fod yn brudd?

G.

HYMN 195. M. N. 5. 8. Tŷ Ddewi.

Ceidwad digonol.

POB seraph, pob sant,
Henafgwyr, a phlant,
Gogoniant a ddodant i Dduw,
Fel tyrfa gyttun,
Yn beraidd bob un,
Am geidwad o forwyn yn fyw.

Efe yw fy hedd,
Fy aberth a'm gwledd,
A'm sail am drugaredd i gyd;
Ein cysgod a'n cân,
Mewn dwfr ac mewn tân,
Gwnaed uffern ei hamcan o hyd.

Yn Babell y bydd,
Rhag poethder y dydd,
A chedyrn lifogydd y fall;
Mewn cysgod mor dda,
Holl uffern a'i phla,
Er chwennych, ein difa nid all.

(108) E. J.

HYMN 196. 5. 8. Tŷ Ddewi.

Cwymp Babilon, a dychweliad y gaethglud.

MAE'r dydd yn nesâu,
Ceir gweled yn glau,
Daw Babilon gadarn i lawr;
Mae 'r taliad mor ddrud,
Teyrnasoedd y byd
A'n eiddo Emmanuel mawr.

Er cymmaint yw 'r llid,
Daw 'r gaethglud i gyd
O ddyfnder caethiwed yn rhydd;
Fe ddaw 'r Jubili
I fynu 'n llawn rhi';
Haleluiah, bron gwawrio mae 'r dydd.

W. J.

HYMN 197. 5. 8. Tŷ Ddewi.

Dychweliad yr Iuddewon.

MAE'r dydd yn nesau,
Pan ddryllir yr iau,
O herwydd eneiniad y Pen:
Mae 'r amser gerllaw,
Iuddewon a ddaw,
I garu 'r Hwn fu ar y pren.

Y Meichiau a wêl
Ei lafur dan sêl,
Fe'u myn hwy o afael y llid:
Hwy garwyd yn rhad,
Fe 'u prynwyd â gwaed,
Fe 'u gelwir, fe 'u golchir i gyd.

Ar Galfari fryn,
Yn haeddiant Duw-ddyn,
Caed trysor, am dano bydd sôn;
Mae 'n gyfoeth mor ddrud,
Fe leinw 'r holl fyd,
Clodforedd am rinwedd yr Oen.

W. J.

HYMN 198. M. N. 6. 4. England.

Gwaed y groes yn unig feddyginiaeth.

IACHAWDWR dynolryw,
Tydi yn unig yw
Fy Mugail da;
Mae angau 'r groes yn llawn
O bob rhinweddol ddawn,
A ffrwythau melys iawn,
Rhai a'm hiachâ.

'Does dim a laesa 'mhoen,
Ond gwaed yr addfwyn Oen,
Pur waed fy Nuw;
Mae ei hun yn fwy na 'r byd,
A'i holl drysorau ynghyd,
A thecach yw ei bryd
Na dynol ryw.

W. W.

HYMN 199. 6. 4. Snaresbrook.

Tangnefedd a glanhad trwy waed Crist.

AGORODD Iesu 'n wir
Y ffordd i'r nefol dir,
Mae heddyw 'n rhydd:
Maddeuant yn ei waed,
A chymmod llawn a gaed;
Pob gelyn roir tan draed
'Tifeddion ffydd.

Mae heddyw afon gras,
Yn llifo i'r anial cras,
Yn ffrydiau pur;
Doed aflan euog rai,
Sydd am gael maddeu 'u bai,
I'r dyfroedd sydd heb drai,
Ei farwol gur.

Ei angau ar y pren,
Agorodd ddrysau 'r nen,
Fe'n tyn o'n gwae;
O rheded arno 'n bryd,
A rhedwn ato i gyd,
Nes cyrhaedd uwch y byd,
I'r man lle mae.

T. J.

HYMN 200. 6. 4. England.

Addewid Duw.

CRYFACH addewid Duw,
Na'r pechod gwaetha'i ryw,
Ni saif e ddim;
'Dyw natur gadarn gref
Ond dim i dân y nef;
Mae gair o'i enau Ef
Yn fwy ei rym.

Yn awr 'rwy'n llawenhau
Mewn gobaith am fwynhau
Gor'chaflaeth glir
Ar bechod o bob rhyw,
Gelynion gwaetha 'n fyw,
Sy'n rhwystro f' enaid gwiw
I'r sanctaidd dir.

Fy meiau, fân a mawr,
Sy raid eu cael i lawr,
Cyn byddo hir;
Fe fyn cyfreithiau 'r ne'
I dynu 'r llygad de,
A thori 'r fraich o'i lle,
Ei air sydd wir.
(110.) W. W.

HYMN 201. 6. 4. Bermondsey.

Gwlad well.

O DYRED, Awdwr hedd,
A chyfod ni o'r bedd,
Y pydew prudd;
Ein henaid griddfan mae
Am gael ei wir iachau,
O dere, dere 'n glau,
A rho ni yn rhydd.

Ond gweled 'r ym y wlad,
A dedwydd dŷ ein Tad,
Dros fryniau pell;
Ardaloedd lle y mae
Ffynonau 'n dyfrhau,
Llawenydd pur di drai,
Paradwys well.

'D oes yma ddim i'w gael,
Ond rhyw bleserau gwael,
Na thâl 'mwynhau:
Mae'm hysbryd mewn rhyw gur,
Am fyned cyn bo hir,
I'r man mae gwynfyd pur
Byth i barhau.

Mae cymmaint yma o boen,
Heb gwmni 'r anwyl Oen,
Bob awr o'r dydd;
Gelynion creulawn cry'
Hen lewod mawrion lu,
A dreigiau 'n drygu sy;
O na bawn rydd!

W. W.

HYMN 202. 6. 4. Bridgewater.

Tywallt iadau gwael.

O DYRED, Arglwydd mawr,
Dyhidla o'r nef i lawr
Gawodydd pur,
Fel byddo i'r egin grawn,
Foreuddydd a phrydnawn,
I darddu 'n beraidd iawn,
O'r anial dir.

Mae per-aroglau 'th ras
Yn taenu o gylch i maes
Awelon hedd;
Estroniaid sydd yn dod,
O'r pellder eitha' erioed,
I gwympo wrth dy droed,
A gwel'd dy wedd.

Mae tegwch dy wynebpryd
Yn maeddu oll i gyd
Sy ar y ddaear lâs;
Mae pob rhyw nefol ddawn
Oll yno 'n gryno iawn,
Yn tarddu 'n hyfryd iawn
O'th glwyfau maes.

[Arosaf ddydd a nos,
Byth bellach tan dy groes,
I'th lon fwynhau;
Mi wn mai 'r taliad hyn,
Wnaed ar Galfaria fryn,
A'm cân oll yn wyn
Oddiwrth fy mai.

Yn nyfnder dwfr a thân,
Calfaria fydd fy nghân,
Calfaria mwy;
Y bryn ordeiniodd Duw
Yn nhragwyddoldeb yw,
I godi 'r marw 'n fyw,
Trwy farwol glwy'.]

(109.) W. W.

HYMN 203. M. N. 6. 4. 6. Claudia.

Marwolaeth, adgyfodiad, a derchafiad Crist.

RHYFÉDDA hŷd a lled,
Fy enaid trist,
Uchder a dyfnder maith
Marwolaeth Crist;
Pan gym'rodd agwedd gwas,
A phechod cas ei ryw,
Bu farw yn ddi gwyn
I'm dwyn at Dduw.

Aeth tan y gyfraith faith,
Hedd ddaeth i ni;
Mwy t'raned Sinai gaeth,
Beth waeth gan i?
Mae'r llwybr idd ei gol,
Yn rhydd i'r nefol had;
Ni fedra Satan serth
Ddwyn gwerth ei waed.

'N ol rhoddi 'n Arglwydd hael,
Yn wael ei wedd,
(Rhyfeddod mwya' erioed!)
Yn ngwaelod bedd;
Ond ar y trydydd dydd
Yn rhydd yr aeth Efe,
Palmantodd lwybr gwych
I entrych ne'.

'N ol gorphen ar ei waith,
I'r nef aeth Ef,
Lle mae Ef yr awr hon
Yn gwrandaw 'n llef;
Yn eiriol drosom draw;
Ar fyr fe ddaw 'n rhyddhau;
Mae'r amser ddydd a nos
Yn agoshau.

(111.) W. W.

HYMN 204. 6. 4. 6. Bethel.

Rhyfedd ras.

DAETH ffrydiau melys iawn,
Yn llawn fel lli',
O ffrwyth yr Arfaeth fawr,
Yn awr i ni:
Hen iachawdwriaeth glir
Aeth dros y crindir cras,
Bendithion ammod hedd,
O ryfedd ras!

Fe gymmerth Iesu pur
Ein natur ni;
Ennillodd Ef i'w saint
Bob braint a bri:
Gadawai 'r nef o'i fodd,
Fe gym'rodd agwedd gwas;
Ffrwyth y cyfammod hedd,
O ryfedd ras!

Wrth orphwys ar yr Iawn,
Ni gawn i gyd
Felysion ffrwythau 'r groes,
Drwy 'n hoes o hyd;
Mae yma hyfryd win
I flin, o beraidd flas,
Maddeuant pur a hedd,
O ryfedd ras!

Yn rawnwin ar y groes
Fe droes y drain;
Caed balm o archoll ddofn
Y bicell fain:
Dechreuwn fawl cyn hir,
Na flinir ar ei flas,
Am Iesu yr Aberth hedd,
O ryfedd ras!

 P. J.

HYMN 205. 6. 4. 6. Machynlleth.

Gobaith am adgyfodiad gorfoleddus.

NIS gallodd angau du
Ddal Iesu 'n gaeth
Ddim hŵy na 'r trydydd dydd,
Yn rhydd fe ddaeth:
Ni ddèlir un o'i blant,
Er myn'd i bant y bedd,
Fe'u gwelir ger ei fron
Yn llon eu gwedd.

Wrth wel'd yr angau du
Yn nesu 'n awr,
'R wy'n ofni ambell dro,
Wrth gofio 'r awr:
Pan gwelwy 'r gwaith drwy ffydd
Y trydydd dydd wnaeth Duw,
Mae 'ngobaith yn fwy cry'
'Do'i fynu 'n fyw.

Er pydru 'ngwaelod bedd
Yn farwaidd fud,
Daw Iesu i'm codi 'n llon,
Ger bron ryw bryd;
A'm llygaid innau a'i gwel,
Mae 'r gair dan sêl yn wir
Ar newydd ddedwydd ddydd,
Boreuddydd clir.

O Dduw, dod imi ffydd,
Bob dydd o'r daith,
Wel'd Sion yn nesâu
Dros fryniau maith;
Yn Ben mae yno 'n byw
Fy Iesu, 'n Dduw a dyn,
Fu yma 'n wael ei wedd,
Mewn bedd ei hun.

Dy gwmni i ddwyn y groes,
O moes i mi,
Er gwaethaf angau a'i frad,
Ein Tad wyt ti;
Ac er fy rhoi 'n y llwch,
Mewn tywyllwch tros rhyw hyd,
Ni'm cleddir o'i wydd E
Mewn lle 'n y byd.

G.

HYMN 206. M. N. 6. 8. 4. Leoni.

Ymbiliau am gymhorth y Dyddanydd.

TI, Arglwydd, yw fy rhan,
A'm trysor mawr di drai,
A noddfa gadarn f' enaid gwan
Y'mhob rhyw wae;
Ac atat 'r wyf yn ffoi,
Dy fynwes yw fy nyth,
Pan fo gelynion yn crynhoi,
Rifedi 'r gwlith.

Tydi, fy Nuw, ei hun,
Anfeidrol berffaith Fod,
Sy 'n trefnu daear, da, a dyn,
I'th ddwyfol glod;
Cyfarwydda f' enaid gwan
Trwy 'r anial ddod y'mlaen,
Ac arwain fi 'mhob dyrys fan
A'th golofn dân.

Dy Yspryd sanctaidd cun,
Dywysodd fyrdd o saint,
Rho i mi brofi ei felys rin,
Anfeidrol fraint;
Fel dyfroedd gloyw clir,
I loni 'r llesg a gwan,
Dyddanwch yn yr anial dir
I'm dal i'r làn.

(113.) W. W

HYMN 207. 6. 8. 4. Covenant.

Rhinweddau gwaed y groes.

O F' ENAID hed i'r làn,
Tros fryniau uwch na 'r byd,
A gwêl dy gyfoeth, gwêl dy ran,
Anfeidrol ddrud:
Trysorau o ddwyfol rîn,
Bwrcaswyd i mi 'n llawn,
Gan fy Ngwaredwr addfwyn, cun,
Ar un pryd nawn.

Ef bellach fydd fy nghân,
A'm hamddiffynfa glyd,
Fy nhŵr, fy nghraig, fy noddfa lân,
Tra yn y byd:
Pan dalodd ddwyfol waed,
Pwy ofyn imi mwy?
Can's anfeidroldeb maith a gaed
Mewn dwyfol glwy'.

Mae angau 'r groes yn fwy
Na haeddiant yr holl fyd;
Y mae griddfanau dwyfol glwy'
Yn gyfoeth drud:
Fe gènir myrdd yn wyn,
Oll fel yr eira mân;
Ceir gwel'd rhai ffiaidd ar ol hyn
Yn berffaith lân.

W. W.

HYMN 208. 6. 8. 4. Wrotham,

Diogelwch credinwyr.

AM fod fy Iesu yn fyw,
Byw hefyd fydd ei saint;
Er gorfod goddef poen a briw,
Mawr yw eu braint:
Bydd melys lànio draw,
'Nol bod o dòn i dòn;
Ac mi rof ffarwel maes o law
I'r ddaear hon.

G.

HYMN 209. 6. 8. 4. Dependance.

Duw yn y cnawd.

JEHOFAH ddaeth i lawr,
O blith nefolaidd lu!
Rhyfeddwn ninnau oll yn fawr
Ei gariad cu!
Henffych i'r dedwydd ddydd,
Emmanuel a gaed!
Caiff pechaduriaid fyn'd yn rhydd
Trwy werthfawr waed.

Duw Abra'm, gwelwn Ef
Yn blentyn bychan tlawd!
JEHOFAH mawr a ddaeth o'r nef
I wisgo cnawd!
Henffych i'r &c. &c.

[Dyrchafwn nefol glod
I'n gogoneddus GUN;
Tragwyddol Dduw, anfeidrol FOD,
A ddaeth yn ddyn!
Henffych i'r &c. &c.

Cymmerodd agwedd gwas,
I guddio 'i ddelw ei hun;
Anfeidrol yw dyfnderoedd gras
I achub dyn:
Henffych i'r &c. &c.]

"Gogoniant fo i Dduw,"
Oedd cân y nefol lu;
"Gogoniant," caned dynol ryw,
Mwy achos sy:
Rhodd Duw i ni yw Ef,
Sy bechaduriaid trist;
O! syd-foliannwn â llu'r nef,
Am Iesu Grist.

HYMN 210. M. N. 6. 8. 6.
Hiraeth Cymro.

Angau yn nesâu.

O DDUW, rho im' dy hedd,
A golwg ar dy wedd,
A maddeu 'n awr, fy meiau mawr,
Cyn 'r elwyf lawr i'r bedd:
Ond im' gael hyn, nid ofna 'r glyn,
Na cholyn angau 'n hŵy;
Dof yn dy law i'r ochr draw,
Heb friw na braw, ryw ddydd a ddaw,
Uwchlaw pob loes a chlwy'.

Dy gymhorth, Arglwydd, dod,
I rodio er dy glod,
A byw trwy ffydd, o ddydd i ddydd,
Gan estyn at y nôd;
Cael treulio 'm hoes i Grist a'i groes,
Er pob rhyw loes a chlwy';
A byw heb wad, i roi mawrhad,
I gariad rhad, fy Iesu mâd,
Fydd fy nymuniad mwy.

[Mae 'm rhedfa îs y rhôd,
Yn nesu at y nôd,
I'm hymdaith hon, îs awyr gron,
Mae diwedd bron a dod:
Fy mhabell frau sydd yn llesghau,
Ac yn gwanhau o hyd;
Ac yn y man, daw 'r amser pan
Bydd f' enaid gwan, yn fywiol ran,
Mewn annherfynol fyd.]

Gogoniant rhown bob pryd,
I'r Tad a'r Mab unfryd,
I'r Yspryd Glân, yn ddi wahan,
Rhown fawl ar gân i gyd:
I'r Un yn Dri, cydunwn ni,
I roddi mawl bob tro;
Llefwn un floedd, i gyd ar g'oedd,
Megys yr oedd, yn oes oesoedd,
Y bydd—boed felly bo.

(114.) E. E.

HYMN 211. 6. 8. 6. Adeilad.

Nerth wrth raid.

YR Arglwydd, ar fy nhaith,
A'm daliodd lawer gwaith,
Yn nyfnder loes, tan faich a chroes,
A gorthrymderau maith;
Yn un heb nerth, ar greigiau serth,
Ces fyw trwy werth y gwaed;
A'r gras a fu yn rhad o'm tu,
Mae etto 'n gry' i fwrw llu
Gelynion tan fy nhraed.

Paham yr ofnaf lu?
Mae cadarn fraich o'm tu;
Y rhyfel sydd, o ddydd i ddydd,
Yn eiddo 'm Prynydd cu:
Wel, ato Ef, am nodded gref,
Mi goda 'm llef a'm cri;
Yn llesg a chlaf, taer alw wnaf;
Nerth ganddo câf, fy Nuw, fy NAF,
Ein Tad anwylaf ni. T. J.

HYMN 212. M. N. 6. 4. 8. 7. Trefdeyrn.

Llais y durtur.

MAE llais y durtur fwyn,
Ei chân ynghyd â'i chwŷn,
Yn seino 'n bêr,
Nes ennill llawer llwyn:
Wele y gauaf heibio aeth,
Ac ar y ddaear blodau ddaeth,
Mae 'r adar yn ymbyncio
Eu mawl, nid cwyno caeth.

Fe dderfydd dwyn y groes,
Yn lân, a phob rhyw loes;
Cawn adaw'r byd,
A'r adfyd, bèr yw 'r oes:
Bydd Sion wych mewn siriol wawr,
'Nol codi o'r llwch a gadaw 'r llawr,
Ar ddysglaer wedd ei Phriod,
Yn moli 'r Duwdod mawr. G.

HYMN 213. 6. 4. 8. 7. Trefdeyrn.

Buddugoliaeth trwy Grist ar bob gelyn.

MAE udgorn Jubili,
Am haeddiant Calfari,
Yn seinio 'n llon
Newyddion goreu i ni;
Gwir lawenhâ, fy enaid pradd,
Ennillodd Iesu mawr y dydd,
Daw carcharorion angau
O'u rhwymau oll yn rhydd.

'Deill Pharaoh er ei frad,
Niweidio 'r un o'r had,
Sy 'n tynu fry
At dawel dŷ eu Tad;
Nid eill yr anial tywyll du,
Byth ddrygu neb o'r dedwydd lu,
Yn dawel sy dan aden
Eu Cadben, Iesu cu.

[Gorchfygodd Brenin hedd,
Fyd, uffern, angau, a'r bedd;
Priodi wnaeth
Yr hon oedd gaeth ei gwedd:
Am hyn crechwena, Sïon wan,
O'th ardal lesg, a'th yr'd i'r làn;
Tywysog y tangnefedd,
Da'i rinwedd, yw dy ran.

Mae tyrfa fawr heb ri',
Fu ar ein daear ni,
Tan lawer loes,
A llid, a chroes, a chri,
Yn awr mewn bywyd hyfryd hoen,
Ger bron gorseddfainc Duw a'r Oen,
Heb deimlo mwy flinderau,
Effeithiau llid na phoen.]

HYMN 214. M. N. 7au. Harts.

Crist oll yn hawddgar.

'DOES gyffelyb iddo Ef,
Ar y ddaear, yn y nef,
Trech ei allu, trech ei ras,
Na dyfnderoedd calon gas.

Caned cenedlaethau 'r byd
Am ei enw mawr ynghyd;
Bloeddied moroedd gyda thir
Ddyfnder iachawdwriaeth bur.

Na foed neb is awyr lâs
Heb gael prawf o'th nefol ras;
Doed holl luoedd daear gron,
Yfent ddwfr y ffynnon hon.

O dy glwyfau rhed i maes
Afon ddwyfol loyw lâs,
Sydd yn achub, sy'n glanhau,
Myrddiwn o'r afianaf rai. W. W.

HYMN 215. 7au. Townhead.

Cyfiawnder Crist.

EI gyfiawnder dwyfol Ef,
Yw fy noddfa gadarn gref;
'Chollai 'ngafael arno ddim,
Pan fo 'mhechod yn ei rym.

Tan ei gysgod byddaf byw;
Uwch bob trysor gwaed fy Nuw:
Nis gall nerthoedd uffern faith
Ddim fy nrygu ar fy nhaith.

Fe achubodd Ef fy mlaen,
Ar y ffordd i uffern dân:
Yn ei allu des yn ol,
'Nawr wyf dawel yn ei gôl.

Nid yw orchest imi 'n awr
Garu fy Eiriolwr mawr;
Nid oes genyf ond Efe,
Ar y ddaear yn y ne'. W. W.

HYMN 216. 7au. Cookham.

Esgyniad Crist i'r nefoedd.

WELE angau llym ei gledd,
Wele agoriadau 'r bedd,
Wele nef a daear lawr,
Tan awdurdod Iesu mawr.

Fry esgynodd Mab y dyn,
Trwy ei werthfawr waed ei hun;
Dwyn tystiolaeth wnaeth y Nef
I fawr werth ei aberth Ef.

Eistedd ein Cyfryngwr mawr
Ar orseddfa 'r nef yn awr;
Cynnrychioli mae 'r Mab rhad,
Bawb o'r holl grediniol had.

Gwaith gorphenol Iesu yw
Prynedigaeth dynolryw:
Pob ymadrodd yn un iaith,
Canent mwy ei foliant maith.
(118.)

HYMN 217. 7au. Sweden.

Gogoniant y dyddiau diweddaf, a chwymp Babilon.

WELE 'r dydd yn gwawrio draw,
Amser hyfryd sy gerllaw;
Daw 'r cenhedloedd yn gytun,
I dderchafu Mab y dyn.

Gwelir teyrnas Iesu mawr,
Yn ben moliant ar y llawr;
Gwelir tŷ ein Harglwydd cu
Goruwch y mynyddoedd fry.

Gwelir pobloedd lawer iawn
Yn dylifo ato 'n llawn,
Cyfraith Iesu gadwant hwy,
Ac ni ddysgant ryfel mwy.

Fe geir gweled Babel fawr
Gwedi syrthio oll i lawr,
A'r teyrnasoedd mawr eu bri,
Oll yn eiddo 'n Harglwydd ni.
(118.)

HYMN 218. 7au. Easter Hymn.

Llwyddiant yr efengyl.

MAE y dyddiau 'n dod i ben,
Y dyrchefir Brenin nen,
Y cyhoeddir angau drud,
I ardaloedd pella 'r byd. *Haleluiah.*

Fe bregethir Iesu a'i ras,
Tros yr India eang fras;
Fe à swn yr udgorn clir
I'r gorllewin anial dir. *Haleluiah.*

Minnau gredaf yn fy Nuw,
A fu farw, 'n awr sy'n fyw;
Ac er mwyn ei chwŷs a'i waed,
Ca 'ngelynion dan fy nhraed. *Haleluiah.*
(117.) W. W.

HYMN 219. 7au. 6 llin. Orange.

Gwaed y taenelliad.

DACW 'r ffynnon heddyw gaed,
Dwfr gloyw pur a gwaed,
Darddodd allan ar y bryn,
Ylch fy enaid bach yn wyn;
Dyma 'm nerth i fyn'd ym mlaen,
Dyma sylfaen bur fy nghân.

Gair o'i enau sanctaidd Ef
'N awr a'm dwg i ganol nef;
Yn ei eiriau mae 'r fath rin,
Dodant nef a dae'r yn un;
Gwrando ei lais, a gwel'd ei wedd,
Yw fy mywyd tu yma i'r bedd.

Iesu, gorphwys yn dy glwy'
Wna fy enaid bellach mwy;
Dyma 'm noddfa werthfawr lawn,
Fyth o fore hyd brydnawn;
Dyma 'ŋghysur oll i gyd,
Dyma 'm nerth i'r nefol fyd.
(120.) W. W.

HYMN 220. 7au. 6 llin. Eglon.

Rhodio gyda Duw.

BETH sydd imi yn y byd?
Gorthrymderau mawr o hyd;
Gelyn ar ol gelyn sydd
Yn fy nghlwyfo nos a dydd:
Meddyg archolledig rai,
Dere 'n fuan i'm iachau.

O na allwn tra f'wyf byw
Rodio bellach gyda Duw;
Treulio f' oriau iddo 'n llwyr,
O foreuddydd hyd yr hwyr;
Canu am ei werthfawr waed,
Nes meddiannu 'r nefol wlad.

M. R.

HYMN 221. 7au. 6 llin. Georgia. Firth's.

Gweddi am gysuron.

DYMA 'r tlawd a'r llesga 'rioed,
Fethodd ddilyn ôl dy droed;
Llwybrau pur yw'th lwybrau di,
Oll yn sanctaidd, oll yn gu,
Rhaid fy ngolchi 'n hyfryd wŷn,
Cyn y teithiwy'r llwybrau hyn.

Miloedd o feddyliau gau
Yn fy nghalon sy'n parhau,
Nes wy'n treulio 'm dyddiau gyd
Yn gystuddiol yn y byd;
Neb ond anfeidroldeb yw,
'Ddeil fy enaid gwan yn fyw.

Danfon imi 'r olew gwir,
Ysbryd y llawenydd pur;
Dangos dy fod im' yn Dduw,
Gwella 'r esgyrn wneist yn friw;
Prawf o'th hedd rho im' ar frys,
Ffrwythau 'th waed, a ffrwythau chwys.

W. W.

HYMN 222. 7au. 6 llin. Yaxley.

Nawdd y credadyn.

TI dy hunan, Iesu mawr,
Yw fy noddfa ar y llawr;
Ni ddaw fyth, ni fu erioed,
Dy gyffelyb is y rhod;
Dere 'n glau, 'does is y ne'
Arall un a leinw 'th le.

Rhosyn Saron, teca 'i ddawn,
Seren foren ddysglaer iawn,
Sydd yn arwain hyfryd wawr
Trwy 'r anialwch dyrys mawr,
Yn goleuo 'r llwybr llaith,
Tua 'r wlad o fèl a llaeth.

Dwg ym mlaen fyfi bob pryd,
Trwy holl gyfyngderau 'r byd;
Na'd fy ysbryd syrthio i lawr,
Wrth wynebu angau dewr;
Cadw yn dy fynwes gu
F' enaid yn y frwydr ddu.

W. W.

HYMN 223. 7au. 6 llin. Refuge.

Gweddi am gysuron yr iachawdwriaeth.

ARGLWYDD, ffoed cymylau mwy,
Grym euogrwydd damniol glwy',
Rho imi brofi 'th ddwyfol hedd,
Afon bur tu yma i'r bedd,
Fel y gallwyf, ddydd a nos,
Ymddigrifo yn dy groes.

Nid wy'n ceisio gan fy Nuw.
Heddyw hawddfyd o unrhyw;
Rho imi feddu d' Ysbryd cun,
Llechu 'n agos it' dy hun;
Ti gai 'm cynnal dan bob croes,
Goleu ddydd, neu dywyll nos.

Ac er lleied yw fy ngrym,
Tan dy aden 'd ofnaf ddim;
Mymryn bach o'th gariad drud
Sydd yn fwy na'r fall a'i llid;
Gwel'd dy wedd, a chredu 'th waith,
F' enaid dwg i ben ei daith.
(120.) W. W.

HYMN 224. 7au. D. Ebenezer. Hotham.

Golwg ar y Ganaan nefol.

DACW gariad nefoedd wen
Yn dysgleirio ar y pren;—
Dacw daledigaeth lawn
I ofynion trymion iawn;
Iesu gollodd ddwyfol waed,
Minnau gafodd wir iachâd;
Wele 'r llwybr heddyw 'n glir
Tua Chanaan, hyfryd dir.

Wele 'r Ganaan hyfryd wiw,
Dyma 'r ardal câf fi fyw;
Gwlad heb ofid, gwlad heb wae,
Gwleddoedd hyfryd i barhau;
Rheded rhîf yr oriau maes
Câf fyn'd trwy 'r Iorddonen lâs:
Dwyfol gariad, dwyfol hedd,
Gâf fwynhau tu draw i'r bedd.

Na ddoed gwael wrthddrychau 'r byd
Fyth i lechu yn fy mryd;
Digon, f' enaid, digon yw
Myfyrdodau dwyfol friw;
Darfu ymffrost mawr y byd,
Iesu biau 'r clod i gyd;
Wrth ei draed dymunwn fyw,
Holl hapusrwydd f' enaid yw.
(121.) W. W.

HYMN 225. M. N. 7. 3. Pen yr allt.

Udgorn yr efengyl.

MAE Efengyl gras yn t'wynu,
Mawr yw'r fraint, mawr yw'r fraint,
I gasglu llafur Iesu,
Mawr yw'r fraint!
Mae lluoedd maith yn barod,
Yn y Gaersalem uchod,
A thyrfa fawr yn dyfod
Dan faner Iesu isod;
Mawr yw'r fraint!

Mae'r bwrdd yn llawn danteithion,
Dowch ym mlaen, dowch ym mlaen,
Gan sanctaidd Frenin Sion,
Dowch ym mlaen;
Cawn wledda oll yn ddiddig,
Fry, ar y llo pasgedig,
Ac yfed gwin puredig,
Gwir haeddiant Iesu 'n unig:
Dowch ym mlaen.

Mae uffern gwedi ei maeddu,
Diolch byth, diolch byth!
A'r dyled gwedi ei dalu,
Diolch byth!
Mae T'wysog mawr y bywyd,
Fry, ar ei orsedd hyfryd,
Yn eiriol dros ei anwylyd;
Cawn ddiangc uwchlaw adfyd,
Diolch byth!

[Aeth llu o'r genedl gyfion,
Oll yn iach, oll yn iach,
I sanctaidd ddinas Sion,
Oll yn iach:
Mae etto dyrfa 'n dyfod,
O'r cystudd mawr a'r trallod,
Cawn yno gyd gyfarfod,
Ar ddysglaer wedd ein Priod;
Oll yn iach.

Cawn hyfryd deml newydd,
Cyn bo hir, cyn bo hir;
Heb lygredd yn dragywydd,
Cyn bo hir,
Fry, gyd â'r duwiol deulu,
Sy'n moli 'r Arglwydd Iesu,
Gan uchel lawenychu,
Heb elyn i'n gorthrymu,
Cyn bo hir.]
(122) G.

HYMN 226. 7. 3. Gwen.

Y gwersyll yn cychwyn.

ORHEDWN bawb yr yrfa,
Dyma 'r dydd! dyma 'r dydd!
I'r bywyd am y cynta',
Dyma 'r dydd!
Aeth gwlaw a'r gauaf heibio,
Mae'r ddaear yn blodeuo,
A'r adar yn ymbyncio,
Mae 'r durtur fwyn yn seinio,
Dyma 'r dydd!

Yn wyneb gorthrymderau,
Af ym mlaen, âf ym mlaen,
A duon ragluniaethau,
Af ym mlaen;
Er môr a'i dònau mawrion,
A dyfroedd Mara chwerwon,
Ynghyd à'm holl elynion,
Nes gorphwys fry yn Sion,
Af ym mlaen.

'Does yma ond trai a llanw,
I barhau, i barhau,
Ac yfed cwpan chwerw,
I barhau;
Ond yn y Ganaan nefol,
Dim eisieu yn dragwyddol,
Câf ddysglaer ddyfroedd bywiol,
A'i yfed yn wastadol,
I barhau.
(123) G.

HYMN 227. 7. 4. Hornsea.

Tegwch Crist.

GWYN a gwridog, hawddgar iawn,
Yw f' Anwylyd;
Doniau 'r nefoedd sy ynddo 'n llawn,
Peraidd hyfryd;
Daear faith, ac uchder nef
Fyth ni wela
Arall debyg iddo Ef,
Haleluiah.

Dygodd f' enaid ar ei ol,
Yn dra rhyfedd;
Mi orphwysaf yn ei gôl,
Hyd y diwedd;
Ffowch greaduriaid o bob rhyw,
Mwy ni charaf
Wrthddrych arall ond fy Nuw,
Haleluiah.

Ynddo ei hunan mae yn llawn
Bob trysorau,
Dwyfol berffaith werthfawr iawn,
Am fy meiau;
Gwir ddoethineb, hedd, a gras,
Gwerthfawrocaf,
Nerth i hollol gario 'r maes,
Haleluiah.

Dyma sylfaen gadarn gref,
Trwy fy mywyd;
Credu ac edrych arno Ef
Yw fy ngwynfyd:
Ynddo bellach, trwy bob pla,
Y gobeithiaf,
Ac mewn rhyfel canu wnaf
Haleluiah.

W. W.

HYMN 228. 7. 4. Hornsea.

Tegwch Crist. Can. 5. 10—16.

FY Anwylyd, hawddgar yw,
Gwyn a gwridog;
Ac ar filoedd Israel wiw,
Mae 'n fanerog;
Perffaith degwch sy'n ei wedd,
Iob tragywydd;
Ef sy gadarn D'wysog hedd
Ar lu 'r Arglwydd.

Mae ei sylw serchog Ef
Ar yr eiddo;
Mae å'u gwendid yn y nef,
Yn cyd-deimlo;
Trostynt hwy, ac o ou plaid,
Mae yn eiriol;
Enfyn iddynt nerth wrth raid,
O'i lŷs nefol.

Megys lili coch ei liw,
Ei wefusau,
Yn dyferu myrr yn wiw,
Gwlithog flodau;
Mae ei eiriau mawr o werth,
Ac iachusol,
Yn rhoi adnewyddol nerth
I'r diffygiol.

Ei enau ef, ei eiriau llawn,
Melys odiaeth;
Mae Ef oll yn hawddgar iawn,
Uwch cymhariaeth:
Wele, dyma 'Nghyfaill gwiw,
A'm Hanwylyd;
Merched Salem, onid yw
Ef yn hyfryd?

J. H.

HYMN 229. 7. 4. Easter Hymn.

Iawn Crist.

ANGAU ac eiriolaeth Crist
Yw 'ngorfoledd;
Hyn a ddwg i'm henaid trist
Lawn dangnefedd:
Collai 'r ddeddf ei damniol rym
Ar Galfaria;
Dofwyd llid cyfiawnder llym,
Haleluiah.

Iesu yw difyrwch f' oes,
Yn fy mlinfyd;
Ac ymffrostiaf yn ei groes
Tros fy mywyd:
Dan ei gysgod, nos a dydd,
Gwnaf fy nhrigfa;
Fy nhŵr cadarn byth a fydd,
Haleluiah.

Iesu a'i gyfiawnder Ef,
Yw fy mywyd,
A phreswylied doniau 'r nef
Yn fy ysbryd:
Golchir fi o'm pen i'm traed
Fel yr eira,
Trwy rinweddau dwyfol waed,
Haleluiah.

Mae fy Mhrynwr heddyw 'n fyw,
Ac yn eiriol;
Sail eiriolaeth drosof yw
Iawn digonol;
Ei waith ynof yn y man
A berffeithia;
Gorfoleddaf yn fy rhan,
Haleluiah.

P. J.

HYMN 230. 7. 4. Gwyliadwriaeth.

Cwyno gan ormes gelynion.

MAE gelynion cas yn llu
I'm gwrth'nebu,
Sâf, atolwg, sâf o'm tu,
Arglwydd Iesu;
Dal fi i'r làn er gwaetha'r ddraig
A'i holl luoedd;
Minnau molaf Had y Wraig,
Yn oes oesoedd.

"Os rhaid goddef ar fy nhaith
Dywydd garw,
Cadw f' ysbryd yn dy waith,
Hyd fy marw;
Yn y babell gyd â'r arch
Boed fy nghartre,
Cadw yn fy enaid barch
I dy ddeddfau." J. H.

[Maddeu fy mhechodau i gyd,
Er mwyn Iesu:
Na cherydda fi yn dy lid,
Fel 'rwy'n haeddu:
Grym fy llygredd fo 'n gwanhâu
Yn feunyddiol:
'R anian newydd yn cryfhau
Yn dra nerthol.

Blinais, blinais ar y wlad
Lle mae pechu;
Am ddod adre i dŷ fy Nhad
'R wy'n hiraethu:
Bydd dy hunan, Iesu mawr,
Yn fy nerthu;
N'ad im' roddi f' arfau lawr
Nes gorchfygu.]

G.

HYMN 231. 7. 4. Hornsea.

Llwyddiant yr efengyl,

Y MAE heddyw nefol wawr,
Yn llewyrchu,
Ac yn chwalu 'r tywyllwch mawr,
Fel y fagddu;
Ernes yw o fore llawn,
O'r uchelder,
Ymddysgleiria 'n hyfryd iawn,
Haul Cyflawnder.

Rhaid i'r Iesu 'n helaeth gael
(Y mae 'n haeddu)
Gwel'd o ffrwyth ei lafur hael,
A'i ddiwallu;
Myrdd o Negroes, estron lu,
Dont yn fuan,
Profi gànt ei gariad cu
I rai aflan.

Ninnau ymolchwn gyda hwy,
Yn y ffynnon;
Mae glanhad trwy farwol glwy'
In' rai duon,
Ni chaiff tragwyddoldeb maith
Drai na diwedd
Ar ein càn, a hyfryd waith
Ei glodforedd.

(124) G.

HYMN 232. 7. 4. Hornsea.

Newyddion da.

IESU, 'n Harchoffeiriad mawr
Yn dragwyddol,
Ei werthfawr waed a roes i lawr
Dros ei bobol;
Eiriol mae ger bron y Tad
Yn ddiflino,
Ac yn dadleu gwerth ei waed,
Moliant iddo.

Aed efengyl gras ar led
Trwy 'r holl wledydd;
Plygu wnelo rhai di gred
I fab Dafydd;
Doed trigolion dae'r a nef,
O un galon,
I wel'd mai teilwng ydyw Ef
I gael y goron.

Llwyddo wnelo geiriau Duw,
Yn ddiattal,
I wneud daioni i ddynolryw,
Ym mhob ardal;
Enw 'r Oen fu ar y groes
Gaffo 'i foli;
Doed myrddiynau, o oes i oes,
I'w ddyrchafu.

(124) Dr. L.

HYMN 233. 7. 4. Easter Hymn.

Ffynnon i bechod ac aflendid.

CANED nef a daear lawr,
Fe gaed ffynnon,
I olchi pechaduriaid mawr,
Yn glaer wynion;
Yn y ffynnon gyda hwy,
Minnau ymolchaf,
Ac a ganaf fyth tra bwyf—
Haleluiah.

Hedd a chariad ar y groes
Darddodd allan;
Iesu yn nyfnder angau loes
Faeddodd Satan:
Er ei glwyfo tan ei fron,
Ef orchfygodd;
Cenir am y frwydyr hon
Yn oes oesoedd.

HYMN 234. M. N. 7. 6. Romain.

Edrych ar y pethau ni welir.

MAE torf aneirif wiwlon,
A'u gwisgoedd oll yn lân,
Ar uchelderau Sion
Yn beraidd iawn eu cân;
Ond er y rhîf a olchwyd
Sydd yn y nef yn awr,
Mae afon bur y bywyd
Yn ngwlad y cystudd mawr.

Mae cwmwl mawr o dystion
Yn iach yr ochr draw,
I'n Harglwydd a fu 'n ffyddlon
Yn myd y poen a'r braw;
Yn ôl eu traed dilynwn,
Trwy dir y blinder maith;
Ar air ein Harglwydd pwyswn
Nes dod i ben y daith.

Er myn'd trwy fflam a dyfroedd,
Medd gair ein Iesu glân,
"Ni'th foddir yn y moroedd,
"Ni'th losgir gan y tân;"
Fe rydd lawn waredigaeth,
I'w eiddo cyn bo hir;
Cânt seinio "Iachawdwriaeth,"
O fewn i'r nefol dir.

Yr Oen fydd eu Harweinydd,
At lawn ffynnonau hedd;
Fe'u portha yn dragywydd
A'i gyflawn felys wledd;
Fe'u gwna am byth yn holliach,
Eu dagrau oll fe sych;
Ni chânt eu blino mwyach
Gan bechod, poen, a nych.

T. J.

HYMN 235. 7. 6. Penmachno.

Erfyn am faddeuant trwy yr Iawn.

O YSBRYD pur nefolaidd,
Cyn 'r elwyf lawr i'r bedd,
Trwy ryw athrawiaeth hyfryd,
Gàd imi brofi 'th hedd;
Cael profi llawn faddeuant,
Maddeuant cyfan rhad,
Yw 'r cyntaf peth a geisiaf
Yr awrhon yn y gwaed.

O haeddiant annherfynol,
A gras o nefol ryw,
Raid imi gael, a wnelo
Fy heddwch llawn â Duw;
'Dyw gwaith a dyledswyddau,
Ganmolir trwy 'r holl fyd,
Yn abl i faddeu pechod,
Pe byddent fyrdd ynghyd.

Mae ynddo nerth di derfyn,
Doethineb maith yn rhad,
Deng miliwn o rinweddau,
A rhagor, yn y gwaed;
Mae ynddo bob rhyw angen
Sydd ar bechadur gwan,
Tan filoedd o ammheuon,
I godi ei ben i'r làn.

TH.

HYMN 236. 7. 6. Penmachno.

Credu.

O CRED, O cred, cai gymmorth
I dynu 'r llygad de;
O cred, O cred, cai allu
I dori 'r fraich o'i lle;
Trwy gredu ti orchfygi
Elynion rif y gwlith,
Cred yn yr Oen yn unig
A'th wna di 'n hapus byth.

[Sancteiddrwydd efengylaidd
A rhyfedd fanwl sydd,
Fel trysor yn guddfiedig
Yn egwyddorion ffydd:
Fel credi byddi sanctaidd;
Os â dy ffydd yn wan,
Fe dderfydd dy gasineb
At bechod yn y man.]

Mae cara yn un à chredu,
Ac y mae caru 'u ras
Sydd yn ffieiddio 'n wastad
Holl gangau pechod cas:
A gredodd, hwnnw garodd,
A garodd sy'n casâu
Pob pleser anghyfreithlawn,
Can's arall mae 'n fwynhau.

TH.

HYMN 237. 7. 6. Judgment Day.

Iachawdwriaeth.

O IACHAWDWRIAETH gadarn,
O iachawdwriaeth glir!
Fu dyfais o'i chyffelyb
Erioed ar fôr na thir?
Fe rodd ei fywyd trosom,
Beth all ef ballu mwy?
Mae myrdd o drugareddau
Difesur yn ei glwy'.

O ras didranc, diderfyn,
Tragwyddol ei barhad!
Yn nghlwyfau 'r Oen fu farw
Yn unig mae iachâd;
Iachâd oddiwrth euogrwydd,
Iachâd o ofnau 'r bedd,
A chariad wedi ei wreiddio
Ar sail tragwyddol hedd.

TH.

HYMN 238. 7. 6. Penmachno.

Angau ac adgyfodiad Crist.

O ENW ardderchocaf
Yw enw marwol glwy!
Caniadau 'r holl angelion
Fydd y fath enw mwy!
Bydd yr anfeidrol ddyfais
O brynedigaeth dyn,
Gan raddau filoedd yno,
Yn cael ei chanu 'n un.

Fe ddaeth i wella 'r archoll
Trwy gym'ryd clwyf ei hun;
Etifedd nef yn marw
I wella marwol ddyn;
Yn sugno 'n llwyr y gwenwyn
A rodd y sarph i ni,
Ac wrth y gwenwyn hwnw
Yn marw ar Galfari.

[Bechadur, gwel E 'n sefyll
Yn llonydd ar y groes
Clyw 'r griddfan sy'n [illegible]
Tan ddyfnder angadd
O gwrandaw ar ei rid[illegible]
Mae pob ochenaid ddrud
Yn floedd yn nghlustiau 'r nefoedd
Am faddeu beiau 'r byd.

Gwel ar y croesbren chwerw,
Gyflawnder mawr y ne',
Doethineb, a thrugaredd,
Yn gorwedd mewn un lle,
A chariad anfesurol,
Yn awr i gyd yn un,
Fel afon fawr lifeiriol
Yn rhedeg at y dyn.]

[Cynnefin iawn â dolur,
Gofidus iawn a fu,
Fel doi tangnefedd rhyfedd
A iechyd llawn i ni;
Fe ddygodd ein doluriau,
A'n clwyfau, bob yr un,
Trwy rym tragwyddol gariad,
O fewn ei gorph ei hun.

Ac yna adgyfododd
Yn ogoneddus iawn;
Daeth bore teg a hyfryd,
'N ol 'stormus ddu brydnawn;
Y gadwyn fawr a dorodd,
Ar wawr y trydydd dydd,
Gorchfygodd angau ei hunan,
O'r carchar daeth yn rhydd.]

I fynu daeth o Edom,
A'i wisg yn goch ei lliw;
Nis gall'sai un creadur
[illegible] cadwyn gadw 'm Duw;
Fe [illegible]odd rym yr angau,
[illegible]odd ddrysau 'r bedd,
Pa[illegible]todd ffordd o'r ddaear
[illegible] i ganol hedd.

Th.

[illegible]
Erioed a[illegible]
[illegible]dd ei f[illegible]

HYMN 239. 7. 6. Esay.

Gwahoddiad.

MAE 'r ffynnon yn agored,
Dowch edifeiriol rai,
A chwithau yr un ffunud
Sy'n methu edifarhau;
Dowch a ga'dd galon newydd,
Dowch chwithau na cha'dd 'r un,
I olchi 'ch aflan feiau
Yn haeddiant Mab y Dyn.

Th.

HYMN 240. 7. 6. Berth.

Enw Jehofah. Exod. 34. 5, 6, 7.

WEL, dyma 'r modd y gwnaethpwyd,
I holl ddaioni Duw,
Fyn'd heibio o flaen wyneb
Y gwaelaf ddyn yn fyw;
Fel hyn cyhoeddwyd enw
Jehofah mawr a'i Grist,
Enwocaf enw 'r nefoedd,
I mi bechadur trist.

Hwyrfrydig i ddigofaint
At rai sy lawn o fai;
Wrth y pechadur penaf
O'i fodd yn trugarhau:
Mae 'n cadw rhad drugaredd
I filoedd maith a mwy,
Ac er ei glod yn maddeu
Eu haml feiau hwy. Th.

HYMN 241. 7. 6. Culmstock.

Gweddi am gymmorth dan deimlad o [illegible]udid.

O DYRED, Ior tragwy[illegible]
Mae ynot ti dy hu[illegible]
Fwy moroedd o drugare[illegible]
Nag a feddyliodd dyn[illegible]
Os deui at bechadur,
A'i godi ef i'r làn,
Ei galon gaiff, a'i dafod,
Dy ganmawl yn y man.

Na ymffrostia f' enaid bellach,
Na ymddiried yn dy rym;
'Dyw gras o honno ei hunan
Dy ddal yn abl ddim:
Nid oes ond gallu 'r nefoedd,
Nid oes ond rhin y gwaed,
Yn erbyn llu o elynion,
A'th ddal di ar dy draed. Tm.

HYMN 242. 7. 6. Bala.

Gogoniant Crist.

ANGYLION doent yn gyssoN,
Rifedi gwlith y wawr,
Rhoent eu coronau euraidd
O flaen y fainc i lawr;
Chwareuent eu telynau
Ynghyd â'r saint yn un,
Fyth, fyth, ni chanant ddigon
Am Dduwdod yn y dyn.

Yn angau 'r groes yn unig
Mae 'm iachawdwriaeth lawn,
Ac am y groes mi ganaf
O fore hyd brydnawn;
'Does ond yr aberth hwnw
Wnaed ar Galfaria fryn,
A'm crëa oll o newydd,
A'm càna oll yn wyn.
(131) W. W.

HYMN 243. 7. 6. Judgment Day.

Ymbil am ras.

TI Farnwr byw a meirw,
Sydd âg allweddau 'r bedd,
Ter[illegible]u eitha'r ddaear
Sy[illegible]gwyl am dy hedd;
'Dyw gras i ti ond gronyn,
Mae gras ar hyn o bryd,
Ryw filoedd maith o weithiau,
I mi yn well na'r byd.

O flaen y fainc rhaid sefyll,
Ië, sefyll cyn bo hir;
Nid oes a'm nertha yno
Ond dy gyflawnder pur;
Myfi anturia 'n ëon
Trwy ddyfroedd a thrwy dân,
Heb oleu ac heb lewyrch
Ond dy gyflawnder glân.
(131) W. W.

HYMN 244. 7. 6. Culmstock.

Mawl am iachawdwriaeth.

FY Nuw, fy addfwyn Iesu,
Boed clod i'th enw byth;
Doed dynion i dy foli
Fel rhif y bore wlith:
O na bai gwellt y ddaear
Yn delyn aur bob un,
I ganu i'r Hwn a anwyd
I'r byd i brynu dyn.

[O Iesu, pwy all beidio
Dy ganmawl ddydd a nos?
A phwy all beidio eofio
Dy farwol ddwyfol loes?
A phwy all beidio canu
Am iachawdwriaeth rad,
Ag sydd yn teimlo gronyn
O rinwedd pur dy waed?]

O Arglwydd, rho imi dafod
Nas tawo ddydd na nos,
Ond canmawl heb ddiffygio
Rinweddau gwaed y groes;
Na ddelo gair o'm genau,
Yn ddirgel nac ar g'oedd
Ond am fod Iesu anwyl
Yn wastad wrth fy modd.

TH.

HYMN 245. 7. 6. Esay.

Gwaed y taenelliad.

FE ddaeth â ni o'r diwedd,
'Nol dioddef chwerw loes,
At Iesu y Cyfryngwr
Fu 'n hongian ar y groes;
Ac at y gwaed daenellwyd,
Sy'n llefain pethau gwell
Na gwaed yr Abel hwnw
O fewn yr oesoedd pell.

Mi welaf fod fy Arglwydd
Yn awr yn cael ei glod,
Oddiwrth y ddyfais benaf
Fu yn y nef erioed;
Doethineb a thrugaredd,
Cyflawnder cryf ei hun,
A chariad a gwirionedd
Yn ymgofleidio 'n un.

[Gwaredu y saint rhag uffern
A phechod drwg ei ryw,
O safn y bedd ac angau,
A'u dwyn i fynwes Duw,
Eu harwain tros fynyddau,
A thrwy yr anial chwith,
A grea nef y nefoedd
Yn gân heb ddiwedd byth.]

Tr.

HYMN 246. 7. 6. Bala.

Digonolrwydd haeddiant Crist.

PWY ddyry im' falm o Gilead,
Maddeuant pur a hedd,
Nes gwneud i'm henaid edrych
Heb ofni ar y bedd,
A dianc ar wasgfeuon
Euogrwydd creulon cry'?
'Dd oes neb ond Ef a hoeliwyd
Ar fynydd Calfari.

Am angau 'r groes bydd canu
I dragwyddoldeb maith,
'Ond im' gael teimlo ei rinwedd
'Rwyf bron ar ben fy nhaith;
Fy nefoedd yw ei deimlo,
A'i deimlo 'n uniawn sydd
Yn troi pob rhyw dywyllwch
O'm mewn yn oleu ddydd.

W. W.

HYMN 247. 7. 6. Romain.

Rhyfeddodau yr Iachawdwriaeth.

'NOL edrych ar ol edrych,
O gwmpas imi mae
Rhyw fyrdd o ryfeddodau
Newyddion yn parhau:
Pan fwy'n rhyfeddu unpeth,
Peth arall ddaw i 'mryd—
O iachawdwriaeth rasol,
Rhyfeddol wyt i gyd!

Mi welaf yn ei fywyd
Y ffordd i'r nefoedd fry,
Ac yn ei angau 'r taliad
A roddwyd trosof fi;
Yn ei esgyniad gwelaf
Drigfanau pur y nef,
A'r wledd dragwyddol berffaith
Gâf yno gyd âg ef.
(130.) W. W.

HYMN 248. 7. 6. Penmachno.

Am gariad Duw.

O FOROEDD o ddoethineb
Oedd yn y Duwdod mawr,
Pan y cyfranai ei gariad
I bryfed gwael y llawr;
A gwneuthur i'w drugaredd
A'i dostur maith ynghyd,
I redeg megys afon
Lifeiriol dros y byd.

Duw cariad yw ei hunan;
Lle bynag rhedo ei fryd,
Mae anfeidroldeb eang
Yn cerdded trwyddo i gyd;
Mewn gweithred o drugaredd
Mae ef yn llawenhau,
Ac yn Faddeuwr pechod
Yn cael ei alw mae.

O gariad heb ei gymhar!
A dyma 'r testyn sy
Yn llanw holl ganiadau 'r
Angylaidd sanctaidd lu:
Anfeidrol ras, rhyfeddol!
Pe tawai am dano ddyn,
Fe swniai 'r fud greadigaeth
Yn ddiau trwyddi 'n un.

Gol.

HYMN 249. 7. 6. Judgment Day.

Doethineb a gallu Duw.

FY Nuw, uwchlaw fy nëall
Yw gwaith dy ddwylaw 'gyd;
Rhyfeddod annherfynol
Sy ynddynt oll ynghyd:
Wrth weled dy ddoethineb,
Dy allu mawr, a'th fri,
Hyderaf am achubiaeth
Yn hollol ynot ti.

Can's gallu canmil rhagor
Sy gan fy Mhrynwr drud,
Na rhoddi yr haul i hongian
Yn danllwyth uwch y byd;
Yspeilio uffern lydan,
Dwyn arfau 'r ddraig i bant,
A thori 'nghalon galed,
Sy fel yr adamant.

Goleuni 'r haul hanner-ddydd
Nid yw ond tywyllwch du,
Wrth ei gymharu â llewyrch
Ei wyneb dysglaer cu:
Ei gariad yn y galon
Yn rhoi llawenydd sydd,
Mil mwy, a gwerthfawrocach,
Nag ydyw goleu 'r dydd.

Gol.

HYMN 250. 7. 6. Culmstock.

Pob peth yn cydweithio er daioni i'r saint.

FY enaid, gwel fath noddfa
Ddiysgog, gadarn yw,
Ym mhob rhyw gyfyngderau,
Tragwyddol ras fy Nuw:
Ac yma boed fy nhrigfan,
A fy nhawelaf nyth,
Yn nyfnder cyfyngderau,
Sef tan ei aden byth.

Fe all i'r làn fy nghodi
O ddyfnder llwch y byd,
A gwneud pob drwg a gwrddwyf
Droi er daioni i gyd,
Rhoi olew o lawenydd
Yn wastad ar fy mhen,
A'm dwyn trwy foroedd dyfnion
I ganol nefoedd wen.
(128) GOL.

HYMN 251. 7. 6. Culmstock.

Y fordaith ysprydol.

FY enaid, moria bellach
Y'mlaen tu a'r hyfryd wlad;
Fe rwygodd Iesu 'r stormydd
Oddiyma i dŷ fy Nhad;
I'r làn o fôr euogrwydd,
Lle taflodd Adda fi,
Tu a'r wlad lle nad oes moroedd,
Caersalem hyfryd fry.

Gwna imi gadw yn uniawn,
A doed hi fel y dêl,
I'r wlad sy gwedi ei haddaw,
Sef tir EMMANUEL;
Ac fel bwy' 'mlaen yn morio,
Gâd imi draw o bell
Arogli o'i rinweddau,
A gwel'd o'i drysor gwell.
(127.) GOL.

HYMN 252. 7. 6. Penmachno.

Gogoniant Duw yn ei waith a'i ras.

O PA'M caiff fy meddyliau
Y rhai yn abl sy
I sylwi ar ogoniant
Crist, fy Nghreawdwr fry,
A gwedd ei wyneb grasol
Pan allwyf ei fwynhau,
Mor ynfyd fod a saled,
A brefu am y clai.

Anfeidrol amrywioldeb
Sydd yn y wybren draw!
Tu hwnt pob terfyn gwybod
Mae oll a wnaeth dy law!
Uwch wyt na'r holl greaduriaid,
Ac etto pob yr un
Sy'n dangos o'th ogoniant
Digymhar di dy hun.

Rhyfeddod rhyfeddodau
Wyt y'mhob rhan o'th waith,
O eithaf cŵr bwygilydd
O'r eangderau maith;
Ond etto mwy rhyfeddod
Sydd ynot ti dy hun,
Ac yn dy hael ymweliad
A phechadurus ddyn.

Ond y rhyfeddod fwyaf
I'r Tad roi ei Fab ei hun,
Mynwesol Fab ei galon,
I wisgo natur dyn;
Wel, dyma ddarostyngiad,
A dyma rodd mor fawr,
Na welir ei chyffelyb
O eithaf nen i lawr!

HYMN 253. 7.6. Penmachno.

Ystyried daioni Duw yn maeddu anghrediniaeth.

DEFFROWCH fy holl serchiadau,
A sefwch yn eich lle,
I garu a rhyfeddu
Tywysog mawr y ne':
Awdwr ein hiachawdwriaeth,
Bwrcasodd nefol hedd,
Gofalu mae am danaf
O'r groth i waelod bedd.

[Byth d' enw gaffo ei foli,
Byth bythoedd byddo 'th glod,
Càn mil o weithiau 'n lletach
Na'r nefoedd faith ei rhod;
Boed seintiau ac angylion
Mewn cydsain hyfryd lân,
I'th enw gogoneddus
Yn gwneud soniarus gân.

Sawl gwaith gwnest fy niffygion
A'm heisieu fynu 'n llawn!
Do, toraist fy ammheuaeth
Wrth hyny 'n rhyfedd iawn:
Rhyfeddais, can rhyfeddais,
Barhad dy ddoniau maith;
Cywilyddiaist f' anghrediniaeth
Yn gyflawn lawer gwaith.]

Trwy ffydd, mwy nid ammheuaf,
Bu Iesu trosof fi
Yn dyoddef cael ei hoelio
Ar fynydd Calfari;
Os prynodd Ef fy enaid
A'r aberth mwyaf drud,
A ball Ef un drugaredd
Sydd eisieu yn y byd!

Mae yma fôr o gysur
  Yn llifo imi pan
Fo myrdd o rwydau Satan
  Yn erbyn f' enaid gwan;
Bwriadwyd oll eu tori,
  A'r bwriad ddaw i ben,
Mor wir a'r bwriad hwnw
  O farw ar y pren.

GOL.

HYMN 254. 7. 6. Berth.

Canmawl cariad Crist a'i gyfeillach.

DYMUNO'r ydwyf dreulio
  Fy amser yn y byd,
Bob dydd, bob awr, bob mynyd,
  I'th ganmawl di o hyd;
I mi y perthyn diolch
  Hyd fyth i Iesu Grist,
Am achub f' enaid gwirion
  O ddyfnder uffern drist.

Gwell wyt i mi na'r bywyd,
  Hyfrytach yw dy wedd,
Na dim ag sydd weledig
  Yr ochr yma i'r bedd;
Un awr yn dy gyfeillach
  Can mil mwy gwerthfawr mae
Nag oesoedd maith diderfyn
  Rhyw bleser i'w fwynhau.

A gwell y groes, y gw'radwydd,
  Y gwawd, a'r erlid trist,
Y dirmyg a'r cystuddiau,
  Sy gyda Iesu Grist;
Can's yn ei groes mae coron,
  Ac yn ei wawd mae bri,
A phleser yn ei gariad,
  Sy fwy na'n daear ni.

GOL.

HYMN 255. 7. 6. Philoe.

Aberth Crist yr unig iawn dros bechod.

PA fodd, fy enaid euog,
Y sefi yn erbyn grym
Cyflawnder, hyd yr eithaf
Na âd heb dalu dim,
Sy'n chwilio yr arenau,
A holl ddyfnderoedd dyn,
Yn eglur fel yr haulwen
I lygad Duw ei hun?

[Digiasom Dduw anfeidrol,
Enguriol yw ein bai,
Dyoddefaint mawr anfeidrol
Sy raid gael i'n hiachâu;
Dyoddef llid ar unwaith,
Gan berson gwych ei ryw,
Neu fyth i dragwyddoldeb
Fod tan felldithion Duw.

Aeth Iesu tan y cwbl,
A hyny i gyd yn rhad;
Mae 'r tâl hyd eitha 'r ddyled
Ofynir gan y Tad,
Hyd at yr hatling leiaf,
Wrth ddifaddeuol ri';
Iawn arall nis gofynir
O flaen yr orsedd fry.]

Ni edrych Iob ar weddi,
Ni edrych Iob ar waith,
Nac offrwm poeth, nac aberth,
Mawl nac elusen chwaith,
Na llafur, na diwydrwydd,
Zêl, nac ymprydiau trist,
Na dim, at faddeu pechod,
Ond angau Iesu Grist.

Os Satan, neu gydwybod,
  Neu lym gyfiawnder Duw,
A ddadleu echryslondeb
  Y pechod drwg ei ryw;
Mai gwag yw pob creadur
  I wneud am dano iawn;
Cyhoeddir trwy 'r Efengyl
  Fod Iesu Grist yn llawn.

GOL.

HYMN 256. 7. 6. Culmstock.

Crist yn Ben-llywydd ar bob peth.

FY ngolwg pa'm na thröaf
  Fyth tu a'r nefoedd wen;
Yn nghanol pob cynddaredd
  A welaf is y nen,
A'm IESU yn rheoli
  Yr afreolus lu,
O ddyfnder uffern isod
  I uchder nefoedd fry.

Dy ofn a ddodi weithiau
  I grynu calon gwr;
Ac weithiau ti a'i toddi
  Nes byddo hi fel dwr:
Yn wastad ti orchfygi,
  Yn wastad âi â'r maes,
A dedwydd yw a bwyso
  Yn unig ar dy ras.

O'r pridd y gwna 'r crochenydd
  Y llestr o'r maint a'r llun,
I barch, neu ynte anmharch,
  Fel myno ef ei hun;
Dy wyllys dithau, Iesu,
  Fel mynech, felly boed:
I'th enw bo'r gogoniant
  Yr awrhon fel erioed.

GOL.

HYMN 257. 7. 6. Bala.

Iawn Crist yn sail hyder a gorfoledd y credadyn.

MI bwysaf arnat, Arglwydd,
Tra yma byddwyf byw,
Dy angau sydd yn deilwng,
Ti wyt anfeidrol Dduw;
O ateb dros fy meiau,
A chliria fi â'th waed,
Yn ngŵydd yr holl angylion,
Yn awr ger bron fy Nhad.

Ni 'drychaf ar ddim arall
Yn unig ond tydi,
Tan hoelion dur yn griddfan,
Ar fynydd Calfari;
Fy lloches rhag euogrwydd,
Tra ar y ddaear hon,
Fydd tyllau 'r hoelion geirwon,
A chlwyf y waewffon.

Yn awr wy'n gorfoleddu,
Can's gosod wnes y sail
Ar gadarn Graig yr oesoedd,
Sef haeddiant Adda 'r ail;
Dim arall tan y nefoedd
All roddi imi hedd,
A thawel orfoleddu
Yn wyneb angau a'r bedd.

Duw, rho imi ffydd i edrych,
Y'mhob caethiwed du,
A phechod arna'i 'n gwasgu,
I fryniau Calfari;
Gwna i fy nghalon deimlo
Yr anghydmharol loes,
Yn lloches gynnes dawel,
Yn wastad tan y groes.

GOL.

HYMN 258. 7. 6. Romain.

Etholedigaeth gras.

RHYFEDDOL byth, rhyfeddol
Yw cariad rhad fy Nuw,
A redodd yn yr arfaeth
At ddynion gwael eu rhyw;
A'u dewis mewn Cyfryngwr,
A'u rhoddi iddo 'n had,
Ac yntau yn ymrwymo
I'w dwyn yn un â'i Dad.

Etholiad, heb un ammod
Yn sefyll ar y dyn,
Yn tarddu o foddlonrwydd
Ewyllys Duw ei hun;
Tragwyddol, heb un dechreu,
Anghyfnewidiol yw;
Mae'r sylfaen a'r adeilad,
I gyd o gynghor Duw.

Etholwyd i feddiannu 'r
Holl ragorfreintiau drud,
Y moroedd o fendithion
Sy 'ngwaed Iachawdwr byd;
Cyfiawnder, a sancteiddrwydd,
A gogoneddiad llawn:
Rhad! rhad! fydd anthem Sïon,
Am fath annhraethol ddawn.

Mae'r moddion a'r dybenion
Mewn cwlwm sicr iawn;
'Does modd fod gwell sefydliad,
Mae'n ddoeth, o ras yn llawn;
Prif ddiben ethol ydoedd
Derchafu gras fy Nuw,
Ac wrth wneud hyny, achub
Myrddiynau o ddynolryw.

HYMN 259. 7. 6. Judgment Day.

Ymhyfrydu yn Nghrist.

TI, Iesu, fo hyfrydwch
Fy meddwl i'w fywhau,
A gwrthddrych pur fy nghariad,
I'th hoffi a'th fwynhau;
Fy ymffrost a'm gogoniant,
Trwy hyn o anial daith,
A'm cyflawn iachawdwriaeth
I dragwyddoldeb maith.

Tydi sy'n llawen wledda
Holl luoedd nefoedd fawr;
Tydi sy'n lloni calon
Pechadur ar y llawr:
Tydi sy'n tynu ymaith
Bob llwyth, a baich, a phoen;
Melysder pob melysion,
Wyt nefol addfwyn Oen.

T. J.

HYMN 260. 7. 6. Penmorfa.

Sylfaen safadwy.

WEL, dyma oedfa newydd
O Arglwydd dyro rym
I ymladd â phla calon,
A llid gelynion llym;
Mae llawer mil o bethau
Am gael fy mhen i lawr,
Nid oes a'm ceidw yn unig,
Ond gallu y Meddyg mawr.

Wrth geisio gwneuthur pobpeth,
'Rwy'n methu gwneuthur dim;
Wrth geisio maeddu 'mhechod
'Does ynof ronyn rym;
Wrth fyn'd at bob meddygon
Gwaethygu wnaeth fy nghlwyf,
Anturiaf at yr Iesu,
Yn aflan fel yr wyf.

[Am graig i adeiladu,
Fy enaid chwilia 'n ddwys;
Y sylfaen fawr safadwy,
I roddi arni 'th bwys;
Bydd melys yn yr afon
Gael craig a'm deil i'r làn,
Pan fyddo pob ystormydd
Yn curo ar f' enaid gwan.]

G.

HYMN 261. 7. 6. Penmachno.

Duw parod i faddeu.

O ARGLWYDD, dysg im' chwilio
I wirioneddau 'r gair,
Nes dod o hyd i'r Ceidwad
Fu gynt ar liniau Mair;
Mae Ef yn Dduw gälluog,
Yn gadarn i iachàu;
Er cymmaint yw fy llygredd,
Mae 'n ffynnon i'm glanhau.

Pa Dduw ym mhlith y duwiau,
Sy debyg i'n Duw ni?
Mae'n hoffi maddeu 'n beiau,
Mae'n hoffi gwrandaw 'n cri:
Nid byth y deil eiddigedd,
Gwell ganddo drugarhau;
Er maint ein hannheilyngdod,
Mae 'i gariad E 'n parhau.

[Tangnefedd Duw yn ddiball,
Sydd uwchlaw dëall dyn,
A gadwo ein calonau,
A ninnau ynddo 'n un;
A gras ein Harglwydd Iesu,
A chariad UN yn DRI,
Cymdeithas y Glân Ysbryd
Fo'n hyfryd gyda ni.]

(129.)

G.

HYMN 262. 7. 6. Esay.

Gwaed y cymmod yn tawelu euogrwydd.

DAETH ini iachawdwriaeth
Drwy eithaf chwys a gwaed;
Mae 'n codi pechaduriaid
O'r dyfnder ar eu traed;
'Dai byth i 'mofyn haeddiant,
Trwy nef na daear lawr,
Ond haeddiant pen Calfaria,
Rhinweddau 'r aberth mawr.

[Pan oedd euogrwydd creulawn
Yn llosgi fel y tân,
A Satan yntau 'n rhifo
Fy meiau fawr a mân;
Anfeidrol haeddiant Iesu
A wnaeth i'r clorian droi,
A'i nefol ymddangosiad
Wnaeth i'm gelynion ffoi.

Fe'm siomwyd gan y ddaear,
Fe'm siomwyd gan y byd,
Fe'm siomwyd gan fy nghalon
Yn fwy na'r rhai'n i gyd:
Mewn myrdd o demtasiynau,
A mil o groesau 'r llawr,
Ni safodd neb yn ffyddlawn,
Ond fy Eiriolwr mawr.]

O Arglwydd dyro olwg
Ar dy anfeidrol rym,
Yn wyneb holl ddichellion
A llid gelynion llym;
Un olwg ar dy haeddiant,
Yr Iawn anfeidrol fawr,
A wna i bob gelyn gilio,
A chwympo oll i lawr.

G.

HYMN 263. 7. 6. Philoe.

Ymddiried yn Nghrist, y Duw-ddyn.

O ARGLWYDD Dduw rhagluniaeth,
Ac iachawdwriaeth dyn,
Tydi sy'n llywodraethu
Y byd a'r nef dy hun;
Yn wyneb pob caledi,
Y sydd neu etto ddaw,
Dod gadarn gymhorth imi
I lechu yn dy law.

[Er cryfed ydyw 'r gwyntoedd,
A chedyrn dònau 'r môr,
Doethineb dyw 'r Llywydd,
A'i enw 'n gadarn tŵr;
Er gwaethaf dyfnder pechod,
A llygredd o bob rhyw,
Diangol fyth heb soddi,
Am fod yr arch yn Dduw.

O am gael ffydd i edrych
Gyd â'r angelion fry,
I fôr yr iachawdwriaeth
Dirgelwch ynddi sy;
Dwy natur mewn un Person
Yn gyson yno a gaed;—
Anfeidrol a thragwyddol
Yw rhinwedd dwyfol waed.]

O f' enaid, gwel addasrwydd
Y Person dwyfol hwn;
Anturia iddo 'th fywyd,
A bwrw arno 'th bwn;
Mae 'n Ddyn i gydymdeimlo
A'th holl wendidau i gyd;
Mae 'n Dduw i fynu 'r orsedd
Ar ddiafol, cnawd, a byd.

 A. G.

HYMN 264. 7. 6. Heol y Bont.

Mawl i'r Drindod yn Undod.

Y CLOD, y nerth, a'r enw,
Anrhydedd, parch, a bri,
I'r Drindod fawr yn Undod,
A'r Undod pur yn Dri;
Ei glod ehedo allan,
Ei glod anfeidrol Ef,
Trwy eangder annherfynol
Mesurau maith y nef.

(126) G.

HYMN 265. 7. 6. Heol y Bont.

Arfaeth Duw, ac Etholedigaeth.

CYN gwneuthur nef na daear,
Nac angel chwaith na dyn,
Yn nhragwyddoleb trefnodd,
Rhagluniodd Duw ei hun,
Y modd y byddai pobpeth
Mewn arfaeth gadarn iawn
Ei gynghor ef a'i fwriad
Fydd mewn gweithrediad hawdd.

Gwnaeth Duw yn ol ei arfaeth
Y greadigaeth fawr;
Yn ol y cynfwriadu
Mae 'n llywodraethu 'n awr;
A bwriad ucha'r arfaeth
Yw iachawdwriaeth dyn,
Trwy roi ei Fab i farw,
Er enw iddo ei hun.

[Y Tad mewn rhad gyfammod,
Wnai osod Crist yn Ben,
Ac ynddo Ef etholwyd
A brynwyd ar y pren,
I gaffael iachawdwriaeth,
Yn ol yr arfaeth rad,
A'u dwyn yn rhai gwaredol,
I wledd y nefol wlad.]

J. H.

HYMN 266. 7. 6. Penmachno.

Prynedigaeth.

YN lle y prynedigion,
Gosodwyd Person Crist,
A rhoddwyd arno 'n ddiau
Eu hanwireddau trist;
Dyoddefodd Ef yn helaeth
Eu cosbedigaeth lawn,
A darfu eu llwyr brynu,
Trwy dalu perffaith Iawn.

Pob bendith rad ysbrydol,
Rhagorol bethau 'r nef,
Sy'n dod trwy 'r prynedigaeth,
A'i wir eiriolaeth Ef;
I bawb a gywir gredant
Y mae maddeuant llawn;
Trysorau y cyfammod
Sy'n dyfod trwy yr Iawn.

[Gwnaed Iesu Grist yn felldith,
Fel delai bendith Duw
Ar bechaduriaid mawrion,
Caiff llu o feirwon fyw;
Trwy brynu a gwaredu,
Yr Iesu a wêl ei hâd,
Yn eglwys ddifrycheulyd
O fewn yr hyfryd wlad.]

J. H.

HYMN 267. 7. 6. Romain.

Crist fel pren afalau. CAN. 2. 2.

PWY welaf fel f' Anwylyd,
Yn hyfryd ac yn hardd,
Fel ffrwythlon bren afalau,
'N rhagori ar brenau 'r ardd?
Ces eistedd tan ei gysgod
Ar lawer cawod flin,
A'i ffrwyth oedd fil o weithiau
I'm genau 'n well na gwin.

J. T.

HYMN 268. 7. 6. Judgment Day.

Llawenhau yn wyneb angau.

AR fyr caf rodio llwybr
Na ddeuaf byth yn ol;
Mi rof ffarwel tragwyddol
I'r holl forwynion ffol:
Dedwyddwch maith di ddarfod
Sydd uchod i barhau;
O! f' enaid, dechreu ganu,
Mae'r amser yn nesau.

Ymadaw wnaf â'r babell
'Rwy'n trigo ynddi 'n awr;
Colofnau 'r tŷ ddattodir,
Fe'u cwympir oll i lawr:
A pob gwahanglwyf ymaith,
Glân fuddugoliaeth mwy;
'Rwy'n canu wrth gofio 'r þore
Na welir arnaf glwy'.

[Teilwng yw 'r Oen a laddwyd
O'r holl ogoniant mawr,
Trwy ganol nef y nefoedd,
Ac yma ar y llawr;
Pan elo 'r holl grëedigaeth
Yn ulw gan y tân,
Teilyngdod Iesu drosof
Fydd fy nhragwyddol gân.]

M. R.

HYMN 269. 7. 6. Judgment Day.

Maddeuant rhad, a rhyddid i'r caethion.

WEL, dyma 'r un sy'n maddeu
Pechodau rîf y gwlith;
'Does mesur ar ei gariad,
Na therfyn iddo byth:
Mae 'n 'mofyn lle i dosturio,
Mae 'n hoffi trugarhau;
Trugaredd i'r amddifaid
Sydd ynddo i barhau.

Agorodd ddrws i'r caethion
I ddod o'r cystudd mawr;
A'i werthfawr waed fe dalodd
Eu dyled oll i lawr:
Nid oes dim damnedigaeth
I neb o'r duwiol hâd;
Y gwaredigion canant
Am rinwedd mawr ei waed.

[Fe genir, ac fe genir,
Yn nhragwyddoldeb maith,
Os gwelir un pererin
Mor llesg ar ben ei daith,
A gurwyd mewn tymhestloedd,
A olchwyd yn y gwaed,
A gànwyd, ac a gadwyd
Trwy iachawdwriaeth rad.]
(125) M. R.

HYMN 270. 7. 6. Heol y Bont.

Marwolaeth, adgyfodiad, ac eiriolaeth Crist.

FYTH, fyth, rhyfeddai 'r cariad,
Yn nhragwyddoldeb pell,
A drefnodd yn yr arfaeth
Im' etifeddiaeth well
Na'r ddaear na'i thrysorau,
A'i brau bleserau ynghyd;
Fy nghyfoeth mawr di dderyn
Yw Iesu, Brynwr byd.

Ar noswaith oer fe chwysai
Y gwaed yn ddafnau 'lawr,
Ac ef mewn ymdrech meddwl,
Yn talu 'n dyled mawr;
Fe yfai 'r cwpan chwerw
Wrth farw ar y pren;
Palmantodd ffordd i'r bywyd,
O'r ddaear hyd y nen.

Tragwyddol glod i'r cyflawn
Fu farw tros fy mai;
Pe adgyfododd eilwaith
O'r bedd i'm cyfiawnhau:
Ar orsedd ei drugaredd
Mae 'n dadleu yn y ne'
Ei fywyd a'i farwolaeth
Anfeidrol yn fy lle.

M. R.

HYMN 271. 7. 6. Penmorfa.

Ymbil am faddeuant.

PECHADUR wyf, O Arglwydd,
Yn curo wrth dy ddôr,
Erioed mae dy drugaredd,
Di ddiwedd yn ystôr:
Er iti faddeu beiau
Rifedi 'r tywod màn,
Gwn fod dy rad drugaredd
Lawn gymmaint ag o'r blaen.

[Dy hen addewid rasol
A gadwodd rif y gwlith
O ddynion wedi colli,
A gân am dani byth:
Er cael eu mynych glwyfo
Gan bechod îs y nen,
Iachâir eu dyfnion glwyfau
A dail y bywiol bren.]

Gwasgara 'r tew gymylau
Oddi yma i dŷ fy Nhad;
Dadguddia imi beunydd
Yr iachawdwriaeth rad;
A dywed air dy hunan
Wrth f' enaid clwyfus trist,
Dy fod yn maddeu meiau
Yn haeddiant Iesu Grist.

 M. R.

HYMN 272. 7. 6. Esay.

Cyflawn fwynhad o Dduw tu draw i angau.

WYF yma tan y tònau
Yn griddfan lawer awr,
Yn methu cadw 'ngolwg
Ar y Messïah mawr;
Ar fyr daw dydd câf nofio
I mewn i'w dawel hedd;
Ni cholla'i 'r olwg arno
Yr ochr draw i'r bedd.

Fe dderfydd imi bechu,
Iachâir yn làn fy nghlwy',
Ond byth ni dderfydd canu
Am faddeu pechod mwy:
Câf gorph yr hen farwolaeth
I lawr, ni chyfyd byth,
A gwledd ar fynydd Sïon,
Dragwyddol bur ddi lyth.

Ni bydd y wledd ond dechreu
Pan ddelo angau ddydd;
Fel yr amlhäo 'r dyrfa
Caniadau fwy-fwy fydd:
Ond pan ddaw cyrph y seintiau
Yn gryno i gyd o'r bedd,
Rhyw ddechreu byth heb ddiwedd
Fydd y dragwyddol wledd.

[Ni cheisia'i 'n wyneb Moses
Ond Iesu i ddadleu 'nghwyn,
Y cyflawn tros anghyflawn
Fu farw er fy mwyn;
Yn ymchwydd yr Iorddonen,
Ac yn y farn a ddaw,
Diangol yn y diwedd
A fyddaf yn ei law.]

M. R.

HYMN 273. 7. 6. Penmachno.

Angau.

CHWI etifeddion Sïon,
Sy'n athrist iawn eich gwedd,
Paham yr ofnwch gymmaint
Wrth edrych ar y bedd?
Edrychwch i Gaersalem,
Y ddinas hardd-deg fry,
Lle mae gogoniant perffaith
Yn nghadw 'n llwyr i chwi.

Angau nid yw ond moment—
Mae tragwyddoldeb maith
Yn aros plant yr arfaeth
'Nol myn'd i ben eu taith:
Tragwyddol bwys gogoniant
Yw 'r trysor llawn sy draw;
Cânt goron aur, a thelyn,
A phalmwydd yn eu llaw.

Nid ydyw dyrnod angau
I etifeddion gras,
Ond tori eu cadwynau,
A dryllio 'u carchar cas:
Gogoniant Sïon sanctaidd
Yn gyflawn bydd o hyd,
I loni 'r gwaredigion,
'Nol myn'd o'r anial fyd.

'Wna angau ond fy symud
Oddiar y gwaedlyd faes;
Ni feiddia, er ei waethaf,
Mo gyffwrdd dim â'm gras;
Ni all y gelyn olaf
Ond rhoddi îm' ryddhad,
A'm dwyn i dawel orphwys,
I fynwes f' anwyl Dad.

Trwy gymmorth, mi ddisgwyliaf
Am dano o ddydd i ddydd;
Er mai dychrynllyd ydyw,
Fe wna fy nhraed yn rhydd:
Pryd hyn câf aden eryr
I hedeg mewn i'r nen,
I'r pur ogoniant hwnw
Sy'n llawn o fewn i'r llen.

HYMN 274. 7. 6. 5. Tref-draeth. Gogoneddiad.

Adgyfodiad a gogoneddiad y saint.

HENFFYCH i'r bore hyfryd,
'Ddaw gelyn byth nac adfyd,
I dir y bywyd fry!
Y seintiau ddaw ynghyd,
Bob wyneb i'r byd,
Yn unfryd yno i ganu.

Fry yn Nghaersalem dawel,
Ym mhell o swn y rhyfel,
Câf uchel ganu clod;
Fy nefoedd ddiboen
Fydd gweled yr Oen—
Fe dderfydd sôn am bechod.

Gwnair diwedd ar bob blinfyd,
Fy nghystudd mawr a'm hadfyd,
Yn nhir y bywyd fry;
Tragwyddol fwynhad,
Yn nheyrnas fy Nhad,
Heb unrhyw frad i'm drygu.

Mi gysgaf hûn yn dawel,
Dros enyd yn y grafel,
Nes dattod trefn y rhôd,
Ac yno mewn hedd,
Y codaf o'm bedd,
Ar ddysglaer wedd fy Mhriod.

 M. R.

HYMN 275. M. N. 7. 6. 8. Clark's. Calfaria. Upnor.

Gweddi mewn trallod.

LLAWN o ofid, llawn o wae,
A llawn cuogrwydd du,
Byth y byddaf yn parhau
Heb gael dy gwmni cu;
Golwg unwaith ar dy wedd
A'm cod i'r làn o'r pydew mawr;—
O fy Nuw, nac oeda 'n hwy,
Rho 'r olwg imi 'n awr.

Gwel y truan, gwel y tlawd,
Yn gorwedd wrth dy draed;
O Samariad, bydd yn frawd,
Adfera im' iachâd;
Dyro olew yn fy mriw,
A chod fi ar d' anifail cun,
Ac nis gall fyth fyth fy nwyn
Ond d' allu di dy hun.

[Ceisiaf am orphwysfa glyd,
Heb rym ystormydd mwy;
Lloches nid oes yn y byd
Fel hyn ond yn dy glwy':
Tro fy ngolwg at y fan
Y derfydd ofnau trist a braw;
Yna f' enaid llawen fydd
Y bore ddydd a ddaw.

Dyrys daith, a mi sydd wan,
A bryniau maith o'm blaen;
Mi frawychais lawer gwaith
Rhag grym y fflamau tân;
Mae'r Iorddonen heddyw 'n fawr,
Os gwir ddychymyg f' enaid gwan,
Dyred, Arglwydd iddi lawr,
Ac yna dof i'r làn.]

(135.) W. W.

HYMN 276. 7. 6. 8. Pontyłai. Paris. Amity.

Llawenhau am obaith gwynfydedigrwydd.

IESU, dirmygedig un,
Ddyoddefodd angau loes,
Gan ryw ddienyddwyr llym,
Yn wirion ar y groes;
Y griddfanau ro'dd i maes,
Ddaeth â'r trueiniaid oll yn rhydd;
Bellach holl ganiadau 'r nef
Fyth am Galfaria fydd.

Bydd torf o angelion gwych,
Cerubiaid pur yn un,
Maith dorfeydd o seraphim,
Yn canu i Fab y Dyn:
A chaniadau fydd y rhai'n,
Na ddaeth i feddwl dyn erioed,
Ag sy'n trigo is y nen,
I fod eu bath yn bod.

[O foreuddydd dedwydd iawn,
Pan ddaw y dorf yn un,
O bob cŵr i'r ddaear faith
I g'wrdd â'u Harglwydd cun;
Derfydd gofid a phob gwae,
E dderfydd temtasiynau maith,
Derfydd pechod mawr ei rwysg,
A derfydd dyrys daith.

Ac wrth wel'd yn agosâu
Fath hyfryd fore wawr,
Un diwrnod goleu clir,
Maith dragwyddoldeb mawr,
Pa'm na bawn yn llawen iawn?
Hyn wyf yn 'mofyn ei fwynhau,
Dyma lef fy enaid gwan,
Ei wel'd yn agosâu.]

(134) W. W.

HYMN 277. M. N. 7. 8. Maesydd Soan.

HYMN I'R YSGOLION SABBATHOL.

Ar olygiad Psalm 114.

Gof.—PA gynhwrf, a pha riddfan,
Sydd trwy holl faesydd Soan?
Pa dorf yw hon sy'n myn'd i maes,
Heb ynddi neb yn egwan?
At.—Duw Abram sydd yn gwared
Ei blant o'u blinfyd caled;
A'u dwyn y mae, gan ddryllio 'r Aipht,
O'u haiarn bair gaethiwed.

Gof.—Pwy rwyga iddi 'r dyfroedd,
Balmanta 'r gorddyfnderoedd,
A'i harwain trwy 'r anialwch maith,
Gan borthi ei aml filoedd?
At.—Ei chymhorth llawn digónol
Yw'r Ydwyf mawr tragwyddol;
I'r Ganaan wiw eu harwain wna
Trwy wyrthiau tra rhyfeddol.

Gof.—Paham y ciliwch ddyfroedd,
Y neidiwch chwi fynyddoedd,
Y wylwch chwithau greigydd hyll,
Yr anial dir yn llynoedd?
At.—Onid gweddus ini barchu
Ein Crëwr, mewn mawrhydi,
Yn rhodio o flaen ei braidd yn hardd,
Trwy 'r anial dir i fynu?

Gof.—I bwy, y bryniau oesol,
Y plygwch chwi yn drefnol;
A thi Iorddonen gyflawn gref,
Y rhedi yn dy wrthol?
At.—I'r Hwn sy'n pwyso 'r bryniau,
Fel mân-lwch mewn clorianau;
Ac yn ei law mae 'r moroedd mawr,
A'u 'nysoedd megys brychau.

HYMN 278. 7. 8. Affrica.

Mawl i'r Ceidwad.

HOSANNA, Haleluiah,
I'r Oen fu ar Galfaria;
Gorphenodd iachawdwriaeth dyn,
Efe ei hun yw 'r noddfa:
Tragwyddol ddiolch iddo,
Am faddeu a thosturio;
Anfeidrol fraint i lweh y llawr
Fod croesaw 'nawr ddod ato.

Mae 'n achub hyd yr eitha',
Y pechaduriaid mwya';
Fe drefnwyd ffordd i gadw dyn,
Gan Drì yn Un JEHOFAH:
Anturiwn ninnau arno,
Mae 'r Iesu 'n achub etto,
A chroesaw i bechaduriaid mawr,
Bob mynyd awr ddod ato.

Mae 'r dyled gwedi ei dalu,
Ac uffern gwedi ei maeddu,
Gobeithiol garcharorion sy
Yn dod yn llu i fynu:
Mae 'r pyrth yn llawn agored,
Doed Israel o'r caethiwed;
Pob llesg a gwan, fyth ger ei fron,
Cânt wel'd yn llon eu nodded.

(170) D. C.

HYMN 279. 7. 8. Maesydd Soan.

Galwad yr efengyl.

OLLANWED iachawdwriaeth,
Fel môr di drai yn helaeth;
A doed ynysoedd pell y byd,
I gyd gael meddyginiaeth:
Mae'r Brenin ar ei orsedd,
Yn cynnyg, o'i drugaredd,
I bechaduriaid tlodion, gwael,
Ddod ato i gael ymgeledd.

G.

HYMN 280. M. N. 8. Uxbridge.

Hiraetha am ogoniant.

WRTH gofio 'r Jerusalem fry,
Y ddinas preswylfa fy Nuw,
Y saint a'r angelion y sy
Yn canu caniadau ' bob rhyw,
Am yno mae 'nhrysor i gyd,
'Nghyfeillion a'm brodyr o'r bron,
Fy nghalon sy'n brefu o hyd,
Yn fuan am fyned i hon.

Fy enaid sychedig y sydd,
Wrth deithio dros fryniau mor faith,
Yn dysgwyl yn dawel bob dydd
Cyfarfod â diwedd fy nhaith:
Fel darffo fy ngofid a 'ngwae,
Fy nhrallod, fy mlinder, a 'mhoen,
A dechreu 'ngorfoledd di drai,
Caniadau tragwyddol i'r Oen.

[Mi garaf f' Anwylyd o hyd,
Fy Mhrynwr, fy Mhriod, a'm Pen;
O'r diwedd fe sugnodd fy mryd,
O'r ddaear i'r nefoedd uwch ben;
Gwyn fyd a fai 'n gorwedd yn awr,
Yn llonydd, yn ngwaelod fy medd,
Mi godwn ar doriad y wawr,
Yn fuan i weled ei wedd.]

W. W.

HYMN 281. 8 sill. Tal y bont,

Rhyfedd ddyoddefaint Crist.

WRTH gofio 'i riddfanau 'n yr ardd,
Ei chwys yn ddefnynau o waed,
Aredig ar gefn oedd mor hardd,
Ei daraw â chleddyf ei Dad,
Ei arwain i Galfari fryn,
A'i hoelio ar groesbren o'i fodd,
Pa dafod all dewi am hyn!
Pa galon mor galed na thodd!

HYMN 282. 8 sill. Maryland.

Cyflawnlad y gyfraith.

CYFLAWNWYD y gyfraith i gyd,
Fe ddofwyd ei llid heb fy lladd;
Cyflawnder wrth hir ofyn iawn,
Ei daliad yn gyflawn a gadd:
Cyflawnder a'r gyfraith sy'n awr
Yn edrych i lawr yn ddi lid;
Mae 'r Priodoliaethau mewn hedd,
Yn gwaeddi "trugaredd" i gyd.
(138) E. J.

HYMN 283. 8 sill. Tal y bont.

Mewn angladd Gweinidog yr Efengyl.

MAE 'n brawd wedi gorphen ei daith,
Ei lafur a'i waith yr un wedd,
A Christ wedi talu ei ddylêd,
Mae 'n addfed i fyned i'w fedd:
Caiff gysgu hûn dawel nes dod,
Ryw ddiwrnod heb bechod, yn bur,
O'r beddrod yn hynod mewn hedd,
Heb ffaeledd, na chamwedd, na chur.

'Ddaw gwewyr, na dolur, na dig,
Na gelyn, na pheryg', na phoen,
I'w flino 'n yr ardal lle trig,
Yn nghwmni caredig yr Oen:
Dim achos i wylo ni wêl,
Mae 'n sicr ddiogel na ddaw
Dim oerni 'n ei gariad na'i zêl,
Mae 'n dawel heb ryfel na braw.

Ymdrechodd hardd ymdrech y ffydd,
Er uffern fawr beunydd a'r byd;
Gorphenodd ei yrfa, mae 'n rhydd;
Gadawodd ei gystudd i gyd:
Mae bellach yn holliach mewn hedd,
O gyrhaedd ei lygredd yn lân;
Dim tristwch i'w feddwl ni fydd,
Hosanna 'n dragywydd a gân.
(136) E. J.

HYMN 284. 8 sill. Burnt Ash.

Gogoniant y nefoedd.

MAE 'r goleuni sy'n ninas ein Duw,
Tu hwnt i amgyffred un dyn;
Nid oes neb all ei weled a byw,
Ond y dorf ogoneddus ei hun:
Nid yw grisial yn ngolwg yr haul,
Neu wydyr f'ai lawer mwy pur,
I lewyrch y nefoedd ddim ail—
Fy Iesu yw'r ffynnon yn wir.

Mae yno DRI Pherson yn bod,
Ac etto un sylwedd ond UN,
Gogyfuwch mewn gallu a chlod,
I wared plant Adda 'n gytun:
Yn hyn rhyw ddyfnderoedd y sydd,
Diwaelod, anfeidrol o faint;
Er hyny eu credu trwy ffydd
Yw cysur a sylfaen y saint.

Nid oes mesur amseroedd byth fry,
Dim oriau cyffelyb i'r byd,
Myned heibio ryw oesoedd y sy,
Wrth ganu i'r Drindod ynghyd:
Holl nefoedd, wrth weled ei ras,
Sy'n synu—yn canu 'n fwy hy'
Ganiadau newyddion eu blas—
Wel, dyna 'r digrifwch sydd fry.

RHAN II. Talgarth.

ANGELION, seraphiaid, a saint,
Wrth ganu 'n soniarus ynghyd,
Eu hadsain sydd cyfuwch ei faint,
Mae 'n crynu 'r holl nefoedd i gyd;
Neb yno yn glaiar ei gân,
Na neb yn addoli mewn rhith,
Eu calonau sy'n llosgi fel tân,
A gwynfyd a fai yn eu plith.

Caniadau newyddion sydd fry,
  Tebygwn i glywed eu llef;
Fy enaid blinedig i sy
  Am ddysgu cerddoriaeth y nef:
Yr anrhydedd, y gallu, a'r clod,
  Y parch, y gogoniant, a'r bri,
Yr awrhon, fel ag y bu erioed,
  I'n Harglwydd yn Un ac yn Dri.

Ni ddaw syched, na newyn, na phoen,
  Na gofid, na galar, na chlwy',
Nac anwyd yn nhemyl yr Ion,
  Na gwres idd eu blino byth mwy;
Mae yno adenydd fy Ion,
  Yn taenu fel nefoedd ar lêd,
Yn cuddio priodas-ferch yr Oen—
  O f' enaid i fynu ehêd.

W. W.

HYMN 285. 8 sill. Brookham.

Prynwr byw.

MI wn fod fy Mhrynwr yn fyw,
  A'm prynodd à thaliad mor ddrud,
Fe saif ar y ddaear, gwir yw,
  Yn niwedd holl oesoedd y byd:
Er ised, er gwaeled fy ngwedd,
  Teyrnasu mae 'Mhrynwr a 'Mrawd,
Ac er fy malurio 'n y bedd,
  Câ'i weled Ef etto 'n fy nghnawd.

Wel, arno bo'm golwg bob dydd,
  A'i daliad anfeidrol o werth;
Gwir Awdwr, Perffeithydd ein ffydd,
  Fe 'n cynnal ar lwybrau blin serth:
Fy enaid, ymestyn ym mlaen,
  Na orphwys nes cyrhaedd y tir,
Y Ganaan dragwyddol ei chân,
  Y Sabbath hyfrydol yn wir.

T. J.

HYMN 286. 8 sill. Tryweryn.

Anthem y Gwaredigion.

DADGUDDIWYD dirgelion i maes,
Dirgelion cuddiedig i'r byd,
Meddyliau trugaredd a gras,
I'r penaf bechadur i gyd,
A gloed mewn addewid sy gref,
Na welir fyth fythoedd ei hail,
O ddyfnder y ddaear i'r nef,
Mor gywir, mor sicr, ei sail.

Yr anrhydedd, y gallu, a'r clod,
Y moliant, y parch, yn gytun,
O'r nefoedd i'r ddaear gaiff fod
Yn gyfan i'm Harglwydd ei hun:
Aed sôn am dy haeddiant trwy 'r byd,
Yr adsain fo'n llanw pob lle;
Helaethed dy deyrnas o hyd,
Nes myned yn addfed i'r ne'.

Aed ein Haleluiah ni i'r làn,
Trwy 'r awyr anfeidrol ei maint;
Cymmysged caniadau rhai gwan,
A thyrfa liosog o saint:
Ni gawsom gàn cymmaint â'r byd,
Càn cymmaint drachefn à hyn,
Càn cymmaint â'r nefoedd i gyd,
Bryduawn-gwaith ar Galfari fryn.
(137) W. W.

HYMN 287. 8 sill. Maryland.

Ffynnon i bechod ac aflendid.

CAED ffynnon o ddwfr ac o waed,
I olchi rhai duon eu lliw;
Ac hefyd hi redodd yn rhad
I'r ardal lle 'r oeddwn yn byw:
Er cymmaint o rwystrau ga'dd hon,
Grym arfaeth a'i gyrodd ym mlaen,
I olchi tŷ Dafydd o'r bron,
Jerusalem hefyd ddaw 'n làn.

HYMN 288. 8 sill. Dartmouth New.

Gorfoleddu mewn gobaith am ffuddugoliaeth.

PECHADUR wyf, f' Arglwydd a'i gŵyr,
Pechadur a garwyd yn rhad;
Pechadur a gliriwyd yn llwyr,
Yn rhyfedd trwy rinwedd y gwaed;
Pechadur a orfu fyn'd trwy
Ystormydd o ddyfroedd a thân;
Pechadur na orphwys byth mwy,
Nes dringo i'r nefoedd yn lân.

Y rhyfel o'n hochr ni sydd,
Er cymmaint ein tuchan a'n cwyn;
Daw concwest i'r gwanaf ei ffydd
Trwy waed yr Emmanuel mwyn:
Fe ddrylliwyd fy Arglwydd yn friw,
Rhwng lleiddiaid ar Galfari fry—
Moliannaf Ef bellach tra 'n fyw,
Teilyngodd y nefoedd i mi.

Daw bore câf glywed ei lef,
Y gair sy felysach nag un,
Yn seinio ffurfafen y nef,
O enau f' Anwylyd ei hun:—
"Dewch, blant bendigedig fy Nhad,
"Dewch, etholedigion, i gyd,
"Meddiennwch y deyrnas yn rhad,
"Bar'toed iwch' cyn seiliad y byd."

Y baradwys âf iddi cyn hir,
Mae afon y bywyd yn hon,
Yn llifo fel grisial yn glir,
I ddiodi 'r sychedig o'r bron;
Mae hefyd yn nghartref fy NAF,
Afonydd o laeth ac o fêl;
Wel bellach, tu ag yno mi âf,
A deued hi fel ag y dêl.

W. W.

HYMN 289. 8. sill. Edom.

Buddugoliaeth Crist. Esa. 63.

PWY welaf o Edom yn dod,
Mil harddach na thoriad y wawr,
Yn sathru tan wadn ei droed
Elynion yn lluoedd i'r llawr;
Ei wisg wedi ei lliwio gan waed,
Ei saethau a'i gleddyf yn llym,
Ei harddwch yn llanw'r holl wlad,
Yn ymdaith yn amlder ei rym.

Myfi, hwn wyf Alpha cyn byd,
Wyf gadarn i ladd ac iachâu;
Fy ngeiriau a safant i gyd,
Pan ballo ffyddlondeb pob rhai:
Ond pa'm mae dy wisgoedd yn waed,
A'th gleddyf mor goched ei fin,
Fel un a fai'n sathru tan draed
Y gwin-wryf yn ngwinllan y gwin?

Wrth weled y fyddin mor fawr,
Dan arfau yn llawnion o lid,
Yn llanw holl wyneb y llawr,
Y bobl a giliasant i gyd;
Gadawyd fi 'n unig heb ail,
I sefyll yn ngwyneb fy nghâs,
Gelynion mor amled a'r dail,
Yn llanw holl gŷrau y maes.

Mi godais i fynu fy llaw,
Ymleddais, ennillais y dydd!
Fy holl waredigion a ddaw,
A'm caethion a roddir yn rhydd:
Ennillais fath goncwest trwy waed,
Mae genyf lywodraeth mor fawr,
Hyd eithaf trigfanau fy Nhad,
Mae 'n cyrhaedd o'r nefoedd i'r llawr.

RHAN II. Lock.

Pa feddwl, pa 'madrodd, pa ddawn,
Pa dafod all osod i maes,
Mor felys, mor helaeth, mor llawn,
Mor gryfed ei gariad a'i ras!
Afonydd sy'n rhedeg mor gryf,
Nas dichon i bechod na bai
Wrthsefyll yn erbyn eu llif,
A'u llanw ardderchog di drai.

Fel fflamau angerddol o dân
Yw cariad f' Anwylyd o hyd;
Fe losgodd bob rhwystrau o'i flæn!
Fe yfodd o'r afon i gyd!
Ymafiodd mewn dyn ar y llawr!
Fe'i dygodd â'r Duwdod yn ûn!
Y pellder oedd rhyngddynt oedd fawr,
Fe'i llanwodd â'i haeddiant ei hun!

J. H.

HYMN 290. M. N. 8. 8. Llantrisant.

Rhagoroldeb Iesu.

NID yw hardd wrthddrychau daear,
Oll, ond dim wrth Iesu hawddgar;
Nid yw'r nefoedd i'w chyd-brisio,
Pe bai nefoedd i'w chael hebddo.

Iesu ei hunan yw fy nefoedd,
Tros fy oes ac yn oes oesoedd;
Nef fy nefoedd fydd ei garu,
Ei fwynhau, a'i bur foliannu.

Nid oes neb ond Ef ei hunan
A wna 'r euog brwnt yn burlan;
Mae yn ddigon i drosgeddwr
Mae yn berffaith lawn Waredwr.

Brysiwn oll i edrych arno,
Fel y byddom debyg iddo;
Edrych arno yn dragwyddol,
A'n gwna 'n llawn o'i ddelw nefol.

T.

HYMN 291. 8. 8. Pergamus.

Tywysog ein Iechawdwriaeth.

ONA chawn i olwg hyfryd,
Ar ei wedd, Dywysog bywyd;
Tegwch byd, a'i holl bleserau,
Yn ei wydd a lwyr ddiflanai.

Melys odiaeth yw ei heddwch,
Anghydmarol ei brydferthwch;
Ynddo'n rhyfedd cyd-lewyrchia
Dwyfol fawredd a mwyneidd-dra.

Uchélderau mawr ei Ddúwdod,
A dyfaderoedd ei ufudd-dod,
Sy'n creu synu fyth ar synu,
Yn nhrigolion gwlad goleuni.

D. C.

HYMN 292. 8. 8. Llantrisant.

Nefoedd.

'NAWR wy'n gwel'd yr ardál hyfryd,
Hen gartrefle fy Anwylyd;
Gwlad lle mae pob rhyw gysuron
Yn llifeirio fel yr afon,

Ffarwel bellach hen bleserau
Dwyllodd f' ysbryd ffl o weithiau;
Cefais bleser canmil purach,
'Ddaw o'i ganlyn ofid mwyach.

Nef a daear byth ni phrisia
Y perl a gês—mae'n well na'r India;
Iesu a'i drysor, dyna ei sylwedd,
Nef y nefoedd yn y diwedd.

Fe ddaw dydd y câf fi ganu
Concwest bai oedd yn fy m[illegible]
Haleluiah nefol hyfryd, [illegible]
Diwedd pechu, diwedd [illegible]

Blwyddau hirion o ry[illegible]
'N oruchaflaeth a der[illegible]
Fe dry galar am bob be[illegible]
Yn Hosanna ond eu mad[illegible]

RHAN II.

F' ENAID, cred, anghofia 'th adfyd,
Edrych i'r ardaloedd hyfryd;
'Hed o'r byd sy 'mron a'th orfod,
Y mae gwleddoedd iti 'n barod.

Dacw 'r gwledydd hyfryd, helaeth,
Roddwyd imi 'n etifeddiaeth,
Lle mae cariad pur yn llifo
Tros ardaloedd gras heb flino.

Clywaf dorf ddi rif o seintiau,
'Nawr yn canu eu telynau,
Ac yn seinio Haleluiah,
Dechreu anthem pen Calfaria.

Dengmil o delynau 'n canlyn,
Cân nefolaidd, bur, ddiderfyn;
Y cerubiaid gyd â'r seintiau
Yr un sylwedd eu caniadau.

(139) W. W.

HYMN 293. 8. 8. Llantrisant.

Cân Bernard i Iesu Grist.

IESU, fy anwylaf Wrthddrych,
Gobaith f' enaid sy'n dy chwennych:
Ti mae 'n dagrau yn ymofyn,
Cri ein meddwl yn dy erfyn.

Ti wyt felys faeth y galon,
Ffynnon fywiol, goleu gwiwlon;
Wyt tu hwnt i rym ein cariad,
Wyt tu hwnt i bob dymuniad.

Pan ymweli â'n calonau
Mae dy [illegible] yn rhoi in' oleu;
Nid yw[illegible] gyd ond sothach,
Fflam[illegible]n berffait[illegible]dd yn gryfach.

Anw[illegible]n oll i edry[illegible]profiad
Helae[illegible]byddom deby[illegible] gariad;
Dyro i[illegible]n arno yn dr[illegible]deb,
Hardd [illegible]na 'n llawn[illegible] dy wyneb.

T. J.

HYMN 294. 8. 8. Llantrisant.

Clodforedd y Gwaredigion.

CANED pechaduriaid mawrion,
Fe gaed noddfa i lofruddion;
Noddfa glyd rhag llid dialydd,
Noddfa rad yn ngwlad y cystudd.

Canwn mwy am waredigaeth,
Heb ei hail, i blant marwolaeth:
Talodd Iesu ein dyledion,
A gorchfygodd ein gelynion.

Am hyn rhyfedd fydd y canu,
Pan ddaw Sion oll i fynu,
At y rhai sy'n awr mor hwylus,
'N chwareu'n tannau yn Mharadwys.

Caned nef a daearolion,
Sain Hosanna i Frenin Sion;
Llawn tosturi yw yn wastad,
Nid oes diwedd ar ei gariad.

(141) G.

HYMN 295. 8. 8. Pergamus.

Llwyddiant yr Efengyl.

AED efengyl fel y wawr-ddydd,
Aed i gludo myrdd trwy 'r gwledydd;
Eled sain yr udgyrn arian
I ddymchwelyd teyrnas Satan.

Tywyned haul ar fyrdd o werin
Sy'n y dwyrain a'r gorllewin;
Dëau, gogledd, a'r holl wledydd,
Fyddo 'n dyfod at Fab Dafydd.

Llwyddiant i'r cenadau ffyddlon,
Sy'n cyhoeddi efengyl dirion,
I gael torf ddi rif, trwy gredu,
'N berlau hardd yn nghoron Iesu.

Croesaw hyfryd fore hawddgar,
Pan ddaw lluoedd nef a daear,
I gyd-ganu am ben Calfaria,
Gyd â'u Prfod, Haleluiah.

(142)

HYMN 296. 8. 8. Llantrisant.

Gwaredigaeth o bob gofid.

OS rhaid yfed dyfroedd Mara,
Yn yr anial ar fy ngyrfa,
Nertha di, fy Nhad a'm Harglwydd,
F' ysbryd gwan mewn byd o dramgwydd.

Er fy nghuro 'nhrigfa dreigiau,
Suddo 'n fynych tan y tònau,
Fe ddaw hyfryd ddedwydd wawr-ddydd,
Heb dywyllwch yn dragywydd.

Yna derfydd fy nghystuddiau,
Troir fy ngalar yn ganiadau;
Yn lle Mara, ddwfr anhyfryd,
Yfed câf o afon bywyd. G.

HYMN 297. M. N. 8. 3. Havant.

Hymn foreuol.

DEFFRO, f' enaid, deffro 'n ufudd,
Co'd yn awr, gyd â'r wawr,
Seinia ganiad newydd.

F' enaid bach ga'dd huno 'n gynnes,
Yn ddi loes, tros y nos,
Yn dy ddiddos fynwes.

Dan dy aden dawel dyner,
Ces, heb wŷn, hyfryd hûn;
Buddiol fu'm hesmwythder.

Heddyw rhof fy mhwys ar ddwyfron
Iesu gwiw, 'Nh'wysog yw,
Rhag pob rhyw elynion.

Hyfryd fore o gaethiwed
Wawria draw, maes o law,
Iesu ddaw i'n gwared.

Uwch creadur[illegible]l, Iesu, cadw
F' enaid [illegible], ar dy fron
Dirion, [illegible] y marw.

HYMN 298. 8. 3. Llanrhaiadr.

Hyma hwyrol.

AM fendithion y goleuni,
Clod i'm Duw, heno 'n wiw;
Rhyfedd yw'th ddaioni.

Maddeu feiau 'r dydd aeth heibio;
Trwy dy waed, rho lanhad;
Moes ymweliad etto.

Dan dy gysgod heno 'n dawel
Llechu wnaf; gyd â'm NAF
Byddaf yn ddiogel.

Ac os hon fydd nos fy angau,
Iesu cu, derbyn di,
F' ysbryd i dy freichiau.
(143) O.

HYMN 299. 8. 3. Bron Dôl.

Wrth ymadael.

GWEL dy anwyl ŵyn yn 'madael;
Bydd wrth raid ini 'n blaid,
Iesu, paid a'n gadael.

Rhag gelynion gwna ni'n arfog,
Oll yn un, yn gytun,
Sanctaidd lu banerog.

N'ad in' 'nabod dim na'i garu,
Tra fo'm byw, ond y gwiw
Groeshoeliedig Iesu.

N'ad i'r blaidd fyth mo'n gwasgaru,
Bydd di byth, yn ddi lyth,
Ben a Bugail ini. W. W.

HYMN 300. 8. 3. Llanor.

Gweddi am gymdeithas Crist.

IESU, 'Mrenin mawr a 'Mhriod,
'N erbyn llu, bydd o'm tu,
I orchfygu pechod.

Tra fwy'n trigo 'n yr anialwch,
Gwel'd yn wir d' wyneb pur,
Yw fy ngwir ddyddanwch.

Pâr im' aros mwy 'n dy freichiau,
Boed fy nyth, ddedwydd fyth,
Yn dy ddilyth glwysfau.
(142) W. W

HYMN 301. M. N. 8. 6. 5. Bristol.

Sacramentaidd.

DADSEINIWN orfoleddus glod
Ein Prynwr, Duw a dyn;
Gwaredwr yw Ef, ei fraich sydd yn gref,
Dyoddefodd ein haeddiant ei hun.

Ei gnawd a ddrylliwyd ar y pren,
Yw bara 'n henaid byw;
Ei waed yw y gwin sy'n lloni pob un,
Ein helaeth gynnaliaeth ni yw.

Pa ddawn a draetha rîn ei waed,
Y Balm o Gilead pur;
Mae 'n rhoddi iachâd, a llwyr esmwythâd,
O friwiau ein codwm a'n cur.

Coffâwn am angau trist y groes,
Gyda diolchus ffydd:
Cyflawnder ga'dd iawn, y taliad oedd lawn,
Rhoed ninnau, ddyledwyr, yn rhydd.

O.

HYMN 302. 8. 6. 5. Bristol New.

Melchisedec. Gen. 14. 18, 19, 20.

OFFEIRIAD y Goruchaf Dduw,
Prydferthaf un ei wedd,
Melchisedec gwir, i'w bobl yn bur,
Sy Frenin cyflawnder a hedd.

O ardderchocaf urdd a braint,
Eneiniog gwych y Tad,
Tragwyddol Fab Duw, a wnaethpwyd in' yw
'N Offeiriad o fythol barhad.

Trwy gâd, ac ymgyrch, rhyfel blin,
Mae 'n tynfa tua thref;
Rhydd fara a gwin, adfywiol eu rhîn,
A'i fendith i filwyr y nef.

Edrychwn, frodyr, faint yw hwn,
A maint wnaeth er ein mwyn;
Er llesged ein llun, ymroddwn, bob un,
Byth iddo, fe'n derbyn yn fwyn.

O.

HYMN 302. M. N. 8. 6. Abermant.

Priodoliaethau Duw.

MAE'n llon'd y nefoedd, llon'd y byd,
Llon'd uffern hefyd yw;
Llon'd tragwyddoldeb maith ei hun,
Diderfyn ydyw Duw:
Mae 'n llon'd y gwagle yn ddi goll,
Mae Oll yn Oll, â'i allu 'n un,
Anfeidrol, annherfynol Fod,
A'i hanfod ynddo ei hun.

Anfesuredig yw ei ras,
Un addas yw i ni;
Ni a welsom, ac a glywsom son
Am droion Un yn Dri;
Ac, fel y clywsom, felly mae
I ninnau 'n rhyfedd yn parhau,
Yn ddi gyfnewid i'w fwynhau,
Er cymmaint beisu 'r byd.

Un hunan-fodol ydoedd Ef,
Cyn llanio nef na llawr;
Yn nhragwyddoldeb maith yn ol,
Yn Dduw anfeidrol fawr;
Heb ddechreu dyddiau iddo 'n bod,
Na diwedd einioes chwaith i ddod,
Tragwyddol a rhyfeddol Fod
Yn Driudod uniawn drefn.

RHAN II.

'Doxs neb, trwy 'r nefoedd hawddgar, heb
Ei bresennoldeb rhydd;
Pob angel, seraph, a phob sant,
A'i gwelant yn ddi gudd:
Mae pob un yno yn ei wydd,
Yn canu 'n llafar gyda llwydd,
Ac yn mawrhau y siriol swydd
O foli 'r Arglwydd mawr.

Ym ninnau i gyd, trwy 'r byd, heb ball,
  Hawdd deall yn ngŵydd Daw;
Oll yn ymsymud dan y rhod,
  Yn bod, ac ynddo 'n byw;
Nis gallwn wneyd mewn dirgel le,
Un math o fai nas gwel Efe;
Drwy 'r byd yn awr, ac yn y ne',
  Mae, wele, ar un waith.

Ein holl feddyliau, da a drwg,
  Sydd amlwg iddo Ef;
A phob ochenaid ddystaw iawn,
  Fe'i clyw mor llawn a'r llef:
Fe edwyn galon dyn heb goll,
A'i fwriad oll, ofered yw,
Mae 'r chwant yn weithred cyn ei gwneyd,
  Hawdd dweyd yn nghŷfrif Duw.

RHAN III.

Clyw, f' enaid tlawd, mae genyt Dad,
  Sy'n gwel'd dy fwriad gwan;
A Brawd yn eiriol yń y nef
  Cyn codi 'th lef i'r làn:
Cred nad di ystyr gan dy Dad
Yw gwrandaw gwaedd dymuniad gwiw,
Pe byddai d' enau yn rhy fud
  I'w dd'wedyd ger bron Duw.

Pan fyddwyf mewn rhyw ddirgel fan,
  Yn griddfan dan y groes,
Bron methu cerdded llawer cwm,
  Gan faich rhy drwm yn f' oes;
Daw weithiau feddwl imi fod
Mab Duw i'm canfod ym mhob cell,
Na chàf ddihoeni felly o hyd—
  Y gwawria bywyd gwell.

HYMN 304. M. N. 8. 6. Rhos.

Rhagoriaeth cariad Crist.

NID yw y ddaear fawr i gyd
Ddim teilwng o fy serch a'm bryd,
Nac unrhyw wrthddrych yn y byd;
'Rwy'n caru Gwrthddrych mwy:
Nid llai y sawl wy'n garu yw,
Na pherffaith Ddyn, a pherffaith Dduw,
Dyoddefodd trosof farwol friw,
O werthfawrocaf glwy'!

[Yr holl wrthddrychau teg eu pryd
Ag wyf yn garu oreu gyd,
O gongl faith i'r llall o'r byd
Ddiflanant wrth dy glun:
Os unrhyw eilun ar y dòn,
A gais rhyw loches tan fy mron,
Yn uniawn mi ffieiddiaf hon,
A charaf di dy hun.]

Wel dyma 'r cariad sydd yn awr
Yn curo pob cariadau lawr,
Yn llyncu enwau gwael y llawr,
Oll yn ei enw ei hun:
Rhyw fflam angerddol, gadarn, gref,
O dân ennynodd yn y nef,
Tragwyddol gariad ydyw Ef,
Wnaeth Dduw a ninnau 'n un.

(146) W. W.

HYMN 305. 8s. 6. Rhuddlan.

Ymhyfryda yn Nuw.

NID oes ond f' Arglwydd mawr ei ddawn,
A leinw f' enaid bach yn llawn,
Nis gallwn ddala mwy pe cawn,
Mae Ef yn ddigon mawr:

A digon, digon, digon yw
Dy hyfryd bresennoldeb gwiw,
Yn angau ceidw hyn fi 'n fyw,
  A boddlon wyf yn awr.

Wel ffowch ar ffrwst blesserau gyd,
Diflanwch holl wrthddrychau 'r byd,
Na chaffoch effaith ar fy mryd,
  I'm dewn oddiwrth fy Nuw:
Doed tân a diluw yn gyttun,
Aed dwfr a daear fawr yn un,
Mi fyddaf yn hapusaf ddyn,
  Mae'm Iesu etto 'n fyw.

A phe diffoddai 'r haulwen fawr,
Pe syrthiai sêr y nen i lawr,
A phe diffygiai 'r fore wawr,
  A thywyllwch gael ei le;
Cawn drigo mewn sancteiddiol dir,
Yn llewyrch Haul Cyflawnder pur,
Tragwyddol faith ddiwrnod clir,
  O fewn i furiau 'r ne'.

Pan collo gwellt y maes eu dawn,
Ar wybr faith ei bore a hawn,
A dystryw ddod yn gyfan iawn,
  Ar nef a daear lawr;
Câf weled sanctaidd newydd dir
O degwch ac o blesser pur,
Yn tarddu maes o'r Duwdod gwir,
  Gyda gogoniant mawr.

Ac yno, f' enaid bach, ti gai
Dragwyddol blesser i'w fwynhau,
N'all angel fyth, ond dyn yn llai,
  Yn hollol ddodi maes:
Ond digon yw i'm henaid gwan,
Mi a gâf esgyn, gwn i'r làn,
Ac yfed yno yn y man,
  Fyth o afonydd gras.

W. W.

HYMN 306. 8. 6. Maen Llwyd.

Cyflawn fwynhad o Ddaw ar ei ddyau.

PAN ymddatto 'r tŷ o bridd,
A'm henaid i ddiengi 'n rhydd,
O'r holl gadwynau cryfion sydd
Yn dàl yn awr yn dŷn,
Câf deimlo pleser uwch y rhod,
Na ddaeth i galon dyn erioed
I feddwl nac i gredu fod
Y fath fwynhad a hyn.

Fy Nuw, fy Nuw, i gyd ei hun
Fydd fy anfeidrol gariad cun,
Llawenydd anchwiliadwy 'n un,
A hedd o hono dardd;
Eangder o oleuni clir,
Mwy dysclaer nag o'r dwyrain dir,
Mòr o bleserau perffaith pur,
Gwrthddrychau nefol hardd.

Llawenydd bythol i'w fwynhau
Byth ar fy nghoryn yn ddilai,
A chariad perffaith i barhau,
Heb nabod diwedd mwy:
Galar a griddfan ymaith ffŷ,
Achwynion a chystuddiau lu,
'Madawant yn y nefoedd fry,
Trwy rinwedd marwol glwy'.

W. W.

HYMN 307. 8. 6. Warwick.

Dymuniad y saint.

DUW, os wyt am ddibenu 'r byd,
Cyflawna 'n gyntaf d' air i gyd,
Dy etholedig galw ynghyd
O gwmpas daear fawr:
Aed sain d' efengyl trwy bob gwlad,
A golch fyrddiynau yn dy waed,
A dyro iddynt wir iachâd,
Ac yna tyr'd i lawr.

W. W.

HYMN 308. M. N. 8. 7. D. Carlisle.

Gorfoledda mewn hyder am ffuddugoliaeth.

EDRYCH, f' enaid, i Galfaria,
Gwel rhyfeddod fwya' erioed,
Crëwr nefoedd wen yn marw,
A'r ddraig yn trengu tan ei droed:
Clywaf lais yn awr, debygwn,
O agor pyrth y ddinas fry:
(F' enaid, càn, fe ddarfu ofn,
Nefoedd wen sy'n eiddo i mi.)

"Tyr'd i fynu o'r anialwch,
Gwedi aros yno 'n hir,
Sypiau grawnwin mawrion, addfed,
Sy'n dy aros yn y tir:
Brysia i ryfel, gwisg dy arfau,
Cymmer galon, dos ym mlaen,
Ffordd nis colli, mae 'n dy arwain
Gwmwl niwl, a cholofn dân."

Ni all Amalec na Moab,
Gyd â'r holl elynion hy',
Wneuthur niwed im', tra cadwyf
'N agos at dy babell di:
Tan y cwmwl mi arosaf,
Yno hefyd bydd fy nyth,
Nes cael trigo mewn llawenydd
Yn y wlad a bery byth.

[Gwnes y dewis goreu wnaethpwyd—
Dewis Brenin nefoedd wen,
Yn Dad, yn Briod, ac yn Gyfaill,
Yn Frawd, yn Geidwad, ac yn Ben:
Cyfoeth mawr, di drai, di derfyn,
Sydd yn nghadw imi 'n stôr,
A bendithion, oll pe rhifid,
Megys tywod màn y môr.]

W. W.

HYMN 309. 8. 7. Jewin Street.

Gras a dedwyddwch yn Nghrist.

NID fy nef yw ar y ddaear,
Pe'r lle goreu tan yr haul;
Nef yw tawel bresennoldeb
Wyneb siriol Adda 'r ail:
Gwena arnaf, Arglwydd grasol,
Gwaeddaf allan, Digon yw;
Yna ynghanol cyfyngderau
Byth yn llawen byddaf byw.

Môr sydd ynot o fendithion,
Heb waelodion iddo 'n bod;
Y mae 'n llanw y'mlaen bob mynyd,
Nid oes diwedd ar dy glod;
Dy enw beunydd sy'n ymdaenu,
Fel goleuni bore wawr;
Bydd telynau 'n canu iddo
Fel rhifedi gwellt y llawr.

[Yn dy glwyfau di mae bywyd,
Tyllau 'r hoelion yw fy nyth:
'D ofnaf fyd, na chnawd, na phechod,
Nac euogrwydd, yno fyth:
Gwaed fy Mhriod wedi ei golli,
Archoll fawr y waywffon,
Yw fy nghraig a'm dinas noddfa
Sicr ar y ddaear hon.

Yno boed fy mwyd a'm diod,
Tan gangenau gwych y pren,
Sydd a'i wreiddyn ar y ddaear,
A'i frigau yn y nefoedd wen:
Dyn a'r Duwdod ynddo 'n trigo;
Ffrwythau arno 'n tyfu 'n llawn;
Cysgod tăno i'r ffyddloniaid
Sydd o fore hyd brydnawn.]

W. W.

HYMN 311. 8. 7. Dismision.

Diwedd pob peth a neshodd.

MAE yr haulwen wedi blino
Teithio yn y wybr lâs;
Daear drom sy bron diffygio
Porthi 'r llysiau sy'n y maes;
Mae 'r planedau 'n gwaeddi, Diwedd;
Pob creadur yn ei ryw
'N ocheneidio am gael gweled
Gwir ddadgnddiad meibion Duw.

Mae yr oriau yn fy ngalw
Beunydd i ymbarotoi:
Tàn sy'n dod ar ddinas distryw
Tua Söar imi ffoi!
Arglwydd, 'mafael ynwy'n fuan,
Onidê ni ddeuaf byth,
Tra bo'r tân yn llosgi Sodom,
Yn y bryniau gwnaf fy nyth.

W. W.

HYMN 312. 8. 7. Trowbridge.

Ochenaid.

O DERCHAFA 'm henaid egwan!
Y fnae bellach yn hwyrhau;
Hir yw 'r amser i och'neidio,
Gwna fi o'r diwedd lawenhau:
Moroedd mawr a bryniau lawer,
Pellder annyoddefol sy,
Ac anialwch maith digymhar,
Rhyngof a'm Hanwylyd cu.

O foreuddydd y briodas!
Gwynfyd welai 'r ddedwydd awr!
Gwel'd wyneb-pryd y Priodfab,
Clywed llais y delyn fawr!
Awn tan ganu tros y moroedd
Meithion tua'r hyfryd wlad,
Ac anghofiwn hen gariadau,
Cwag bleserau tŷ fy nhad.

W. W.

HYMN 313. 8. 7. Compassion.

Crist y trysor goreu.

F' ENAID, hed tu a'th etifeddiaeth,
Fy ngorddiwes tywyllwch mae,
Nid oes rhifo ar flynyddau
'N nhragwyddoldeb sy'n nesâu;
Môr diderfyn, heb ddim gwaelod,
Gogledd, dwyrain, yw, na de;
Na rhif oesoedd at ei ddechreu,
Na chwaith at ei ddiwedd e.

Yno yr wyf yn ymdeithio,
Yno mae fy Mrenin mawr,
Càn goleuach nag yw'r dannllwyth
Sy'n dysgleirio uwch y llawr:
O pa bleser, pa ddifyrwch,
A 'nigrifa yn y byd,
Pan EMMANUEL groeshoeliwyd,
Oll yn gyfan aeth â 'mryd.

[Clywaf lais gan bob rhyw raddau
O'r creaduriaid mân i gyd,
Fy mod gwedi aros gormod,
Hepian llawer yn y byd;
Gwisg dy arfau, medd pob tafod
Glywaf tan yr awyr lâs,
Gormod hepian, mae'n ddiweddar
Cyn it' ddechreu taro i maes.

Ffarwel bellach bob creadur;
Chwi gewch weled hyn ryw bryd;
Meddaf drysor gwerthfawrocach
Fil o weithiau nag yw'r byd:
Tu hwnt i'r bedd 'does mesur arno;
Rhan o fewn fy nghalon mae;
Ffynnon fawr ydyw ei wreiddyn,
Byth ni welir arni drai.]

Nerth os câf, mi frysiaf mwyach
  Fynu tua 'ngwlad fy hun,
Lle mae 'm Duw yn gwiego 'n berffaith
  Mewn gogoniant natur dyn:
Na enwer imi 'n gartref bellach
  Fangre arall ond y ne',
Neb yn Dad, na neb yn Briod,
  Neb yn Arglwydd, ond Efe. W. W.

HYMN 314. 8. 7. Dismission.

Duw yn ddigon ym mhob cyfnewidiadau.

O IACHAWDWR pechaduriaid,
  Sydd à'r gallu yn dy law,
Rho oleuni, hwylia 'm henaid,
  Tros y cefnfôr garw draw:
Gâd i'r wawr fod o fy wyneb,
  Rho fy enaid llesg yn rhydd;
Nes i'r haulwen ddysglaer godi,
  Tywys fi wrth y seren ddydd.

[A oes neb o'm holl gyfeillion
  A ddaw 'n ddiddig gyda mi,
Ac a orwedd wrth fy ochr
  Obry yn y ddaear ddu?
A yw cyfaill ddim ond hyny,
  Tafiu dagrau, newid gwedd,
Pan fo 'r pridd, a'r clai, a'r cerig,
  Arna'i 'n cwympo yn y bedd.]

O ynfydrwydd! O ffolineb!
  Imi roddi erioed fy mryd
Ar un tegan, ar un pleser,
  Welais etto yn y byd:
Mae y byd yn myned heibio,
  A'i deganau o bob rhyw;
Tan y nef ni thâl ei garu
    thddrych arall ond fy Nuw. W. W.

HYMN 315. 8. 7. Dismission.

Gweddi mewn cystudd.

TAN y dòn yr wyf yn llefain,
Mae mynyddau ar fy mhen;
Haen ar haen sydd o gymylau
Duon rhyngof fi â'r nen;
Ni fydd rhan o'm cnawd a'm hysbryd,
Tra f'wyf yma fyth yn iach;
Dyred, Arglwydd, a dadguddia
Dy hunan imi ronyn bach.

Ffynnon wyt o bob tosturi,
Nid oes gwybod faint dy ras:
Dy haelioni sydd yn cynnal
Pobpeth dan yr awyr lâs:
Dal fy ysbryd gwan i fynu,
Edrych ar y bryniau mawr,
Sydd yn pwyso ar fy nghalon,
Ac yn ceisio 'm dodi lawr.

W. W.

HYMN 316. 8. 7. Tabernacle.

Grym cariad.

MAE fy nghalon am ehedeg
Unwaith etto fynu fry,
I gael profi 'r hen gymdeithas
Gynt fu rhyngof à thydi:
Mi a grwydrais anial garw,
Heb un gradd o oleu 'r dydd,
Un wreichionen o dy gariad
Wna fy rhwymau oll yn rhydd.

Mae fy nghalon yn 'sgrifenu,
Ac yn adrodd wrthi ei hun,
Enw hyfryd a rhinweddol,
Duw yn gwisgo natur dyn;
Iachawdwriaeth, Iachawdwriaeth,
Iachawdwriaeth werthfawr iawn,
Ydyw enw fy Ngwaredwr
Genyf, fore a phrydnawn.

W. W.

Nerth os cáf, mi frysiaf mwyach
Fynu tua 'ngwlad fy hun,
Lle mae 'm Duw yn gwisgo 'n berffaith
Mewn gogoniant natur dyn:
Na enwer imi 'n gartref bellach
Fangre arall ond y ne',
Neb yn Dad, na neb yn Briod,
Neb yn Arglwydd, ond Efe.

HYMN 314. 8. 7. Dismission.

Duw yn ddigon ym mhob cyfnewidiadau.

O IACHAWDWR pechaduriaid,
Sydd à'r gallu yn dy law,
Rho oleuni, hwylia 'm henaid,
Tros y cefnfôr garw draw:
Gâd i'r wawr *fod o fy* wyneb,
Rho *fy enaid llesg* yn rhydd;
Nes i'r haulwen ddysglaer godi,
Tywys fi *wrth y seren* ddydd.

[A oes neb o'm holl *gyfeillion*
A ddaw 'n ddiddig *gyda mi*,
Ac a orwedd wrth *fy* ochr
Obry yn y ddaear ddu?
A yw cyfaill ddim ond *hyny*,
Tafiu dagrau, newid *gwedd*,
Pan fo 'r pridd, a'r clai, a'r *cerig*,
Arna'i 'n cwympo yn y bedd.]

O *ynfydrwydd! O ffolineb!*
Imi *roddi erioed fy mryd*
Ar un *tegan*, ar *un pleser*,
Welais *etto yn y byd*:
Mae y byd yn *myned heibio*,
A'i degawau o bob *rhyw*;
Tan y nef ni thâl ei garu
[illegible] ond *fy* [illegible]

HYMN 318. 8. 7. Jewin Street.

Gweddi am bresennoldeb Duw.

PA'M y caiff bwystfilod rheibus
Dori 'r egin mân i lawr?
Pa'm caiff blodau pereidd ieuainc
Fethu gan y sychder mawr?
Dyred à'r cawodydd hyfryd
Sy'n cynnyddu 'r egin grawn;
Cawod hyfryd yn y bore,
Ac un arall y prydnawn.

Gosod babell yn ngwlad Gosen,
Dyred, Arglwydd, yno dy hun;
Gostwng o'r uchelder goleu,
Gwna dy drigfan gyda dyn;
Trig yn Sion, aros yno,
Lle mae 'r llwythau 'n dod ynghyd,
Byth na 'mâd oddiwrth dy bobl,
Nes yn ulw 'r elo 'r byd.

[Blinais ar afonydd Babel,
Nid oes yno ond wylo i gyd:
Llais telynau hyfryd Sion
Sydd yn cyson ddenu 'mryd:
Tyr'd à ni yn dorf gariadus
O gaethiwed Babel fawr,
Ac nes b'om ar fynydd Sion,
Na'd in' orphwys ar y llawr.

Dacw 'r Brenin yn ei degwch,
Wele ei Briod wrth ei glun;
Gwedd ei wyneb sy'n rhagori
Y'mhell ar wedd wynebpryd dyn;
Dyma ddydd, dydd ei ddyweddi,
Dyma 'r briodasol wledd,
Dyma 'r dydd caiff pererinion
Lwyd o'i dragwyddol hedd.]

W. W.

HYMN 319. 8. 7. Dismission.

Griddfan mewn tywyllwch.

TRIGO 'r wyf mewn gwlad o dywyllwch,
Aipht yw 'r man lle 'r wyf yn byw;
Mae tywyllwch wedi 'm d'rysu,
Tywyllwch anorchfygol yw;
Cyfod Haul Cyfiawnder goleu,
'Nawr llewyrcha yn dy nerth,
Danfon feddyginiaeth rasol
Dros y creigydd mawrion serth.

Bryd, fy Nhad, câf yfed dyfroedd,
Dyfroedd gloywon sy'n iachâu,
Pob rhyw bleser gwedi darfod,
Ond yn unig dy fwynhau;
Pwyso 'm henaid ar dy fynwes,
Edrych ar dy wyneb llon,
Caru nes anghofio 'r oriau
Sy imi ar y ddaear hon.

W. W.

HYMN 320. 8. 7. Carlisle.

Cariad Duw.

MAE rhyw foroedd o drugaredd,
Arglwydd, ynot ti dy hun;
Annherfynol a thragwyddol
Yw dy gariad at y dyn:
Mewn cyfyngder buost ffyddlawn,
Yno rho'ist dy nerth i maes;
Mewn cyfyngder mawr wyf finnau
'Nawr yn llefain am dy ras.

Derfydd imi garu ac ofni
Dim o'r nefoedd fawr i'r byd,
Pan y caffwy'r olwg gyntaf,
Deced yw dy wyneb pryd:
Gwedd dy wyneb sy'n dwyn bywyd,
Gwedd dy wyneb sy'n dwyn hedd,
Gwedd dy wyneb ydyw 'r cwbl
Yma a thu draw i'r bedd.

W. W.

HYMN 321. 8. 7. Jewin Street.

Sychedu am gyfiawnder.

O GYFIAWNDER pur tragwyddol!
O gyfiawnder maith di drai!
Rhaid i'm henaid noeth newynllyd,
Gael yn fuan dy fwynhau:
Rho dy wisg ddysgleirwen oleu,
Cuddia 'm noethni hyd y llawr,
Fel nad ofnwyf mwy ymddangos
Fyth o flaen dy orsedd fawr.

[Wrth dy orsedd na'd fi feddwl
Am ddim haeddiant tra f'wyf byw,
Nac adduned, na dymuniad,
Na dyledswydd o un rhyw:
Iesu yn unig, tan y fflangell,
Iesu 'n hongian ar y groes,
Bydded imi yn ddifyrwch
O foreuddydd hyd y nos.]

Dyma 'r fan, a dyma 'r cysgod,
Dyma 'r trysor gwerthfawr drud,
Ddal fy enaid yn y corwynt,
Dyfroedd mawr anfeidrol lid;
Dyma 'n unig wyf yn geisio,
Dyma geisiaf tra f'wyf byw,
Bwyta, yfed, fyth a gwisgo,
O gyfiawnder pur fy Nuw.

W. W.

HYMN 322. 8. 7. Dismission.

Crist yn ddigon yn angau.

COFIA, f' enaid, cyn it' dreulio
D' oriau gwerthfawr yn y byd,
Cyn it' hedeg ffwrdd oddi yma,
Pa un a gest ti 'r trysor drud:
Y'mha ardal bydd fy llety,
Fath bryd hyny fydd fy ngwedd?
Pa un ai llaweu ai cystuddiol
Fyddaf y tu draw i'r bedd?

Pan fo'm llygaid yn tywyllu,
  Yn eu pyllau 'n llechu lâwr,
Troi oddi amgylch wrth ymdrechu
  A galluoedd angau mawr:
P'odd dyoddefaf y fath gystudd?
  Pwy adfera 'r golled hyn?
Oni châf guddio 'mhen yn nghlwyfau 'r
  Oen fu ar Galfaria fryn.

[Iesu hawddgar 'rwy'n dy ddewis,
  Nerth i ddilyn ôl dy droed,
Yna caiff fy enaid hedeg
  I'r hapusrwydd uwch y rhod;
Pan fo'm corph yn ymgymmysgu
  A'r hyn gwnaethpwyd ef ryw bryd,
Llewyrch wyneb Duw ddysgleiria
  F' enaid oll yn hardd i gyd.

Wedi 'm golchi oddiwrth sorod
  Pechod fflaidd drwg ei ryw,
Fel drych goleu i dderbyn delw
  Holl sancteiddrwydd pur fy Nuw;
Ni raid teithio daear mwyach,
  Ym mhlith pryfed gwael y llawr,
Ond dysgleirio y'mhlith myrddiynau
  Gylch yr orsedd fel y wawr.]
(149) W. W.

HYMN 323. 8. 7. Llundain.

Psalm 45. 3, 4, 5,

MARCHOG Iesu yn llwyddiannus,
  Gwisg dy gleddyf ar dy glun;
Nis gall daear dy wrthsefyll,
  Chwaith nag uffern fawr ei hun;
Mae dy enw mor ardderchog,
  Pob rhyw elyn gilia draw,
Mae rhyw arawyd trwy 'r greadigaeth,
  Pan y byddych di gerllaw.
W. W.

HYMN 324. 8. 7. Queen'sborough.

Llais Crist.

OLLEFARA, addfwyn Iesu,
Mae dy eiriau fel y gwin,
Oll o mewn yn dwyn tangnefedd
Ag sydd o anfeidrol rîn;
Mae holl leisiau 'r greadigaeth,
Holl ddeniadau cnawd a byd,
Wrth dy lais hyfrydaf tawel,
Yn dystewi a myn'd yn fud.

Nis gall holl hyfrydwch natur,
A'i melysdra pena' maes,
Fyth gymharu à lleferydd
Hyfryd, pur, maddeuol ras;
Gâd im' glywed sŵn dy eiriau,
Awdurdodol eiriau 'r nef,
Oddi mewn yn creu hyfrydwch
Nad oes mo'i gyffelyb ef.

(150) W. W.

HYMN 325. 8. 7. Trowbridge.

Dysgwyl am ryddhad.

TAN fy maich yr wyf yn griddfan,
Dysgwyl amser o ryddhau;
Dysgwyl i 'mhechodau dreulio,
Etto 'mhechod sy'n parhau;
Dysgwyl câf gasineb hollol,
Caria f' addunedau 'r dydd,
Etto finnau yn y gadwyn,
Ac yn methu myn'd yn rhydd.

O na chlywn yr udgorn arian
Yn cyhoeddi 'n eglur iawn,
Bellach i fy enaid llwythog
Heddwch a maddeuant llawn:
O na ddeuai nerth i waered,
Fel llifeiriant mawr ei rym,
Fel nad allai 'm nwydau penaf
Mwyach ei wrthsefyll ddim.

Tòr y rhwydau sy gan Satan,
Llosg gadwyni yn y tân;
Dyred, argyhoeddiad nerthol,
Difa 'mhechod o dy flaen:
Deued peraidd heddwch yntau,
Nes gorchfygu melys chwant,
Nes bo 'mai trwy bob rhyw foddion
Felly yn diflanu i bant.

W. W.

HYMN 326. 8. 7. Queen'sborough.

Gwaredigaeth oddiwrth bechod.

DYNA 'r dyddiau wyf yn ddysgwyl,
Dyddiau 'r addewidion rhad;
D'wedwyd, cawn fy meiau cryfaf,
Dua 'u lliwiau tan fy nhraed:
Iesu yw ei hyfryd enw,
Ac fe ddyry wared llawn;
O am wel'd y bore 'n dyfod!
Rhyfedd hyd y maith brydnawn!

Mi feddylia fod y wawrddydd
Wen ar godi maes o law;
Mi debygaf, trwy 'r cymylau,
Y gwelaf oleu 'r ochr draw:
Deuwch wyntoedd mwyn y deau,
Gwthiwch y cymylau o'u lle,
I gael gwel'd yn ei ogoniant
Bresennoldeb Brenin ne'.

Tan ei aden byddaf ddedwydd,
Tan ei aden câf gasâu,
A galaru yn ddrylliedig,
Am bob pechod, am bob bai;
Tan ei aden, ar bob chwantau
Y câf fuddugoliaeth lawn,
Ac y câf ddifyrwch cyson
O foreuddydd hyd brydnawn.

W. W.

HYMN 327. 8. 7. Dismission.

Griddfan am ymwared.

MAE addewid nef o'm hochr,
Fod fy Iesu 'n ffrynd i'r gwan:
O'r pydewau dwg ei hunan
Garcharorion llesg i'r làn;
Tòr y bolltau pres yn gandryll,
Tyn y barau heiyrn yn ol,
Gad i f' enaid o'r dyfnderoedd
Hedeg yna i dy gol.

Tywyned haulwen ar fy enaid,
Blinais ganwaith ar y nos;
Nid yw 'mhleser, na 'nheganau,
Na'm heilunod ond fy nghroes:
Mynwes Iesu yw 'm hapusrwydd—
O na chawn i yno fod!
Fe roi cariad dwyfol perffaith
Fy mhleserau tan fy nhroed.

[Etto unwaith mi dderchafaf
Un ochenaid tu a'r nef,
Ac a wylaf ddagrau 'n hidyl
Am ei bresennoldeb Ef:
Pwy a ŵyr na châf fy ngwrandaw
Gan Dywysog mawr y nen:
Ac na ddaw fy nymuniadau,
Trist, hiraethlawn, oll i ben.]
(153) W. W.

HYMN 328. 8. 7. Jewin Street.

Gwaredigaeth trwy Grist.

IESU, llawnder mawr y nefoedd,
Gwrandaw lef un eiddil gwan:
Sydd yn gorwedd wrth dy orsedd,
Ac yn codi ei lef i'r làn;
Mae 'ngelynion heb rifedi
Yn fy nghuro o bob tu,
Ac nid oes a all fy achub
Is y nefoedd, ond tydi.

HYMN 331. 8. 7. Dismission.

Cwyuo o herwydd tywyllwch.

HIR ddysgwyliais am foreuddydd,
Etto tew dywyllwch sy
Yn parhau i'm hamgylchynu,
Oddi waered, oddi fry:
Beichiau trymion sy'n fy ngwasgu,
Minnau 'n egwan tan y groes;
Colli 'th wyneb tiriou, Arglwydd,
Sydd yn ychwanegu 'r loes.

A ddaw gwawr ar ol y blygain
Sy mor dywyll imi 'nawr?
A ddaw 'm gwàr i etto 'n uniawn,
Sydd yn teimlo beichiau mawr?
A raid yfed chwerwach dyfroedd,
Nag a yfodd un o fil,
Cyn fy lladd i lwybrau gwamal,
A fy nwyn i gadw 'r cul?

O llewyrched Haul Cyflawnder,
Yn ei nerthol rasol rym;
A dangosed ei effeithiau,
Wedi 'r gauaf mwyaf llym;
Euog, aflan, oer, a diffrwyth,
Halogedig oll, wyf fi:
Iesu, ffynnon iachawdwriaeth,
A'i rhinweddau oll, wyt ti.

T.

HYMN 332. 8. 7. Gilboa.

Arch-offeiriad mawr.

ARCH-OFFEIRIAD uwch na'r nefoedd,
Yw ein Harch-offeiriad ni;
Er mor ddirmygedig ydoedd
Pan yn marw ar Galfari:
O ddyfnderoedd ei drallodion
Esgyn wnaeth i nef y nef;
Priod a Gwaredwr Sion,
A'i chyflawnder, ydyw Ef.

Iago.

HYMN 333. 8. 7. Gilboa.

Crist y cyfaill goreu yn angau.

YN y dyfroedd mawr a'r tònau
Nid oes neb a ddeil fy mhen,
Ond y ffyddlawn Arch-offeiriad,
A fu farw ar y pren;
Cyfaill yw yn afon angau,
A ddeil fy mhen i uwch y dòn;
Golwg arno wna i mi ganu
Yn yr afon ddofn hon.

O anfeidrol rym y cariad!
Anorchfygol ydyw 'r gras!
Digyfnewid yw 'r addewid,
Pery byth o hyn i maes!
Hyn yw'm hangor ar y cefnfôr,
Na chyfnewid meddwl Duw:
Fe addawodd na chawn farw,
Y'nghlwyfau 'r Oen y cawn i fyw.

D. W.

HYMN 334. 8. 7. Carlisle.

Byw i mi yw Crist. PHIL. 1. 21, 22.

DYDDIAU blin fy mhererindod
Sydd ar ddarfod yn ddi lai;
Ffarwel yfed dyfroedd Mara,
I ddinas arall 'r wy'n nesâu:
Teimlo f' enaid 'r wy'n ymadael
A'r creaduriaid ar y llawr;
Fy hiraeth beunydd sy am fyn'd adref
I'r dedwydd dragwyddoldeb mawr.

Wyneb siriol fy Anwylyd
Yw fy mywyd yn y byd;
Ffarwel bellach bob eilunod,
Iesu, 'Mhriod, aeth a 'mryd;
Brawd mewn myrdd o gyfyngderau,
Ffrynd mewn môr o ofid yw;
Ni chais f' enaid archolledig
Neb yn Feddyg ond fy Nuw.

M. R.

HYMN 335. 8. 7. Jewin Street.

Rhybydd i bechaduriaid.

CLYW, bechadur, saf yn fuan,
Paid a dilyn llwybrau 'r fall,
Rhag it' syrthio dros y geulan,
I ddyfnderoedd bythol wall:
Oni chym'ri rybydd prysur,
Barn a ddisgyn oddi draw;
Trwm arswydus fydd dy ddolur,
Tan y dial ddydd a ddaw.

[Os dilyni chwantau pechod
Ond ychydig bach yn hŵy,
Duw sy'n bygwth, fe ry ddyrnod,
Na fydd raid dy daraw mwy:
Mae yn taflu ei elynion
I waelodion bythol wae;
O, na ddilyn chwantau bryntion,
Trwm yw 'r cyflog i barhau.

Bechaduriaid, etto cofiwch,
Cyn ei myned yn rhy hwyr;
Duw sy'n galw, 'nawr dychwelwch,
Onide daw dial llwyr:
Yn nydd gras, cyn awr marwolaeth,
Y mae caffael gras a hedd;
Ni bydd cynnyg iachawdwriaeth,
Na maddeuant, yn y bedd.]

Mae y ffynnon yn agored,
Gras y nefoedd heb brinhau;
Mae yn derbyn pechaduriaid,
I'w heddychu a'u glanhau;
Mae llawenydd yn y nefoedd,
Pan fo un pechadur trist,
Yn y dirgel, ac ar gyhoedd,
Yn nesâu at Iesu Grist.

HYMN 336. 8. 7. Jewin Street.

Ffordd newydd a bywiol.

DYMA babell y cyfarfod,
Dyma gymmod yn y gwaed,
Dyma noddfa i lofruddion,
Dyma i gleifion Feddyg rhad;
Dyma fan yn ymyl Duwdod
I bechadur wneud ei nyth,
A chyflawnder pur y nefoedd
'N siriol wenu arno byth.

Ffordd a drefnwyd, cyn bod amser,
I ryddhau o ddrygau 'r ddraig;
Mewn addewid gynt yn Eden,
Fe gyhoeddwyd Had y Wraig:
Ffordd i gyflawnhau 'r annuwiol,
Ffordd i godi 'r marw 'n fyw,
Ffordd gyfreithlawn i droseddwr
I gael hedd a ffafor Duw.
(151) A. G.

HYMN 337. 8. 7. Welsh.

Dirgelwch duwioldeb.

O DDYFNDEROEDD Iachawdwriaeth!
Dirgelwch mawr duwioldeb yw;
Duw y duwiau wedi ymddangos
Y'nghnawd a natur dynolryw:
Dyma 'r Person a ddyoddefodd
Yn ein lle ddigofaint llawn,
A chyflawnder waeddai "Gollwng
Ef yn rhydd mi gefais iawn!"

Dyma 'r Brawd a anwyd ini,
Erbyn c'ledi a phob clwy';
Ffyddlawn ydyw, llawn tosturi,
Haeddai gael ei foli 'n fwy:
Rhyddhâwr caethion, Meddyg cleifion,
Ffordd i Sion union yw;
Ffynnon loyw, bywyd meirw,
Arch i gadw dyn yw Duw.
(151) A. G.

HYMN 338. 8. 7. Carlisle New.

Dyfnderoedd iachawdwriaeth.

MELYS gofir y cyfammod,
Draw a wnaed gan Dri yn Un;
Bythol syllir ar y Person
Gym'rodd arno natur dyn:
Wrth gyflawni yr ammodau,
Trist hyd angau 'i enaid oedd—
Dyma gân y saith ugein-mil,
Draw i'r llen a llawen floedd.

[F' enaid trist wrth gofio'r frwydyr
'N llamu o lawenydd sydd;
Gwel'd y ddeddf yn anrhydeddus,
A'r pechadur brwnt yn rhydd;
Rhoi i farwolaeth Awdur bywyd,
Claddu 'r Adgyfodiad mawr,
Uno, mewn tragwyddol heddwch,
Nef y nef a daear lawr.

Ef yw'r iawn fu rhwng y lladron,
Dyoddefodd angau loes;
Nerthodd freichiau 'i ddienyddwyr
I'w hoelio 'n greulawn ar y groes:
Ac wrth dalu yno 'n dyled,
Anrhydeddu deddf ei Dad,
Hardd ddysgleirio 'r oedd cyflawnder,
Ninnau 'n rhydd trwy 'r cymmod rhad.]

F' enaid, gwel y fan gorweddodd
Pen breninoedd, Awdur hedd;
Y greadigaeth ynddo 'n symud,
Yntau 'n farw yn y bedd:
Rhan a bywyd colledigion,
Syndod holl angelion nef—
Duw mewn cnawd—ei gyd addoli
Maent, gan waeddi Iddo Ef.

A. G.

HYMN 339. 8. 7. Preswylfa Lonydd.

Tragwyddol orphwysfa 'r saint.

DEDWYDD fydd tragwyddol orphwys
O bob llafur yn y man,
Y'nghanol môr o ryfeddodau,
Heb un gwaelod byth na glàn;
Caffael mwy fynediad helaeth
I drigfanau TRI yn UN;
Dwfr i nofio heb fyn'd trwyddo,
Dyn yn Dduw, a Duw yn ddyn.

Byw heb wres, na haul yn taraw,
Byw heb ofni marw mwy;
Pob rhyw aiar wedi darfod,
Dim ond eanu am farwol glwy';
Nofio 'n afon bur y bywyd,
Bythol heddwch sanctaidd DRI,
Tan dywyniadau di gymylau
Gwerthfawr angau Calfari.

A. G.

HYMN 340. 8. 7. Giles's.

Y porthladd dymunol.

DAW y dydd i'r had breninol,
Gael mordwyo tua'u gwlad,
O gaethiwed y priddfeini,
I deyrnasu gyd â'u Tad:
Eu ffydd yno a dry 'n olwg,
Gobaith eiddil yn fwynhad;
Annherfynol fydd yr anthem,
Moli 'r Oen a'i werthfawr waed.

Lesg bererin, gan ystormydd,
Cyfod d' olwg, gwel y wawr;
'R Oen yn gweini 'r swydd gyfryngol
Mewn llaes wisgoedd hyd y llawr;
Gwregys auraidd o ffyddlondeb,
Wrth ei odre clychau 'n llawn;
Llwyr faddeuant i droseddwr,
Er mwyn ei anfeidrol iawn.

A. G.

HYMN 341. 8. 7. Trowbridge.

Haeddiant Crist yn ddigon i bechadur.

PECHADUR aflan yw fy enw,
O ba rai y pena'n fyw;
Rhyfedd byth! fe drefnwyd pabell
I'm gael tawel gwrdd à Duw:
Yno mae yn llon'd ei gyfraith,
I'r troseddwr i gael gwledd;
Duw a dyn yn gwaeddi "Digon,"
Yn yr Iesu, 'r aberth hedd.

Anturiaf ato yn hyderus,
Teyrnwialen aur sydd yn ei law,
A'i hestyniad at bechadur,
Ni wrthodir neb a ddaw:
Af ym mlaen dan waeddi, Pechais;
Af, a chwympaf wrth ei draed,
Am faddeuant, am fy ngolchi,
Am fy nghànu yn y gwaed.

[Nid eill moroedd mawrion llydain,
Guddio pechod o un rhyw;
Ac nis gallodd dylif cadarn
Ei foddi 'n wir, mae 'n awr yn fyw;
Gwaed yr Oen fu ar Galfaria,
Haeddiant Iesu a'i farwol glwy',
Ydyw 'r môr lle caiff ei guddio,
Byth ni welir mo'no mwy.

Ffrydiau tawel, byw, rhedegog,
O tan riniog tŷ fy Nuw,
Sydd yn llanw, ac yn llifo,
O fendithion o bob rhyw;
Dyfroedd gloyw fel y grisial,
I olchi 'r euog, nerthu 'r gwan,
Ac a gàna 'r Ethiop duaf
Fel yr eira yn y man.]

A. G.

HYMN 3[illegible] 8. 7. Dismission.

45. 8.

[illegible]b Duw.

COFIA, [illegible]niad am san[illegible]y ddyweddi,
Llam[illegible]ydd;
Ac na âd i[illegible]
Arni'n [illegible]
O dadgu[illegible]
Wnaed[illegible]nos,
Addewidio[illegible]
Duw, ar g[illegible]groes.

3YR cwbl groes [illegible]
fy llafur yn y by[illegible]
ei deithio 'n daw[illegible]
[illegible]nel dy wyneb p[illegible]
[illegible]a'i chyfri'n go[illegible]
[illegible]mder lla[illegible]

Bod yn fyw sy fawr ryfeddod,
Mewn ffwrneisiau sy mor boeth;
Ond rhyfeddach, wedi 'mhrofi,
Dod o'r cystudd fel aur coeth:
Amser cànu, diwrnod nithio,
Etto 'n dawel heb ddim braw,
Y gwr sydd imi yn ymguddfa,
Sydd â'r wyntyll yn ei law.

O, am dynu o'r anialwch
Fynu fel colofnau mwg,
'N union-gyrchol at ei orsedd,
Nid oes yn ei wedd ef ŵg;
Alpha, Omega, Tyst ffyddlonaf,
Yw ein Ior, â'i air yn un;
Dysglaer yw gogoniant Trindod,
Yn achubiaeth marwol ddyn.

(152) A. G.

HYMN 343. 8. 7. Carlisle.

Esgyniad Crist. Psalm 24. 7.

PAN esgynodd Hwn ddisgynodd,
Wedi gorphen yma 'i waith,
Pyrth oedd yn derchafu eu penau,
Gorfoleddent yn eu hiaith:
Dorau 'n agor, côr yn plygu,
I Dduw mewn cnawd yr ochr draw;
Y Tad yn siriol a'i gwahoddai
I eistedd ar ei ddeau law.

A. G.

HYMN 344. 7. Tr[illegible]win Street.

Ellunod yn d[illegible]n ddigon i be[illegible]peth.

NID oes wr[illegible] aflan yw fy enw[illegible]ar
Leinw'n[illegible] pena'n fyw; [illegible]r drud;
F' unig bleser a[illegible]e drefnwyd pabe[illegible]
Yw hyfryd we[illegible]wrdd à Duw: [illegible]d;
Gwedd dy wyne[illegible] ei gyfraith[illegible]
A phob creadur [illegible];
A gwna enw câr a chyfaill
Yn ddim er mwyn ei enw mawr.

Pêr-arogli mae fy nardus,
Wrth wledda ar y cariad rhad;
Sêl yn tanio 'n erbyn pechod;
Caru delw sancteiddhâd:
Tynu ymaith law a llygad,
Ynghyd âg uchel drem i lawr;
Neb yn deilwng o'i dderchafu,
Ond fy Iesu, Frenin mawr.

[O am yfed yma beunydd
O ffrydiau 'r iachawdwriaeth fawr,
Nes fy nghwbl ddi sychedu
Am wywedig bethau 'r llawr:
Byw dan ddysgwyl am fy Arglwydd,
Bod pan ddelo 'n effro iawn,
I agoryd iddo 'n ebrwydd,
A mwynhau ei ddelw 'n llawn.

Rhyfeddu wnaf a mawr ryfeddod,
Pan ddaw i ben y ddedwydd awr
Bydd fy meddwl sy yma 'n gwibio
Ar ol teganau gwael y llawr,
Wedi ei sefydlu 'n gyfan
Ar wrthddrych mawr ei berson Ef,
A diysgog gydymffurfio
A phur a sanctaidd ddeddfau 'r nef.]

A. G.

HYMN 345. 8. 7. Dismission.

Dymuniad am sancteiddrwydd.

LLWYBYR cwbl groes i natur
Yw fy llafur yn y byd;
Etto gwnaf ei deithio 'n dawel,
Ond im' gael dy wyneb pryd;
Codi 'r groes a'i chyfri'n goron,
Mewn gorthrymder llawen fyw;
Ffordd unionaf, er mor arw,
I ddiogs gyfanneddol yw.

Addurna 'm henaid â dy ddelw,
Gwna fi 'n ddychryn yn dy law,
I uffern, llygredd, a chnawdolrwydd,
Wrth fy ngweled yma a thraw:
O am gymdeithasu â'r enw!
Enaint tywalltedig yw,
'N halltu 'r byd, gan bêr-arogli
O hawddgar ddoniau Crist fy Nuw.

[Rhwyga 'r tew gymylau duon,
Guddiant wedd dy wyneb gwiw;
Nid oes bleser a'm dyddana,
Ond yn unig ti fy Nuw;
Môr di drai o bob trugaredd,
Yw 'th iachawdwriaeth fawr ei dawn,
Lanwodd ac a lifodd allan,
Ar Galfaria un prydnawn.]

Mae fy nghalon am ymadael
A phob eilun, fach a mawr,
Am fod arni 'n argraffedig
Ddelw gwrthddrych uwch y llawr,
Bythol deilwng i'w addoli,
Ei garu, a'i barchu, yn y byd,
Bywyd myrdd o safn marwolaeth
Gafwyd yn ei angau drud.

A. G.

HYMN 346. 8. 7. Trowbridge.

Effeithiau adnabod Duw yn Nghrist.

O AM dreiddio i'r adnabyddiaeth
O'r unig wir a'r bywiol Dduw,
I'r fath raddau a fyddo 'n lladdfa
I ddych'mygion o bob rhyw!
Credu 'r gair sy'n dweud am dano,
Am ei natur sanctaidd wiw,
Sy'n farwolaeth i bechadur
Heb gael iawn i'w gadw 'n fyw.

Duw anfeidrol mewn gogoniant,
Er mai Duw y cariad yw,
Wrth ei gofio sy imi 'n ddychryn,
Imi 'n ddolur, ac yn friw;
Ond ym mhabell y cyfarfod,
Mae Ef im' yn llawn o hedd,
'N Dduw cymmodlawn wedi eistedd,
Dim ond heddwch yn ei wedd.

[Yno mae fy mwyd a nïod,
'Noddfa á 'ngorphwysfa wiw,
'Meddyginiaeth a fy nhrysor,
Tŵr cadarn anfethedig yw;
Yma mae fy holl arfogaeth,
Y'ngwyneb fy ngelynion câs;
'Mywyd yno sy guddiedig
Pan fwy'n ymladd ar y maes.

Cael Duw yn Dad, a Thad yn Noddfa,
Noddfa 'n Graig, a Chraig yn Dŵr,
Mwy nis gallaf ei ddymuno
Yn llocheś im' mewn tân a dw'r;
Ac o hono mae 'nigonedd,
Ynddo trwy fyddinoedd âf;
Hebddo eiddil gwan a dinerth,
Colli 'r dydd yn wir a wnaf.]

A. G.

HYMN 347. 8. 7. Gilboa.

Duw yn y cnawd.

RHYFEDD, rhyfedd gan angelion,
Syndod mawr yn ngolwg ffydd,
Rhoddwr bod, Cynnaliwr helaeth,
A Rheolwr pob peth sydd,
Yn y preseb mewn cadachau,
Ac heb le i roi 'i ben i lawr;
Etto dysglaer lu 'r gogoniant
Yn ei addoli ef yn awr.

Diolch byth, a chanmil diolch,
Diolch tra fo ynof chwyth,
Am fod gwrthddrych i'w addoli,
Testun cân i bara byth,
Yn fy natur wedi ei demtio,
Fel y gwaela o ddynolryw,
Yn ddyn wedi 'i amgylchu â gwendid,
Ac 'n anfeidrol fywiol Dduw.

Pan fo Sinai i gyd yn mygu,
Sain yr udgorn uchaf radd,
Caf fyn'd i wledda tros y terfyn,
Y'ngrym yr aberth heb'fy lladd:
Mae ynddo 'n trigo bob cyflawnder,
Llon'd gwagle colledigaeth dyn;
Yn yr adwy rhwng y ddwyblaid,
Gwnaeth heddwch trwy offrymu ei Hun.

A. G.

HYMN 348. 8. 7. Trowbridge.

Gobaith gwynfydedig.

OS rhaid mya'd trwy 'r afon donog,
Mae Un i dori grym y lli',
Iesu, f' Archoffeiriad ffyddlawn,
Dyna ddigon byth i mi:
Yn ei waed caf waeddi concwest
Ar angau, uffern, byd, a'r bedd,
Tragwyddoldeb byth heb bechu,
Yn ogoneddus ar ei wedd.

Yn lle cario corph o lygredd,
  Caf gyd-dreiddio â'r côr sydd fry,
I ddi derfyn ryfeddodau
  Iachawdwriaeth Calfari;
Byw i wel'd yr anweledig,
  A fu farw ac sydd fyw;
Bythol anwahanol undeb,
  A chymdeithas â fy Nuw.

Yno caf dderchafu 'r Person
  A osododd Duw yn Iawn,
Heb ddychymyg, llen, na gorchudd,
  F' enaid ar ei ddelw 'n llawn;
Yn nghymdeithas y dirgelwch
  Dadguddiedig yn ei glwy',
Addoli 'r Mab i dragwyddoldeb,
  Heb golli 'ngolwg arno mwy.

A. G.

HYMN 349. 8. 7. Welsh.

Ymhyfrydu yn Nghrist a'i groes.

NIS gall byd na'i holl deganau
  Foddio fy serchiadau 'nawr,
A eanillwyd, a eangwyd,
  Yn nydd nerth fy Arglwydd mawr:
Ef, nid llai, a all eu llenwi,
  Er mai di amgyffred yw—
O am syllu ar ei Berson!
  Rhyfedd pob rhyfeddod yw!

O na chawn i dreulio nyddiau 'n
  Fywyd o dderchafu ei waed!
Llechu 'n dawel dan ei gysgod,
  Byw a marw wrth ei draed:
Cario 'r groes, a phara i'w chodi,
  Am mai croes fy Mhriod yw,
Ymddifyru yn ei Berson,
  A'i addoli Ef, fy Nuw.

A. G.

HYMN 350. 8. 7. Carlisle.

Cymdeithas â'i ddyoddefiadau Ef.

DIGON mewn llifeiriant dyfroedd,
Digon yn y fflamau tân;
O am nerth i lynu wrtho,
Para byth yn ddi wahan;
Ar groes-lwybrau tir Arabia,
Lle mae 'speilwyr fwy na rhi'
Rho gymdeithas dyoddefiadau
Gwerthfawr angau Calfari.

[Pan fo'm henaid fwyaf gwresog,
Ac yn caru fwyaf byw,
Mae 'r pryd hyny 'n fyr o gyrhaedd
Perffaith sanctaidd gyfraith Duw:
O am nerth i'w hanrhydeddu,
Trwy gofleidio cymmod rhad,
A chymundeb mwyaf diddig,
Hyfryd felys, yn y gwaed.]

Hiraeth sy arnaf am ymadael,
Bob dydd ar y gwaedlyd faes,
Nid â'r arch nac Israel dirion,
Ond â'm hunan-ymchwydd cas;
A chael dod at fwrdd y Brenin,
A'm gwa'dd yno i eiste'n uwch,
Minnau 'n para 'n wan ac eiddil,
Byth am garu yn y llwch.

A. G.

HYMN 351. 8. 7. Gilboa.

"Ac Efe yw pen corph yr Eglwys."

PRIOD mawr, a Phen yr Eglwys,
Ydyw Iesu, Brenin nef;
Pob credadyn sy'n ymorphwys
Ar ei Iawn anfeidrol Ef:
Er ystormydd a llif-ddyfroedd,
Tra bo Iesu byw yn ben,
Dwg ei etholedig luoedd
Adre 'n iach i'r nefoedd wen.

Iago.

HYMN 352. 8. 7. Eliseus.

Galwad yr efengyl.

BETH yw 'r udgorn glywai 'n seinio?
Brenin Silo sydd yn gwa'dd:
Pwy sy'n cael eu galw ganddo?
Pechaduriaid o bob gradd:
Adre, adre, blant afradlawn,
Gadewch gibau gweigion ffol;
Clywaf lais y Brenin heddyw
'N para i alw ar eich hol.

Dyma 'r Câr a'r Cyfaill goreu,
I feibion Adda fedd y nef;
Mae E 'n derbyn pechaduriaid,
Ymddiried, f' enaid, ynddo Ef:
Gwaed yr Oen ar ben Calfaria
A'm cadwodd i o'r fflamau tân;
Chwant sydd arnaf ganu moliant
Fyth i'r fath Waredwr glân.

HYMN 353. 8. 7. Eliseus.

Buddugoliaeth y groes.

CADBEN mawr eiu hiachawdwriaeth
Welaf yn y frwydyr hon;
Holl elynion ei ddyweddi
Yn gorfod plygu ger ei fron;
Plant afradlawn sy'n dod adref,
A fu 'mhell o dir eu gwlad;
Rhai fu 'n fudion sy'n clodfori
Duw am iachawdwriaeth rad.

Wele, Iesu, Pen ryfelwr,
'N dod i'r lan o Edom wlad,
Ei wisg yn goch, ei fraich yn rymus,
Y ddraig yn glwyfus tan ei draed!
Am yr hyfryd fuddugoliaeth,
Cana 'm telyn fach yn awr!
Hyd nes delo 'r hyfryd fore
Y caf fi ganu 'r delyn fawr.

M. R.

HYMN 354. 8. 7. Jewin Street.

Ymestyniad y credadyn.

O PA bryd y daw yr amser,
Amser hyfryd, dedwydd bryd,
Caf glodfori byth heb flino
Enw Prynwr mawr y byd:
Ond nid amser yw ei enw,
Tragwyddoldeb maith barhad,
Lle na flinir gan elynion
Etifeddion Canaan wlad.

Ffarwel holl wrthddrychau amser,
Byd o brofiad lle 'r wy'n byw,
Caf ryddhad o bob gofidiau,
Caf orphwyso gyda Duw;
Derfydd teithio glyn wylofain,
Pan derfyno 'r farwol chwyth;
Fry nid oes un gwaith ond caru,
Canu a rhyfeddu fyth.

[Pa'm y caraf mwy wrthddrychau
A adawaf cyn bo hir?
Ni estynant imi gysur
Pan fwy'n teithio 'r isel dir;
Bywyd brau a chyfnewidiol
Yn y byd amserol sy;
Yma 'n wir mae mynych dristwch—
Mae hyfrydwch nefol fry.

Ynof fi nid oes ond gwendid,
Yn yr Iesu mawr mae grym;
Anniffygiol yw ei allu,
Ef sy'n llawn gadernid im';
Ef a rwygodd deyrnas Satan,
Drylliodd gloau barau 'r bedd,
Ef ei Hun a ddaeth trwy 'r gorchwyl—
Anwyl, anwyl yw ei wedd!]

Ni ordeiniwyd fy serchiadau
I gofleidio pethau 'r byd,
Ond i garu Iesu tirion—
Ef sy deilwng o fy mryd:
Ef sy'n derbyn moliant miloedd
Yn y bydoedd mawr uwch ben—
Iesu, Brenin y gogoniant,
Piau 'r moliant byth, Amen.

HYMN 355. 8. 7. Carlisle New.

Iawn digonol.

WELE Sinai a Chalfaria
Heddyw wedi dod ynghyd;
Sylwedd mawr yr holl gysgodau
Yn wynebu 'r dwyfol lid:
Dacw 'r cleddyf wedi deffro,
Llyfrau 'r ddeddf yn dod ym mlaen;
Dacw awr y gwarediglon
Wedi ei buro yn y tân.

HYMN 356. 8. 7. Carlisle.

Arfaeth rasol Duw.

DRAW mi welaf ryfeddodau
Dyfnion bethau TRI yn UN;
Cyn bod Eden ardd na chodwm,
Grasol fwriad Duw at ddyn:
Ethol Meichiau cyn bod dyled,
Trefnu Meddyg cyn bod clwy',
Caru gelyn heb un haeddiant—
Caiff y clod tragwyddol mwy.

HYMN 357. M. N. 8. 7. 3. Pant y Celyn.

O flaen pregeth.

ARGLWYDD, anfon dy leferydd
Heddyw yn ei rwysg a'i rym;
Dangos fod dy lais yn gryfach
Nas gall dyn wrthsefyll dim:
Cerdd ym mlaen, nefol dân,
Cymmer yma feddiant glân.

HYMN 358. 8. 7. 3. Newport.

Llwyddiant yr efengyl.

DYRED, Iesu, i'r ardaloedd
Lle teyrnasa tywyll nos;
N'ad fod rhan o'r byd heb wybod
Am dy chwerw angau loes:
Pa'm bydd poen addfwyn Oen
Am dano 'n eithaf byd heb sôn?

Doed Paganiaid yn eu t'wyllwch,
Doed y Negroes dua'u lliw,
Doed addolwyr yr eilunod
I wel'd tegwch Iesu 'n Dduw:
Doed pob un, yn gyttun,
Mewn i wleddoedd wedi eu trin.

O darfydded Canaaneaid
Mwy i drigo yn y wlad;
Na ddoed sillaf bach o enau
Neb, ond am rinweddau 'th waed:
Deued llu, heb ddim rhi',
Fyth i ganu am Galfari.

W. W.

HYMN 359. 8. 7. 3. Iorddonen.

Gweddi am adnabod perthynas â Duw.

DYRED, Arglwydd, â'r amseroedd,
Mae fy enaid am fwynhau,
Pur dangnefedd heb dymhestloedd,
Cariad hyfryd a di drai:
Gwledd o hedd, tu yma i'r bedd,
Nad oes ond dy blant a'i medd.

Rho imi arwydd cryf disigl,
Heb ammheuaeth ynddo ddim,
Gan nad beth fo arnaf eisiau,
Dy fod di yn Briod im':
Gwel'd fy rhan, ddeil i'r làn,
Ymhob brwydr fy enaid gwan.

Pan y collwyf wedd dy wyneb,
Pan anghofiwyf waed dy groes,
Dyna 'n dyfod, fel y dylif,
Dywyll, anial, ddyrys nos;
Gradd o ffydd, wedi'n sydd,
Dawel deg, yn dod â dydd.

W. W.

HYMN 360. 8. 7. 3. Allein's.

Dyoddefaint Crist.

WELE, cawsom y Messiah,
Cyfaill gwerthfawroca' erioed;
Darfu Moses a'r prophwydi
Ddweud am dano cyn ei ddod:
Iesu yw Gwir Fab Duw,
Ffrynd a Phrynwr dynolryw.

Hwn yw 'r Oen, ar ben Calfaria,
Aeth i'r lladdfa yn ein lle;
Swm ein dyled fawr fe'i talodd,
Ac a groesodd filiau 'r ne';
Trwy ei waed, ini caed
Bythol heddwch a rhyddhad.

[Cà'dd cyfiawnder ei foddloni,
Ca'dd y gyfraith ei chwblhau;
Duw a ninnau, fu 'n elynol,
Yn heddychol gwnaed y ddau:
Fe wnaeth ben; 'nawr mae'r llen
Gwedi rhwygo o'r ddae'r i'r nen.]

Dyma Gyfaill haeddai 'i garu,
A'i glodfori 'n fwy nag un:
Prynai 'n bywyd, talai 'n dyled,
A glanhâi ni â'i waed ei Hun!
Frodyr, dewch, llawenhewch,
Diolchwch iddo, byth na theweh.

(157) D. J.

HYMN 361. 8. 7. 3. Pant y Celyn.

Y briodas.

DEUWCH, hil syrthiedig Adda,
Daeth y Jubil fawr o hedd;
Galwad sydd ar bawb o'r enw
I fwynhau tragwyddol wledd:
Bwrdd yn llawn yma gawn
O foreuddydd hyd brydnawn.

Ceisiwch wisgoedd y Briodas,
Gwisgoedd hyfryd, hardd eu lliw;
Nid oes enw teilwng arnynt
Ond cyflawnder pur fy Nuw:
Llian main ydyw rhai'n,
Sydd yn cuddio pob rhyw 'staen.

Dyma wledd y cewch ddanteithion,
Yma cewch faddeuant rhad,
Yma cewch chwi brofi cariad,
Hedd yn nofio yn y gwaed:
Dewch yn awr, dyrfa fawr,
Ac eisteddwch yma i lawr.

(155) W. W.

HYMN 362. 8. 7. 3. Nuneaton.

Addewid Duw yn sylfaen cysur.

DA i mi fod yr addewid
Wedi ei rhoddi gan fy Nuw,
A bod gair o enau 'r nefoedd
Uwch gelynion o bob rhyw;
Ei addewid Ef, gadarn, gref,
Arwain eiddil gwan i'r nef.

Bron yr wyf a digaloni,
Pan y gwelwyf lwybrau cul,
Rhwng rhyw greigiau serth dychrynllyd,
Lle tramgwyddodd llawer mil:
F' enaid gwan, yn y man,
Ddringa etto i fynu i'r lan.

O gwna imi brofi sypiau,
Sypiau peraidd rawn y wlad,
Blas maddeuant pur a heddwch,
Gwleddoedd hyfryd tŷ fy Nhad:
Dyma hwy, perlau mwy,
Gloddiwyd yn ei farwol glwy'.
(155) W. W.

HYMN 363. 8. 7. 3. Iorddonen.

Sylfaen safadwy.

N'AD fi adeiladu 'n ysgafn
Ar un sylfaen îs y ne',
Na chymmeryd craig i orphwys
Tu yma i angau yn dy le;
Ti fy Nuw, tra f'wyf byw,
Gaiff fod fy ngorphwysfa wiw.

Dyma 'r maen sydd yn y gongl,
Dyma 'r gareg werthfawr bur,
Gloddiwyd allan yn y bryniau,
Bryniau tragwyddoldeb dir:
Nid oes le, îs y ne',
I adeiladu ond Efe.

Minnau 'r gwaela' o bechaduriaid,
Yn y diwedd, rof fy nhroed
Ar y Graig sydd yn y moroedd,
Y Graig gadarnaf fu erioed!
Ceidw hon, rhag pob tòn,
Ofnau ffwrdd o dan fy mron.

Ni all hwnw sy'n dy nabod
Lai na dilyn ôl dy droed;
Ac ni cha'dd a welodd d' wyneb
Wel'd cyffelyb iddo erioed;
Tyr'd yn glau, Iesu, mae
F' enaid euog bron llesghau.
W. W.

HYMN 364. 8. 7. 3. Allein's.

Ffynnon i bechod ac aflendid.

DACW 'r ffynnon wedi ei hagor
A ddysgwyliwyd lawer oes,
'Nawr yn llifo fel y grisial
Maes o'i ystlys ar y groes,
Dwfr a gwaed, rydd iachâd
I'r pechadur mwyaf gaed.

Minnau bellach a obeithiaf,
Gobaith ag all estyn f' oes,
Gobaith wedi ei sylfaenu
Ar och'neidiau pur y groes:
Dyma wlad câf iachâd,
A chaf gyflawn wir ryddhad.
(157) W. W.

HYMN 365. 8. 7. 3. Newport.

Cadw oddiwrth bechod.

IESU, nid oes ond dy allu,
Iesu, nid oes ond dy rym,
Attal f' enaid tros fynydyn
Bechu yn dy erbyn ddim;
Rhoddion rhad gwerthfawr waed,
Wna im' sefyll ar fy nhraed.

Mi a grwydrwn draw i'r dwyrain,
Mi a grwydrwn draw i'r de,
Oni bai 'r golofn dân sy'n arwain
Llewyrch hyfryd pur y nę';
Ef biau 'r clod, am erioed
Iddo gyfarwyddo 'm troed.

Weithiau fe ddyd ei raglùniaeth,
Weithiau dyd ei hyfryd ras,
I fy ngwarchod a fy nghadw
Rhag fy chwantau ffiaidd cas:
Boed fy nghàn iddo 'n làn,
Pan êl daear fawr ar dân.
W. W.

HYMN 366. 8. 7. 3. Allein'.

Ymroddiad i ddyogwyl wrth Ddaw.

AF ym mlaen a doed a ddelo,
Tra fo hyfryd eiriau 'r nef
Yn cyhoeddi iachawdwriaeth
Lawn, o'i sanctaidd enau Ef:
Nid yw grym gelyn llym
I'w anfeidrol ras Ef ddim.

Mewn gwasgfeuon mwyaf caled
Etto brofodd dyn erioed,
Mae yn nerth, mae yn ddyddanwch,
Mae yn gyfan is y rhod;
Melys wîn, dwyfol rîn
Yw i'r trallodedig ddyn.

Minnau ganaf am ei enw,
Ac a draethaf maes ar led,
Mai Efe sydd unig deilwng
O fy ngharîad a fy nghred:
Mwy na'r ne' yw Efe,
Neb nis gall gyfiawni ei le.

W. W.

HYMN 367. 8. 7. 3. Pant y Celyn.

Baner gras.

DEWCH i'r frwydyr, dewch yn eos,
Filwyr Iesu, yn fore iawn,
Chwi gewch weled buddugoliaeth
Lân a helaeth y prydnawn;
Ef ei hun, heb un dyn,
Dery 'r gelyn yn ddi gryn.

Mae'r efengyl wen yn curo,
Ac yn codi baner gras,
Mewn rhyw filoedd o ardaloedd,
Ar y mynydd, yn y maes;
Y mae llef bur y nef
Yn cyhoeddi ei haeddiant Ef.

W. W.

HYMN 368. 8. 7. 3. Iorddonen.

Na siomir dysgwyliad crediniol.

Y MAE lluoedd Pharaoh 'n canlyn,
Beiau llidiog, cedyrn, cry';
Moroedd maith yn rhuo eu tònau,
Rhwystrau creulawn o bob tu;
Tyr'd ym mlaen, Iesu glân,
Eiddot ti y dwfr a'r tân.

Mi debygwn gwelai 'r bore,
Haul yn codi oddi draw;
Iachawdwriaeth rad yn nesu,
Hedd a phardwn yn ei llaw;
Mae y wawr, hyfryd awr,
Am ddysgleirio ar lwch y llawr.

Minnau ar y mur ddysgwyliaf,
Gwn nad oeda 'i sanctaidd droed;
Ni w'radwyddwyd fe y nefoedd
A ddysgwyliodd wrtho erioed:
Af yn rhydd, pan ddel dydd,
O bob rhyw gaethiwed prudd.

(156) W. W.

HYMN 369. 8. 7. 3. Nuneaton.

Aberth Crist a'i ffrwythau.

WELE 'n chwysu 'r dafnau gwaedlyd,
Ar noswaith rewlyd yn yr ardd,
Iesu, siriol Rosyn Saron,
O hwn bendithion pawb a dardd:
Ein bard byw, a'n haberth yw,
Dyoddefodd dân digofaint Duw.

Dod gyflawnder y MESSIAH,
I ddod am danaf i'th ŵydd di,
A chyflawnder egwyddorol,
Anian fywiol ynof fi:
O na bawn lestr llawn
O bob nefol ddwyfol ddawn.

E. J.

HYMN 370. M. N. 8. 7. 4. Penbryn.

Llwyddiant yr efengyl.

DROS y bryniau tywyll niwliog
Yn dawel, f' enaid edrych draw,
Ar addewidion sydd i esgor
Ar ryw ddyddiau braf ger llaw:
Nefol Jubil,
Gad im' wel'd y bore wawr.

Doed yr Indiaid, doed Barbariaid,
Doed y Negroes du yn llu,
I ryfeddu 'r ddwyfol goncwest
Unwaith gaed ar Galfari;
Sŵn y frwydyr
Dreiddio i gonglau pella 'r byd.

Ar ardaloedd maith o dywyllwch
Tywynu wnelo 'r haulwen lân,
Ac ymlidied i'r gorllewin
Y nos, o'r dwyrain draw, o'i blaen;
Iachawdwriaeth,
Ti yn unig gario 'r dydd.

[Gwawria, gwawria, hyfryd fore
Ar ddi derfyn fagddu fawr,
Nes bo bloedd yr auraidd udgorn
Yn dadseinio nen a llawr,
Holl derfynau,
Tir Emmanuel i gyd.

Hed fel mellten, bur efengyl,
A gorchfyga oll yn lân;
Bydded i'th gyffiniau eang
Ymhelaethu fyth ym mlaen,
A'th lywodraeth,
Dros y moroedd mawr i gyd.]

J. W.

HYMN 371. 8. 7. 4. Tamworth.

Gweddi am nerth i deithio anialwch y byd.

ARGLWYDD, arwain trwy 'r anialwch,
Fi, bererin gwael ei wedd,
Nad oes ynof nerth na bywyd,
Fel yn gorwedd yn y bedd:
Hollalluog,
Ydyw 'r Un a'm cwyd i'r làn.

[Colofn dân rho'r nos i'm harwain,
A rho golofn niwl y dydd;
Dal fi, pan f'wy'n teithio mànau
Geirwon yn fy ffordd i sydd:
Rho imi fanna,
Fel na byddo im' lwfrhau.]

Agor y ffynnonau melys
Sydd yn tarddu o'r graig i maes;
Hyd yr anial mawr canlyned
Afon iachawdwriaeth gras:
Rho imi hyny—
Dim i mi ond dy fwynhau.

[Pan f'wy'n myned trwy 'r Iorddonen,
Angau creulawn yn ei rym,
(Ti est trwyddi gynt dy hunan,
Pa'm yr ofnaf bellach ddim?)
Buddugoliaeth,
Gwna im' waeddi yn y llif.]

Ymddiriedaf yn dy allu,
Mawr yw 'r gwaith a wnest erioed,
Ti gêst angau, ti gêst uffern,
Ti gêst Satan tan dy droed:
Pen Calfaria,
Nac aed hwnw byth o'm côf.

(163) W. W.

HYMN 372. 8. 7. 4. Helmesley.

Dydd y farn.

WELE 'n dyfod ar y cwmwl,
Mawr yr enw sy iddo 'n awr!
Ar ei fraich, ac ar ei forddwyd,
Ysgrifenwyd ef i lawr:
Haleluiah,
Croesaw, croesaw, addfwyn Oen.

Mil o filoedd, myrdd myrddiynau,
O gymdeithion hardd eu gwedd,
Welaf draw yn codi fynu
I'w gyfarfod ef o'r bedd:
Darfu galar,
Dim ond iachawdwriaeth lawn.

Mae y Brenin mawr ei hunan
Yn eu nabod bob yr un;
Hwythau bawb sy'n tynu fynu
'N uniawn ato Ef ei hun:
Cariad perffaith,
Bellach gaiff deyrnasu byth.

Nid oes yno gofio beiau,
Dim ond llawn faddeuant rhad;
Cofio 'r groes, a grym y cariad,
A rhinweddau maith y gwaed:
Darfu ofn,
Daeth llawenydd yn ei le.

"Dewch ym mlaen," yw 'r llais nefolaidd,
"Fendigedig blant fy Nhad,
"Dewch, meddiannwch yr ardaloedd
"Brynwyd i chwi â fy ngwaed;
"Dewch yn llawen,
"Yn dragywydd pery'ch braint."

W. W.

HYMN 373. 8. 7. 4. Iolaeth.

Digalondid.

LLAWN ewogrwydd, llawn o ddychryn,
Llawn o boen yw 'm henaid gwan,
Anghrediniaeth cryf yn haeru
Byth na ddof oddi yma i'r làn;
Balm o Gilead,
Unig all wellhau fy nghlwyf.

Mi feddyliais yn y bore
Buaswn amser maith cyn hyn,
Gwedi maeddu fy ngelynion,
Ac yn canu ar Sion fryn;
Swn y rhyfel,
Ydyw 'r man 'rwyf etto 'n byw.

Weithiau bron yr wyf a chredu
Erioed ni ches effeithiol ras,
Credu bron mai fy mhechodau
Yn y diwedd biau 'r maes;
Dwg fi, Arglwydd,
Dwg fi o'r caethiwed hwn.

W. W.

HYMN 374. 8. 7. 4. Tanc.

Gweddi am bresennoldeb Duw.

NID oes arnaf faich yn gorphwys,
Dim ond eisiau dy fwynhau;
Nid oes arall dan y nefoedd
All yn hollol fy iachâu;
Rho dy gwmni,
Cyn im' fyn'd i'r cefnfôr glâs.

Tyn yr ofn hen o farw,
Sydd yn llechu tan fy mron;
Rho imi heddwch, rho orfoledd,
Tra b'wyf ar y ddaear hon;
Na therfysged
F' enaid gwan yn ngrym y dw'r.

Dyma 'n gwbl fy neisyfiad,
Imi gael bod yn dy gol;
Er na theithiais etto nemawr,
N'ad fi dynu hyny 'n ol:
Gwna i mi gadw
'Ngolwg tua 'r hyfryd wlad.

W. W.

HYMN 375. 8.7.4. Tamworth.

Gweddi am bôb gras i fyw i Dduw.

'CHEISIAIS, Arglwydd, ddim ond hyny,
Dim ond treulio 'm dyddiau maes,
I dy garu, a'th ryfeddu,
Ac ymborthi ar dy ras;
Dyna ddigon,
'Cheisiaf nabod dim ond hyn.

Dal fy llygad, dal heb wyro,
Dal ef ar d' addewid wir,
Dal fy nhraed heb gynnyg ysgog
Allan o dy gyfraith bur;
Boed d' orch'mynion
Imi 'n gysur ac yn hedd.

O darfydded imi garu
Unrhyw bleser is y ne',
A darfydded im' fyfyrio
Ar un gwrthddrych yn dy le;
Aed fy ysbryd,
Oll o'r bron yn eiddot ti.

Os rhaid dwyn y groes dymhestlog,
A'r cystuddiau sydd o'i hol,
O gad imi, Iesu, orphwys
Yna yn dy gynnes gôl:
Yn mhob cystudd,
Dwg fy meichiau oll dy hun.

W. W.

HYMN 376. 8. 7. 4. Hyder.

Unig ffordd gwaredigaeth.

WYF yn haeddu (Arglwydd arbed)
Cael cystuddiau 'r Aipht yn un;
Ymgaledais yn dy erbyn,
Wyf yr annheilyngaf ddyn;
Er d' ogoniant,
Dwg fi maes o'r tiroedd caeth.

Pläau sy'n yr Aipht wenwynig,
Gwlad heb lewyrch goleu dydd;
Lle mae pererinion Sïon,
Mewn carcharau caeth y'nghudd;
Mirhau 'n griddfan,
Beunydd am fy llwyr ryddhad.

Ffordd nid oes o waredigaeth,
Ond agorwyd ar y pren,
Llwybyr pechaduriaid euog
Mewn i byrth y nefoedd wen;
Dyma 'r gefnffordd—
Gwna im' ei cherdded tra f'wyf byw.

W. W.

HYMN 377. 8. 7. 4. Hyder.

Gweddi am lanhad oddiwrth bechod.

CUDD fy meiau rhag y werin,
Cudd hwy rhag cyflawnder ne';
Cofia 'r gwaed un waith a gollwyd
Ar y croesbren yn fy lle;
Yn y dyfnder
Boed y cyfan sy ynwy'n fai.

Rho gydwybod wedi ei chànu 'n
Beraidd yn y dwyfol waed,
Cnawd a natur wedi eu maeddu,
Clwyfau gwedi cael iachâd;
Minnau 'n aros
Yn fy ninas fore a hwyr.

Rho fy nwydau fel cantorion,
Oll yn chwarau eu hysedd cun,
Ar y delyn sydd yn seinio
Enw Iesu mawr ei hun:
Neb ond Iesu
Fo'n ddifyrwch ddydd a nos.
(162) W. W.

HYMN 378. 8. 7. 4. Parting.

Tegwch, rhinweddau, a chariad Crist.

NID oes pleser, nid oes tegan,
Nid oes enw mewn un man,
Er ei fri a'i holl ogoniant,
Fyth a lesia i'm henaid gwan;
Ond fy Iesu—
Ef ei hunan yw fy Nuw.

[Mae deng myrddiwn o rinweddau
Dwyfol yn ei enw pur;
Yn ei wedd mae tegwch ragor
Nag a welodd môr na thir;
Mo'i gyffelyb
Erioed ni welodd nef y nef.

Mae yn maddeu beiau mawrion,
Mae yn caru yn ddi drai;
A lle caro, mae ei gariad
Yn dragwyddol yn parhau;
Nid oes terfyn
I'w amynedd ef a'i ras.]

Ynddo mae afonydd mawrion
O ffyddlondeb ac o hedd;
Er fy mwyn dyoddefodd angau,
A gorweddodd yn y bedd;
Fel y gallwn
Fyn'd i mewn i'r ddinas bur.

W. W.

HYMN 379. 8. 7. 4. Penbryn.

Mawl am Iachawdwriaeth.

'RWY'n dy garu, er na'th welais;
Mae dy gariad fel y tân,
Nis gall nwydau cryfaf natur
Sefyll mymryn bach o'i flaen;
Fflam angerddol,
Ryw bryd ddifa 'm sorod yw.

Pell uwch geiriau, pell uwch deall,
Pell uwch rheswm goreu 'r byd,
Yw cyrhaeddyd perffaith gariad,
Pan ennyno yn fy mryd:
Nid oes tebyg
Gras o fewn y nef ei hun.

Dechreu canu, dechreu canmawl,
Y'mhen mil o oesoedd maith,
Iesu, bydd y pererinion,
Hyfryd draw ar ben y daith;
Ni chair diwedd
Fyth ar swn y delyn aur.

W. W.

HYMN 380. 8. 7. 4. Bryn Eglwys.

Iesu ei hunan yn ddigon.

GWYN a gwridog yw fy Arglwydd,
Gwyn a gwridog yw ei wedd;
Brenin y breninoedd ydyw
Yma a thu draw i'r bedd;
Mae dy degwch
Wedi 'm hennill ar dy ol.

Càn ffarwel i bobpeth arall,
Wyt yn ddigon mawr dy hun,
Derfydd nefoedd, derfydd daear,
Derfydd tegwch wyneb dyn.
Sawl dy gaffo
Gaiff y cwbl oll yn un.

Sawl dy gaffo gaiff blesserau,
Pleser yma is y rhod,
Ei ddyfnderoedd ni ddeallodd
Cnawd na rheswm etto erioed:
O gad imi,
Imi 'n fuan dy fwynhau.

Mae dy wedd yn drech na byddin
O elynion mawr eu grym;
Nid oes yn y nef a'r ddaear
Saif o flaen dy wyneb ddim:
Gair o'th enau
A wna 'r dywyll nos yn ddydd.

W. W.

HYMN 381. 8. 7. 4. Penllech.

Crist yn rhagori ar y byd.

IESU, Iesu wyt yn ddigon,
Wyt yn llawer mwy na'r byd;
Mwy trysorau sy'n dy enw
Na thrysorau 'r India i gyd:
Oll yn gyfan
Ddaeth i'm meddiant gyd â'm Duw.

Y mae gwedd dy wyneb grasol,
Yn rhagori lawer iawn,
Ar bob peth a welodd llygad
Ar hyd wyneb daear lawn;
Rhosyn Saron,
Ti yw tegwch nef y nef.

Tarian gadarn yw dy enw,
Pan fo 'r gelyn yn nesau;
Angau ei hunan sydd yn ofni,
Angau sydd yn llwfrhau:
Ti orchfygaist
'Does ond canu 'nawr i mi.

W. W.

HYMN 382. 8. 7. 4. Hyder.

Myfyr am angau Crist yn farwhad i bechod.

O NA bai cystuddiau f' Arglwydd
Yn fy nghalon yn cael lle;
Pob rhyw loes, a phob rhyw archoll,
Pob rhyw ffiangell gafodd E;
Fel bo i 'mhechod
Gael ei glwyfo a'i wanhau.

O na byddai oriau mywyd
Yn ymborthi ar oriau 'th boen,
Fel y gallwyf fi gyd redeg
A chystuddiau 'r addfwyn Oen:
Fe gai 'mhechod
Felly 'n fuan golli 'r dydd.
(160) W. W.

HYMN 383. 8. 7. 4. Calcutta.

Llwyddiant yr efengyl.

DUW, teyrnasa ar y ddaear,
O'r gorllewin bell i'r de;
Cymmer feddiant ar ardaloedd,
Pellaf, t'wyllaf, is y ne';
Haul Cyflawnder
Llanw 'r ddaear fawr à'th ras.

Taened gweinidogion bywyd
Iachawdwriaeth Iesu ar led;
Cluded moroedd addewidion
Drosodd draw i'r rhai di gred;
Aed efengyl
Ar adenydd dwyfol wynt.

[Doed preswylwyr yr anialwch,
Doed trigolion bro a bryn,
Doed y rhai sydd ar y cefnfôr
I garu 'r iachawdwriaeth hyn;
Nes bo adsain
Moliant yn amgylchu 'r byd.

Pur ganiadau i Frenin Sion
Fyddo yn llawenydd llawn,
Draw o'r dwyrain, lle mae 'n codi,
Hyd fachludiad haul brydnawn;
Fyth na sonir
Ond am degwch Brenin nef.]
(159) W. W.

HYMN 364. 8. 7. 4. Wenlock.

Llwyddiant yr efengyl.

AED newyddion iachawdwriaeth,
Ar adenydd dwyfol wawr,
I'r ddwy India eang, helaeth,
I eithafoedd daear lawr;
Brysied bore,
Jubil ddydd efengyl gras.

[Llifed ffrwd y dyfroedd bywiol,
Ddaeth tan riniog teml Ion,
Afon bur o orsedd rasol,
Glân orseddfainge Duw a'r Oen;
Ei rhinweddau
Sy'n dwyn bywyd yn lle gwae.

Ar ei glànau mae yn tyfu
Fywiol bren, a'i ffrwythau 'n llawn,
Ffrwyth a dail i wir ddiwallu
Lluoedd a'u rhinweddol ddawn;
Dail er iechyd
I'r cenhedloedd yw y rhai'n.]

Aed effeithiol addewidion
Dwyfol hyd eithafoedd byd;
Aent i gasglu prynedigion
Iesu ato ef i gyd;
Ffrwyth o'i lafur,
I'w ddiwallu byth, Amen.

T. J.

HYMN 385. 8. 7. 4. Mariners.

Rhagluniaeth ac iachawdwriaeth.

BOED fy mywyd oll yn ddiolch,
Dim ond diolch yw fy lle;
Ni wna gwaredigaeth ragor
I greadur is y ne';
Gallu 'r nefoedd
Oedd a'm daliodd i i'r làn.

[Ar y dibyn bum yn chwareu,
'Lawr ped aethai 'm henaid gwan,
Nid oedd bossibl imi godi
Fyth o'r dyfnder hwnw i'r làn:
Iesu, Iesu,
Ti sy'n trefnu oll dy hun.

Rhaid oedd bod rhagluniaeth ddystaw,
Rhaid oedd bod rhyw arfaeth gref,
Yn fy rhwymo heb im' wybod,
Wrth golofnau pur y nef:
O Ragluniaeth!
Ti sy'n trefnu 'r ddaear faith.]

Rhyfedd, Arglwydd, yw'th ddoethineb!
Rhyfedd, Arglwydd, yw dy rym!
Nid oes is y nef gwmpasog
Ag all dy wrthsefyll ddim;
Try 'r greadigaeth,
Ol a gwrthol, wrth dy air.

D' air sy'n gwneud y byw yn farw,
Eilwaith gwneud y marw 'n fyw;
D' air a grëodd ac sy'n cynnal
Y greadigaeth o bob rhyw:
Ti dy Hunan,
Ydyw bywyd maith y byd.

W. W.

HYMN 386. 8. 7. 4. Calcutta.

Diolch am Geidwad digonol.

DYMA Geidwad i'r colledig,
Meddyg i'r gwywedig rai;
Dyma un sy'n caru maddeu
I bechaduriaid mawr eu bai:
Diolch iddo,
Byth am gofio llwch y llawr.

M. R.

HYMN 387. 8.7.4. Rousseaus's Dream.

Crist oll yn hawddgar.

WELE 'n sefyll rhwng y myrtwydd
Wrthddrych teilwng o fy mryd,
Er o'r braidd yr wy'n adnabod
Ei fod uwchlaw gwrthddrychau 'r byd;
Henffych fore!
Caf ei weled heb un llen.

Rhosyn Saron yw ei enw,
Gwyn a gwridog, hardd ei bryd;
Ar ddeng mil y mae 'n rhagori
O wrthddrychau pena 'r byd;
Ffrynd pechadur,
Dyma 'n Llywydd ar y môr.

Beth sydd imi mwy a wnelwyf
Ag eilunod gwael y llawr?
Tystio 'r wyf nad yw eu cwmni
I'w cymharu â'm Iesu mawr:
O am aros
Yn ei gariad ddyddiau f' oes.

A. G.

[Gwelaf Graig a'm deil mewn 'stormydd
O gawodydd dwfr a thân;
'N wyneb uffern a'i rhuthriadau,
Holl breswylwyr lion a gân:
Cadarn sylfaen,
A osodwyd gan y Tad.]

J. H.

HYMN 388. 8. 7. 4. Treveca.

Anchwiliadwy olud Crist.

IESU, nid oes terfyn arnat,
Mae cyflawnder mawr dy ras,
Yn fwy helaeth, yn fwy dwfn,
Ganwaith nag yw 'mhechod cas:
Fyth yn anwyl
Meibion dynion mwy a'th gâr.

Ti faddeuaist fyrdd o feiau
I'r pechadur gwaetha 'i ryw;
Arglwydd, maddeu etto i minnau—
Ar faddeuant 'r wyf yn byw:
D' unig haeddiant
Yw 'ngorfoledd a fy ngrym.

Nid oes ddofa fy nghydwybod
Ond cyflawnder mawr y nef;
Ac ni thâl rhoi aberth arall
Is y nefoedd iddo Ef:
Maddeu, f' Arglwydd,
Gwrandaw 'r griddfan ar y groes.

W. W.

HYMN 389. 8. 7. 4. Parting.

Rhagoroldeb cariad Crist.

ARNAT, Iesu, boed fy meddwl,
Am dy gariad boed fy nghân;
Dyged sŵn dy ddyoddefiadau
Fy serchiadau oll yn lân:
Mae dy gariad
Uwch y clywodd neb erioed.

O na chawn ddifyru 'nyddiau
Llwythog tan dy ddwyfol groes,
A phob meddwl wedi ei glymu
Wrth dy Berson ddydd a nos:
Byw bob mynyd
Mewn tangnefedd pur a hedd.

[Mae rhyw hiraeth yn fy nghalon
Am ddiengi o dwrf y byd;
Gwel'd y dyddiau collai 'm golwg
Ar bob tegan ynddo y'nghyd;
Caèl ymborthi
Fyth ar sylwedd pur y nef.]
(161) W. W

HYMN 390. 8. 7. 4. Parting.

Noddfa yn Nghrist.

DARFU noddfa mewn creadur,
Rhaid cael noddfa nes i'r nef;
Nid oes gadarn le im' orphwys
Fythol ond ei fynwes Ef;
Dyma 'r unig
Fan caiff f' enaid wir iachâd.

Dyma 'r euog ofnus aflan
Yn chwennychu bod yn wyn,
Yn yr afon gymmysg liwiau
Darddodd allan ar y bryn:
Balm o Gilead,
Anghydmarol yw dy waed.

Oni chaf fi yma allu,
A maddeuant perffaith gwiw,
Ofer im' obeithio am dano,
Yn dragwyddol, lle nad yw:
Mi ro' ngobaith
Unig ynot ti dy hun.

[Tan dy aden cedwir f' enaid,
Tan dy aden byddaf byw,
Tan dy aden y gwaredir
Fi o'r beiau gwaetha 'u rhyw;
Wyt yn gysgod
Rhag euogrwydd yn ei rym.]

W. W.

HYMN 391. 8. 7. 4. Westbury.

Dysgwyl wrth Dduw.

WRTH dy orsedd 'r wyf yn gorwedd,
Dysgwyl am y ddedwydd awr,
Pan gaf glywed llais gorfoledd,
Pan gaf wel'd fy meiau 'lawr;
Ti gai enw 'r
Fuddugoliaeth it' dy Hun.

Doed dy heddwch bryd y delo,
Mi ddysgwyliaf ddydd a nos:
Annherfynol ydyw haeddiant,
Haeddiant pur dy angau loes;
Dere 'n fuan—
Mae dy hedd yn fwy na'r byd.

Bywyd perffaith yw 'th gymdeithas,
Diliau mêl yw 'th heddwch drud;
Gwerthfawrocach yw dy gariad
Na holl berlau 'r India 'gyd:
Gwlad o gyfoeth
Yw yn unig dy fwynhau.

[Bydded lawen rai am enw,
Rhai am elw mawr y byd,
Rhai am bleser o bob rhywiau,
Rhai am degwch wyneb pryd:
Fy ngorfoledd
Unig gaiff fod yn fy Nuw.]

W. W.

HYMN 392. 8. 7. 4. Calvary.

Rhinweddau gwaed Crist.

GWAED y groes sy'n codi 'fynu
'R eiddil yn goncwerwr mawr;
Gwaed y groes sydd yn darostwng
Cawri cedyrn fyrdd i lawr:
Gad im' deimlo
Awel o Galfaria fryn.

Mwy ei eiriau ar y croesbren,
Geiriau gwerthfawr, geiriau drud,
Mwy y lleíaf sill o honynt,
Na'm holl ddyledswyddau i gyd:
'Drychaf yno—
Yno mae fy nerth a'm grym.

W. W.

HYMN 393. 8. 7. 4. Lewes.

Mwynhau Duw yw dedwyddwch dyn.

CHWILIO am danat, addfwyn Arglwydd,
Mae fy enaid yma a thraw;
Teimla' mod yn berffaith ddedwydd
Pan y byddech di gerllaw:
Gwedd dy wyneb
Yw fy mywyd yn y byd.

Heddwch perffaith yw dy gwmni,
Mae llawenydd ar dy dde;
Ond i ti fod yn bresennol
Pobpeth sydd yn llanw 'u lle:
Ni ddaw tristwch
I'th gyfeillach tra fo nef.

[Yn y ffwrnais danllyd greulawn,
Os tydi a ddaw ym mlaen,
'Does ond heddwch, a mwyneidd-dra,
A thiriondeb yn y tân:
Gwên dy gariad
Wna bob cystudd yn ddi rym.]

Ti wy'n 'mofyn, Arglwydd, dyred,
Ym mhob trallod bydd gerllaw;
Dilyn fi, 'rwy'n ofni yma,
Dilyn fi, 'rwy'n ofni draw:
Tan dy aden,
Mi edrycha 'n wyneb llu.

W. W.

HYMN 394. 8. 7. 4. Judgment.

Cystuddiau yn llesol.

DUW anfeidrol yw dy enw,
Llanw 'r nefoedd, llanw 'r llawr,
Mae dy lwybrau 'n anweledig
Yn nyfnderoedd moroedd mawr:
Dy feddyliau,
Is nag uffern, uwch na'r nef.

Dyben nefoedd sydd yn gywir,
Bynag beth yw dyben dyn;
Mi anturiaf fy holl fywyd
Ar ei eiriau Ef ei Hun;
Doed pob cystudd—
'Ddygwydd dim ond da i mi.

Da yw'r groes, a da yw'r wasgfa,
Da yw profedigaeth lym,
Oll i'm tynu o'r creadur,
O fy haeddiant, o fy ngrym:
Minnau 'r truan,
Ffôf dan aden Brenin nef.

[Croesau trymion sydd yn felys,
Pan yr elo yn brydnawn;
Dyfnder galar sydd yn esgor
Ar lawenydd hyfryd iawn:
O am weled
Bore wawr yn dawel glir.]
(164) W. W.

HYMN 395. 8. 7. 4. Iolaeth.

Dysgwyl am ymwared.

DYSGWYL 'r wyf ar hyd yr hirnos,
Dysgwyl am y bore ddydd;
Dysgwyl clywed pyrth yn agor,
A chadwynau 'n myn'd yn rhydd:
O na wawriai
Bore hyfryd Jubili.

Os agori di fy llygaid
I gael gwel'd y cariad llawn,
Lifodd allan fel y moroedd
Ar Galfaria un prydnawn,
Ti gai 'r cwbl
Roddaist imi yn fy rhan.

[Mi ddysgwyliaf, doed a ddelo,
Deued bore, deued nos,
Deued corwynt a thymhestloedd,
Nes cael profi gwaed y groes:
Gwel'd dy glwyfau
Yw 'r ddedwyddaf awr i mi.]

W. W.

HYMN 396. 8. 7. 4. Mariners.

Gweddi am gymhorth, arweiniad, a chysur.

DUW, nid oes ond ti dy hunan
Ddaw â'm henaid llesg i'r làn,
Sydd yn suddo mewn dyfnderoedd
Dyfnion, tywyll, ym mhob man;
Gwna i mi gredu,
Credu a cherdded ar y môr.

Mae dy Yspryd di yn fywyd,
Mae dy Yspryd di yn dân,
Ef sy'n dwyn yr holl fforddolion
Cywir, sanctaidd, pur, ym mlaen:
Cyfarwyddwr
Pererinion, arwain fi.

O dystêwch derfysglyd dònau,
Tra f'wy'n gwrandaw llais y nef;
Sŵn mwy hoff, a sain mwy hyfryd,
Glywir yn ei eiriau Ef—
F' enaid gwrandaw
Lais tangnefedd pur a hedd.

 W. W.

HYMN 397. 8. 7. 4. Mariners.

Anchwiliadwy olud Crist.

Y MAE rhinwedd gras y nefoedd
O dragwyddol faith barhad;
Nid oes diwedd byth ar effaith
Perffaith haeddiant dwyfol waed;
Ac er golchi,
Dysglaer fydd yr afon byth.

Minnau ddof i'r ffynnon loyw,
Darddodd allan ar y bryn,
Ac mi olcha'm henaid euog
Ganwaith yn y dyfroedd hyn:
Myrdd o feiau
Daflaf 'lawr i rym y dwfr.

O dirwynwch oriau 'fynu,
A gadewch im' wel'd y dydd
Pan y torir fy nghadwynau,
Y caf rodio 'n berffaith rydd;
Ysbryd caethwas
Gwedi troi yn ysbryd hedd.

(161) W. W.

HYMN 398. 8. 7. 4. Helmesley.

Y dwfr a'r gwaed.

DACW 'r ffynnon i'w dymuno,
Fywiol sy'n yr anial dir;
Dacw 'r unig ddwfr sy'n rhoddi
Hedd ac anfarwoldeb clir;
Ar Galfaria
Tardd yr afon loyw 'maes.

Yno 'r âf i 'mofyn pleser,
Unig bleser i barhau;
Yno caf fi lawn faddeuant
Am bob trosedd, am bob bai:
Yno 'n unig
Caf ffieiddio 'n llwyr fy hun.

Iachawdwriaeth rad ei hunan
  Yw fy nadl o flaen y nef;
A ffarwel am danaf fythol
  Oni chaf ei haeddiant Ef:
    Iesu ei hunan
  Oll o flaen y fainc i mi.

W. W.

HYMN 399. 8. 7. 4. Penrhos.

Gras yn gorchfygu.

LLWCH wyf fi, o'r llwch y daethum,
  Pryf yw 'mrawd, y ddae'r yw 'mam,
Etto 'r wyf yn 'mofyn teyrnas
  Ddisigledig, bur, ddi nam:
    Pryf y ddaear,
  A ddaw hwnw mewn i'r nef!

Dof, mi ddof, trwy 'r anial garw,
  Ac er gwaethaf moroedd glas,
Trwy y cenllysg a'r tymhestloedd
  Sydd yn curo ar fy ngras,
    Am mai cadarn
  Yw yr hwn wyf yn ei gôl.

Fe ennynwyd ynwyf fflamau
  Tân mor hyfryd, tân mor gry',
Nid o'r ddaear daeth ei wreiddyn—
  Cariad pur y nefoedd fry:
    Awel beraidd
  O fynyddau hyfryd ras.

Hwn a roddodd imi anadl,
  Eilwaith roddodd imi ras,
Ag a bery pan ddiango
  F' anadl llesg o'm ffroenau 'maes:
    Neb ond Iesu,
  Wnaethai 'r marw hen yn fyw.

W. W.

HYMN 400. M. N. 8. 8. 6. Taith y Ddyweddi.

Taith y ddyweddi trwy 'r anialwch. CAN. 3. 6. a 6. 10. a 3. 13. ESA. 4. 5.

O PWY yw hon sy'n dod yn hy',
Yn lew i'r làn fel rhwng dau lu,
O'r dywyll Aiphtaidd wlad,
Gan roddi pwys ei henaid pur
Ar Iesu gwiw, 'r MESSIAH gwir,
Ei Ffrynd a'i Phrynwr rhad?

Fel colofnau mwg ei henaid mae
Mewn nefol hwyl yn llawenhau,
'Nawr yn meddiannu 'n wir
Ras o bob rhyw, cysuron rhad,
Fel pêr-aroglau pell a gaed,
O hyfryd thus a myrr.

Dan Pharaoh hen, mewn tywyllwch hir,
Yn poeni 'n dost mewn anial dir,
Yn y caethiwed draw,
Yn llesg ei hwyl yn wir bu hon,
Dan lawer ffrŵd, a llif, a thòn,
Mewn dychryn mawr a braw.

O'r dyfnder du i'r làn y daeth,
Tua'r wlad sy'n llifo o fêl a llaeth,
I'r etifeddiaeth fras:
Yn llawn o hedd mae'n awr mewn hwyl,
A'i nefol gainc yn cadw gwyl,
Am ddod o'r Aipht i maes.

Hi deithiodd yr anialwch mawr,
Gan gludo Amalec i lawr,
Ynghyd à breninoedd gwych;
Ca's ddwfr o'r graig, ca's fanna gwiw,
Dan Sinai fe'i cynnaliodd Duw,
Pan oedd yn sâl ei drych.

Duw sy iddi 'n blaid, hi ga'dd o'i blaen
Y cwmwl niwl a'r golofn dân,
Enneiniad yr holl saint;
Hi wyr y ffordd i'r Ganaan draw,
Ni chyfeiliorna ar un llaw,
Nes cael meddiannu 'r fraint,

Fel bore wawr fe welir hon;
Teg fel y lloer ei gwyneb llon,
Mewn cariad, gras, a hedd;
Fel haul heb un brycheuyn du,
'N ofnadwy fel banerog lu;
On'd hyfryd yw eu gwedd?

W. W.

HYMN 401. 8. 8. 6. Risley.

Hiraeth y Cristion am fyned i ben ei daith.

PERERIN wyf i'r Ganaan fry,
I gynnes gôl fy Iesu cu,
Lle caf dragwyddol nyth;
Y'mhell uwch swn y ddraig a'i saeth,
Na gelyn mwy i'm gwneud yn gaeth,
Caf dawel orphwys byth.

O bell mi wela 'm cartre 'n wir,
O fewn i byrth Caersalem bur,
Pob rhai 'n meddiannu hedd:
O ddinas deg, o'th fewn nid oes
Na haul, na lloer, na thywyll nos—
Gwyn fyd rhai draw i'r bedd!

Pan ddel yr adgyfodiad mawr,
Caf godi 'n lân o'r ddaear lawr,
I entrych awyr fry;
Oddi yno âf, mewn nefol hedd,
I'r nefoedd wèn, mewn newydd wedd,
I blith angelaidd lu.

W. W.

HYMN 402. 8. 8. 6. Grosvenor Street.

Ymestyniad y credadyn. PHIL. 3. 13.

O IESU byw, Iachawdwr byd,
Dwg fi yn glau i'th fynwes glyd,
'Gael profi 'th gariad cu,
Sydd well na'r gwin i'm henaid gwan,
Am hyn 'rwy'n daer am gael dod dan
Dy dirion aden di.

Dy gariad dwys yn f' enaid dod,
Ac ynddo fyth gâd imi fod,
I ganu 'th glod yn glau,
Nes gadaw 'n deg yr anial dir,
A myn'd i mewn i Salem bur,
O'm gofid, och, a'm gwae.

O wynfydedig, ddedwydd awr,
Ddysgleirwen wir, O hyfryd wawr!
Caf esgyn uwch y nen:
Gorphwysfa lân, tragwyddol wledd,
Gaf fi fwynhau mewn dinas hedd,
Boed hyn ar frys, Amen.

(167) W. W.

HYMN 403. 8. 8. 6. Leach.

Cwymp Eden, a chodiad Calfaria.

YN Eden, cofiaf hyny byth,
Bendithion gollais rif y gwlith:
Syrthiodd fy nghoron wiw!
Ond buddugoliaeth Calfari
Ennillodd hon yn ol i mi—
Mi ganaf tra f'wyf byw.

Ar Galfari yn ngwres y dydd,
Y caed y gwystl mawr yn rhydd,
Trwy golli gwaed yn lli';
'Nawr dim heb dalu, rhoddwyd iawn,
Nes clirio llyfrau 'r nef yn llawn,
Heb ofyn dim i mi.

Ffydd, dacw 'r man, a dacw 'r pren,
Yr hoeliwyd arno D'wysog nen,
Yn wirion yn fy lle:
Y ddraig ysigwyd, er ei gwŷn,
Can's clwyfwyd dau, gorchfygodd un,
A'r Iesu oedd Efe.
(167) W. W.

HYMN 404. 8. 8. 6. Mottingham.

Y llef ddystaw fain.

O 'R nef fe ddaeth llef ddystaw fain,
Hyfrydaf a phereiddiaf sain,
Trwy barthau 'r ddaear gron:
Ac er dystawed yw y llef,
Caiff pawb ei chlywed îs y nef;
Mae Duw ei hun yn hon.

Llef radlawn yw a melys iawn;
Cyhoeddiad o faddeuant llawn
I'r euog gwael ei wedd:
Gwahoddiad i'r angenus rai
At bob cyflawnder heb ddim trai;
Hon yw efengyl hedd.

Taranau Sinai, mellt y ddeddf,
Ni allant byth gyfnewid greddf
Pechadur ar ei daith:
Mwy nerthol yw 'r efengyl lân
Na'r gwynt, y ddaear gryn, a'r tân;
Cyflawna hon y gwaith.

Mae 'n meddalâu 'r afrywiog fron,
Ewyllys dyn ennilla hon,
Heb orthrech, cur, na thrais;
Hon yw 'r newyddion goreu 'rioed;
I Dduw a'r Oen gogoniant boed
Byth am yr hyfryd lais.

P. J.

HYMN 405. 8. 8. 6. Hinton.

Y ffordd newydd a bywiol.

YN Gethseman a Chalfari,
Tan faich oedd fawr bu 'n Harglwydd ni,
Yn dawel darfu 'i ddwyn:
A'i waed yn llifo hyd y llawr,
Mewn ing a loes annhraethol fawr,
Dyoddefodd er ein mwyn.

Fe ddaeth yn Feichiau ac yn Iawn,
Ei Hun fe rodd yn daliad llawn,
Yn aberth perffaith oll:
Trwy ufudd waith, a dyfnaf gur,
Fe rodd fawrhad i'r gyfraith bur,
Heb ddiffyg bai na choll.

Cyssegrwyd ffordd sy'n rhydd a rhad,
Un newydd, fywiol, at y Tad,
Trwy werthfawr waed yr Oen;
Mae 'n ffordd i ninnau deithio 'n llon,
Nes dod yn berffaith ger ei fron,
Heb bechod, braw, na phoen.
(168) T. J.

HYMN 406. M. N. 8. 6. Carmagnole.

Y Milflwyddiant.

POB llwyth ac iaith fydd yn gytun,
Yr Inddew fel y Cenedl ddyn;
Fe glywir llais ym mhlith y llu,
Am waith Oen Duw ar Ethiop du:
Clywch lais yr udgorn clir,
Yn galw i Salem dir;
Cawn, cawn feddiannu 'r wlad
Ordeiniwyd ini gan ein Tad.

Fe ddarfu 'r nos a'r gauaf du,
Mae 'n dechreu gwawrio oddi fry;
Cysgodau 'r hwyr a aeth ym mhell,
Nesâu mae 'r dydd—daw cynnydd gwell:
Clywch lais yr adar mân,
Mor beraidd yw eu cân!
Ffown, ffown ar aden ffydd,
I fynwes Duw yn ngoleu 'r dydd.
(171)

HYMN 407. M. N. 9. 8. Elliot.

Gorfoledd y credadyn.

MAE ffrydiau gorfoledd yn tarddu
O ddysglaer orseddfainc y nef,
Ac yno esgynodd yr Iesu,
Ac yno yr eiriol Efe;
Y gwaed a foddlonodd gyfiawnder,
Daenellwyd ar orsedd ein Duw,
Sydd yno yn beraidd yn erfyn,
I ni y troseddwyr 'gael byw.

Cawn esgyn o'r dyrys anialwch,
I'r beraidd baradwys i fyw;
Ein henaid lluddedig gaiff orphwys
Yn dawel ar fynwes ein Duw;
Diangfa dragwyddol geir yno,
Ar bechod, cystuddiau, a phoen,
A gwledda i oesoedd diderfyn
Ar gariad annhraethol yr Oen.

[O fryniau Caersalem cair gweled
Holl daith yr anialwch i gyd;
Pryd hyn y daw troion yr yrfa
Yn felys i lanw ein bryd;
Cawn edrych ar 'stormydd ac ofnau,
Ac angau dychrynllyd, a'r bedd,
A ninnau 'n ddiangol o'u cyrhaedd,
Yn nofio mewn cariad a hedd.]
(172) D. C.

HYMN 408. 9. 8. Eunice.

Buddugoliaeth Calfaria.

O AGOR fy llygaid i weled
Dirgelwch dy arfaeth a'th air;
Mae 'n well imi gyfraith dy enau
Na miloedd o arian ac aur:
Y ddaear â 'n dân a'i thrysorau,
Ond geiriau fy Nuw fydd yr un;
Y bywyd tragwyddol yw nabod
Fy Mhrynwr yn Dduw ac yn ddyn.

Rhyfeddod a bery 'n ddi ddarfod
Yw 'r ffordd a gymmerodd Efe,
I achub pechadur colledig,
Trwy farw ei hun yn ei le!
Fe safodd fy Mrenin ei hunan,
Gorchfygodd awdurdod y ddraig;
Ein Samson galluog ni ydyw—
O caned preswylwyr y Graig!

[Daeth blwyddyn y caethion i ganu,
Doed meibion y gaethglud yn nghyd,
Ni seiniwn trwy 'r nefoedd a'r ddaear
Ogoniant i Brynwr y byd:
Mae Brenin y nef yn y fyddin,
Gwae Satan a'i filwyr yn awr,
Trugaredd a hedd sy'n teyrnasu—
Gogoniant trwy 'r nefoedd a'r llawr!

Y Llew o lwyth Judah—gorchfygodd,
Pa elyn all sefyll o'i flaen?
Mae Sion yn teithio tu ag adref,
Mewn cerbyd dychrynllyd o dân:
Bydd miloedd o saint ac angelion,
Yn dorf ogoneddus yn nghyd,
Yn canu rhyw anthem dragwyddol
O ogoniant i Brynwr y byd.]

(173) M. R.

HYMN 409. 9. 8. Treffynnon.

Swyddau ac enwau Crist.

O IESU, rho imi d' adnabod
Yn Gyfaill, yn Briod, a Brawd,
Yn Feddyg yn wyneb fy nychdod,
Yn Gyfoeth i'r truan a'r tlawd,
Yn D'wysog mewn rhyfel a chyni,
(O'th flaen nid oes elyn a sai',)
Yn Hardd-wisg i guddio fy noethni,
Yn Ffynnon i olchi fy mai.

Yn Fanna i'm henaid ymborthi,
Yn Win i'm diodi ar y daith,
Yn Golofn er nawdd a goleuni,
I deithio trwy 'r anial sy faith,
Yn Fugail, yn Frenin, yn Llywydd,
Yn Brophwyd, Offeiriad, a Chraig,
Yn Oll ac yn Oll yn dragywydd,
Rhag gallu fy llygredd a'r ddraig.

J. H.

HYMN 410. 9. 8. *Elliot.*

Goruchafiaeth yr efengyl.

DAW miloedd ar ddarfod am danynt
O hen wlad Assyria cyn hir;
Preswylwyr yr Aipht ac Ethiopia,
At Grist y Gwaredwr yn wir:
Cyflawnir y prophwydoliaethau,
Daw 'r holl addewidion i ben;
Fe dynir myrddiynau at Iesu
Ddyrchafwyd rhwng daear a nen.

Yr holl freniniaethau a dreulir,
A'r ddelw falurir i lawr;
Y gareg a leinw 'r holl wledydd,
Ei chynnydd fel mynydd fydd mawr;
Cair gweled cenedloedd y ddaear
Yn dyfod o bedwar cwr byd;
Ymofyn y ffordd tua Sion
Y bydd ei drigolion i gyd.

P. J.

HYMN 411. 9. 8. Eunice.

Trugaredd Duw yn Nghrist.

RHYFEDDOL weithredoedd trugaredd
Sef prif briodoledd ein Duw;
Trugaredd a garodd dros fesur
Bechadur llwyr ammhur ei ryw:
Trugaredd o'i blaid sydd yn eiriol,
Trugaredd anfeidrol sydd fwyn,
Pan lefo, yn ngolwg ei waeledd,
Fe wrendy Trugaredd ei gŵyn.

Mab Duw yn dragwyddol a folir,
Pan gywir edrychir y drefn;
Er ini drwm gwympo drwy bechu,
Gwnaeth ffordd i'n derchafu drachefn:
Oedd cyfraith ufudd-dod gweithredol
O fewn i'r Iob oesol yn reddf;
Ei angau wnaeth iawn i gyflawnder,
Heddychodd holl ddigder y ddeddf.

Mae achos o syndod annhraethol
Yn nghariad arfaethol nef wen;
Doethineb a gallu tragwyddol
A ddug y gwaith bywiol i ben:
Trugaredd i'r eiddil bechadur
Rydd gysur yn wyneb ei gâs—
Gogoniant tragwyddol i'r Iesu,
Am drefnu cyfammod o ras.

D. T.

HYMN 412. 9. 8. Treffynnon.

Uniondeb y gyfraith; Crist yn ei hanrhydeddu.

YN Sion mae cyfraith ragorol,
Gan Dduw yno 'n rheol fe'i rhoed;
Un weddus, ddaionus i ddynion;
Ni fu deddf mor union erioed:
Dim mwy a dim llai na chyflawnder
Ni ofyn, ni chymmer ychwaith:
Heb fod gyd âg Iesu mewn undeb,
Ni dderbyn ein gwyneb na'n gwaith.

Pe byddai fy ngolwg yn berffaith,
Mi welwn y gyfraith bob gair,
Mor eglur y gallwn bob mynyd
Ei darllen ym mywyd Mab Mair;
Ac hefyd wrth ddarllen y gyfraith
Mi welwn Dduw perffaith heb ball;
Os Iesu, neu 'r gyfraith, a welwn,
Y naill a ddarllenwn drwy 'r llall.

Gwel'd cleddyf cyflawnder yn deffro
Oedd ryfedd i daraw Mab Duw!
Gwneud T'wysog y nef yn anafus,
Er mwyn i rai beius gael byw:
Dysgleirdeb gogoniant, ac union
Wir lun Person tirion y Tad,
Yn ngafael deddf, fanwl ofynion,
I ni ddod yn rhyddion yn rhad.

E. J.

HYMN 413. 9. 8. Elliot.

Dyfroedd iachawdwriaeth.

O ARWAIN fy enaid i'r dyfroedd,
Y dyfroedd sy'n afon mor bur,
Y dyfroedd a dorant fy syched,
Er trymed fy nolur a'm car:
Y dyfroedd tragwyddol eu tarddiad,
Y dyfroedd sy heb waelod na thrai,
Y dyfroedd a olchant fy enaid,
Er dued, er amled fy mai.

Da iawn i bechadur fod afon
A ylch yr aflanaf yn wyn;
Hi darddodd o'r nefoedd yn gyson,
Hi ffrydiodd ar Galfari fryn;
Hi lifodd i'r anial cenedlig,
Hi olchodd fil miloedd yn lân;
Hi ylch ei miliynau 'n llwyr gamaid,
Cyn rhoddi llawr dacar ar dân.

T. J.

HYMN 414. M. N. 10au. Guestwick.

Drwg pechod, a gras Iesu.

PECHADUR wyf a aeth yn llwyr ar goll,
O'm pen i'm traed yn euog aflan oll;
Tan glwyfau dwys, tra dyfnion trymion trist;
Ond Meddyg rhad i'm bath yw Iesu Grist.

Efe ei Hun, i roddi im' iachâd,
Yw 'r un a fedd bob gras a rhinwedd rhad;
Ac arno ef sy'n ffynnon o bob dawn,
Mi goda'm llef, hwyr, bore, a phrydnawn.

[O Iesu gwiw, golch fi o'm pen i'm traed,
Trwy rinwedd pur dy werthfawr ddwyfol waed;
Rho heddwch im' rhag euog ofnus gur,
A llanw fi â'th anian sanctaidd bur.

Fy Iesu, mae diferyn bach o'th hedd,
Mewn byd o boen yn beraidd hyfryd wledd;
O! 'r afon fydd i'w hyfed mewn mwynhad,
Fel melys win yn hyfryd dŷ ein Tad.]

T. J.

HYMN 415. 10au. Birmingham.

Y cyfammod gras.

CYFAMMOD hedd, cyfammod cadarn Duw,
Ni syfl o'i le, nid ie a nage yw;
Cyfammod gwir, ni chyfnewidir chwaith,
Er maint eu pla daw tyrfa i ben eu taith.

Cyfammod rhad o drefniad UN yn DRI,
Hen air y llw a droes yn elw i ni;
Mae 'n ddigon cryf i'n codi 'fynu 'n fyw,
Ei rym o hyd yw holl gadernid Duw.

Cyfammod cryf—pwy ato ddyry ddim;
'Deill byd na bedd chwaith dori ei ryfedd rym:
Diysgog yw hen arfaeth Duw o hyd,
Nid siglo mae fel gweinioa bethau 'r byd.

Er llithro i'r llaid, a llygru defaid Duw,
Cyfammod sy i'w codi 'fynu 'n fyw,
A golchi i gyd eu holl afiendid hwy,
A'u dwyn o'r bedd heb ddim ammhuredd mwy.

E. J.

HYMN 416. 10au. Montague.

Mawl i'r Cyfryngwr.

I OESOEDD maith, mwy na rhifedi 'r dail,
Bydd mawl a chlod trwy 'r nef i Adda 'r ail,
Am fyn'd tan faich dyledwyr gwael eu llun,
A thalu 'n llwyr; a'r tâl oedd Ef ei hun!

Ei Hun fe roes tros wael elynol ryw,
A marw wnaeth i ni a'n bath gael byw;
Y Deddfwr glàn tan ddeddf a'i garwaf gur!
O ryfedd waith ei gariad perffaith pur!

Os edrych wnawn o'r llawr i uchder ne',
Nis cair ei fath; y Cywir yw Efe;
Y Meichiau mawr ddyoddefodd yn y cnawd,
Y Cyfaill gwiw a lŷn yn well na brawd.

(175) T. J.

HYMN 417. 10au. Guestwick.

Y Bugail da.

Y BUGAIL mwyn o'r nef a ddaeth i lawr,
I geisio 'i braidd, trwy 'r erchyll *anial mawr,*
Ei fywyd rhodd yn 'sglyfaeth yn eu lle,
A'u crwydrad hwy ddialwyd arno 'Fe.

O grwydrad pell paradwys daeth i'm hol,
Yn dirion iawn fe'm dygodd yn ei gôl:
'Does neb a wŷr, ond Ef, y Bugail mawr,
Pa grwydro wnes o hyny hyd yn awr.

A'i hyfryd lais fe'm harwain yn y blaen,
Cydymaith yw ef yn y dwfr a'r tân:
Rhag pob rhyw ddrwg yn nyffryn angau du,
Pwy arall fydd yn nodded i myfi.

Pan âf i dre, i'r hyfryd gorlan fry,
Ni chrwydraf mwy oddiwrth fy Mugail cu;
Wrth gofio 'r daith a'i holl ffyddlondeb Ef,
Mi seiniaf glod i entrych nef y nef.

Fy Mhriod yw, âf ar ei bwys ym mlaen,
Nes dod i'r làn o'r anial fyd yn làn;
"Fy nghyfaill wyt," medd Ef wrth lwch y llawr,
"A'th Dduw wyf fi i dragwyddoldeb mawr."

D. C.

HYMN 418. 10au. Birmingham.

Ymffrostio yn Nghrist.

DARFYDDED sôn am haeddiant dyn a'i rym,
Fe dawdd yn llwyr o flaen cyflawnder llym;
Yn nghlwyfau 'r Oen ymffrostia f' enaid tlawd,
Daeth trefn y nef âg Iesu imi 'n Frawd.

Ar dir na môr ei debyg gwn nad oes;
Seraphiaid pur ni thraethant byth ei oes:
Dringo a wnaf, trwy nerth ei ras, o'm gwae,
Nes caffwy'n glir ei weled fel y mae.

(176) G.

HYMN 419. 10au. Warsaw.

Prynedigaeth trwy waed Crist.

MAE haeddiant mawr rhinweddol waed fy Nuw,
Yn llawer mwy na'r pechod gwaetha'i ryw;
Cair maddeu myrdd o'r beiau mwyaf gaed,
A'r euog brwnt a gànir yn y gwaed.

O'm pen i'm traed annhraethol aflan wyf;
Nid oes lanhâd ond yn ei farwol glwyf;
Y ffynnon hon a agorwyd ar y bryn,
Er dued wyf a'm gylch yn hyfryd wyn.

[Efe yw 'r Iawn dros ein pechodau ni;
Ei ddryllio wnaed ar fynydd Calfari:
Ein dyled mawr a dalwyd yno 'n llawn,
A'r llyfrau oll a groeswyd un prydnawn.

Wrth daraw 'r Graig daeth allan ddyfroedd pur,
Ein dilyn mae trwy 'r dyrys anial dir:
Cawn lawenhau wrth yfed dyfroedd byw,
A'n golchi 'n lân, a'n dwyn i gwmni Duw.]

[Mi ganaf byth am haeddiant dwyfol waed—
Fy mhrynu wnaeth, a'm gosod ar fy nhraed,
Boddloni 'r Tad a'r gyfraith yn fy lle,
Ac ennill hawl im' byth yn nheyrnas ne'.

Och'neidiau 'r groes a roes ryddhad i ni,
Mae 'm cymhorth llawn ar gyflawn Un yn Dri:
Duw dig sy'n Dad i bechaduriaid trist,
A'r cymmod rhad trwy haeddiant Iesu Grist.]

G.

HYMN 420. 10au. Saron.

Arfaeth ratol Duw.

CYN llunio 'r byd, cyn llediu 'r nefoedd wen,
Cyn gosod haul, na lloer, na sêr, uwch ben;
Fe drefnwyd ffordd yn nghynghor Tri yn Un,
I achub gwael, gollediq, euog, ddyn.

Trysorwyd gras, ryw annherfynol 'stôr,
Yn Iesu Grist, cyn rhoddi deddf i'r môr;
A rhedeg wnaeth bendithion arfaeth ddrud,
Fel afon gref lifeiriol dros y byd.

P. J.

HYMN 421. 10au. Upton.

Llwyddiant yr efengyl.

JEHOFAH yw yn un a'i enw pur,
Cyflawnder gwiw ei addewidion gwir;
Mae 'n codi ei law, canedlocdd dd'ont o'u bedd,
Nodedig brawf o'i ras, anfeidrol rodd.

Cenadon hedd, mewn efengylaidd iaith,
Sy'n galw i'r wledd, dros fôr yr India faith;
Caiff Hottentots, Coraniaid dua 'u lliw,
Farbaraidd lu, eu dwyn i deulu Duw.

A. G.

HYMN 422. 10au. Birmingham.

Undeb yr eglwys.

MAE eglwys Dduw trwy 'r ddae'r a'r nef yn un,
Y meirw a'r byw â'u cydsain yn gyttun;
"Teilwng yw 'r Oen," medd seintiau yn y nef,
"Teilwng yw 'r Oen," yw 'n llafar ninnau a'n llef.

Darfydded sôn am bob ymryson mwy,
Partiol farn, a rhagfarn, 'lawr â hwy;
Doed ysbryd hedd, tangnefedd, yn eu lle,
A chariad pur, o'r cariad sy yn y ne'.

[Gwna fi fel pren planedig, O fy Nuw,
Yn îr, ar làn afonydd dyfroedd byw,
Yn gwreiddio ar led, a'i ddail heb wywo mwy,
Yn ffrwytho dan gawodydd dwyfol glwy'.]

A. G.

HYMN 423. 10au. Warsaw.

Iawn ac eiriolaeth Crist. Dat. 11. 9.

AGORWYD teml yr Arglwydd yn y nef,
A gwelwyd arch ei làn gyfammod Ef;
Holl ryfeddodau Person Crist a'i waith
A welir yno i dragwyddoldeb maith.

Cyfiawnder Duw sydd yno'n ddysglaer iawn,
A'r gyfraith bur bob iot o honi'n llawn;
Ond i bechadur melys yw y sain,
Fod trugareddfa hefyd rhwng y rhai'n.

Y tanllyd gledd fu'n effro iawn cyn hyn,
Taranau a mellt ofnadwy Sinai fryn,
Sy'n awr yn dawel yn yr Arch ddi lyth,
Y gair GORPHENWYD a'n tawelodd byth.

[Mae'r Archoffeiriad yn taenellu'r gwaed,
Mewn gwisgoedd sanctaidd, llaesion, hyd ei draed:
O fewn y lleq, sancteiddiaf lŷs y nef,
Ac enwau'r llwythau ar ei ddwyfron Ef.

Priodoliaethau'r nefoedd yn gytun
Sydd yno'n gwenu ar golledig ddyn;
Mae hedd yn awr o'r nef i'r llawr yn lli',
A noddfa gref o fewn y nef i ni.

Crist ydyw'r arch a'r drugareddfa rad,
Yn ehw hwn anturiwn at y Tad,
Fe wrendy gŵyn pechadur heb ei ladd,
Fe gymmer blaid yr enaid isel radd.]

(174) IAGO.

HYMN 424. 10au. Upton.

Annog pob creadur i foli Duw, ein Hiachawdwr.

POB natur doed, a'n nerthoedd oll yn awr,
I ddadgan clod Duw, eu Creawdwr mawr:
Yr awyr glir, a'r cyfan dan y rhod,
Y môr a'r tir, rhoent ei ryglyddawl glod.

Dechreued sain Seraphiaid yn y nef
Ddadseinio'n llu ger bron ei orsedd Ef;
Cyweirient eu telynau oll yn un,
I ganu clod i'r Duwdod yn y Dyn.

Doed mawr a bach o ïs a gwaelach ryw,
Rhoent glod a mawl i ganmawl enw Duw:
Down ninnau i gyd, o eithaf byd heb wad,
I'w foli 'n faith am iachawdwriaeth rad.

Ei fywyd glân, ei chwys, a'i riddfan roes,
A'i angau llawn, dâl cyflawn ar y groes:
Daw ffrwyth ei groes, a grym eiriolaeth gref,
A'r eiddil gwan yn gadarn gyd âg Ef.
(176) G.

HYMN 425. 10au. Birmingham.

Hyder am ymwared er gwaethaf pla calon.

RHYFEDDU 'r wyf, a mawr ryfeddod yw,
Fy ngharu erioed, y gwaela' o ddynolryw,
Cael yn ei dŷ, o fewn ei furiau le,
Ac enw gwell nag welir ïs y ne'.

Paham yr wyf mor bell oddiwrth fy Nuw?
Fy nghalon wag, mor ffol a gwammal yw!
Pa fodd na bai fy meddwl, ddydd a nos,
A'm henaid fry wrth Dduw yn glynu 'n glos.

Duw, attal di rwysg fy meddyliau ffol,
A dena 'm serch a'm calon ar dy ol,
Yn holltau 'r Graig dod im' ymgeleddfa glyd,
Mewn tawel hedd, nes myn'd trwy 'r anial fyd.

[Fy enaid, cod, a dos ym mlaen yn hy',
Ymestyn mwy tua phorth y ddinas fry,
Lle mae gwir hedd, gorfoledd yn parhau,
A chael o hyd yn hyfryd eu mwynhau.

Fel haul yn llon, boed imi deithio o hyd,
Nes gorphen fy milwriaeth yn y byd,
A meddwl pur, ac wyllys bywiol llon,
Nes gado o'm hol yr hudol ddaear hon.

Brawd yw Efe i'r llwythog ar y llawr,
Dof ar ei bwys i fynu o'r cystudd mawr;
Ni thrig yn ol un ewin, er mor wan,
O'r anial dir fe'u mynir yn y man.]
G.

HYMN 426. 10au. Guestwick.

Iesu, ffynnon cysur.

FY enaid cod, sefydla 'th wammal fryd,
Mae heibio 'n myn'd bleserau pena 'r byd;
O dring i fynu, ac anghofia 'n awr
Bob peth a eilw 'r ddaear yma 'n fawr.

Draw, draw, ym mhell tu hwnt i'r tywyll fedd,
Mae 'th gysur oll, dy bleser, a dy hedd;
Mae Iesu yno, Ef ei Hunan yw
Y cwbl a feddaf byth, yn farw a byw.

W. W.

HYMN 427. 10au. Birmingham.

Enw Crist.

MAE enw 'm Ior fel ysol nerthol dân,
Dim tan y nef ni safa byth o'i flaen;
Yr iachawdwriaeth werthfawr sydd o hyd
Yn gwneuthur uffern gref i grynu i gyd.

O'r enwau oll a roddir i fy Nuw,
Hwnw ei *hun* y gwerthfawrocaf yw,
Hwnw a gafodd Ef ar Galfari,
Pan y dioddefodd dros fy enaid i.

Rho allu im', fy Nuw, o hyn i maes,
I ddweud yn dda am dy anfeidrol ras;
Ac na bo genyf neges yma mwy,
Ond ymhyfrydu yn dy farwol glwy'.

(177) W. W.

HYMN 428. 10au. Guestwick.

Griddfan a gobeithio.

GWAITH griddfan sydd, gan bwys euogrwydd du,
Gwaith ymladd llym, gan rym gelynol lu:
Gwaith gwylio 'n ddwys rhag pob dirgelaidd frad;
Pwy ddwg fy maich mewn dyrys anial wlad?

Mae 'r gyfraith gref, mae 'm pechod mawr ei bwys,
Mae angau du i'm digaloni 'n ddwys;
Mae maglau 'r llawr fel drygau mawr i mi;
Ond, Iesu, 'm rhan a'm tarian ydwyt ti.

'Does eisiau 'n bod, nac ofn, na chlais, na chwŷ',
Ar f'enaid tlawd, heb fod gan Iesu fwy;
Anfeidrol fwy o werth sydd yn ei waed;
Os trengu wnaf, mi drengaf wrth ei draed.
(175) T. J.

HYMN 429. 10au. Upton.

Melysder carlad a chymdeithas Crist.

O IESU gwiw, gwyn fyd a brofo 'th ddawn,
A'th gariad pur, yn felys nerthol iawn;
Digonedd wyt i hwn, tra ynddo chwyth,
Nid oes i'w gael, na'i geisio, 'n rhagor byth.

Hardd Iesu, wyt hyfrydwch nefol lu;
Mor bêr i'r glust yw sain dy enw cu!
I'r genau mae fel mêl, yn felys bur,
Fel nefol wîn i'r galon dan ei chur.

Am danat, Iesu, yn fynych mae fy nghŵyn!
Pa bryd y câf dy lon ymweliad mwyn?
Pa bryd y gwnai fi 'n llawen â dy wedd?
Pa bryd y câf fy llenwi o dy hedd?
(178) T. J.

HYMN 430. 10au. Warsaw.

Gweddi yr Arglwydd.

EIN Tad, a'n Duw, yr hwn wyt yn y nef,
O'th uchel lŷs, O! gwrandaw di ein llef;
Sancteiddier y'mhob man dy enw mawr;
A'th deyrnas doed i lenwi daear lawr.

D' ewyllys ar y ddaear hon, O Dduw,
A wneler gan holl raddau dynolryw;
Fel yn y nef gan luoedd teg eu gwawr,
Un modd y gwnelom ninnau ar y llawr.

Ein bara dod in' heddyw fel pob pryd,
A maddeu ein dyledion oll i gyd:
Maddeuwn ninnau 'n rhwydd bob cam a chas
I'n holl ddyledwyr blin trwy rîn dy ras.

Nac arwain di mo honom yn dy ŵg
I'n temtio byth, cad gwared ni rhag drwg:
Can's eiddot ti yw 'r deyrnas, Iôn ein Pen,
Y gallu a'r gogoniant byth, Amen.
P. J.

HYMN 431. M. N. 11au. Hamlet.

Afon bur o ddwfr y bywyd.

YR afon a lifodd rhwng nefoedd a llawr,
Yw gwraidd fy ngorfoledd a 'nghysur yn awr:
Ar fynydd Calfaria y tarddodd yr hedd,
A 'Mhriod sy'n cadw agoriad y bedd.

O gyfoeth di derfyn o ras ac o ddawn,
A redodd fel afon lifeiriol yn llawn!
Mae 'n llifo trwy 'r ddaear yn ddysglaer a llon,
Fe nofia myrddiynau i'r bywyd yn hon.

Y clod, y gogoniant, y gallu o bob rhyw,
A redo fel moroedd i enw fy Nuw;
Y dechreu a'r diwedd o'r ddaear i'r nef,
O ras ac o haeddiant yn gyfan yw Ef.

[Fy mywyd boed bellach yn fywyd o ffydd,
D' orch'mynion i'm henaid yn bleser bob dydd;
Na foed genyf bleser tra fyddwyf fi byw,
Ond rhodio ar y ddaear i foddio fy Nuw.]

(179) W. W.

HYMN 432. 11au. Callestr.

Teilwng yw yr Oen.

MAE enw f' Anwylyd, mor anwyl, mor fawr,
Hyfrydwch y nefoedd, hyfrydwch y llawr;
Ni dderfydd ei garu, ni dderfydd ei glod,
Tra bo nef y nefoedd, a bydoedd, mewn bod.

[Nid oes gan blant dynion un gronyn o law
Yn rhyfel ein Harglwydd, nac yma na thraw;
Efe sy'n lladd pechod, yn planu pob dawn,
Efe biau 'r enw o'r goncwest yn llawn.

Wel, bellach mi gredaf er nad wyf ond gwan,
Edrychaf o ddyfnder y ddaear i'r lân;
Agorodd, o'i gariad, ffordd newydd a byw,
O ganol tywyllwch i fynwes fy Nuw.]

Cawn wared o'n hadfyd a'n gofid i gyd,
O derfysg, a dwndwr, a chynnwrf y byd;
'Ddaw blinder, na thrallod, na phechod, na phoen,
Na gelyn, na gormes, i fynwes yr Oen.

W. W.

HYMN 433. 11au. Holborn.

Heddwch cydwybod.

O GARIAD! O gariad! anfeidrol ei faint,
Fod llwch mor annheilwng yn cael y fath fraint;
Cael heddwch cydwybod, a'i chànu trwy 'r gwaed,
A chorph y farwolaeth, sef llygredd, tan draed.

Nid allai 'r holl foroedd byth olchi fy mriw,
Na gwaed y creaduriaid, er amled eu rhyw;
Ond gwaed y Messïah, a'i gwella 'n ddi boen—
Rhyfeddol yw rhinwedd marwolaeth yr Oen!

Cyd-ganed y ddaear a'r nefoedd yn nghyd,
Ogoniant tragwyddol i Brynwr y byd:
Molianned pob enaid fy Arglwydd ar gân,
Am achub anhydyn bentewyn o'r tân.

[Mae 'r Jubil dragwyddol yn awr wrth y drws,
E godedd yr haulwen, ni gawsom y tlws;
Daw gogledd, a dwyrain, gorllewin, a de,
Yn lluoedd i foli Tywysog y ne'.]

(179) M. R.

HYMN 434. 11au. Hanover.

Rhyfeddodau yr Iawn.

RHYFEDDOD, rhyfeddod i Brynwr y byd,
Roi 'i enaid yn aberth yn daliad mor ddrud,
I godi pechadur o ddyfnder ei wae,
A'i ddwyn i ogoniant, byth, byth i barhau.

O bellder tragwyddol y gwelodd Efe,
Nad oedd gynnorthwywr i ddyn îs y ne';
Addawodd ei einioes, fe'i rhoddodd i lawr,
I gadw pechadur; ei gariad oedd fawr.

Ei ras a'i cymmellodd yn wyneb y groes;
Ei fraich a'i hachubodd yn nyfnder ei loes:
Ca'dd lawn fuddugoliaeth ar Galfari fryn;
Mewn gwendid gorchfygodd, ni ganwn am hyn.

Y gyfraith oedd fanwl, a pherffaith, a llym;
Cyflawnder gofynol, anfeidrol ei rym:
A'r gwaelaf bechadur, truenus ei lun:
Mae digon yn Iesu i'r rhai'n bob yr un.

T.

HYMN 435. 11au. Harmony.

Dyoddefaint Crist.

EI harddwch a'i degwch, mewn cariad a hedd,
Anfeidrol ogoniant serchogrwydd ei wedd,
'i ras at bechadur, pentewyn y tàn,
w bywyd fy ysbryd, a thestun fy nghân.

› gariad, rhad gariad fy Mhriod a'm Rhan!
Y Maen oedd yn cynnal ei enaid i'r lan!
Ar hwn y bu 'n sefyll yn serchog ei wawr,
Clod byth fo i'w enw, trwy nefoedd a llawr.

Ac yno fe'i drylliwyd rhwng *cariad* a *llid*,
Pwy draetha ddyoddefaint Iachawdwr y byd?
Yd bara faluriwyd tan olwyn y fèn;
Fe'i 'sigwyd, fe'i gwasgwyd, nes rhwygwyd y llen.

Yna gwaeddodd cyflawnder, 'Nawr gollwng E'n rhydd,
A phob priodoledd gytunai 'r un dydd;
Fe groeswyd y ddyled, meddiannwyd y tir,
Daw 'r holl brynedigion yn rhyddion yn wir.

T.

HYMN 436. M. N. 12au. Buddug.

Rhad ras.

LLAIS hyfryd rhad ras sydd yn gwaeddi, Diangfa;
Yn nghlwyfau Mab Duw, idd yr euog mae noddfa:
Fe redodd ei waed ef yn ffrydiau iachusol,
I olchi aflendid a phechod yn hollol:
Haleluiah i'r Oen! a bwrcasodd ein pardwn,
'Nol croesi 'r Iorddonen drachefn ni a'i molwn.

Ar angau ac uffern ca'dd lawn fuddugoliaeth,
Yspeiliodd holl allu 'r tywyllwch ar unwaith;
Holl filwyr y groes a gânt ynddo dangnefedd,
Fe'u harwain hwy 'n sicr i berffaith orfoledd:
Haleluiah i'r Oen, &c.

Yn ol tirio 'n iach idd y tawel anneddau,
Ni seiniwn ei glodydd ar auraidd delynau;
Trwy nefol ardaloedd ni a'i molwn fyth fythol,
Wrth rodio ar lenydd yr afon dragwyddol:
Haleluiah i'r Oen, &c.

D. C.

ATTODIAD I'R SALMAU.

SALM 1. M. C. 8. 7. Aber.

Dedwyddwch y duwiol.

Y SAWL ni rodia, dedwydd yw,
Yn ol drwg ystryw gynghor;
Ni saif ar ffordd troseddwyr ffol,
Nid eiste'n 'stôl y gwatwor.

Ond ei holl serch ef sydd yn rhwydd
Ar ddeddf yr Arglwydd uchod;
Ac ar ei ddeddf rhydd, ddydd a nos,
Yn ddiddos ei fyfyrdod.

Ef fydd fel pren plan ar làn dôl,
Dwg ffrwyth amserol arno:
Ni chrina 'i ddalen, a'i holl waith
A lwydda 'n berffaith iddo.

Canys yr Arglwydd Dduw, fel hyn,
A edwyn ffyrdd ffyddloniaid;
Ac ef ni àd byth i barhau
Mo lwybrau pechaduriaid. E. P.

SALM 3. M. C. Elmdon.

Salm foreol.

AR Dduw yr Arglwydd, â'm holl lais,
Y gelwais yn dosturaidd;
Ac ef a'm clybu i ar frys,
O'i uchel freinllys sanctaidd.

Mi a orweddais, ac a gysgais,
A mi a godais gwedi;
Canys yr Arglwydd oedd i'm dàl,
I'm cynnal, ac i'm codi.

I'r Arglwydd byth, nid gallu dyn,
Y perthyn iachawdwriaeth;
Ac ar ei bobl y disgyn gwlith
Ei fendith yn dra helaeth. R. P.

SALM 4. M. C. Cemmaes.

Salm hwyrol.

PWY, medd llaweroedd y pryd hyn,
A ddengys in' ddaioni?
O Arglwydd, dercha d' wyneb pryd,
Daw digon iechyd ini.

I'n calon rhoist lawenydd mwy,
A hyny trwy dy fendith,
Nag a fyddai gan rai yn trin
Amlder o'u gwin a'u gwenith.

Mi a orweddaf ac a hunaf,
A hyny fydd mewn heddwch;
Can's ti, Arglwydd, o'th unig air,
A bair im' ddiogelwch. E. P.

SALM 6. M. C. Capel Cynon.

Cwynion y cystuddiedig.

O ARGLWYDD, na cherydda fi
Yn mhoethni dy gynddaredd;
Ac na chosba fi yn dy lid,
Oblegyd fy anwiredd.

O trugarha, fy Arglwydd, 'rwyf
Yn curio trwy fy ngofid;
Mae f' esgyrn briw, a'm cnawd, bob cam,
Yn gwaeddi am dy iechyd.

Gan bwys fy mai, a baich fy nghur,
Yr wyf yn bur ofidus;
O Dduw, pa hyd ymguddi di,
A'm henaid i 'n drallodus?

Duw, gwared f' enaid, dychwel di,
Iachâ fi â'th drugaredd:
Nid oes yn angau gôf na hawl;
A phwy a'th fawl o'r pridd-fedd?

Yr Arglwydd clybu Ef fy arch,
Rhof finnau barch a moliant:
Fe dderbyn fy ngweddi a'm gwaedd,
Am hyn yr haedd ogoniant. E. P.

SALM 10. M. C. Beaumaris.

Cwyno rhag traha yr annuwiol.

O ARGLWYDD, pam y sefi di
Oddiwrthym ni cyn belled?
Pam yr ymguddi di a'th rym,
Pan ydym mewn caethiwed.

Yr annuwiol ni chais Dduw NER,
(Mae ef i'w falchder cyfuwch)
Ni chred ef, ac ni feddwl, fod
Un fath awdurdod goruwch.

Yn ei galon, d'wedodd am Dduw,
Nad ydyw yn gofiadur;
Cuddiodd ei wyneb, ac ni wêl
Pa beth a wnêl crëadur.

Cyfod, Arglwydd, dercha dy law,
Dy fod i'n cofiaw dangos;
Ac nac anghofia, pan fo rhaid,
Dy weiniaid a'th werinos.

Duw, gweddi 'r gwan a glywaist di,
Ac a gysuri 'r galon:
Tro eilwaith atom y glust dau,
A chlyw weddïau ffyddlon. E. P.

SALM 11. M. C. Elmdon.

Hollwybodaeth a chyfiawnder Duw.

YR Arglwydd o'i orseddfa fry
At ddynion try ei olwg:
Mae cyfiwr pawb o tan y nef
I'w lygaid Ef yn amlwg.

Ar bechaduriaid, marwor tân
A brwmstan a ddaw'n gawod,
A gwynt ystormus uchel iawn—
Dialedd llawn am bechod.

Can's cyfiawn ydyw 'r Arglwydd NER,
Cyfiawnder mae 'n ei garu;
A'i wyneb at yr uniawn try,
A hyny i'w ymgeleddu. E. P.

SALM 15. M. C. Llanfihangel.

Nodau gwir gredinwyr.

DYWED i mi pa ddyn a drig
I'th lŷs, barchedig Arglwydd;
A phwy a erys ac a fydd,
Yn mynydd dy sancteiddrwydd?

Yr hwn a rodia 'n berffaith dda,
Yr hwn a wna gyflawnder,
Yr hwn a draetha o'i galon wir,
A drig ar dir uchelder.

Yr hwn sydd isel yn ei fryd,
Yn caru 'i gyd-grist'nogion,
Yr hwn sy'n ofni 'r Arglwydd Dduw,
Ac sydd yn byw yn ffyddlon.

Na gwobr na rhodd, yr hwn ni fyn,
Er dàl yn erbyn gwirion:
A wnelo hyn ni lithra fyth,
Fe gaiff y ddilyth goron. E. P.

SALM 19. M. C. D. Affrica.

Y grëedigaeth yn dangos gogoniant Duw.

DADGAN y nefoedd fawredd Duw,
Yr unrhyw gwna 'r ffurfafen:
Y dydd i ddydd, a nos i nos,
Sy'n dangos cwrs y wybren.
Er nad oes ganddynt air nac iaith,
Da 'dywed gwaith Duw Lywydd;
Diau nad oes na môr na thir,
Na chlywir eu lleferydd. E. P.

SALM 20. M. C. Llanberis.

Gweddi dros y Brenin.

GWRANDAWED di yr Arglwydd Ner,
Pan ddel cyfyngder arnad:
Enw Duw Jacob, ein Duw ni,
A'th gadwo di yn wastad.

O'i gyssegr rhoed it' help a nerth,
A braich o brydferth Sïon;
Cofied dy offrwm poeth a'th rodd,
Bo rhai'n wrth fodd ei galon.

Cadw ni, Arglwydd, â'th law gref;
Boed Brenin y nef drosom;
Gwrandawed hwnw arnom ni,
A'n gweddi, pan y llefom. E. P.

SALM 25. M. C. Sabbath.

Gweddi am gyfarwyddyd a maddeuant.

DANGOS im', Arglwydd, dy ffordd di,
A phàr i mi ei deall:
Dysg, ac arwain fi yr un wedd,
Yn dy wirionedd diball.

I'r sawl a gadwo ddeddfau 'r Ion,
A'i union dystiolaethau,
Gwirionedd a thrugaredd fydd
Ei lywydd yn ei lwybrau.

Er mwyn dy enw, Arglwydd mau,
O maddeu fy anwiredd;
Can's fy nhroseddiad i mawr yw,
Mwy ydyw dy drugaredd. E. P.

SALM 29. M. C. D. Affrica.

Yn amser tymhestl a tharanau.

RHOWCH i'r Arglwydd, a rhowch yn chwyrn,
Chwi, blant y cedyrn, foliant;
Cydnabyddwch ei barch a'i nerth,
Mor brydferth, a'i ogoniant.
Rhoddwch i enw 'r Arglwydd glod,
Heb orfod mwy mo'ch cymhell;
Addolwch Arglwydd yr holl fyd;—
Mor hyfryd yw ei babell.

Llais yr Arglwydd, pan fyddo llym,
A ddengys rym a chyffro;
A llais yr Arglwydd a fydd dwys,
Fel y bo cymhwys ganddo.
Yr Arglwydd rydd i'w bobl nerth,
Drwy brydferth gyfanneddwch;
Yr Arglwydd rydd ei bobl y'mhlith
Ei fendith, a hir heddwch. E. P.

SALM 33. M. c. Caergybi.

Diolchgarwch.

PA rai bynag, yn Nuw yr Ion,
Sy gyflon, llawenychwch:
I bawb y sydd yn iawn yn byw,
Gweddus yw diolchgarwch.

Cenwch i'r Ion fawl a mawrhad,
Wiw gerdd o ganiad newydd;
Cenwch iddo yn llafar glod,
Bid parod eich lleferydd.

Am mai uniawn ydyw ei air,
Ffyddlawn y cair ei weithred:
Barn a chyfiawnder Ef a'u càr,
A'r ddaear llawn o'i nodded.

Gair yr Arglwydd a wnaeth y nef,
A'i Ysbryd Ef ei lluoedd:
Casglai Efe ynghyd y môr,
A'i drysor yw'r dyfnderoedd.

RHAN II. Hwlffordd.

Sicr arfaethau, a rhad drugaredd Duw.

Cynghor yr Arglwydd yn ddilyth
A bery byth yn berffaith;
A holl feddyliau 'i galon wiw
Barha i bob rhyw genedlaeth.

A phob cenedloedd dedwydd ŷnt,
Os Duw sydd iddynt Arglwydd;
A'i ddewisolion Ef a'u gwnaeth
Yn etifeddiaeth hylwydd.

O'r nefoedd fry yr edrych Duw
Ar lwybrau pob rhyw ddynion;
Ac o'i breswylfa edrych ar
Y ddaear a'i thrigolion.

Wele lawn olwg Duw a'i wawl
Maent ar y sawl á'i hofno;
A'i drugareddau sydd ar led
I'r sawl a 'mddiried ynddo.

E. P.

SALM 37. M. C. Moliant.

Annogaeth i ymddiried yn Nuw.

FE edwyn Duw flinderau maith
Y perffaith, a'i holl helynt;
Ac yn dragywydd Duw a wnaeth
Deg etifeddiaeth iddynt.

Efe a'u ceidw hwynt i gyd,
Na chânt mewn drygfyd w'radwydd:
Yn amser newyn hwy gânt ran
Ddigonol gan eu Harglwydd.

Bydd di gysurus yn dy Dduw,
Ti gai bob gwiw ddymuniad:
Dy ffyrdd cred iddo yn ddilys,
Fe rydd dy wyllys atad.

Cred ynddo ef fe'th ddwg i'r làn,
Myn allan dy gyflawnder:
Mor oleu a'r haul hanner dydd,
Fel hyny bydd d' eglurder. E. P.

SALM 39. M. C. Walsal.

Byrdra oes dyn.

RHODDAIST fy nyddiau fel lled llaw,
I'm heinioes daw byr ddiwedd:
Diau yn d' olwg di, O Dduw,
Fod pob dyn byw yn wagedd.

O paid â mi, gâd im' gryfhau,
Cyn darfod dyddiau 'mywyd:
O gwna â mi, sy 'mron fy medd,
Drugaredd a syberwyd. E. P.

SALM 43. M. C. Caergybi.

Arferedig o flaen pregeth.

OGYR dy oleu, moes dy wir,
Ac felly t'wysir finnau;
Arweiniant fi i'th breswylfeydd,
I'th fynydd, ac i'th demlau. E. P.

SALM 71. M. C. Glyndyfrdwy.

Gobaith yr oedrannus.

MI ymddiriedais ynot, Ner:
Na'm gwaradwydder bythoedd:
Duw, o'th gyflawnder, gwared fi,
A chlyw fy nghri hyd nefoedd.

Duw, bydd yn graig o nerth i mi,
I gyrchu ati 'n wastad;
A phar fy nghadw i yn well,
Ti yw fy nghastell caead.

[Nac esgeulusa fi a'm braint
Yn amser henaint egwan:
Er pallu 'm nerth, cryfha fy ffydd,
Hyd ddiwedd dydd fy oedran.

Fy ngobaith innau a saif byth
Yn ddilyth a safadwy;
Ymddiried ynot, Dduw, a wnaf,
Ac a'th foliannaf fwyfwy.]

I ti, Sanct Israel, hyfryd gân
A ddadgan fy ngwefusau:
Mawl it' am achub f' enaid llon,
O'm calon ac o'm genau. E. P.

SALM 87. M. C. Hwlffordd.

Gogoniant, cynnydd, a diogelwch yr eglwys.

SEILFEINI hon, sef Sion, sydd
Ar gyssegr fynydd ucho;
Ac ar dy byrth rhoes Duw ei serch,
Uwch pob trig-lanerch Iago.

O ddinas Duw, preswylfa 'r Ion,
Mawr ydyw 'r sôn am danad:
A gogoneddus air it' sydd
Uwch trigfenydd yr holl-wlad.

Dywedir hyn am Sion bêr,
Fe anwyd llawer ynddi,
Nid ambell un; can's cynnorth da
Yw Duw goruchaf iddi. E. P.

SALM 100. M. H. Denmark.

Cydnabyddiaeth o fawredd Duw.

O FLAEN gorseddfainc uchel Ion,
Dewch, bobloedd oll, dan lawenhau;
Mawr yw ei enw uwch pob sôn,
Efe sy'n lladd ac yn bywhau.

Ei allu glân a'n crëodd oll;
Ein ffurf o'r clai a wnaeth i gyd:
Fel defaid aethom bawb ar goll,
Ond dyg ni 'n ol i'w gorlan glyd.

Ei bobl Ef ydym, praidd ei nôd;
Ein Bugail a'n Harweinydd yw:
Pa fawredd teilwng, a pha glod,
A rown i'th enw, O ein Duw?

Seiniwn dy fawl â bywiog iaith,
Derchafwn lais hyd entrych nef:
Daw 'r byd a'i fil o filoedd maith
I'th byrth ag un soniarus lef.

Hwy pery d' air na môr na thir;
Di dranc yw'th gariad mawr a'th ras;
Yn gryf fel craig y saif dy wir
Pan gryno 'r nef a'r ddaear las. *P. J.*

SALM 123. M. C. Castell y Paun.

Gweddi am drugaredd a gras.

TUEDDA 'ngolwg at y ne',
Fy Nuw dy le trigiannol;
Fel y try gweision eu llygaid
At ddwylo 'u meistriaid bydol.

Llygaid llawforwyn ar bob tro,
A ddilyn ddwylo 'i meistres:
Dysgwyliwn arnat, Dduw, 'r un wedd,
Am dy drugaredd gynnes.

[Ein holl gynnorthwy ni a'n llwydd
Sy'n nerth yr Arglwydd hawddgar,
Yr Hwn, trwy waith ei ddwylaw ef,
A grëodd nef a daear.] E. P.

SALM 125. M. C. Llangynog.

Diogelwch y saint.

SAWL a 'mddiriedant yn Nuw Ion,
Byddant fel Sion fynydd,
Yr hwn ni syfl: a'i sylwedd fry
A bery yn dragywydd.

Fel y saif sail Caersalem fry,
A'i chylchu mae mynyddoedd:
Felly yr Arglwydd yn gaer sydd
Dragywydd cylch ei bobloedd. E. P.

SALM 127. M. C. Ann.

Bendith Duw sydd yn peri llwyddiant.

YTY nid adeilado'r Ner,
A'n ofer gwaith y seiri;
A'r ddinas hon nis ceidw efo,
Ni thycia gwylio ynddi.

Os bore godi, os hûn hwyr,
A byw trwy lwyr ofidio;
Ofer i gyd: Duw a rydd hûn
I bob rhyw un a'i caro.

Wele, y plant a roir i ddyn,
Hiliogaeth ŷn' i'r Arglwydd;
Ac o'i rodd Ef daw ffrwyth y bru,
I'w magu mewn sancteiddrwydd. E. P.

SALM 138. M. C. Suffolk.

Mawl am fendithion ysprydol.

RHOF fawrglod iti, fy Nuw Ion,
O ddyfnder calon canaf;
Yngwydd holl angelion y nef,
A'm goslef, y'th foliannaf.

Ymgrymaf tua 'th sanctaidd dŷ,
Dan ganu o'th drugaredd:
A'th enw mawr, uwchlaw pob peth,
A'th air, difeth wirionedd.

Y dydd y galwais arnat ti,
Gwrandawaist fi yn fuan;
Yno y nerthaist, â chref blaid,
Fy enaid i oedd egwan.

Yr Arglwydd a gyflawna â mi:
Duw, dy ddaioni rhagllaw,
Ac yn dragywydd, imi dod:
Na wrthod waith dy ddwylaw. E. P.

ATTODIAD I'R HYMNAU.

HYMN 1. M. C. Eifionydd.

Gweddi dros yr eglwys.

DY bobl di ŷm, O Dduw ein nerth,
Prid werth dy waed santeiddiol;
Pâr gael ein cyfrif gyd â'th saint,
Mewn nefol fraint dragwyddol.

Cadw dy bobl, O Arglwydd da,
Bendithia d' etifeddiaeth,
Dercha hwynt byth, gwna iddynt fod
Dan gysgod dy lywodraeth. E. P.

HYMN 2. M. C. Edeyrnion.

Swper yr Arglwydd.

PWY na fwytâi y ffrwyth o'r nen,
Sy'n tyfu ar Bren y Bywyd?
A phwy na roddai wrth ei fin,
Rinweddol win mor hyfryd.

Dy gnawd yw'r bara, hyfryd fwyd,
Yn unig gwyd ein henaid;
Pan welom ynddo 'r waywffon,
Fe 'n dadrys o'n caethiwed.

Gâd ini wledda, gwledda o hyd,
Anghofio 'r byd yn gyfan;
A boed ein trigfan yn dy dŷ,
I'th weled di dy hunan. W. W.

HYMN 3. M. C. Sabbath.

Swper yr Arglwydd.

WEL, dyma wledd, gwledd ein Duw Ion,
O basgedigion breision,
A gwin puredig yn ddidrai
I lawenhau y cleifion,

Ond gwledd yw hon gyfoethog hael,
Heb ddiwedd i gael arni:
O pwy na ddeuai y'mlaen yn rhwydd
I wledd yr Arglwydd Iesu.

Os claf, os gwan, os tlawd o hedd,
O dowch i'r wledd yn fuan;
Dewch â'ch achwynion o bob rhyw,
Fe'u hateb Duw ei hunan.

Yma cewch wel'd ein Harglwydd mawr
Yn rhoddi 'lawr yn hollol
Ei hun i angau, angau 'r groes,
Yn ddiddig dros ei bobl.

Cawn fwyta 'i gnawd (wel dyna rad!)
Ac yfed gwaed yr Iesu:
Pa fodd gall ein calonau lai
Na'i wir fawrhau a'i garu?

Mi gofiaf eiriau f' Arglwydd hael,
Yr hwyr cyn cael ei hoelio;
I fwyta 'i swper, minnau ddôf
Y'mlaen er côf am dano.

(30) W. W

HYMN 4. M. C. Suffolk.

Gorfoledd y saint ddydd y farn.

NID yw hi etto ond megys gwawr,
Goleuni mawr sy'n dyfod,
Pan ddel myrddiynau gyd âg Ef,
I fyn'd i'r nef â'i Briod.

A chlod ar glod ei ras tra mawr,
Ledaena 'n awr mor helaeth,
Nes seinio trwy holl entrych nef,
Am ddyfais iachawdwriaeth.

(31) W. W

HYMN 5. M. C. Burford.

Nesau at Ddaw am drugaredd.

B'LE trof fy wyneb, Arglwydd cu,
Ond atat ti dy hunan?
Pob peth gweledig 'thâl e ddim
Ond gwneuthur imi riddfan.

Mi bwysaf atat etto 'n nes,
Pa les im' ddigaloni?
Mae sôn am danat y'mhob man
Yn codi 'r gwan i fynu.

Dysgwyl yr wyf, a hyn bob cam,
Fel gwyliwr am y boreu,
Gael profi grym dy nefol ras
I'm dwyn o'm hadgas feiau.
(32) W. W.

HYMN 6. M. C. Llanfihangel.

Crist oll yn oll.

O'I ystlys bur yn cwympo 'lawr,
Yn afon fawr lifeiriol,
Hedd a maddeuant sy'n ddi drai,
Fyth i barhau 'n dragwyddol.

Rhaid imi gael pob gras, pob dawn,
O'th drysor llawn yn gyfan;
Ac oni chaf, fy enaid prudd
A gyll y dydd yn fuan.

Dy wisg dy hun, cyflawnder hael,
Raid imi gael y'mlaenaf;
Nid oes ond ofnau tan fy mron,
Nes caffwyf hon am danaf.
(29) W. W.

HYMN 7. M. C. Aber.

Gwledd yr efengyl.

GWRANDAWED clustiau pob dyn byw,
Llawened pob rhyw galon,
Mae udgorn yr efengyl fwyn
Yn galw 'n addfwyn arnom.

Dewch chwi sy'n blysio 'r ffrydiau byw,
A'ch enaid gwiw ar drengu;
Cewch dori 'ch syched, druain llwfr,
A'r bywiol ddwfr a bery.

Afonydd gras a chariad sydd
Fel môr dihysbydd yma;
Llawn iachawdwriaeth i rai blin,
Fel llaeth a gwin ddylifa.
(30) Dr. W.

HYMN 8. M. C. Llangynog.

Arwyddion dydd yr efengyl.

YR ym yn dysgwyl yn y man,
Ryw fore anarferol;
Mae yn ymddangos ini 'nawr
Hardd lewyrch gwawr ragorol.

Daw Sion etto 'n llawen fam
Mae argoel am y boreu;
Caiff fagu plant, â llaeth di brin,
I'w Brenin ar ei bronau.

Mae 'r hen Iuddewon yn ddiau
Yn agosâu i Sion:
Nyni a hwythau, cyn bo hir,
Fe'n gwelir o un galon. E. J.

HYMN 9. M. C. Sabbath.

Gweddi am fendith ar ddysgu y Gair.

O ARGLWYDD, Llywydd nef a llawr,
Yn awr wrth ddysgu d' eiriau,
Pâr di eu bod hwy megys gwlith,
Yn fendith i'n heneidiau.

Ar Grist a'i angau boed o hyd
Ein bryd a'n myfyrdodau:
Mae 'n ogoneddus, hawddgar iawn,
A llawn o ryfeddodau.

Y mae holl flodau teg y byd,
Ar fŷr o bryd, yn gwywo;
Ond tegwch Iesu sy'n parhau;
Rhown ein serchiadau arno. J. H.

HYMN 10. M. C. Weston Favel.

Tangnefedd a buddugoliaeth trwy Grist.

DY lwybrau di ynt hyfryd iawn,
Dy ffyrdd ynt lawn hyfrydwch,
Nag amlder ŷd, neu win, fy Nuw,
Melysach yw dy heddwch.

Ein traed a gawn ar wddf y ddraig,
Trwy Hâd y Wraig sy'n eiriol;
Awn, gan fod Iesu ar ein rhan,
I'r làn, i'r làn yn wrol.

[Y'mlaen heb ffoi, trwy gyflawn ffydd,
Tra byddo 'r dydd yn para,
Pob un y sydd a'i sicr sail
Yn haeddiant yr ail Adda.]

[O'r deau, ac o'r dwyrain draw,
A'r gogledd, daw rhai ffyddlon;
Ac hefyd o'r gorllewin dir,
Pob un o'r gwir dduwiolion.] W. W.

HYMN 11. M. C. Myllin.

Gorphwysdra yn Nghrist i'r blinderog a'r *llwythog*.

DY serch a'th gariad dyro 'n rhwydd
Ar Arglwydd yr Arglwyddi;
Tywysog harddaf o bob rhai,
Ar ddengmil mae 'n rhagori.

Dim ond ei hedd a wna yn iach
Fy enaid bach lluddedig:
Po fwyaf gâf o hono 'rwyf
O hyd yn fwy sychedig.

[Y man b'ost di, bid fryn neu fro,
Sy gyflawn o ddyddanwch;
Yn dy gynteddau 'n wastad mae
Ryw fôr di drai o heddwch.

O dwg fy enaid llesg i'r làn,
I'r man 'rwyt ti 'n preswylio;
Wrth deithio 'r anial mawr yn hir,
Wyf wedi gwir ddiffygio.] W. W.

HYMN 12. M. C. Hafren.

Deisyfiadau am yr Ysbryd Glân.

O DEFFRO, deffro, gwisga nerth,
O brydferth fraich yr Arglwydd;
Fel yn y dyddiau gynt a fu
Amlyga 'th alluogrwydd.

I ennyn ynom nefol dân,
Duw, anfon dy Lân Ysbryd;
Aed gyd â'th eiriau sanctaidd di
Nerth a goleuni hefyd.

O Arglwydd, dyro ini 'n glau
Y tywalltiadau nerthol,
O weithrediadau 'r Ysbryd Glân,
A'u grym fel tân angerddol. J. H.

HYMN 13. M. C. Cemmaes.

O flaen pregeth.

O ARGLWYDD Dduw bydd ini 'n borth,
Dod gymhorth o'th drugaredd,
I draethu ac i wrando 'n iawn,
Dy eiriau llawn o sylwedd.

Dy weinidogion gwisg â nerth,
Yn brydferth o'r uchelder;
A doed dy Ysbryd Sanctaidd di
I argyhoeddi llawer.

Duw, gwna dy eiriau megys tân,
Trwy 'r Ysbryd Glân a'i ddoniau;
Dy air fel gordd yn awr a fo
Mewn nerth yn dryllio creigiau. J. H.

HYMN 14. M. C. Eidduned.

Ar dymhor gwlyb.

DAIONUS a thosturiol iawn,
A graslawn ydwyt, Arglwydd;
Dy rad drugaredd yn ddiau
Sydd yn parhau 'n dragywydd.

Wrth rai annheilwng o gael byw,
O Arglwydd Dduw, tosturia;
Ac arbed etto y flwyddyn hon,
Na thòr mo ffon ein bara.

O'th ras tosturia wrth rai ffol,
Haeddiannol o dy gerydd;
Dy fendith ar y wialen dod,
Dysg ini fod yn ufudd.

Duw, dod orchymyn oddi fry,
I chwalu y cymylau;
Can's os gorchymyn genyt gânt,
Attaliant eu costrelau. J. H.

HYMN 15. M. C. Dyfroedd Siloah.

Gweddi am sancteiddhad.

TEYRNASA, Dduw, a bwrw i maes,
D'elynion cas gwrthwyneb:
Ar f' enaid llesg rho'th ddelw 'n llawn,
Nes dod i gyflawn burdeb.

Gwasgara weddill pechod cas,
Sêl fi â'th ras yn drigfan,
Yn berffaith hardd, yn deml wiw,
Adeilad Duw ei hunan. W. W.

HYMN 16. M. C. 8. 6. George.

Goludoedd gras Crist.

MAE Iesu Grist yn drysor mwy
Na holl drysorau 'r byd:
Daeth hedd a bywyd ini trwy
Ei angau gwerthfawr drud.

Trwy ing ac angau chwerw 'r groes:
Fe dalodd iawn i'r Tad:
Ar gyfri'r aberth mawr a roes,
Mae'n gyflawn maddeu 'n rhad.

Mae Iesu 'r Archoffeiriad mawr,
Yn eiriol yn y nef;
Bendithion fyrdd a ddont i lawr,
Trwy ei eiriolaeth Ef. J. H.

HYMN 17. M. C. Betws.

Ysgrifenu y gyfraith yn y galon.

O ARGLWYDD, wrthym trugarha,
A gwna in' gadw 'th ddeddfau:
Ac ysgrifena di 'r ddeddf hon
Yn eigion ein calonau. E. P.

HYMN 18. M. C. Waldingfield.

Deisyfiadau am yr Ysbryd Glân.

ANFON, O Dduw, yr Ysbryd Glân,
Yn enw Iesu mawr:
A'i weithrediadau megys tân,
O deued Ef i lawr.

Yn ol d' addewid fawr ei gwerth,
O tywallt oddi fry
Dy Ysbryd Sanctaidd, gyda nerth,
I weithio arnom ni.

RHAN II. Buckingham.

YN ol d' addewid, Iesu mawr,
Yr awrhon anfon di
Y gwir Ddyddanydd doeth i lawr,
I aros gyda ni.

O'i wir ewyllys deued Ef
I argyhoeddi 'r byd,
Ac arwain etifeddion nef
Trwy 'r anial maith i gyd.

RHAN III. Warwick.

O YSBRYD Sanctaidd, cymmer di
Yn awr o eiddo Crist:
Eglura a mynega i ni
Nes lloni 'n henaid trist.

I bob gwirionedd tywys ni,
I beri in' gael byw;
Can's chwilio pobpeth yr wyt ti
O ddyfnion bethau Duw.

O Ysbryd Sanctaidd, dwg ni 'mlaen
Trwy 'r dyrys anial dir;
Bydd ini 'n golofn niwl a thân,
Nawdd a goleuni gwir. J. H.

HYMN 19. M. C. Arabia.

Ar ddechreu addoliad.

GWEL f' enaid llesg ar làn y llyn,
Yn gofyn am dy gael:
Tyr'd Iesu da cynhyrfa 'r dwr,
Er gwella 'nghyflwr gwael.

Wrth ddrysau moddion cryfion gras,
Er mor anaddas wyf,
I ddysgwyl gair oddiwrth fy Nuw,
'Rwy'n meddwl byw tra b'wyf. E. J.

HYMN 20. M. C. Gabriel.

Cariad Crist.

YMAE holl ddysgwyliadau 'r llawr
Yn siomi a myn'd yn ddim;
Ac mae gwrthddrychau 'n methu 'n lân,
Ag oedd yn fawr eu grym.

Ond etto mi ge's afael lawn
Ar Wrthddrych gwell na hwy,
Ag nas cyfnewid byth mo'i ras
I dragwyddoldeb mwy.

Rhad gariad, a ffyddlondeb maith,
A thrugareddau 'n un,
Ydyw yr enwau garodd Ef
I roddi arno 'i hun.

Fe'm carodd, ac fe'm câr i byth,
Doed y tröadau ddêl:
Ac fe roed geiriau 'i gariad pur
Yn gryno iawn tan sêl.

Am hyn fe gwymp fy meiau oll,
Ond aros gwel'd y dydd;
Can's holl gadwynau uffern faith
Yn ddiau ânt yn rhydd.

Fe gollodd chwant ei afael gref,
Mae beunydd yn gwanhau;
Ac yn ei golled minnau wyf
Yn hyfryd lawenhau. W. W.

HYMN 21. M. C. Ludlow.

Meddyg enaid.

WEL dyma 'r eiddil, dyma 'r gwan,
Yn griddfan wrth dy draed,
Heb genyf obaith am gael byw
Ond trwy dy ddwyfol waed.

Mor anobeithiol yw fy mriw,
'Da'i 'mofyn meddyg mwy,
Ond Ef ei hunan, ar y pren
Ddyoddefodd farwol glwy'.

Am iddo yno grymu ei ben,
A marw ar y groes,
Mwy na rhifedi beiau 'r byd
Yw haeddiant dwyfol loes. W. W.

HYMN 22. M. C. Bath Chapel.

Dymuniadau y pererinion.

MAE pererinion draw o'm blaen,
Yn canu yr anthem bur,
Ac heddyw 'n edrych fel o bell
Ar ddyrysni 'r diffaith dir.

Maent yn rhyfeddu 'r dwyfol ras,
A'u nerthodd ar eu taith;
A chanu cariad addfwyn Oen,
Ffyddlonaf yw eu gwaith.

O nertha finnau i edrych draw,
Heb ŵyro o un tu,
Nes imi gyrhaedd mewn i byrth
Caersalem newydd fry.

Rho'r delyn auraidd yn ein llaw,
Ac yn ein hysbryd dân,
Ac, yn mheryglon anial dir,
Erfyniau pur a chân.

Ni awn fel hyn yn ngwres y nef,
Fel un lliosog lu,
Trwy demtasiynau heb ddim rhif,
I mewn i'r nefoedd fry. W. W.

HYMN 23. M. C. Warwick.

Cyflawnder yr addewidion.

WYF yma 'n teithio crindir eras,
Gwlad galar a gwlad gwae,
Heb unrhyw bleser ynddi i'w gael,
O sylwedd i barhau.

Mae ynof finnau wagder mawr,
Ac nid oes is y nef
Ond hwnw ei hunan enw pur,
Fy Iesu a'i lleinw ef.

Ei addewidion sy tan sêl,
Fel rhyw ffynnonau pur,
Ag sy'n rhoi allan loyw ffrwd,
Tros hyfryd Salem dir.

Mi gerdda 'mlaen tros greigydd serth,
Trwy ddyrysni, a thrwy ddrain,
Ond im' gael profi ar fy nhaith
O hyfryd fias y rhai'n.

Caf nerth i'w ganlyn tra fwyf byw,
A doed hi fel y del;
Mae prawf o'i gariad fel y gwin,
Neu hyfryd ddiliau mêl. W. W.

HYMN 24. M. C. Michael Royal.

Ymnerthu yn yr Arglwydd.

NID oes o fewn i mi i gyd
Ond beiau mawr eu grym:
Rhaid imi gael dy haeddiant drud,
Neu ynte fod heb ddim.

Y dyledswyddau goreu 'u rhyw,
Twyllodrus ynt a gwan:
Ac nid oes ond anfeidrol Dduw
A all fy nghodi i'r làn.

Boed gorsedd gras yn rhydd i mi
Tan bob euogrwydd llym,
Mal gallwyf orfoleddu 'n hyf
Er elynion mawr eu grym. W. W.

HYMN 25. M. C. Staughton.

Sancteiddio y serchiadau.

O CYMMER fy serchiadau 'n glau,
Fy Iesu bob yr un,
A gwna hwy yn eisteddfod bur
Sancteiddiaf it' dy hun.

A gwna bob meddwl, a phob chwant,
I dynu fynu fry,
Nas gwthio holl derfysgau 'r byd
Fi maes o'th gariad cu.

Ni wnaed yr enaid hwn erioed
I garu llwch y llawr;
Ond i gael meddu braint a roed
I gadw i f' Arglwydd mawr. W. W.

HYMN 26. M. C. Lydia.

Doniau y Pryniawdwr.

FFARWEL greaduriaid gwychaf ryw,
Pob enwau îs y ne',
Ni welaf wrthddrych wna fy modd,
Yn unig ond Efe.

Ei ddoniau sy'n rhagori 'mhell
Ar holl freninoedd byd;
A theimlo 'r wyf ei fod ei hun
Yn hollol lanw 'mryd.

Mae 'i eiriau fel y diliau mêl,
A'i holl orch'mynion sy
I gyd yn dangos rhinwedd faith
Sancteiddrwydd nefoedd fry.

Mae 'i addewidion fel yr haul
Yn sicr o gadw eu lle;
Ac nid à'r leiaf sill ar goll
O'i hyfryd eiriau E.

A minnau 'n hollol rof fy mhwys
Ar allu 'Mrenin mawr,
Yr hwn a'm nertha i fyned trwy
Gystuddiau maith y llawr. W. W.

HYMN 27. M. c. Bath Chapel.

Cysuron iachawdwriaeth.

DYSGWYLIAF wrth d' addewid bur,
O'r bore hyd y nawn,
Ac os caf brofi 'r gloyw ddwr
Mi fyddaf ddedwydd iawn.

Gâd imi brofi 'r heddwch llawn,
Y dwfr rhinweddol gwiw,
Ag sydd yn tarddu 'n loyw ffrwd
O orsedd bur fy Nuw.

Rho imi yfed cariad rhad,
Mewn dyrys anial dir,
A phrofi rhinwedd dwyfol ddawn,
Cysuron gloyw clir.

Mi deithia 'n ddifyr yn y blaen,
Dros greigydd serth i'r làn:
A dof i olwg Sïon bur,
Yn gynnar yn y man. W. W.

HYMN 28. M. c. *George's.*

Helaethiad teyrnas Crist.

O DOED teyrnasoedd byd yn rhwydd
Yn eiddo 'n Harglwydd ni;
Trwy 'r ddaear caner heb nacâu
Am angau Calfari.

O Iesu, cymmer d' allu mawr,
Teyrnasa 'nawr mewn nerth,
Gŷr y tywyllwch du ar ffo,
A phawb a welo'th werth.

Gwregysa 'th gleddyf ar dy glun,
O Gadarn Un yn awr:
Mewn llwyddiant marchog ŝs y rhod,
Ti wyt i fod yn fawr.

Mi welaf wawr yn codi draw,
Yn fuan daw y dydd,
Y'mhob rhyw le o'r ddaear lawr
Yr Iesu 'n fawr a fydd. R. E.

HYMN 29. M. C. Mount Pleasant.

Swydd brophwydol Crist.

MAE Iesu Grist yn Brophwyd mawr,
Y mwyaf yw i gyd:
Er maint ein tywyllwch, wele wawr,
Crist yw Goleuni 'r byd.

O Brophwyd mawr! i'w enw boed
Anrhydedd a mawrhad;
Daeth â'r newyddion goreu erioed,
Am iachawdwriaeth rad.

Mae yn amlygu pethau 'r ne'
Yn eu prydferthwch coeth:
Pwy sydd yn dysgu fel Efe?
Mae 'n gwneud y ffol yn ddoeth!

O Brophwyd mawr yn Sïon sydd,
Ti a oleuaist fyrdd;
A'th air, a'th Ysbryd, etto bydd
I'm harwain yn dy ffyrdd.

Dwg fi, y ffolaf un a gaed,
O'r dwfn dywyllwch du;
Gad imi eistedd wrth dy draed
I wrandaw d' eiriau cu.

R. E.

HYMN 30. M. C. Worship.

Newyddion da o lawenydd mawr.

MESSIAH gaed, daeth ini 'n frawd,
Fe geidw rif y gwlith:
Y dwyfol Air a wnaed yn gnawd,
Pabellodd yn ein plith.

I'r byd fe ddaeth Tywysog nef,
Gwaredwr dynol ryw;
Yn Bethlehem y ganwyd Ef,
A Christ yr Arglwydd yw.

Boed y gogoniant trwy 'r nef fry,
Byth, byth, i'r Tri yn Un;
Trwy'n Ceidwad gwiw, tangnefedd sy,
A gras i euog ddyn.

P. J.

HYMN 31. M. C. Michael Royal.

Cwymp dyn.

DYN mewn anrhydedd is y nef
Ni safodd enyd awr:
Trwy anufudd-dod syrthiodd ef
O'i fawredd oll i lawr.

Fe dynodd felltith arno 'i hun,
Ac ar holl ddynol ryw:
O chwerw dro! trwy gamwedd un
Daeth barn ar bob dyn byw.

Daeth gwenwyn tost o ffrwyth y pren
Trwy dwyll y sarff i ni;
Ond drylliodd Had y Wraig ei phen
Ar fynydd Calfari. P. J.

HYMN 32. M. C. Gratitude.

Diolchgarwch.

TYDI wyt deilwng o fy nghân,
Fy Nghrëwr a fy Nuw;
Dy ddoniau o fy amgylch maent,
Bob mynyd 'rwyf yn byw.

Mi glywa 'r haul, a'r lloer, a'r sêr,
Yn dadgan dwyfol glod;
Tywynu 'n ddysglaer 'r wyt o hyd,
Trwy bobpeth sydd yn bod.

O na foed tafod dan y rhod
Yn ddystaw am dy waith;
Minnau fynegaf hyd fy medd
Dy holl ddaioni maith.

Diolchaf am dy gariad cu,
Yn estyn hyd fy oes;
Diolchaf fwy am UN a fu
Yn gwaedu ar y groes.

Diolchaf am gysuron gwiw,
Wyf beunydd yn fwynhau;
Diolchaf fwy am Brynwr trist,
I mi gael llawenhau. D. C. IEU.

HYMN 33. M. C. High Beach.

Mawl am grëedigaeth a rhagluniaeth.

DADGANAF allu mawr fy Ior,
A wnaeth fynyddau 'r byd,
Yr hwn fu 'n taenu 'r llydan fôr,
A'r awyr faith ynghyd.

Dadganaf y doethineb llawn
A drefnodd haul y dydd;
Y lloer a'r sêr yn barod iawn
I wneyd ei air y sydd.

Dadganaf fawr ddaioni Duw,
Sydd yn diwallu 'r byd;
A'i air fe grëodd bobpeth byw,
A da ei waith i gyd.

[Pa mor ryfeddol, Arglwydd mawr,
Y'mhobman yw dy waith!
Os tremiaf isod ar y llawr,
Neu fry i'r awyr faith.

Y blodau màn, a'r deiliog wŷdd,
Sy'n amlwg i'th fawrhau;
Cymylau a thymhestloedd sydd
I'th air yn ufuddhau.]

[Pob rhyw greadur îs y rhod
Sydd dan dy ofal gwiw;
Un lle i ddianc nis gall fod
Ond yno y mae Duw.

A'i gariad mae yn llenwi 'r Nef,
Ond Uffern gyd a'i lid!
Byw 'r wyf a symud ynddo Ef,
I'm cynnal mae o hyd.

Ei law i'm gwylio 'n wastad sydd,
Fy Ngheidwad unig yw:
Paham gan hyny 'n anghof bydd
Yr hwn sy'n rhoi imi fyw.] R. O.

HYMN 34. M. C. Funeral Thought.

Rhinweddau ffynnon Calfaria.

MAE ffynnon hyfryd lawn o waed
A redodd ar y bryn:
Y pechaduriaid duaf gaed
A olchir ynddi 'n wŷn.

Bu 'r lleidr aflan un pryd nawn
Yn edrych arni 'n llon:
A minnau olchir sydd yn llawn
Mor frwnt ag ef yn hon. D. C.

HYMN 35. M. C. Piety.

YR Iawn a dalwyd ar y groes
Yw sylfaen f' enaid gwan:
Wrth bwyso arno ddydd a nos,
'Rwy'n dysgwyl dod i'r làn.

HYMN 36. M. C. D. Elliw.

Profiad y Cristion.

P'LE mae pechadur fel myfi,
(Mawr yw daioni Duw)
Fu'n rhwym gan Satan ddyddiau hir
Ac etto ar dir y byw;
Bum iddo 'n was, etifedd wyf,
Ni byddaf mwy mor gaeth,
Aeth Crist a'm bywyd, ac mi ce's,
A mawr yw 'r lles a wnaeth.

Galaru 'r wyf mewn dyffryn du,
Wrth deithio i dŷ fy Nhad;
Ar ben y bryniau 'n llawenhau,
Wrth weled cyrau 'r wlad;
'Rwy'n ddu fy lliw, a'm gwisg yn wen
'Rwy'n llawen ac yn brudd;
'Rwy'n agos iawn, ac etto 'mhell,
Rwy'n waeth, 'rwy'n well bob dydd.

D. J.

HYMN 37. M. B. Persia.

Rhagoriaeth Crist.

PE caid y ddaear gref,
A'i meddu yn ei maint,
Cael Iesu 'n rhan, a'i ddilyn Ef,
Sy fil rhagorach braint.

Pe cawn holl berlau 'r llawr,
A holl bleserau 'r byd,
Yn wyneb gras fy Iesu mawr
Fel us yr aent i gyd.

Pe bawn mewn cystudd trist
Yn dyoddef trwy fy oes,
Un olwg ffydd ar gariad Crist
Felysai bob rhyw loes.

Rho undeb ffydd, O Dduw,
Ag Ef, y bywiol ben;
Byw iddo nes myn'd ato i fyw,
Yn wiw i'r nefoedd wen.

(58) R. E.

HYMN 38. M. B. Union Cottage.

Cariad Duw.

CYDUNED Sïon làn,
Mewn cân bereiddia 'i blas,
O fawl am drugareddau 'r Ion,
Ei roddion Ef a'i ras.

P'le gwelir cariad fel
Ei ryfedd gariad Ef?
P'le bu cyffelyb iddo erioed?
Rhyfeddod nef y nef!

Fe'n carodd cyn ein bod,
A'i briod Fab a roes,
Yn ol ammodau hen y llw
I farw ar y groes.

[Gwnaeth Iesu berffaith Iawn,
Bryd nawn ar Galfari;
Yn ei gyflawnder pur dilyth
Mae noddfa byth i ni.

Anfeidrol ydyw gwerth
A rhîn ei aberth mawr,
I achub rhyw aneirif lu,
O deulu gwael y llawr.

Y rhai yn berffaith làn
A beraidd gàn i gyd,
I'r bendigedig unig Oen,
Yn iach o boen y byd.]
(58) IAGO.

HYMN 39. M. B. D. Rockets Hall.

Y manna.

MAE 'r manna gwedi 'gael
Mewn dyrys anial dir,
Ymborthi cawn ond myn'd y'mlaen,
Ar ffrwythau 'r Ganaan bur;
Mae yno sypiau grawn
Yn llawn o fewn y lle;
O Ffrynd troseddwyr, moes dy law,
A thyn fi draw i dre'.
(63) W. W.

HYMN 40. M. B. D. Leigh.

Y golofn niwl a thân.

'DOES le i ni golli 'r ffordd,
Mae niwl y dydd o'n blaen;
Fe'n tywysir trwy 'r anialwch hir
Gan golofn bur o dân:
Fe arwain dwyfol ras
Ni'n gywir maes o law,
Trwy ganol maith sychedig dir
I'r Ganaan bur sy draw.

Cyflawnir gair fy Nuw
A doed hi fel y del;
Can's holl amcanion nefoedd fry
Bob sillaf sy tan sel;
Ac ar ei air a'i nerth,
A dwyfol werth ei waed,
Mi âf, trwy holl elynion hy,
I mewn i dŷ fy Nhad. W. W.

HYMN 41. M. B. D. Vermont.

Y sarff bres, a thaith yr anialwch.

PALMENTIR llwybyr in'
Trwy ganol moroedd maith,
Ac er gelynion fawr a mân,
Cawn fyn'd y'mlaen i'n taith;
Ar drostan heddyw 'n nes
Mae 'r sarff o bres yn glir,
Os clwyfir un pererin gwan,
Sy'n myn'd i'r Ganaan dir.

Mawr iawn yw nerth y nef,
Mae 'i arfaeth Ef yn dàn,
Yn llosgi y'mhob bryn a bro
Bob rhwystr a fo o'i blaen:
'Dyw Moab er ei llid,
Na Seir ynghyd ond dim,
Mil mwy doethineb nefoedd fry,
A rhagor yw ei rym.

Iorddonen dry yn ol,
'Roi lle i'r nefol had,
I etifeddu 'r hyfryd fàn
Addawyd gan y Tad;
Ni all pechod nac un chwant
I attal plant y nef,
I dreiddio trwy bob llif a thòn
Yn union ato Ef.

W. W.

HYMN 42. M. B. D. Tröas.

Awyddfryd y Cristion.

MAE arnaf eisiau zêl,
A chariad yn dy waith;
Nid oddiar ofn y gosb a ddel,
Nac am y gwobr chwaith;
Ond rhyw ddymuniad llawn
I ddercha 'th gyflawn glod,
Ac iti wrthyf drugarhau,
A chofio am dana'i erioed.

HYMN 43. M. B. D. Olney.

Y rhyfel ysbrydol.

O ARGLWYDD, tyr'd i lawr,
Mae 'n frwydyr chwerw iawn,
O fore las-ddydd heb ei hail,
Hyd fachlud haul bryd nawn:
Mae 'meiau megys llu
Yn gyndyn gry' o ryw,
Ac nid oes modd i'w cael hwy lawr,
Ond gallu mawr fy Nuw.

Am hyn rhof arno 'mhwys,
Er maint eu cyfrwys lu;
Fel un cystuddiol mi rof floedd
I entrych nefoedd fry;
Mi goda'm dwylo i'r làn,
Lluddedig, gwan, a gwyw,
Ac ni wangredaf gario 'r dydd,
Fy nghymhorth fydd fy Nuw. W. W.

HYMN 44. M. B. D. Lonsdale.

Am adnabod Crist.

WEL, dyma 'r Ceidwad mawr
A ddaeth i lawr o'r nef,
I achub gwaeledd, llwch y llawr;—
Gogoniant iddo Ef;
Bu farw yn ein lle
Ni, bechaduriaid gwael;
Mae pob cyflawnder ynddo 'fe
Sydd arnom eisiau gael.

Ei nabod Ef yn iawn
Yw 'r bywyd llawn o hedd;
A gwel'd ei iachawdwriaeth lawn
Sydd yn dragwyddol wledd:
Cael teimlo gwaed y groes
Yn dofi 'r loes a'r cur,
A wnaeth i filoedd o bob oes
I seinio 'r anthem bur.

HYMN 45. M. H. Salvation.

"Gorphenwyd."

GORPHENWYD! medd ein Iesu mawr:
A'i fywyd rhoes o'i fodd i lawr:
Gorphenwyd! do, fe gaed y dydd;
Fe dalwyd Iawn, daw 'r caeth yn rhydd.

Gorphenwyd—cynghor Duw heb goll,
Y ddeddf, a'r addewidion oll;
Cyflawnwyd nôd y rhai'n i gyd,
Yn Iesu, Prynwr mawr y byd.

Gorphenwyd! clywch y gair i gyd;
O hyfryd sain! amgylcha 'r byd:
Gorphenwyd! aed yr adsain lon
Trwy nef y nef a'r ddaear gron. P. J.

HYMN 46. M. H. Antigua.

Cyflawnder Crist.

MAE 'r graig, mae f' enaid arni 'n byw,
Yn well na'r perlau goreu 'u rhyw,
Cyflawnder bythol, dwyfol, drud,
A bwysa 'i hunan fwy na'r byd.

Os daw y gyfraith yn ei grym,
A gofyn am berffeithrwydd im',
'Does geny' ond dangos angau loes,
A gwaed yn llifo ar y groes.

Fy haeddiant mawr yn nghanol ne',
Yw Iesu 'n feichiau yn fy lle;
Ei boenau Ef yn unig sydd
Yn gwneud yr orsedd wen yn rhydd.

Tystiodd fy Nuw o ganol nef,
"Ce's lawn foddlondeb ynddo Ef,"
A bod ei saint, o fawr i fân,
Yn haeddiant Iesu oll yn lân.

Mae ynddo hefyd allu mawr,
I gael fy meiau mwya' i lawr;
Ei holl ddoethineb Ef a'i ras,
O rwydau 'r ddraig a'm tyn i maes. W. W.

HYMN 47. M. H. Cheshunt New.

Esgyniad Crist i'r nefoedd.

I'R làn o'r bedd ein Harglwydd daeth,
Esgynodd fry tu fewn i'r llen;
Galluoedd uffern ddyg yn gaeth,
Trwy 'r awyr las hyd entrych nen.

O flaen ei gerbyd dysglaer ef,
Bloeddiai angelion ar bob llaw,
Codwch eich penau, byrth y nef,
Chwi ddrysau oesawl ciliwch draw.

Yn llydan gwnewch y ffordd yn rhydd,
A throwch yn ol chwi folltau 'r gwawl:
Gwir Frenin y gogoniant sydd
Yn dod i mewn, mae ganddo hawl.

Pwy ydyw 'r Iôn gogonawl? pwy?
Yr Arglwydd nerthol, cryf mewn câd;
Ei holl elynion maeddodd hwy,
Yn awr mae 'n esgyn at ei Dad.

Crist Iesu yw, derbyniwch ef;
Mae 'n Frenin mawr i mewn fe ddaw:
Codwch eich penau, byrth y nef;
Chwi ddrysau oesawl ciliwch draw.

Pwy ydyw 'r Brenin enwog? pwy?
Arglwydd y lluoedd, Ef yw 'r Pen:
Hwn gaiff y mawl a'r enw mwy;
Bendigaid fydd byth byth, Amen. P. J.

HYMN 48. M. H. Portugal.

Cyfaill yn angau.

YMDEITHYDD wyf yn awr o hyd
Mewn maith a thrallodedig fyd;
Nid yma mae fy nghartre 'n wir,
'Rwy'n teithio tua Salem bur.

Pam carai 'i 'r byd a'i wagedd mwy?
Hyd angau 'n brin y deuant hwy:
Gwell genyf garu 'r ffrynd a ddaw
Yn angau i 'maflyd yn fy llaw. W. W.

HYMN 49. M. H. Savoy.

Dyddanwch yr Ysbryd.

O DDEDWYDD, ddedwydd, deulu Duw,
Yr Ysbryd eu Dyddanydd yw;
Gweinyddu cysur cryf y mae,
I loni 'r gwan mewn ing a gwae.

O Ysbryd Glân, tyr'd i'n bywhau,
A'n rhoi mewn hedd i lawenhau;
Diddyma bob rhyw ddeddfol ofn,
A chynnal yn yr afon ddofn.

Dyddanwch gwir yr Ysbryd Glân,
A ddeil ei rym mewn dwfr a thân:
A chael ei ymweliadau rhad
Sy flaen-brawf hoff o'r nefol wlad.

O Ysbryd Duw, rho dy fwynhau,
Ac na foed imi dy dristâu;
Yn dy ddyddanwch gad im' fyw,
Yr ernes o baradwys yw.

(80) R. E.

HYMN 50. M. H. Oswestry.

Dedwyddwch yn nghymdeithas Duw.

TYDI, fy Nuw, tydi dy hun,
Yw gwraidd fy nghysur oll yn un;
Meddyliau am danat sy'n rhoi blas
Ar ragluniaethau croesaf maes.

Pan gaffwyf wel'd dy ddwyfol wedd,
A phrofi blas dy ddwyfol hedd,
'Rwy'n gwel'd gogoniant mwya'r byd
Fel peth annheilwng o fy mryd.

Yn ngweledigaeth nefoedd fry
'Rwy'n prisio pethau 'n werthfawr sy;
Pan yr agoro pyrth y nef,
'Rwy'n canfod ei ogoniant Ef.

Wel, dyma 'r unig fan, fy Nuw,
Dymunaf aros tra f'wyf byw;
Blaenffrwyth yw hyn o'r hyfryd wledd,
Gaf ei mwynhau tu draw i'r bedd.

Ond boed fy nghlustiau 'n gwrando o hyd
Ddirgelion dystaw nefol fyd;
A'm pleser unig, ddydd a nos,
Yn nyfnion wirioneddau 'r groes.
(84) W. W.

HYMN 51. M. H. Peru.

Dyfodiad Crist i farnu y byd.

MAE Brenin nef ar fyr yn dod,
Mewn rhwysg na welodd neb erioed;
Mae angau, uffern fawr, a'r bedd,
Yn ofni edrych ar ei wedd.

Fe lysg y byd yn ulw mân,
Fe dry 'r greadigaeth fel o'r blaen;
Cwymp y planedau er eu maint,
Bydd Iesu 'n Frenin ar ei saint.

Mi wela 'n codi 'r seren ddydd,
Mi glywa'r canu yno fydd;
Angelion gyd â'r saint yn un,
Yn cadw cwmni Mab y Dyn.
(80) W. W.

HYMN 52. M. H. Berwick.

Melysder cyfeillach Crist.

YR Oen a laddwyd ydyw rhan,
A holl hyfrydwch f' enaid gwan!
'Fu neb o feibion Adda erioed
A rhwymau mwy i ganu ei glod.

Ni phrofais ddim o tan y nef
Mor felys a'i gyfeillach Ef;
Pe chwilid, ni chaid dim i maes,
Trwy 'r nefoedd fry, bereiddiach blas.

Rhagori ar ddeng-mil mae ei wedd,
'Rwy'n llawn foddloni ar ei hedd;
Ni cheisiaf bleser tan y nef
Ond digon o'i gyfeillach Ef.

Ei ganmawl bellach wnaf o hyd,
Er maint o boenau sy'n y byd;
Dechreuais gân a bery 'n hwy
Nag y cair diwedd arni mwy.
(83) W. W.

HYMN 53. M. H. Burlington.

Crist yw nerth y credadyn.

AR dy enw di, Iachawdwr byd,
Rhof fy ymddiried oll i gyd;
Rhyfedd mor wan wyf ddydd a nos,
Nis gwelaf nerth ond ar y groes.

Cymmer fi, Iesu, fel yr wyf,
Cuddia fi yn dy nefol glwyf:
Can's dyna 'r graig y gwnaf fy nyth,
'Does neb yn ofni yno byth. W. W.

HYMN 54. M. H. Savoy.

Y Drindod.

UN wyt, fy Nuw, ac etto TRI,
Dirgelwch yw rhy fawr i mi:
Gog'yd tragwyddol, felly 'th gair
Wedi 'th ddadguddio yn dy air.

Pan gilio ffwrdd gysgodau 'r hwyr,
A'r llèn i'r llawr ei rhwygo 'n llwyr,
Efallai cair, trwy lewyrch gwell,
I ganfod mwy i'r dyfnder pell.

Tad yn y Mab, Mab yn y Tad,
Ac yr un wedd mae 'r Ysbryd rhad;
Y man bo un y lleill y sy;
O ryfedd Fod! Un yw y Tri.

Pob priodoledd yn ddi ball
A gair yn un gair yn y llall;
Y Tad, y Mab, a'r Ysbryd cun,
Sy Dduw, er hyn nid yw ond Un.

A chan y Drindod yma mae
Yr unig allu i'm hiachau;
Tri gorchwyl mawr anhebgor sy
Cyn gallu 'm dwyn i'r nefoedd fry.

Rhaid oedd fy newis gan y Tad,
A marw Iesu troswy'n rhad,
A'r Ysbryd i gymhwyso i gyd
Yr iachawdwriaeth werthfawr ddrud.

W. W.

HYMN 55. M. H. Ramsgate.

Y cwbl yn rhad.

O ARGLWYDD, ti sy'n maddeu bai
Yn rhad i'r edifeiriol rai,
Fy unig hawl i'r nefoedd sy
Trwy d' angau ar bèn Calfari.

Rhyfeddu 'r wyf i'r coelbren ddod
A'r nefoedd wen i'm rhan erioed;
Os yno 'r âf, mi gara 'r gwaith
O ganu i dragwyddoldeb maith.

Yn rhad y ces, yn rhad mae 'n bod
Bob peth a roddwyd im' erioed?
Mae'r cwbl oll yn rhad i mi
O'r ddaear hon i'r nefoedd fry. W. W.

HYMN 56. M. H. Foundling.

Tosturi a chariad Iesu yn marw drosom.

P'LE mae tosturi tan y nef
Cyffelyb i'w dosturi Ef?
Creawdwr dae'r a nefoedd fawr
Yn rhoddi ei fywyd oll i lawr.

O wyllys rhydd, o gariad rhad,
Tywalltodd Ef ei werthfawr waed;
Ennillodd enw mawr di lyth,
A chlod na dderfydd mo'no byth.

O ffynnon fendigedig wiw!
Tòrodd o honi waed fy Nuw;
Ond dyma 'r gwaed a'r dwfr drud,
Sy'n golchi holl bechodau 'r byd. W. W.

HYMN 57. M. H. Nailsworth.

Cyfriñiad o bechodau ei bobl ar Grist.

CLOD d' olwg, f' enaid, fynu fry,
A gwel yr Oen ar Galfari,
Yn dyodde'n ddiddig ac yn fwyn,
Wedi 'gondemnio er ein mwyn,

Edrychwch arno dyma 'r Dyn,
A phwy oedd Ef ond Duw ei hun;
Pechodau 'r holl greadiniol fyd
A bwysodd ar ei 'sgwyddau 'nghyd.

O feiau mawr beth all'sech fwy
Na rhoddi i Frenin nefoedd glwy;
Lladdasoch Ef—fe drodd y rhod,
Mae dydd eich dial chwithau 'n dod.

W. W.

HYMN 58. M. H. Admiration.

Rhyfedd ddyoddefiadau Crist.

WEL, weithiau cod, fy enaid cu,
Dy lygad tua'r nefoedd fry,
Gwel yr anfeidrol berffaith iawn,
Sy'n maddeu 'th bechod oll yn llawn.

Y moroedd mawr, y ddaear faith,
A llu 'r ffurfafan yw ei waith,
Er hyny rhodd ei fywyd cu
I angau chwerw trosof fi.

Dyfaderoedd annhraethadwy mwy,
Didrai, difesur, sy'n ei glwy';
Ein hanwireddau fe'n eu dwyn,
A ninnau 'n rhyddion er ei fwyn.

Wel dyma 'r modd y talodd Ef
Ofynion mwyaf tryma'r nef;
Yn awr mae 'r carcharorion prudd
Yn llawen hyfryd ddod yn rhydd. W. W.

HYMN 59. M. H. Lutton.

Offeiriad i wella y pla.

PECHADUR aflan wyf o'r bru,
Mewn gwraidd a changen oll yn ddu,
Pechadur llwm, heb nerth, heb ddawn,
A drochwyd mewn trueni llawn.

Er dyfned yw fy mhla a'm nych,
Mae gènyf Arch-offeiriad gwych;
Fe wella 'nghlwyf, fe ddwg fy maich,
Mae f' enw ar ei fron a'i fraich.

O fewn i'r nef mae heddyw Frawd,
Yn ogoneddus yn fy nghnawd,
Yn dadleu 'n bur ei haeddiant gwiw:
Câf finnau welliant i fy mriw. T. J.

HYMN 60. M. H. Stanley.

Mawl i'r Drindod.

I'R Tad a'i gariad rhoddwn glod,
O'r ffynnon nefol hon mae 'n dod,
Afonydd o lawenydd fry,
A ffrydiau o gysur yma sy.

Gogoniant i Fab Duw o'r nef,
O'i anwyl gorff briwedig Ef,
Daeth gwerthfawr ffrwd o fywiol waed,
Bywyd i'r meirw a rhyddhad.

Rhown glod i'r Ysbryd Glân bob pryd,
Hwn yn ein calon ddrwg a ddyd
Ei ras fel ffynnon fywiol hardd,
Ac i ogoniant byth y tardd.

Duw Dad, Duw Fab, addoli wnawn,
Un wedd Duw Ysbryd a fawrhawn;
Môr heb un gwaelod nac un traeth,
O fywyd, cariad, ac o faeth. *Dr. W.*

HYMN 61. M. H. Beddington.

Llwyddiant yr efengyl.

O ARGLWYDD Dduw, bywha dy waith,
Trwy holl derfynau daear faith:
Tros dir a môr, dysgleiria 'maes,
Yn nerth dy anorchfygol ras.

Mae Babilon yn crynu 'n wir,
Mae 'n rhwym o gwympo cyn bo hir;
O Arglwydd, brysia, rhwyga 'r llen,
Boed Sion bur trwy 'r byd yn ben.

Mae 'r seithfed dydd a'r seithfed awr,
Yn agosâu ar Babel fawr;
Fe syrth ei muriau bob yr un,
O flaen efengyl Mab y Dyn.

HYMN 62. M. H. Peters.

Swper yr Arglwydd.

'RYM wrth dy fwrdd, O Arglwydd cun,
Yn ceisio 'th weled di dy hun;
Gwag ydyw 'r bwrdd, trist ydyw 'r wledd,
Heb weled dull dy hyfryd wedd.

Dy ogoniant mawr, dy angau drud,
Dywyno arnom ni i gyd;
A hyn wna 'n gwleddoedd yn ddi drai,
A hyn wna ini lawenhau.

Ni gawn ymddangos cyn bo hir,
O flaen yr orsedd ddysglaer glir,
Mewn gwisgoedd gwynion, lleision, rhad,
Wedi 'u taenellu yn y gwaed.

Treuliwn ein bywyd bellach byth,
Mewn un llawenydd pur di lyth;
Cofiwn dy enw, seiniwn glod,
Tra nefoedd wen hyd fyth yn bod. W. W.

HYMN 63. M. H. Duke Street.

Adfywiad grasau yr eglwys. Can. 4. 16.

O DYRED, y gogledd-wynt clir,
Anadla ar dy lysiau pur;
Tyr'd â'r awelon hyny lawr
Sy'n deffro 'r arg'oeddiadau mawr.

Tyr'd dithau, y deheu-wynt clyd,
Sy'n codi 'n henaid uwch y byd:
Doed pob awelon yn eu lle,
I godi 'm hysbryd tua thre.

Fel byddo pob rhyw nefol ras
Yn taenu safwyr pur i maes;
A phob tymherau, yn eu rhyw,
Oll yn croesawi f' anwyl Dduw.

O tyr'd i'th ardd, fy Anwylyd pur,
Mae 'r amser hebddot yma 'n hir,
Bwyta dy ffrwyth, o nefol rin,
Pereiddiaf, blanaist ti dy hun. W. W.

HYMN 64. M. H. Job.

Mawl am brynedigaeth trwy waed Iesu.

O'R holl fendithion ga's y byd,
Wel dyma'r fwyaf un i gyd,
I'm Iesu ei hun,
Tros afian ddyn, roi 'i fywyd pur.

Wel, f' enaid, bellach dos y'mlaen,
Nac ofna ddwr, nac ofna dân;
Aeth tan y groes,
Ac angau loes, ei Hun o'n blaen.

Boed iddo mwy ganiadau o glod,
Tra nefoedd fawr a dae'r mewn bod,
Ac na boed sôn,
Ond am yr Oen a'i farwol glwy'.

O d'weded pawb am rin y gwaed,
Maddeuant llawn, maddeuant rhad;
Dim achwyn mwy,
Ond canu am glwy' Calfaria fryn. W. W.

HYMN 65. M. H. Teml Sion.

Dedwyddwch y gwaredigion.

FE syrth y sêr i lawr o'r nen,
Fe dywyllia 'r bydoedd mawr uwch ben,
Fe sych y môr,—
Bydd f' Arglwydd Iesu yr un o hyd.

Bydd gwraig yr Oen, y bore hwn,
Yn canu 'n iach heb boen a phwn,
Ar ddiebeu law
Ei Phriod, draw, heb farw byth.

Cair gwel'd y dyrfa ddysglaer fawr,
Rifedi gwiith y fore wawr,
Heb friw na phoen,
Yn canu i'r Oen y newydd gân.

O gwyn ei byd y dyrfa fawr,
Yn iach a hedodd uwch y llawr;
Marwolaeth mwy
Ni chwrdd â hwy sy fry mewn hedd.

M. R.

HYMN 66. M. H. Llansawel.

Ffynnon i bechod ac aflendid.

MAE gwedd ei wyneb yn iachau
Y cleifion a'r dolurus rai;
Fy Meddyg yw:
Nis gallaf fyw byth heb fy Nêr.

O golch fi yn y ffynnon fawr,
A redodd dan dy fron i lawr,
O ddwfr a gwaed;
Rho imi 'n rhad fy llwyr lanhau. M. R.

HYMN 67. M. H. D. Yarmouth.

Marwolaeth, adgyfodiad, ac esgyniad Crist.

WRTH weled Iesu ar y pren,
Galarai merched Salem fawr!
Tywyllwch prudd orchuddiai 'r nen!
Gan dwrf disymwth crynai 'r llawr!
Rhai dagrau llawn, rhown, rhown o fodd,
Er mwyn y Gwr i'n deddfle gaed:
Defnynau fyrdd Ef trosom rhodd,
Defnynau fyrdd o burach gwaed.

Ior nef yn marw tros y byd,
Pa gariad mawr! pa ofid yw!
Ond wele wawr gorhoenus bryd—
Yr Iesu 'n dod o'i fedd yn fyw!
Yr uchel Ddaw sy'n gadaw 'r bedd!
Yn nghanol hardd angelaidd lu,
Buddugol esgyn Brenin hedd,
A bloedd a sain llawenydd fry.

Na wylwch saint! derchafwch Ef
Sydd uwchlaw pawb—eich gwared wnaeth:
Anrheithiodd nerthoedd uffern gref,
Gan ddwyn y gwrthfil angau 'n gaeth!
Byw fyddo 'r Brenin bythol fawr,
A aned yn Adferwr hedd!
Dy golyn, angau, mae yn awr?
A mae dy fuddugoliaeth, fedd? O.

HYMN 68. M. 50. Yr hen 50ain.

Gogoniant y nefoedd.

AR aden ffydd, esgyna, f' enaid cu,
Gwel d' etifeddiaeth, uwch y wybren fry:
Ni ddëall dyn, ni ddichon tafod chwaith
Fyth draethu maes, ei phur ogoniant maith:
Yno teyrnasa Iesu yn dragwyddol,
Ar bechod, angau, uffern, yn fuddugol.

Un gofid trwm, na chystudd chwaith na chur,
Ni ddaw i byrth y lân breswylfa bur;
Tristwch nac ofn i flino 'r seintiau mwy;
Llaw Duw ei hun a sych eu dagrau hwy:
Yno teyrnasa Iesu yn dragwyddol,
Ar bechod, angau, uffern, yn fuddugol.

Mae afon bur yn dod o'r orsedd wiw,
Dwfr bywiol hon grisialaidd ddysglaer yw;
Yno mae Pren y Bywyd, prydferth iawn,
A'i ffrwyth a'i ddail o bob rhinweddau 'n llawn:
Yno teyrnasa Iesu yn dragwyddol,
Ar bechod, angau, uffern yn fuddugol.

O.

HYMN 69. M. 112. Colesham.

Mabwysiad.

RHAGLUNIWYD torf cyn seiliad byd
O wael syrthiedig ddynol ryw,
I'w galw a'u cyflawnhau mewn pryd,
A'u mabwysiadu 'n blant i Dduw:
O urddas llawn! goruchel fraint!
Pwy ddichon draethu byth ei maint.

Gwneyd hen estroniaid, caeth, di fudd,
Yn etifeddion nefol wlad,
Rhoi ynddynt ysbryd mabaidd, rhydd,
A nerth i lefain "Abba Dad,"
Cael lle ac enw y'mhlith y saint,
A Christ yn Frawd—O ryfedd fraint!

JEHOFAH yw eu tirion Dad,
Darpara iddynt wrth bob r
A dysg hwy'n addas i'r mwy
Y'mhob cyfyngder saif o'
Fe'u rhydd hwy oll mewn
O'r etifeddiaeth cyn bo hir

HYMN. 70. M. 112. Bradford.

Hiraethu am bresennoldeb grasol Duw.

OS oedi 'r wyt, beth wnaf à'r byd,
'Does dim ond tristwch, och, a gwae,
O gwr bwy gilydd ynddo i gyd,
A rhyw ofidiau yn parhau;
Nerth bellach rho, rhag im' lwfrhau,
Dy ras yw'm sylfaen i barhau.

Rhoist yn fy nghalon riddfan cry',
Nad oes a'i tŷn ef allan ddim;
Pob pleser is na'r nefoedd fry
Sydd heddyw gwedi colli eu grym:
Nerth bellach rho, rhag im' lwfrhau,
Dy ras yw 'm sylfaen i barhau.

Pechodau, galar, colled, poen,
Sy'n gwbl dan yr haul yn un;
Gorphwysfa nid oes im' i'w chael,
Mewn dim ond ynot ti dy hun:
Nerth bellach rho, rhag im' lwfrhau,
Dy ras yw 'm sylfaen i barhau.

Nid oes gynhauaf yma i'w gael:
Yn nhragwyddoldeb mae e draw;
Pan ddel y sabbath perffaith hael,
Cawn addfed ffrwythau maes o law:
Nerth bellach rho, rhag im' lwfrhau,
Dy ras yw 'm sylfaen i barhau,

 W. W.

HYMN 71. M. 113. Llangoedmor.

Cynnaliaeth tan gystuddiau.

A RAID i groesau fyth yn llyn
I ganlyn f' enaid bant a bryn?
Rhyw beth bob awr i'm gwneyd yn brudd;
Rhyw beth i soddi 'm henaid gwan,
Yn uniawn pan am godi i'r làn,
Trwy gydol faith y nos a'r dydd?

Os ydwyt am fy nhòri lawr,
O dwrf a dwndwr daear fawr,
A'm rhoddi i orwedd yn y bedd;
O danfon waedd ar fore ddydd,
O'm rhwymau mawr i'm rhoddi 'n rhydd,
I fyw byth bellach yn dy hedd.

Mae brodyr imi aeth y'mlaen,
Trwy ddyfnach dwfr, a phoethach tân,
Ac etto gorchfygasent hwy;
'Dyw 'r dyfroedd aethum trwyddynt ddim,
Mewn lled a dyfnder, nerth a grym,—
Paham yr ofnaf finnau mwy. W. W.

HYMN 72. M. 113. Llangoedmor.

Dyddanwch yr Ysbryd.

A RAID i gystudd garw 'r groes
I ganlyn f' ysbryd ddydd a nos?
Os rhaid gwna fi yn foddlawn iawn:
Tan ganu gwna i mi fyn'd y'mlaen,
Sef canu yn y dwfr a'r tàn,
O fore mywyd hyd bryd nawn.

'Rwy 'n cofio gair fy Iesu mawr,
Y doi 'r Dyddanydd ata' i lawr,
Na chawn i farw o dristwch mwy:
O Dduw, cyflawna d' air i ben;
Rho im' Arweinydd is y nen,
Ddangoso 'r ffordd, iachäo 'nghlwy'.

 W. W.

HYMN. 73. M. 113. Monmouth.

Dedwyddwch y nefoedd.

MI welaf fyrdd, yr ochr draw,
O rai 'mdiflasant yn ei law,
Yn canu heddyw 'n beraidd lawn:
Mae ofnau 'n darfod yn y wlad,
Lle mae fy Nuw, lle mae fy Nhad,
Ac yn eu lle llawenydd llawn.

O hyfryd ddedwydd nefol le,
Gwyn fyd pob rhai sydd ynddo fe;
Y ddinas ddysglaer nefol glir,
Y man na fu, y man nad oes,
Na phoen, nac ing, na gwae, na loes,
Ond heddwch llawn, a chariad pur.

W. W.

HYMN 74. M. 113. Anniversary.

Cyfrif pobpeth yn golled er mwyn Crist.

'DOES unrhyw bleser yn y byd
Trafferthus ag all lanw 'mryd,
Dim ond cael edrych ar dy wedd:
Fy nymuniadau oll yn un,
Sy a'u terfyn ynot ti dy hun,
Fy holl ddigrifwch a fy hedd.

Mi dòra 'r clymau oll i gyd
Sy rhyngwyf â gwrthddrychau 'r byd,
A holl gariadau gwag y llawr;
Gadawaf enwau brawd a ffrynd,
A chân a phrîod anwyl, fyn'd
Yn ddim, er mwyn dy enw mawr.

Pan 'drychwy'r dwyrain, neu i'r de,
'Does neb yn anwyl fel Efe,
Mae 'n llanw f' ysbryd oll o'r bron:
Dyoddefaf golled o bob rhyw,
Yn mhresennoldeb pur fy Nuw,
A holl gystuddiau 'r ddaear hon.

W. W.

HYMN 75. M. 113. Frostenden.

Cymdeithasu â Duw.

DYHIDLA, Iesu, 'th nefol ras,
Ar f' enaid egwan, grindir cras,
Cysuron gloyw perffaith gwiw;
'Chaiff unrhyw eilun yna fod,
A welodd llygad îs y rhod
Yn gwmwl rhyngof fi a'm Duw.

Ar unwaith 'rwy'n ymadaw 'n lân,
A'r holl grëedigaeth, fawr a mân,
Ac nid wy'n 'mofyn yn eu lle
Ond cael, fy Arglwydd, dy fwynhau,
Mewn llawnder, neu mewn eithaf trai,
Wyf drech na'r cwbl tan y ne'.

Dadguddia 'n gyflawn im' ar frys
Ogoniant maith dy nefol lys,
Didranc bleserau sanctaidd dir:
O dangos im' mai ti yw 'm rhan,
A d'wed caf ddyfod yna i'r lan,
I'th gyflawn weled cyn bo hir. *W. W.*

HYMN 76. M. 113. Frostenden.

Gwaed Crist yn glanhau oddiwrth bob pechod.

WEL, f' enaid, cerdd y ffordd yn hy'
Yn uniawn tua Sion fry:
A chadw 'th lygad at y nod,
Calfaria fryn, lle gweli 'r groes,
A'i haberth arni tan ei loes—
Rhyfeddod mwya'r nef erioed.

'Does un aflendid, unrhyw fai,
Nad yw ei haeddiant yn glanhau;
Pechodau duaf glywyd sôn,
A foddir yn yr afon fawr,
Mewn amryw liwiau ddaeth i lawr
O ystlys addfwyn nefol Oen. W. W.

HYMN 77. M. 113. Monmouth.

Ymostwng i ewyllys Duw.

TI, ffynnon bywyd beraidd ddwys,
Arnat dy hun 'rwy'n rhoddi 'mhwys,
Ti yw fy Mrenin a fy Nuw:
Pa le trof wyneb, Iesu cun,
Ond yna atat ti dy hun,
Gwraidd fy nyddanwch o bob rhyw.

Rho, Arglwydd, im' fo yn dy fryd;
Dy wyllys gaffo 'i gwneyd i gyd,
Boed fy amserau yn dy law;
Cyfrwydda fi trwy 'r anial maith,
Sà wrth fy ochr ar fy nhaith,
A dwg fi i'r Baradwys draw. W. W.

HYMN 78. M. 113. Newcourt.

Cariad Duw.

MAE 'th drugareddau, maith eu rhin,
Yn nod i lawr fel melys win,
O oes i oes, heb dranc, heb drai;
Dy gariad sy'n anfeidrol 'stôr,
Yn gyflawn berffaith, fel y môr,
Ac yn dragwyddol yn parhau.

Mae'n fwy, mae 'n llawer gwell, na'r byd,
Na'r holl drysorau sy ynddo i gyd,
Bywyd a heddwch yw o'r bron
I ni, 'mhob cystudd tan y ne',
Ond im' gael aros ynddo 'fe,
Nid ofnaf ddrygau 'r ddaear hon. W. W.

HYMN 79. M. 122. Hales.

Ffynnon i bechod ac aflendid.

AM iachawdwriaeth lawn,
Foreu-ddydd a phryd nawn,
Moliannu gawn yr Iesu gwiw;
Dyoddefodd angau loes
Yn ddiddig, ar y groes
A'i ddoniau roes i ddynolryw.

Gorphenwyd talu 'n llawn,
Ar groesbren un pryd nawn;
O ddedwydd lawn! ni gawn yn llu
Faddeuant yn ei waed,
A hollol wir iachad,
A Duw yn Dad mewn cariad cu.

Y ffynnon loyw hon,
Yn ol y waywffon
Aeth dan ei fron, daeth ini fraint!
A ylch y brwnt yn lân:
Hosanna, f' enaid, càn,
Can's dyma sylfaen yr holl saint. G.

HYMN 80. M. 122. Addoliad, Dalston, New Market.

Ymdrech â gelynion, a siriol fuddugoliaeth.

RHO nerth i ddwyn y groes,
Tra paro dyddiau f' oes;
Na âd im' ddigaloni mwy,
Wrth wel'd gelynion lu,
A'u saethau 'n aml y sy;
O cuddia fi o fewn dy glwy.

Angenus wyf o hyd,
Mewn trallodedig fyd;
Ac nid oes fythol ddim i'w gael,
Gyflawna 'm heisiau i gyd,
A'm càna oll ynghyd,
Ond haeddiant drud fy Iesu hael.

'Rwy'n nesu at yr awr
I gael fy nhòri lawr,
A'm dodi i orwedd lle bu Ef:
Lle i orphwys yno fydd,
Hyd oni ddelo 'r dydd
Daw Iesu ar gymylau 'r nef. G.

HYMN 81. M. 148. Amherst.

Diangfa i'r bywyd trwy waed Iesu.

DYSGLÆIRIA fore wawr,
'R ol nos o faith barhad,
Dadguddia imi 'n awr
Ryw ran o'r hyfryd wlad,
Lle rhed afonydd dwyfol ryw,
Fel mòr di drai tros Sion wiw.

O'r Ganaan hyfryd wiw,
Addawyd i myfi!
Cartrefle bur fy Nuw,
Uwch y ffurfafen fry:
Mi ddof, mi ddof, i'r làn ryw awr,
Er maint sydd am fy nghadw lawr.

Llawn Haleluiah mwy,
I Frenin dae'r a ne',
Ddyoddefodd farwol glwy
Yn wirion yn fy lle:
O ddedwydd awr! O ddedwydd loes!
Bu'm Iesu farw ar y groes.

W. W.

HYMN 82. M. 148. Lènox.

Claf o gariad. CAN. 5. 8.

CHWI ferched Salem dre,
Wrth rodio heolydd hon,
A welsoch chwi 'n un lle,
Hwn hoffa 'm henaid llon?
Wyf glaf am nyth, i mi gael byw
Dan aden wiw fy Mharynwr byth.

Os gwelwch f' anwyl Grist,
Mynegwch iddo 'n llwyr,
Hiraetha 'm henaid trist
Am dano fore a hwyr:
Wyf glaf am nyth, &c.

Efe yw'm sicr ran,
A'm cysur oll yn oll;
Cryf Fugail f' enaid gwan,
Yn rhwystro im' fyn'd ar goll;
Wyf glaf am nyth, &c.

HYMN 83. M. 148. Southbury.

"Arglwydd, cofia fi."

I FYNU at fy Nuw,
Fy enaid, cwyd dy lef,
Heibio yr auraidd lu,
I eithaf nef y nef:
Gostwng dy glust o'r bryniau fry,
O Arglwydd grasol, cofia fi.

Wyf yma 'n wael fy ngwedd,
Yn euog ac yn wan,
Gelynion creulawn sy'n
F' amgylchu y'mhob man;
Bydd imi 'n blaid i gonc'ro'r llu;
O Arglwydd grasol, cofia fi.

Yn wyneb uffern ddu,
Ac angau mawr ei rym,
Rho imi nerth wrth raid,
Bydd di yn nodded im':
Yn nyfroedd cryf Iorddonen ddu,
O Arglwydd grasol, cofia fi. *D. C.*

HYMN 84. M. 148. Grove.

Gorfoleddu yn Nghrist.

ER maint gofidiau f' oes,
'Rwy'n llawenychu 'n fawr,
Wrth gofio 'r Hwn a roes
Ei fywyd troswy' lawr:
O am gael treulio fy mhryd nawn,
I ganmawl a derchafu 'r Iawn.

Bu farw Tywysog hedd,
Rhyfeddol Wrthddrych ffydd;
Bu 'n gorwedd yn y bedd
Hyd fore 'r trydydd dydd:
Gwneyd cof am hyn mor hyfryd yw;
Mae 'r Oen a laddwyd etto 'n fyw. J. H.

HYMN 85. M. 148. Majesty.

Gorfoleddu yn Nghrist.

CYFFELYB i fy Nuw
Ni welodd dae'r na nef;
'Does un creadur byw
Gymharir iddo Ef:
Cyflawnder mawr o ras didrai
Sydd ynddo fythol yn parhau.

Yn nyfnder tywyll nos
Mi bwysaf ar ei ras;
O'r tywyllwch mwyaf tew
Fe ddwg oleuni 'maes:
Os gwg, os llid, mi âf i'w gôl,
Mae 'r wawr yn cerdded ar ei ol.

Ymffrostiaf ynddo Ef,
Ped ymderfysgai 'r byd,
A dylif eilwaith ddod
I guddio 'r ddae'r i gyd;
Rhyw noddfa lawn a lloches sy,
Uwch tymhestl, yn f' anwylyd cu. W. W.

HYMN 86. M. 148. Burnham.

Adgyfodiad Crist.

'NOL marw Brenin hedd,
A'r eiddo i gyd yn brudd,
Fe'i rhoed mewn newydd fedd,
Ond codai 'r trydydd dydd:
Boed hyn mewn côf gan Israel Duw,
Mae'r Oen a laddwyd etto 'n fyw.

Y Meichiau aeth yn rhydd,
'Nol rhoddi taliad llawn
A Duw 'n cyhoeddi sydd,
"Yn Hwn mi gefais Iawn:"
Gwnaeth ffordd yn rhydd i fyn'd at Dduw;
Mae 'r Oen, &c.

Galarwyr Sïon, sydd
A'ch taith trwy ddwfr a thân,
Paham y byddwch brudd?
Eich galar troer yn gân:
O cenwch, etholedig ryw,
Mae'r Oen, &c.

J. T.

HYMN 87. M. N. 2. 8. Trawsfynydd.

Iesu, sylwedd caniadau y gwaredigion.

MAE, mae,
Y dydd yn dod i'r dawiol rai,
I felys foli Duw 'n ddi drai,
Y'mhlith y rhai sy fry mewn hedd,
I'r addfwyn Oen yn canu 'n rhwydd,
Ac yn ei wydd yn gwel'd ei wedd.

Eu cân
Fydd am Galfaria, fawr a mân,
Ac oll yn gariad, oll yn dân;
Yn gwel'd yn lân lwyr gwblhau
Pob gair a ddaeth o'i enau Ef,
A'u bod na'r nef yn hwy 'n parhau. W. W.

HYMN 88. M. N. 5. 11. Bilney.

Mawl am brynedigaeth.

FY Iesu gaiff byth
Y clod yn ddilyth
Trwy 'r ddaear a'r nef;
Fe roes ei hun trosof, fy mywyd yw Ef.

Etifedd y ne'
Fu farw 'n fy lle,
A minnau ge's fyw;
Boed mawl i fy Mhrynwr, Gwaredwr gwir yw.

Fy ngwared a wnaeth
O'r carchar du caeth,
Trwy ddyfnder ei boen;
Gogoniant tragwyddol i Dduw ac i'r Oen.
P. J.

HYMN 89. M. N. 5. 8. Tŷ Ddewi.

Gwaed Iesu Grist yn glanhau oddiwrth bob pechod.

AR Galfari fryn,
Agorwyd cyn hyn
Ryw ffynnon anfeidrol ei rhin;
Hi hollol lanha
Aflendid a phla,
Hi gàna yr Ethiop yn wyn.

Y gwan mae 'n gryfhau,
Er cymmaint ei fai,
I sefyll wrth Sinai 'n ddi grŷn;
Mae'n symud, â'i hedd,
Fraw angau a'r bedd,
A'u hofnau heb adael yr un. D. C.

HYMN 90. 5. 8. Tarddeg.

Mawl am yr efengyl.

EFENGYL yr Oen,
Am dani bydd sôn
Trwy 'r bröydd a'r bryniau o'r bron:
Hen Jericho fawr,
Yn llwyr ddaw i'r llawr
Mae 'r udgyrn yn bloeddio wrth hon.
Dyoddefaint ei groes,
Ei boenau a'i loes,
Wnaeth heddwch rhwng nefoedd a llawr:
Y ffordd at y Tad
Agorwyd â gwaed,
Am dani bydd canu bob awr. G.

HYMN 91. M. N. 6. 4. Snaresbrook.

Crist oll yn oll.

FY nghadwedigol ras,
O honot dardd i maes,
Iesu 'n ddi drai;
Daioni ni fu 'n bod
O fewn i mi erioed;
Tydi a biau 'r clod,
Byth i barhau.

Mae doniau f' Arglwydd mawr,
Yn llifo oll i lawr
Fel môr di drai,
Tros dir Immanuel,
Yr hyfryd laeth a mêl,
O sicrwydd pur a sêl,
Byth i barhau.

Yn gwisgo gynau gwyn,
Y gwelir saint am hyn,
Ddydd sy 'n nesâu;
Caniadau am ei glwy
Fydd eu caniadau hwy,
A'r rhei'ny fyddant mwy
Byth i barhau. W. W.

HYMN 92. 6. 4. England.

Gweddi am ymweliadau grasol Duw.

O BRYNWR mawr y byd,
Tyr'd bellach, mae 'n iawn bryd,
Mae yn bryd nawn;
Gàd ini wel'd dy ras
Ar frys yn tòri 'maes,
Tros wyneb daear las,
Yn gefnllif llawn.

Y geiriau oll i gyd,
Roist ini, o bryd i bryd,
Sy felys iawn:
Gàd ini glywed llef,
Pereiddiaf sain y nef,
Efengyl gadarn gref,
A'i heffaith llawn. W. W.

HYMN 93. 6. 4. Trinity.

Mwynhad o Dduw yn nerth a goleuni.

O DYRED Awdwr hedd,
Rho imi brawf o'th wledd
Dragwyddol rad;
'Does yma ddim ond trai,
Cystuddiau, poen, a gwae,
I'r diwedd yn parhau
Mewn anial wlad.

Mae pechod o bob gradd
Yn fawr am gael fy lladd,
A minnau 'n wan;
O estyn fraich i maes,
Dangos d' effeithiol ras,
O'r tfoedd anial cras,
Dwg fi i'r làn.

Un olwg ar dy wedd,
A'm cod i'r làn o'r bedd,
I'r goleu clir,
I deithio yn y blaen,
Trwy ganol dwfr a thân,
Er gelynion fawr a mân,
I'r sanctaidd dir.

Gwna f' enaid bach ynglyn,
Duw, wrthyt ti dy hun,
I'th wir fwynhau;
Ac yna gallaf fyw,
Tan gystudd o bob rhyw,
Mewn llawn dawelwch gwiw,
Byth i barhau.

W. W.

HYMN 94. M. N. 6. 8. 4. Leoni.

Ymnertha yn yr Arglwydd.

O DYRED, addfwyn Oen,
Iachawdwr dynolryw,
At wael bechadur sy tan boen
Ac ofnau 'n byw;
O helpa 'r llesg yn awr,
I ddringo o'r llawr yn hy,
Tros greigydd geirwon serth i'r làn
I'r Ganaan fry.

O dal fi, wyf heb rym,
Yr ochr hyn a thraw;
Os sefyll wnaf, ni safaf ddim
Ond yn dy law:
Addewid nefoedd faith
Yw 'm cymhorth perffaith gwir,
Na chyfeiliornaf ar fy nhaith
I Salem bur.

Yn eithaf grym y dwr,
A'r tonau 'n curo lawr,
Tywysog nefoedd yw fy Nhŵr
A'm Ceidwad mawr:
Fe ddeil fy mhen i'r làn,
Can's ffrynd i'r gwan yw Ef;
Fe'm dwg o'm cystudd yn y man
I deyrnas nef.

W. W.

HYMN 95. 7au. 6 llin. Aldwinkle.

Cyflawnder yr iachawdwriaeth.

HYFRYD lais efengyl hedd
Sydd yn galw pawb i'r wledd:
Mae gwahoddiad llawn at Grist,
Oes, i'r tlawd, newynog, trist;
Pob cyflawnder ynddo gewch,
Dewch a chroesaw, dlodion dewch.

Cyfod Haul Cyflawnder llon,
Dyrcha dros y ddaear hon;
Aed dy belydr i bob gwlad,
Yn dy esgyll dwg iachâd:
Dos ar gynnydd, nefol ddydd;
Doed y caethion oll yn rhydd.

Talodd Crist anfeidrol Iawn
Ar y croesbren un prydnawn;
Llifodd ar Galfaria fryn
Ddwfr a gwaed i'n golchi 'n wyn:
Iachawdwriaeth sydd heb drai;
Dewch i'r ffynnon, aflan rai.

Iesu gaiff y clod i gyd;
Ymaith dyg bechodau 'r byd:
Rhoes ei hunan yn ein lle,
Bellach beth na rydd Efe?
Haleluiah! llawenhewch,
Dewch, moliennwch, byth na thewch.

P. J.

HYMN 96. 7au. D. Ebenezer.

Seren Bethlehem.

SER y nos yn llawn rhawr
Yn dyfritho 'r wybren sydd;
Un er hyny a rydd wawr
I bechadur ofnus prudd:
Er y seinia clodydd Duw
Gan bob lluaws, gan bob gem,
Un sy'n dangos Ceidwad byw,
Hon yw Seren Bethlehem.

Bum ar eigion terfysg llym,
Noson ddu, heb ganfod glàn;
Gwynt a thònau â'u holl rym
Ruthrent ar fy llestr gwàn:
Pan i'r dwfn ar suddo 'lawr,
Pan oedd angau 'n hyll ei drem,
Dyna 'r pryd cyfododd gwawr
Seren ddysglaer Bethlehem.

Hi 'm harweiniodd yn ddi goll,
Gan wasgaru ofnau 'r hedd;
Dyg fi o'r ystormydd oll
I dawelaf borthladd hedd:
Canaf, wedi dyfod trwy
Ddyfnder profedigaeth lem,
Canaf yn oes oesoedd mwy,
Seren! Seren Bethlehem!

O.

HYMN 97. M. N. 7. 4. Hornsea.

Hedd a bywyd trwy angau Crist.

O GALFARIA mae fy hedd,
A fy mywyd,
Ac oddiyno mae fy ngwledd
Nefol hyfryd;
Ac o tan ei awel wiw
Byth arosaf,
Ac a ganaf tra f'wyf byw,
Haleluiah.

Ymddifyraf wrth ei groes,
Yn fy mlinfyd;
Ac mi gofia 'i ddwyfol loes,
Nerth fy mywyd;
Y'mhob cystudd a phob gwae
Ymfoddlonaf,
Y mae 'r diwedd yn nesàu:
Haleluiah.

W. W.

HYMN 98. 7. 4. Gostyngeiddrwydd.

Cyflawnder y Cyfryngwr.

NID oes terfyn byth i'w gael
Ar ei gariad;
Mae 'i drysorau mawrion hael
Uwch eu dirnad:
Ynddo 'i hunan mae yn llwyr
Oll ddymunaf;
Minnau ganaf, fore a hwyr,
Haleluiah.

Buddugoliaeth lân a ddaw,
'Mhen ychydig;
Ni a ddysgwyliwn oddi draw
Wrthi 'n ddiddig:
Ar ei allu mae ein ffydd,
Ef orchfyga;
Canu ein pleser ninnau fydd
Haleluiah. W. W.

HYMN 99. 7. 4. Easter Hymn.

Digonol aberth Crist.

NID oes aberth o unrhyw,
Y'mhlith miloedd,
Dal am drosedd lleiaf ryw,
Yn oes oesoedd;
Dim ond aberth dwyfol Ddyn
Foddia Dduwdod,
Angau Tywysog nef ei hun
Bwysa 'mhechod.

Dyma 'r aberth mae erioed
Sôn am dano;
Ar y ddaear 'does yn bod
Debyg iddo:
Mae seraphiaid pena'r nen
Yn rhyfeddu,
Gwel'd eu Brenin ar y pren
Yn gwir drengu. W. W.

HYMN 100. 7. 4. Hornsea.

Tangnefedd a dedwyddwch trwy waed Iesu.

GAD im', Arglwydd, tra f'wyf byw,
I gael gwledda,
Ar dy ddwyfol farwol friw
Y gwir fanna;
Dy ddyoddefaint yw fy nerth
A fy iechyd,
Tros y bryniau mwyaf serth
I dir y bywyd.

Dedwydd yw sy'n profi 'th hedd
A'th gymundeb;
Dedwydd yw sy'n gweled gwedd
Dy lân wyneb;
Dy gyfeillach nefol wiw
Sy'n wir fywyd,
A dy heddwch dwyfol yw
'Mherffaith iechyd. W. W.

HYMN 101. M. N. 6. 8. 6. Adeilad.

Pob cyflawnder yn Nghrist.

MI deithia 'r anial trwy
Y rhinwedd sy'n ei glwy,
Fy nghadarn sail yw Adda 'r ail,
Gwna f' adail arno mwy;
Tragwyddol Graig yw Hâd y Wraig,
Rhag drygau 'r ddraig a'i llid;
Mae 'n Feddyg da, fe'm llwyr wellâ,
O'm dyfnaf bla, a'm cànu wna,
Fy Nghyfaill gorau i gyd.

Un aberth mwy nid oes
Ond Iesu fu ar y groes;
Iachawdwr rhad, trwy rin ei waed,
Rydd im' ryddhad o'm loes:
Mae 'n gadarn Ior, a'i ras yn 'stôr,
Fel môr o drysor drud;
Ac ato Ef, sy ar orsedd nef,
Derchafa 'm llef, am gymhorth gref,
I faeddu 'meiau i gyd. G.

HYMN 106. M. N. 8. 7. 4 llin. Humble Souls. Northampton Chapel. Cannon Street.

Crist yn derbyn plant bychain. Marc 10. 13—16.

BUGAIL Israel sydd ofalus
Am ei dyner anwyl wyn;
Mae 'n eu galw yn groesawus,
Ac yn eu cofleidio 'n fwyn.

"Gadewch iddynt ddyfod ataf,
"Ac na rwystrwch hwynt," medd Ef,
"Etifeddiaeth lân hyfrytaf,
"I'r fath rai yw teyrnas nef."

Deuwn, Arglwydd, å'n rhai bychain,
A chyflwynwn hwynt i ti;
Eiddot mwyach ni ein hunain,
A'n hiliogaeth gyda ni.

Dewch, blant bychain, dewch at Iesu,
Ceisiwch wyneb Brenin nef;
Hoff eich gweled yn dynesu
I'ch bendithio ganddo Ef.

(147) O.

HYMN 107. 8. 7. D. Jewin Street.

Cyflawnhad.

DUW sy'n cyflawnhau 'r annuwiol,
O'i ryfeddol ras ei hun;
Duw sy'n rhoddi ffydd i gredu
I'r pechadur gwael ei lun;
Anrhydeddodd Crist y gyfraith,
Gwnaeth gyflawnder pur i ni,
Trwy ufudd-dod perffaith, digoll,
O fru Mair i Galfari.

Bywyd a marwolaeth Iesu,
Trwy gyfriflad gan Dduw Dad,
Dyma ddigon rhag digofaint,
Dyma yw ein cyflawnhad;
Dan gyfriflad o'n pechodau
Bu Crist farw ar y pren:
Trwy gyfrifiad o'i gyflawnder
Gaiff yr euog godi ei ben.

P. J.

HYMN 108. 8. 7. Jubili.

Deisyfiad y credadyn.

O NA byddai cariad Iesu,
Megys fflam angerddol gref,
Yn fy nghalon i'w chynnesu,
Fel y carwn ninnau Ef;
O na chawn i brofi nerthol
Weithrediadau 'r Ysbryd Glân,
Fel y gallwn yn ŵastadol,
Yn lle cwyno, seinio cân!

Oer a marwaidd yw fy nghalon,
Gwàn a diffrwyth yw pob gras;
O na chwythai yr awelon
Sydd yn gwywo llygredd cas;
Dyred, Iesu bendigedig,
Bugail mawr y defaid oll,
Dychwel f' enaid gwrthgiliedig,—
O na âd im' fyn'd ar goll.

Gwna fy enaid fel cerbydau
Amminadib, buain iawn,
Gâd im' gael dy ymweliadau,
Llanw fi â'th nefol ddawn:
Yn y gwin-dŷ gâd im' wledda,
Dan dy faner, cariad yw;
Megys Brenin mawr gorsedda
Yn fy nghalon, O fy Nuw!

Gwna fi'n ffrwythlawn yn fy henaint,
Tirf ac iraidd gâd im' fod,
Dan y gwlith a'r nefol ennaint,
Gwna imi rodio er dy glod;
O na âd im' ymgaledu,
Na diffrwytho yn dy dŷ,
Trin fi, Arglwydd, nes addfedu
F' enaid i'r ardaloedd fry.

IAGO.

HYMN 109. 8. 7. Dismission,

Yr anialwch.

CYFARWYDDA'm henaid, Arglwydd,
Tra bwy'n teithio 'mlaen ar hyd
Llwybrau culion dyrys anhawdd,
Sydd i'w cerdded yn y byd;
Cnawd ac ysbryd sy'n rhyfela,
Weithiau cariad, weithiau cas;
Tòn ar dòn sydd yn gorchuddio
Egwyddorion nefol ras.

Cul yw'r llwybyr imi gerdded,
Is fy llaw mae dyfnder mawr,
Mae arnaf ofn yn fy nghalon
Rhag i'm troed i lithro i lawr:
Yn dy law y gallaf sefyll,
Yn dy law y dof i'r làn,
Yn dy law fyth ni ddiffygiaf,
Er nad ydwyf ft ond gwan.

[Dysg fi gerdded trwy 'r afonydd,
Ac na'm hofner gan y lli',
Na bwy'n gildio gyd â'r tònau,
Temtasiynau fwy na rhif;
Cadw 'ngolwg ar y bryniau
Uchel hardd, tu draw i'r dwr;
Cadw 'ngafael yn yr afon,
Ar yr Iesu, y bhenaf wr.

O anialwch maith o dd'rysni,
O afonydd mawr ei grym,
Pa faint o amser roddwyd ichwi
Fod yn ddigalondid im'?
Derfydd tywyllwch, derfydd galar,
Derfydd pechod o bob rhyw,
Nid yw 'r wlad câf ynddi drigo,
Ddim ond presennoldeb Duw.]

W. W.

HYMN 114. 8. 7. Elwall.

Gweddi am arweiniad.

DYRED, Iesu, i'r anialwch,
At bechadur gwael ei lun,
Ganwaith dd'rysodd mewn rhyw rwydau,
Rhwydau wnodd ef ei hun;
Lloeg fieri sydd o'm cwmpas
Rho fi sefyll ar fy nhraed,
Moes dy law ac arwain trosodd
F' enaid gwan i dir ei wlad.

Manna nefol sy arnaf eisiau,
Dwfr rhedegog gloyw byw,
Sydd yn tarddu o dan riniog
Teml sanctaidd bur fy Nuw:
Golchi 'r aflan, cànu 'r Ethiop,
Gwneyd yr euog brwnt yn lân,
Ti gai 'r enw fyrdd o oesoedd
'Nol i'r ddaear fyn'd yn dân.

Ar dy allu 'rwy'n ymddiried,
Mi anturiaf, doed a ddêl,
Dreiddio trwy 'r afonydd dyfnion,—
Mae dy eirian oll tan sêl;
Byth ni fetha gredo ynot,
Safodd un erioed yn ol;
Af y'mlaen, a doed a ddelo,
Graig a thyle, ar dy ol.
(149) W. W.

HYMN 115. 8. 7. Stanley.

Gweddi am weithrediadau yr Ysbryd Glân.

DYRED, Ysbryd sancteiddiolaf,
Llwyr lanha dy dŷ dy hun;
Lladd y beiau yn fy natur
O'r boreuddydd sydd ynglŷn;
Gwna 'nghydwybod ynwy'n danllwyth,
Nas dyoddefwyf unrhyw fai
Ag sy'n gwneuthur oriau 'mywyd,
Fel rhyw oes o difarhau. W. W.

HYMN 116. M. N. 8. 7. 3. Iorddonen.

Hunan-ymholiad.

BETH yw'r achos bod fy Arglwydd
Hawddgar grasol yn pellhau?
Yn guddiedig, neu yn gyhoedd,
Mae rhyw bechod yn parhau;
Tyr'd yn awr, tòr i lawr,
Fy anwiredd, fach a mawr.

Chwilia, Arglwydd, gŷrau 'nghalon,
Chwilia 'm llwybrau maith o'u bron,
Chwilia bob rhyw 'stafell ddirgel,
Sydd o fewn i gonglau hon;
Myn i maes bob peth cas,
Sydd yn attal nefol ras. W. W.

HYMN 117. M. N. 8. 7. 4. *Hyder.*

Hiraeth am lwyr ryddhâd oddiwrth bechod.

WRTH fy nghuro gan y gwyntoedd,
Wrth fy maeddu gan y dòn,
Wrth fy nryllio 'n erbyn creigiau,
Blinais ar y ddaear hon:
O am ddyddiau,
Pan ddarfyddo pechu 'n lân!

Yn y bore 'rwyf yn meddwl
Cadwai 'r llwybyr hyd bryd nawn;
Etto gŵyro 'n ddiarwybod
'Rwyf oddiarno 'n fuan iawn:
Camsyniadau
Fwyaf sydd yn llanw f' oes.

O ddedwyddwch anghydmharol!
Dysgwyl ydwyf, fore a nawn,
I gael profi 'm calon ffiaidd,
O rasusau 'r nef yn llawn:
Dyred, Arglwydd,
Mae dy gwmni 'n well na'r gwin. W. W.

HYMN 118. 8. 7. 4. Hoo Church.

Gweddi am gynnaliaeth ysbrydol.

HEDDYW 'r dydd 'rwy'n ofni syrthio,
Diau heddyw yw efe;
Etto sefyll 'r wyf, er gwaned,
Trwy awdurdod mawr y ne':
Grym i gredu
Yr âf tan ofni i ben fy nhaith.

Dysg y galon drist i chwerthin,
Dysg i'r mudan seinio cân;
Dysg yr ofnus gwan i gludo
Uffern fawr i la ar o'i flaen;
Tro wylofain
Yn ganiadau Calfari.

Dyma 'r man dymunwn drigo,
Wrth afonydd gloywol llawn,
Sydd yn llifo o ddwfr y bywyd,
O làs fore hyd brydnawn,
Lle cawn yfed
Hyfryd gariad fyth a hedd. W. W.

HYMN 119. 8. 7. 4. Hampton Street.

Ymbil am gymdeithas Crist.

BOED fy nghalon iti 'n deml,
Boed fy ysbryd iti 'n nyth,
Ac o fewn y drigfan yma,
Aros, Iesu, aros byth;
Gwledd wastadol
Fydd dy bresennoldeb im'.

Awr o dy gymdeithas felys,
Awr o wel'd dy wyneb pryd,
Sy'n rhagori ar o weithiau
Ar bleserau gwag y byd:
Mi ro 'r cwbl
Am gyfeillach bur fy Nuw. W. W.

HYMN 120. 8. 7. 4. Wenlock.

Hiraethu am ddedwyddwch.

NID o'r ddaear mae fy mhlesser,
Nid o'r ddaear mae fy ngrym;
Nid o'r ddaear mae 'm llawenydd,
Tlawd wyf yma, 'feddaf ddîm;
Draw 'r Iorddonen
Mae fy nghyfoeth a fy ngwlad.

Dyred hyfryd fore tawel,
Dyred hapus ddedwydd ddydd,
Pan fo'r dôrau prês i agor,
A'r carcharor fyn'd yn rhydd;
Rho arwyddion
O fod hyny yn nesâu.

[O gwasgerwch dew gymylau,
I'r addewid rhoddwch le;
Nid i'r ddaear yma 'm ganwyd,
Tragwyddoldeb yw fy lle:
'N ol tywyllwch
Cwyd o'r diwedd fore wawr.

Draed lluddedig, dewch i fynu,
Ymestynwch, ddwylaw, 'mlaen;
Draw mae'r wobr, draw mae'r goron,
Draw mae 'Mhriod hawddgar glân:
Ffarwel bellach—
'Chofiaf ddim ond pen fy nhaith.] W. W.

HYMN 121. 8. 7. 4. Judgment.

"Gorphenwyd."

PECHOD yma, cariad acw,
Bwyswyd yn y glorian fawr;
Ac er trymed ydoedd pechod,
Cariad bwysodd hyd y llawr:
Y gair "Gorphenwyd,"
Wnaeth i'r glorian bwysig droi. W. W.

HYMN 122. 8. 7. 4. Sivoli.

Gwaith yr Ysbryd Glân ar y galon.

NERTHOEDD y tragwyddol Ysbryd,
Yn haeddiannau 'r dwyfol Iawn,
Wna i'r fynwes ddiffaith galed,
I ffrwythloni 'n hyfryd lawn,
O rasusau,
Pêr blanigion nefol wlad.

Creigiau tanllyd Salem waedlyd,
Rhai fu 'n bloeddio ag un llef,
Am Dywysog mawr y bywyd,
"Ymaith! O croeshoelier ef?"
Gwnaeth i'r rhei'ny
Wylo edifeirwch pur.

Os disgyni, addfwyn Ysbryd,
I ryw fynwes fel rhai hyn,
A'i haddurno â phur ddelw
Y Gwr fu farw ar y bryn;
Mawl a seinia
Trwy 'r holl nefoedd fawr am hyn.
(166) D. C.

HYMN 123. M. N. 8. 8. 6. Zion Church. Hayes.

Cofio dyoddefiadau Crist.

TRYWANWYD, do, fy Mhrynwr rhad,
Nes daeth o'i galon ddwfr a gwaed,
Yn ffrwd fel afon bur;
Oedd ar y llawr i'w wel'd yn llyn,
Yn frwd, ar ben Calfaria fryn;
O f' enaid, cofia 'i gur.

Dros f' enaid i bu 'r addfwyn Oen,
Fel hyn yn dyoddef dirfawr boen,
I'm gwneyd yn rhydd yn wir:
'R oedd yn ei fryd orphenu 'r gwaith,
O eithaf tragwyddoldeb maith:
O f' enaid, cofia 'i gur. W. W.

HYMN 124. M. N. 11au. Hornsea.

Gobaith tra yn nghyrhaedd yr efengyl.

ER maint fy nghaledfyd, fy nghlefyd, a 'nghlwyf,
Tu yma 'r gagendor yw 'r ochr yr wyf:
Yn nghyrhaedd Efengyl fwyn anwyl fy Nuw,
Mae gobaith am danaf tra byddaf fi byw.

Gogoniant! gogoniant! fod llwyddiant i'r llef,
Sy'n dyfod â bywyd, yn ysbryd y nef;
Mae'n gwneyd plant afradlon, oedd feirwon, yn fyw,
A thorf o elynion yn ddynion i Dduw.

E. J.

HYMN 125. M. N. 5. 6. Thriplow.

Am gofio ein Creawdwr yn nyddiau ieuengctyd.

O COFIWN yn awr, yn nyddiau ieuengctyd,
Ein CREWR tra mawr, Cynnaliwr ein bywyd;
Cyn rhedeg ein hoes i'r dyddiau tra blinion,
Can's ynddynt nid oes ddyddanwch i ddynion:
Llafuriwn mewn pryd am gael y trysorau
A bery cyhyd â'n gwerthfawr eneidiau.

Cyn profi cŵyn prudd adfeiliad ein natur,
Can's henaint a rydd wanhad i bob synwyr;
A chyn profi 'r briw o dòri 'r colofnau,
Dewiswn y Duw a'n tywys trwy angau;
Cael Cyfaill a lŷn fydd werthfawr iawn yno,
Pan fyddo pob dyn heb fodd i'n cysuro.

A'r babell frau hon yn ol i'w hen bentwr,
A'r enaid ger bron Creawdydd a Barnwr;
'Mofynwn yn fawr yn morea 'n blynyddau,
Am nabod yn awr Waredwr eneidiau:
Gwell ini na'r byd gael nabod yr Iesu;
Fe'n cynnal y pryd y bydd natur yn pallu.

Yr Iesu â'i waed a dalodd ein dyled;
Ffordd newydd a wnaed i'n dwyn o gaethiwed:
Trwy ffydd ynddo Ef y mae i bechadur
Gael hawl yn y nef, cartrefle pob cysur;
Ei nabod, gwir yw, sy ddigon yn angau,
Am fyned i fyw i'r nefol drigfannau.

J. H.

HYMN 126. M. H. a 10au.

Cwymp Babilon.

WEL, dacw wawr yr hapus ddydd,
Daw meibion Adda oll yn rhydd;
Dydd taflu Babilon i lawr,
Fel pwysig faen i'r eigion mawr.

O Haul Cyflawnder dysglaer llon!
Goleua 'r byd yn llwyr o'r bron;
Gwna nefol ddydd, 'nol tywyll nos,
Dydd seinio haeddiant gwaed y groes.

Dewch, dewch yn glau, chwi oriau dedwydd gwiw,
Pan elo pur Efengyl gras ein Duw,
A'i rhyddêd glân, a'i heddwch dwyfol drud,
I'r euog gwaelaf rai yn nghyrau 'r byd.

D. C.

HYMN 127. M. N. Pope's Ode.

Y Cristion ar farw wrth ei enaid.

BUR wreichionen oddi fry,
Gâd, O gâd dy farwol dŷ;
Dysgwyl, oedi, brysio, crynu,
Pleser mawr a phoen yw trengu!
Paid hoff natur, paid â'th gur,
A gâd im' farw i fywyd pur.

Clywch! gan engyl sibrwd sy,
Tyr'd, chwaer ysbryd, esgyn fry:
Beth yw hyn sy'n dwyn dan sêl
Fy synwyrau, eau fy ngwêl,
Suddo fy ysbryd, tynu 'm ffun?
Ai marw yw? d'wed, f' enaid cun?

Mae 'r byd yn ffoi, mae 'n cilio draw;
Mae 'r nef yn agor ar bob llaw,
A sain seraphaidd lu:
Rhowch, rhowch i'm hwyl! âf uwch y llawr!
Pa le mae 'th rym, O uffern fawr?
A'th gòl, O angau du?

P. J.

HYMN 128. M. N. 11au. Geard.

Gwahoddiad.

O DEWCH, bechaduriaid, bob gradd a phob rhyw,
I edrych ar Iesu yn marw ac yn byw;
Edrychwch, a chredwch, a phrofwch ei hedd,
Ac felly gorchfygwch fyd, Satan, a'r bedd.

Mae ynddo gyflawnder a golud di drai,
I wisgo 'r noeth enog, a maddeu pob bai,
I lòni 'r gofidus, helbulus ei daith,
A chynnal y gweiniaid, trwy 'r anial sy faith.

Offeiriad in' ydyw, fe saif yn y dŵr
Nes myned o'i Israel oll drwyodd bob gwr;
O waelod Iorddonen, fe'u harwain i'r wlad
Sy berffaith ei gwynfyd, o fythol barhad.
(178) T. J.

HYMN 129. 11au. Norton.

Crist, y Cyfaill goreu.

MI ges y Ffrynd goreu, fyth, fyth allsai fod,
'R addewid a roddodd ni thòrodd erioed;
Er byw 'n ei ogoniant ynghanol y nef,
Mewn awr o gyfyngder fe wrendy fy llef.

Wel, dyred, fy enaid, o'th hunan i maes,
Ymffrostia yn unig yn Iesu a'i ras;
Efe wnaeth y cwbl, Efe biau 'r clod,
Bydd moliant i'w enw tra nefoedd yn bod. W. W.

HYMN 130. M. N. 8. 7. 4. Carlton Hill.

Gweddi am sancteiddrwydd.

O SANCTEIDDIA f' enaid, Arglwydd,
Y'mhob nwyd, ac y'mhob dawn;
Rho egwyddor bur y nefoedd
Yn fy ysbryd llesg yn llawn:
N' âd fi grwydro,
Draw nac yma, o fy lle.

Fel na chaffo pechod adgas,
Mwg a tharth y pydew mawr,
I fy nallu ar y llwybyr,
Na fy nhaflu byth i lawr,
Gwna i mi gerdded
Uniawn ffordd wrth oleu dydd. W. W.

HYMN 131. 8. 7. 4. Calcutta.

O flaen pregeth.

ARGLWYDD grasol; dyro gymhorth
I gyhoeddi'n eglur iawn,
Ddyfnder calon dyn truenus,
Ac anfeidrol ddwyfol ddawn;
Fel bo'r truan
Yn cael trysor nef yn rhad. G.

HYMN 132. M. N. 8. 7. Elwall.

DYRED, Iesu, i'r anialwch,
Yma buost ti o'r blaen,
Arwain eiddil llesg difedr,
A dy golofn niwl a thân;
Dal fy ysbryd sy'n llewygu,
Gan ryw ofnau o bob man:
Yn dy allu wyf yn gadarn,
Hebot ti nid wyf ond gwan. W. W.

HYMN 133. M. N. 7. 6. Romain.

AM Graig yr Iachawdwriaeth,
Fy enaid egwan, cân;
Y sylfaen fawr dragwyddol,
A'r hyfryd gongl-faen;
Fy noddfa rhag ystormydd,
Fy nghysgod rhag y gwres;
Mae 'n ganmil mwy rhagorol
Na chedyrn furiau pres. D. W.

HYMN 134. M. N. 8. 7. 3. Allein's.

Buddioldeb Gair Duw.

DY air sy ddigon i fy arwain,
Trwy 'r anialwch maith y'mlaen;
Mae yn golofn oleu eglur,
Weithiau niwl, ac weithiau tân;
Llusern yw, oleu, wiw,
Oleua 'n deg holl deulu Duw.

HYMN 135. M. H. Savoy.

I DAD y trugareddau i gyd,
Rhown foliant holl drigolion byd:
Llu 'r nef, moliennwch Ef, ar gân,
Y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân.

HYMN 136. M. H. Goshen.

Galwad ar ieuengctyd.

O DEWCH, ieuengctyd, mae 'n llawn bryd,
I mŵes o ddinas distryw 'nghyd;
Mae Iesu 'n galw arnoch, Dewch,
Ac yn ei waed maddeuant cewch.

Dewch o gaethiwed pechod cas,
I ryddid pur efengyl gras;
Holl gyfoeth Crist yn hon a gawn,
A'n gwisgo ar ei ddelw 'n llawn.

Cewch wisgo 'n hardd, cewch wledda 'n rhad,
Ar fanna pur y nefol wlad;
Cewch air ac Ysbryd Crist o hyd,
I'ch arwain trwy yr anial fyd.

HYMN 137. M. H. Ramsgate.

Ieuengctyd.

CYSSEGRWN flaenffrwyth dyddiau 'n hoes,
I garu 'r Hwn fu ar y groes:
Mae mwy o bleser yn ei waith
Na dim a fedd y ddaear faith.

Cael bod yn fore dan yr iau
Sy ganmil gwell na phleser gau;
Mae ffyrdd doethineb oll i gyd
Yn gysur ac yn hedd o hyd.

O na threuliaswn yn ddi goll
O dan iau Crist fy mebyd oll:
Mae 'r Hwn a'm prynodd ar y groes
Yn deilwng o bob awr o'm hoes.

P.

HYMN 138. 10au. Montague.

Cwynfan Sion.

MAE Sion wan yn griddfan tan y groes,
Yn dysgwyl gwawr, ar lawr tan lawer loes:
Bywha dy waith, ni phery 'nhaith yn hir;
'Rwy'n ofni 'r bedd, cyn gwel'd dy wedd, yn wir.

HYMN 139. M. H. Athlone.

Ar dymhor sych.

YMDDAROSTYNGWN tan law Duw,
E ddichon etto 'n cadw 'n fyw;
Er ini haeddu gwg y nef,
Mae aml ymwared gyd âg Ef.

Cyfranwr mawr y gwlith a'r gwlaw,
A phob rhyw fendith ini a ddaw,
O cofia 'n daear, clyw ein llef,
I'w mwydo â chawodydd nef.

Yr ŷm yn beiddio gofyn hyn—
Ein holl gamweddau ymaith tyn:
Bydd foddlawn ini byth er mwyn
Dy unig Fab, a gwrandaw 'n cwyn.

O gwlawia ar y crindir cras,
Iacha ein llesgedd trwy dy ras,
Adfywia ein heneidiau gwyw,
Fel y moliannom di, ein Duw. O.

HYMN 140. M. C. Stratford.

Agoriad addoldŷ newydd.

TEILYNGA edrych, Arglwydd da,
O'th breswyl fry i lawr,
Ar godiad yr adeilad hon,
Yn dŷ i'th enw mawr.

Bid yn wiw genyt yma roi
Dy goffadwriaeth gun;
Ac ar dy bobl, o bryd i bryd,
Dy fendith hael dy hun.

Dy eglwys fo dan driniaeth dda,
Fel gardd yn lân heb chwyn;
Yn helaeth gweler ffrwythau gras,
O fewn y muriau hyn.

Par gynnal felly yma 'n bur
Athrawiaeth fawr y groes;
Y rhyddid i gyhoeddi hon,
Parhaed o oes i oes. O.

HYMN 141. M. N. Llantrisant.

ONA allwn garu 'r Iesu
Yn fwy ffyddlawn, a'i was'naethu ;
Dweyd yn dda mewn gair am dano,
Rhoi fy hun yn gwbl iddo.

HYMN 142. M. N.

Diolch am yr Efengyl.

DIOLCH i ti, yr Holl-alluog Dduw,
Am yr Efengyl sanctaidd.

Pan oeddym ni mewn carchar tywyll du,
Rhoist in' oleuni nefol.
Haleluiah. Amen.

HYMN 143. M. H. Parting.

Wrth ymadael.

YMADAEL, Arglwydd, 'r ŷm yn awr;
O cynnorthwya lwch y llawr,
I dreulio byrion ddyddiau 'n hoes,
I ganu concwest mawr y groes.
Pêr Haleluiah, &c.
Haleluiah, clod i Dduw.

HYMN 144. M. N. 8. 7. Dismission.

Wrth ymadael.

ARGLWYDD, gollwng di y dyrfa,
Dan dy fendith, yn dy hedd;
Gan ymborthi ar y manna
Efengylaidd, dwyfol wledd ;
Llanw 'n henaid â'th ddyddanwch,
Ninnau molwn d' enw glân ;
A phan ddelom i ddedwyddwch,
Tra phereiddiach fydd ein càn.
Dros fyth, Haleluiah, i Dduw ac i'r Oen ;
I gesoedd diderfyn y mâith dragwyddoldeb,
Haleluiah, &c. &c. Amen.

DIWEDD.

EGLURHAD AR Y MESURAU.

M. C.	Mesur Cyffredin,	4 llin.	.. ..	8, 7: 8, 7.	2
M. C.	8, 6.	4 llin.	.. ..	8, 6: 8, 6.	58
M. C. D.	Dyblyg,	8 llin.	8, 6: 8, 6: 8, 6: 8, 6.		90
M. B.	M. Byr Cymreig,	4 llin.	.. ..	6, 7: 8, 7.	14
M. B.	Seisonig,	4 llin.	.. ..	6, 6: 8, 6.	91
M. B. D.	Dyblyg,	8 llin.	6, 6: 8, 6: 6, 6: 8, 6.		95
M. H.	Mesur Hir	4 llin.	.. ..	8, 8: 8, 8.	102
M. H. D.	Dyblyg,	8 llin.	8, 8: 8, 8: 8, 8: 8, 8.		129
M. 50.	Y 50ain Newydd,	6 llin.	10, 10, 10, 10, 10, 10.		34
M. 50.	Yr hen 50 Salm,	6 llin.	10, 10, 10, 10, 11, 11.		362
M. 112.	112	6 llin.	.. 8, 8: 8, 8: 8, 8.		130
M. 113.	113	6 llin.	.. 8, 8, 8: 8, 8, 8.		130
M. 122.	122	6 llin.	.. 6, 6, 8: 6, 6, 8.		134
M. 148.	148	6 llin.	.. 6, 6: 6, 6: 8, 8.		135
M. N.	Mesurau Neilltuol.				
2, 8.	.. ..	6 llin.	.. 2, 8, 8, 8: 8, 8.		148
5, 6.	.. ..	3 llin.	.. .. 5, 5, 11.		154
5, 6, D.	.. Dyblyg,	6 llin.	.. 5, 5, 11: 5, 5, 11.		155
5, 8.	.. ..	6 llin.	.. 5, 5, 8: 5, 5, 8.		156
5, 11.	.. ..	4 llin.	.. .. 5, 5, 5: 11.		372
6, 4.	.. ..	7 llin.	.. 6, 6, 4: 6, 6, 6, 4.		157
6, 4, 6.	.. ..	8 llin.	6, 4: 6, 4: 6, 6: 6, 4.		161
6, 8, 4.	.. ..	8 llin.	6, 6: 8, 4: 6, 6: 8, 4.		164
6, 8, 6.	.. ..	9 llin.	6, 6: 8, 6: 8, 6: 8, 8, 6.		167
6, 4, 8, 7.	.. ..	8 llin.	6, 6: 4, 6: 8, 8: 7, 6.		168
7au.	.. ..	4 llin.	.. .. 7, 7, 7, 7.		170
7au 6 ll.	.. ..	6 llin.	.. 7, 7, 7, 7, 7, 7.		172
7au D.	.. Dyblyg,	8 llin.	7, 7, 7, 7, 7, 7, 7, 7.		175
7, 3.	.. ..	9 llin.	7, 3: 7, 3: 7, 7, 7, 7, 3.		176
7, 4.	.. ..	8 llin.	7, 4: 7, 4: 7, 4: 7, 4.		178
7, 6.	.. ..	8 llin.	7, 6: 7, 6: 7, 6: 7, 6.		184
7, 6, 5.	.. ..	6 llin.	.. 7, 7, 6: 5, 5, 7.		214
7, 6, 7.	.. ..	8 llin.	7, 6: 7. 6: 7, 7, 7, 6.		46
7, 6, 8.	.. ..	8 llin.	7, 6: 7, 6: 7, 8: 7, 6.		215
7, 8.	.. ..	8 llin.	7, 7: 8, 7: 7, 7: 8, 7.		217
8 sill.	.. ..	8 llin.	8, 8: 8, 8: 8, 8: 8, 8.		219
8au.	.. ..	4 llin.	.. .. 8, 8, 8, 8.		226
8, 3.	.. 3 neu	4 llin.	.. .. 8: 3, 3, 6.		230
8, 6.	.. ..	8 llin.	8, 8, 8, 8, 6, 6, 6, 8.		303
8, 6.	(math arall)	8 llin.	8, 8, 8, 6: 8, 8, 8, 6.		235
8, 6, 5.	.. ..	4 llin.	.. .. 8, 6: 5, 5, 6.		232
8, 6, 8.	.. ..	8 llin.	8, 6: 8, 6: 8, 8, 8, 6.		233
8, 7.	.. ..	4 llin.	.. .. 8, 7: 8, 7.		382
8, 7. D.	.. ..	8 llin.	8, 7: 8, 7: 8, 7: 8, 7.		238
8, 7, 3.	.. 7 neu	6 llin.	.. 8, 7: 8, 7: 3, 3, 7.		270
8, 7, 4.	.. ..	6 llin.	.. 8, 7: 8, 7: 4, 7.		278
8, 8, 6.	.. ..	6 llin.	.. 8, 8, 6: 8, 8, 6.		290
9, 8.	.. ..	8 llin.	9, 8. 9, 8: 9, 8: 9, 8.		304
10au.	.. ..	4 llin.	.. 10, 10, 10, 10.		309
11au.	.. ..	4 llin.	.. .. 11, 11, 11, 11		317
11, nen 5, 6.	.. ..	6 llin.	11, 11, 11, 11, 11, 11,		302
12au.	.. ..	6 llin.	12, 12, 12, 12, 12, 12.		319

*** Prifodlau y mesurau a ddynodir uchod wrth y gorwahanai (:) rhwng y rhif-nodau.